Y FFYDD DDI-FFVANT.

ADRODDIAD

O HELYNTY

GREFYDD GRISTIANOGOL

Er dechreuad y byd hyd yr oes hon, a phrofiad oi gwirionedd a'i rhinwedd.

The unfeigned Faith.

Containing a briefe Hiſtory of the Chriſtian Religion from the beginning of the World to this preſent Age, and a proofe of its veritie and efficacie.

Yr ail-printiad gyd ag anghwanegiad.

by Charles Edwards

Printeidig yn Rhydychen gan *Hen: Hall.* ac a werthir gan lyfrwyr Gwrecſam a Llanfyllin: a chan Mr Goſſ yn Ghaer-Fyrddyn, a Mr Vertue yn Abergavenny, ac ymhen y bont ar ogur.

1671.

Cyfarwyddyd ir anllythrennog i ddyſcu darllain Cymraeg.

Y llythrennau { *engl.* a b c d e f g h i l m n o p r ſ t u y.
dyblyg. ch dd ff ng ll ph th w.

A B C Ch D Dd E F Ff G H I L Ll M N Ng O P Ph R S T Th V W Y.

a b c ch d dd e f ff g h i l ll m n ng o p ph r ſ t th u w y.

A B C Ch D Dd E F Ff G H I L Ll M N Ng O P Ph R S T Th V W Y.

a b c ch d dd e f ff g h i l ll m n ng o p ph r ſ t th u w y.

A B C Ch D Dd E F Ff G H I L Ll M N Ng O P Ph R S T Th U W Y:

Cyneſin yn y Saeſonaec yw'r ddwy lythyren yma, ſef X. Z. craffwn arnynt er mwyn darllain y bibl. Ond afraid ſyddai eu benthyccio pedarſerid Cs yn lle'r gyntaf, ac S fain-Sain yn lle'r ail.

Y bogeiliaid, a e i o u w y. Cydſeiniaid y gelwir y lleill en gyd. Un bogail ag un gydſain neu angwaneg, oi hadrodd ar unwaith, a wnant Sylaft, ſalhyn, ab eb ib ob ub wb yb. Ac ec ic oc uc wc yc. Ach ech ich. Ad ed id od ud wd yd. Add edd idd odd udd wdd ydd. Af ef if of uf wf yf. Ag eg ig og ug wg yg. Ah eh ih oh uh wh yh. Am em im om un wn yn.

Ang

Ang eng ing op up wp yp aph eph Ir or us ws ys. At et it oth uth wth yth.
Ba be bi bo bu bw by. Ca ce ci do du dw dy. dda dde fi fo fu ffw ffy. Ga ge hi ho lu lw. my na ne pi po phu rw ry. Sa ſe ti to thu thw thy.

Y geiriau byrraf o un ſylaſt y maent, megis byd, tâd. y geiriau hwyaf a wneir wrth adrodd amryw ſylaſtau ar un anadl, megis dar-llen, edi-ſar-ha. cre-da.

Cyſſylltiad o amryw eiriau mewn ſynwyr yw adroddiad. Yr hyn fel y byddo iti ei ddarllen yn ddeallus, rhaid iti lywodraethu dy leferydd wrth y rheolau hyn. Sef yw hynny, os bydd y nôd hwn (?) yn canlyn ymadrodd, darllen ef ar Sain ymofyn. Os hwn (,) neu hwn (:) gwybydd na orphenwyd mor ymadrodd, eithr hod ychwaneg perthynawl iddo yn ol. Ond pan welech hwn (.) attal dy leferydd, am ddyfod hyny o ddywediad ir pen. a phan welech eiriau wedi cau arnynt ymlaen ag yn ol (fal hyn) ymſang mewn rheſwm ydynt; a chyſſyllta yn dy ddeall, y perthau o'r blaen ac o'r ol, megis na buaſai ddim arall yn taro rhyngthynt. A lleſara y ſylaſt yn hirllaes a fyddo a'r nôd hwn (^) vwch ei ben. A phan ſo bogeiliaid yn diweddu'r naill air, ac yn dechreu'r llall, torrir ymmaith un o honynt, ïochelyd drygſain, a bydd y nôd hwn (*) uwchben ei lle.

Nodau rhifyddiaeth. 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23, 24, 25, 26, 27, 28, 29, 30, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 37,

38,39,40,41,42,43,44,45,46,47,48,49,50,
51,52,53,54,55,56,57,58,59,60,61,62,63,
64,65,66,67,68,69,70,71,72,73,74,75,76,77,
78,79,80,81,82,83,84,85,86,87,88,89,90,
91,92,93,94,95,96,97,98,99,100,101,102,
103,110,111,112,119,120,130,140,150,160.
Arferir yn y bibl y nodau hyn i ddangos rhifedi'r
pennodau. I. II. III. IV. V. VI. VII. VIII. IX.
X. XI. XII. XIII. XIV. XV. XVI. XVII. XVIII.
XIX. XX. XXI. XXII. XXIII. XXX. XXXV.
XXXIX. XL. XLI. L. Dêg a deugain. LX triu-
gain. XC pedwar ugain a deg. C cant, CX cant
a dèg.

Pan gyffyrddech a ffigurau sy'n dangos oed
y byd neu oedran yn Arglwydd, gwybydd os
bydd pedwar o honynt yngh yd, fod y nesaf at dy
law ddehau di yn atwyddoccau unau, ar ail dde-
gau, ar trydydd gant oedd, ar pedwerydd filoedd,
megis yn rhifedi y flwyddyn hon 1671. y nesaf
at dy law ddehau di yw un, a'r nesaf atto yntef
yw saith o ddegau, sef triugain a dèg: a'r nesaf at
hwnw yw chwechant, a'r olaf yw un mil. Wedi
bwrw yn ôl tyred eilwaith ym mlaen, a chei un
mil, a chwechant, ac un arddeg a thriugain.

At y darlleydd.

Grâs, trugaredd, a thangneddyf a liosogo i ti trwy Grist Jesu. wrth ystyried mor santeisiol im gwladwyr a syddai hyspysrwydd o'r pethau a ganlynant yn y traethawd hwn, ac nad adwaenwn i un llyfr iw gysieithu ydoedd yn wahanredol yn amgyffred y cwbl o honynt; ymosodais iw pigo allan o amryw lyfrau. A chymerais gwrs y wenynen i Sugno llawer llysieuyn i wneuthur hyn o ddilyn. Cyd-ddwg ditheu a'r fâth grwybyr ac sydd ynddo.

Cawn weled yma Siamplau pobl Dduw, a'r môdd y carasant ei ewyllis ef, ac y cadwasant ei orchymynnion. fel y bo i ni ganlyn y brîsc a dorrasont hwy drwy lychseydd profedigaethau 'r byd dryc hinog hwn. a cherdded *y llwybr Cûl sydd yn arwain* i orphywystra tragywyddol. Amlhâodd defaid Jacob wrth gysebru o flaen gwiail brithion, a dwyn wyn o'r unlliw a'r hyn a osodid iddynt i edrych arno *yn y Cwtterydd o fewn y casnau dyfroedd, lle y deuent i yfed.* Bydded i ninnau wrth geisio ymddiwallu a gwybodaeth, jawn graffu ar Grist, a'i ferthyron Sanctaidd, y rhai y dirisclwyd pob pechod, a mwyniant bydol oddiam danynt; mal y tebygom ir *gwyn oedd ynddynt*, ac y chwanego gwir Gristianogion tebyg iddynt yn ein plith. Ni a ddeuwn i borseydd gleision, os awn *rhagom ar byd ôl praidd y gwir fu-*

Gen. 30, 37, 38, 39. Can: sol. 1.

Heb.6.12. gail. *Na fyddwn ſuſcrell eithr dilynwyr ir, rhai drwy ffydd ac ammyned, ſy yn etifeddu yr addewidion.* yn enwedig *byddwn ddilynwyr i'n henafiaid. Megis y buont hwythau i Griſt.* dodwn glaim a hawl i fraint a bonedd ein hên deidiau,

1Cor.11.1

Jud 3. ſef purdeb ffydd eſangylaidd, a grym duwioldeb. er mwyn hynny fy 'ngwladwyr anwyl, *y rhoddais* byn o *ddiwyddwydd ar Scrifennu attoch am yr jechydwriaeth gyffredinol, gan eich annog i ymdrech ym mhlaid y ffydd, yr hon a rodded unwaith i'r Sainct,* ie ym mhlith y Britanniaid. yr oedd Paul yn hoffi Timotheus yn hytrach wrth

2 Tim.1,5 alw *in gôf y ffydd ddi-ffuant ydoedd ynddo ef, yr hon a drigodd yn gyntaf yn ei nain Lois, ac yn ei fam Eunice.* eled y cymro yn hôff gan Dduw yn yr unrhyw ſodd. Ac ſel y dylem ddilyn rhinweddau yr ychydig o rai da ym myſc ein henafiaid, ſelly heſyd gochelyd pechodau y llawerodd o honynt ydoedd ddrwg, a ddug arnynt ddialedd dwys, ac a wnaethont *na bu Duw ſodion ir rhan fwyaf o honynt: Canys crwmpwyd hwynt yn*

4 nhir eu ganedigaeth. A'r *pethau hyn a wnaed yn Siamplau i ni, ſel na chwennychem ddrygioni megis ac y chwennychaſant hwy.* Ac *na odinebwn, fel y godinebodd rhai o honynt hwy,* ac y ſyrthiodd miloedd o honynt. Ac *na themtiwn Griſt, megis*

1 Cor.10. 5,6,8,9, 11. *ac y temtiodd rhai o honynt hwy,* ac *a'i deſtrywiwyd. A'r pethau hyn oll a ddigwyddaſant yn ſiampl iddynt hwy,* ac *a ſcrifenwyd yn rhybydd i ninnau, ar y rhai y daeth terfynau yr oeſoedd. Na fyddwch*

Zech.1,4, 6. *fel eich tadau, y rhai y galwodd y prophwydi arnynt, gan ddywedyd, dychwelwch oddiwrth eich*

ffyrdd

ffyrdd drwg, ond ni chlywent, ac ni wrandawent, nes i swgythion Duw eu goddiwes hwynt. Darllen yn astud, a chydnabyddi nad yw ffydd beth newydd, eithr hên; na pheth dychymygol, eithr Sylweddol; *a Siccrwydd y pethan nid ydis yn eu gweled.* y rhai sydd ystyriol ar eiriau, a gweithredoedd Duw, ac yn byw yn rasol, a dderbyniant gyflawn hyder yn ei ffyrdd es. arfer Sanctaidd *ddiwydrwydd er mwyn llawn Siccrwydd gobaith hyd y diwedd.* Iw blant usudd, ac nid iw elynion anghymmodol y mae'r Duw doeth yn adrodd ei gyfrinach. Amcanaswn yscrifenn yn helaethach ynghylch y trydydd pwngc, i ddatcan pa Sancteiddiad a weithia 'r esengyl yn y Cywyr Gristion. Ac o gwèl Duw yn dda roddi i mi einioes, a gallu, gwnaf hynny amser arall. y mae i mi achos arbennig i glodfori enw yr Hollalluoc am ddwyn sy ngorchwyl i hyn o hyd. Ac yw alw *Eben. Ezer, a dywedyd, hyd ymma y Cynnorthwyodd yr Arglwydd* fi. Adolwg na ddigio neb wrth hyn o lyfran, eithr ei dderbyn a'r un ewyllis ac yr wyf inneu yn ei ddanfon. Na friwa'r llaw a estynno it arwydd o garedigrwydd, er gwaeled fyddo. Nid yw ddiarwybod i mi, fod eraill yn y wlâd a fedrasent wneuthur hyn yn well. ond ni rediff y sûg o'r aeron (er pereiddied a chyflawned fyddont) nes eu dryllio a'u gwascu. os dig. wydd it cyfryw, *a nhwy yn gwybod ofn yr Arglwydd*, ymo fod *i berswadio dynion*, y mae iddynt er hyn ddigon o waith, a lle yw wneuthur. yr oedd yn ô anhydyn genifinneu fyned drwy'r daith hon, i geisio it hyn o *hanes* am beth gwerth.

Heb. 11. 1.

Pen. 6. 11.

1 Sam. 7. 12.

fawr

fawr a fu ar y goll, ac i hel ynghyd hyn o dyſtion
2u. yn achos Duw, nes iw wialen ef ſy 'ngyrru. ac
iw ragluniaeth ef *oſod anghenrhaid arnaſi.* Ac i *gariad Criſt ſy'nghymell.* ô cofiwn yr hwn
2Cor. 5, 11, 14, 15. *a fu farw tros bawb, fel na byddei i'r rhai byw fyw mwyach iddynt eu hunain, ond i'r hwn a fu farw troſtynt, ac a gyfodwyd.* Bu ſodlon gan Baganiaid
wasnaethu eu pobl drwy ddirfawr boen, a chaledi. ac os bu i'r Cyfryw waedu dros eu gwlâd, nid
yw ond peth bychan i Griſtianogion yſcrifenu
er ei mwyn. Y Cymro caredig o chei leſhâd wrth
wedi ddarllain, â'th wedi Cynnorthwya

Rhydychen, dy gyd-wladwr
Rhagfyr 31. anwiw.
1670.

CHARLES EDWARDES.

Hanes y Ffydd er dechreuad y byd hyd yr oes hon.

DYledus ini chwilio allan helynt y Ffydd ymhob oes ac ymhob gwlâd. *Deut.* 4. 32, 33. *Ymofyn yn awr am y dyddiau gynt a fu o'th flaen di, o'r dydd y creawdd Duw ddyn ar y ddaiar, ac o'r naill gwrr i'r nefoedd hyd y cwrr arallîr nefoedd, a glybu Pobl lais Duw?* *Job* 8. 8, 9, 10. *Gofyn i'r oes gynt, ac ymbaratôa i chwilio eu henafiaid hwynt (canys er doe'r ydym ni ac ni wyddom ddim) oni ddyſcant hwy di?* *Jer.* 2. 10. *Ewch tros ynyſoedd Chittim, a danfonwch i Cedar, ac ſtyriwch yn ddiwyd.* Ac ſal y gallem wybod pa fodd y gwaſnaethodd pobl Dduw gynt, treſnwyd iddynt fynegi bynny drwy air a ſcriſen ir cenedlaethau oedd i ddyfod. *Pſal.* 78. 2. 3— *Traethaf ddamhegion o'r cynfyd, gan fynegi i'r oes a ddêl foliant yr Arglwydd, fel y goſodent eu gobaith ar Dduw heb anghofio ei weithredoedd ef.* er mwyn hyn y Scrifenwyd y Scrythurau. ie ac yr oedd yr hên Baganiaid yn Scrifenu hiſtoriau cŷwyr o'r pethau y ddygwyddent yn eu plith. ac oni bae hynny collaſeu miloedd o bobl Dduw eu bywyd yn amſer *Eſter pen* 6. 1, 2.

darllenwyd yn llyfr coffadwriaethau haneſſion yr amſeroedd, ſel yr achubaſei *Mordecai* ſywyd y brenin *Ahaſferus*, yr oedd *yſpyſrwydd o fawredd* Mordecai *yn Scrifenedig yn llyfr Cronicl Brenhinoedd* Media *a* Pherſia. *Eſth.* 10. 2. Ac ſel y deallem hiſtori yn well, rheidiol ini yſtyried
Deut. 4. 32. Argraph y ddaearyn ol y gorchymyn, i chwilio pob Cwrr o'r byd. Gwledydd Cydnabyddus y byd y ddoſperthir yn bedwaro rannau, y rhai elwir *Aſia*, *Affrica*, *Europa*, *America*.

Yn *Aſia* y creuwyd adda ac Eſa: y ganwyd Criſt, ac y pregethodd ef. Ynddi y mae llawer o daleithiau. Megis *Anatolia*, elwid gynt *Aſia leiaf* lle bu'r Saith eglwys y Scrifenodd Criſt attynt wedi ei dderchafiad drwy law Joan. *Datcudd. 2. ar. 3. pen.* yn awr y *Turciaid* Sy'n ei llenwi. A *Cilicia*, dinas *Paul* ſef *Tarſus*, oeddyma. A *Bythinia*, *Pontus*, *Galatia* lle'r oedd Eglwys Griſtnogol yn amſer *Paul*. *Cappadocia*, *Armenia* lle mae mynyddoedd *Ararat* y gorphwyſodd Arch Noah arnynt *Gen.* 9. *Lycaonia* lle mae *Derbe*, a *Lyſtra* anwadal y ſynaſei addoli 'r apoſtolion, ac we di hynny gadawodd eu herlid hwy. *Act.* 14. *Syria*, lle mae *Tyrus*, a *Sidon*, a *Joppa* lle Cododd Petr *Dorcas* o farw i fyw. *Act.* 9. *a Damaſcus*, *ac Antiochia*, y alwodd y diſcyblion gyntaf yn Griſtogion *Act.* 11. 26. *Paleſtina*, lle mae 'r môr marw yn yr hwn nis gall dim fyw gan ei Sawr pyglyd ef. Ynghylch y llyn Sawrllyd hwn y tyfiſt pren ac afalau arno, tèg yr olwg, ond Pan gwſſyrdder a hwynt

ynt ânt yn vlw, yn y fan y mae'r llyn hwn y bu *Sodom, a Gomorrah*, a dinaſoedd eraill, nes yw pechodau dynnu arnynt ddialedd tanllydd. yma nid Llyn Llynclys onid Llyncddinas. Rhannau *Paleſtina* yw.

1. *Galilea* gogledd Iſrael ynddi yr oedd *Caparnaum a Nazereth* Preſwylfa Criſt.

2. *Samaria*, rhwng *Galilea a Judea*: ynddi yr oedd *Cæſarea* lle'r yſſwyd *Herod* gan lau. wedi caethgludo'r dêg llwyth, Aſſyriaid Cenhedlig y breſſwyliodd yma, y rhai oeddent yn Cymuſgu creſydd yr Juddewon ac eulynaddolieth y Cenhedloedd. *Acts* 12.

3. *Judea* yma y mae *Hebron*, *a Mamre*, *a Bethlehem*, tref ganedigaeth Criſt, a *Jeruſalem* Enwog lle y croeſhoelwyd ef. Nid yw'r wlâd hon ond wyth ugain milltir o hyd, a thrigain o lêd, etto rhyfeddol oedd lliaws ei thrigolion, a ffrwythlondeb ei thir, gan ddwyn Cynyrch ar ei ganfed, tra yr oedd eglwys Dduw yn preſwylio ynddi. Ond yn awr nid yw mor ffrwythlon er Pan wrthododd hi yr efengyl ac y daeth dan law'r Twrc. Cyffinia ar y ddwyrain ran o'r môr Canoldir, ac ynghylch Canol y byd ydyw. Yma y Cododd ffynon dwfr y bywyd ſefyr efengil, ac y ffrydiodd i bob ffordd dros y byd. Yn *Arabia*, Cymydogaeth *Paleſtina*, y rhoddes Duw y gyfraith hefyd i Iſrael, a bara o'r nef. ynteu cyfleus y gofodes ei bulpyd, fel y clywen'r bobloedd oddiamgylch am ddaioni a doethineb Duw! Yn y gwledydd y henwyd

y mae Crefydd *Mahomet*, a'r *Juddewaidd*, a'r *Criſtnogaidd* yn ol arfer y Groegiaid, gan gymuno plant, ar ol eu bedyddio uwch ben tân, (fel y tybiant) mewn ufuddod ir gair, Sy'n dywedyd y bedyddia Criſt a'r yſpryd, ac a thân.

Math. 3. 11. ymattaliant hefyd oddiwth fwydydd aflan dan yr hên deſtament. Pan ymlygrodd Criſtnogaeth yn y dwryrain ymgymyſgodd gan mwyaf a'r grefydd Juddewaid, ond yn y Gorllewin ar un Baganaidd Ladingaidd hefyd. Yn *Aſia* hefyd y mae *Aſſyria*, lle'r oedd *Niniveh*, ac y caethiwyd ydêg llwyth. A *Meſopotamia* (ſef *Padan Aram*,) yn y wlâd hôn yr oedd Paradwys. A *Babilon* lle cymyſcwyd yr ieithoedd, ac y teyrnaſodd *Nebuchadonozor*. A *Pherſia* ai harglwyddiaethau, y gyrhaeddir or môr mawr ar y dehau, hyd y môr Caſpiaidd ar y gogledd. A *Tartaria*, y elwid gynt gwlad *Magog* mab *Japhet*, wedi hynny *Scythia*, ymerodraeth fawr wedi pum mil o filltyroedd o hyd, a thair mil o lêd yma y teyrnaſodd *Tamerlane* fflangell y Twrciaid, dyma fam pob dilyw o bobl, ac aliwns, gogledd *Aſia* yw. Crefydd *Mahomet* Sydd yn y teirnaſoedd Mawrion hyn gân mwyaf: Cydnabyddant anfarwoldeb yr enaid. Mae rhai Criſtnogion gô gyfeiliornus yn eu plith, ac Juddewon hefyd. Ac *India* eheng, gyfoethog o aur Ophir, a thra hyfryd ei choedydd ai maeſydd. eulynaddoliaeth ſydd ynddi, oddieithr lle mae'r Europeaid wedi adeiladu dinaſoedd a cheſtyll hyd lan ei môr tua'r dwyrain. A *China*, teirnas fawr, ynddi

y

y mae dinas *Cwinsay* o daith deuddydd o hyd. dywed ei thrigolion fod gandynt gelfyddyd Preintio, a gwneuthur gynnau o flaen Europa, am hynny fod ganddynt hwy ddau lygad, a chan yr Europeaid un, a bod eraill heb yr un. maent yn addoli delw ac iddi dri a bennau; mae ganddynt hefyd lûn gwraig lân a dynbychan ar ei braich, yr hwn y aned iddi a hitheu yn forwyn: Cydnabyddant fod yr enaid yn anfarwol. ffrwd yr efengil a adawodd hyn o rwd oi hol, yn y gwledydd hynny: y mae ynyfoedd enwog yn *Asia* megis *Japan a Javan*, a'r *Molucciaid*; ac amryw o honynt dan lywodraeth yr Hispaenwyr, a Phabyddieth yn gwreiddio ynddynt. Yr ail rhan or by d yw *Affrica*, a henwir felly, am ei bod heb oerni; ynddi y mae *Barbaria* lle mae *Tunis*. yr oedd llawer o eglwysydd ac yscaldai têg yma gynt, ac *Awstin* yn Athro nodedig, a'r efengil yn llwyddianus. crefydd *Mahomet* sy'n awr amlaf yna, a'r *Twrciaid* yn Caethiwo'r Cristnogion. Yr ûn modd yw helynt *Algiers*, a *Morocco*, *Numidia*, *Lybia*, poethgras yw eu tir, am fod yr haul yn vnion uwch eu Penau. *Ethiopia* sydd yma, y gyfenwir felly am fod ei thrigolion yn dduon. megis wedi llosci eu whynebau. Dûg yr eunuch Gristnogaeth ir wlâd hon, a glynanr ynddi etto, yn enwedig yn emerodraeth yr *Abissiniaid*, neu *Joan yr henuriad*: dywedir fod Llyfrdy yn un o balasau yr emeroder hwn, a bod ynddo brophwydolieth

Ἀφρικὴ.

Αἰθὼ ὄψ.

Acts 8.

Enoch, a Llyfrau eraill nid ydynt gennym ni. Mae 'r Criſtnogion hyn yn eu hail bedyddio eu hunain ar yr yſtwyll bob blwyddyn: ni Phoe. rant ar ol Cymuno, nes machludo 'r haul. Enwaedant eu plant cyn eu bedyddio. Y Mae yn y gwledydd hyn ddau auaf bob blwyddyn. Cans y mae'r haul wrth ſumud o gylch y dehau attom ni i gylch y gogledd, ac yn ol Eilwaith, yn neſſâu attynt, ac yn Gilio oddiwrthynt ddwywaith bob blwyddyn, ond y mae eu gaiaf hwynt agos mor wreſog ar hâf gyda ni. cydnabyddant *Batriarch Alecſandria*, Sydd ddinas Enwog o'r *Aipht*; lle gwnaeth *Ptolomeus Philodelphus* Llyfrdy mawr ar ol ir *Aiphtiaid* ddychymyg wneuthur papyr a hèſc Llydain. yn yr Aipht y mae *Cair* dinas o wyth milltir ar ugain o hyd. nid oes dim glaw yno. Ond yr Afon Nilus ſydd ar dymhoran yn lliſo dros y wlâd yw gwrteithio. nid yw Cyrph y trigolion yn bwrw cyſcod yr hâf, gan ſod yr haul yn union uwch eu penau. Maent rai yn Griſtnogol o'r un ffurf a'r *Abiſſiniaid*, ond dan awdurdod y *Twrciaid*.

Zeeh. 14. 38. lw

Y drydydd ran o'r byd yw *Europa*, ac yn awr yr odidoccaf o'r cyfan: gan ei bod, yn boblog, yn ddyſgedig, yn Griſtnogol, yn gelfyddgar. ynddi y mae *Prydain* a'i hynyſoedd Perthynaſol, ſef *Orcades*, *Hebrides*, *Manaw*, *môn*, *Iwerddon*. trôdd y Gwyddyl yn Griſtnogol yn y flwyddyn o oedran Criſt 335. Ar *Hiſpaen* yn gryf gyda Phabyddieth. A *Ffrainc* lle cynt wyſir

wyſir creſydd y Proteſtaniaid. Preſwylia rhai o'n cenedl ni mewn talaith o honi ſef *Llydaw*. ar yſtlys Ffrainc y mae arglwyddieth tywyſog *Saſoy*, yr hwn a Sglyfiodd y Proteſtaniaid duwiol fel blaidd. A *Geneſa* Mamaeth dda ir bŷr creſydd, A *Bataſia* Elwir *Holland* a'r gwledydd cryſſylltedig y broffeſſant creſydd y Proteſtaniaid yn unig. Yn *Europa* heſyd y mae *Germania*, neu wlad yr Ellmin, lle Cynyddodd y wir creſydd yn ddirfawr er amſer *Luther*. Rhan o honi yw *Helſetia* ac o'r un creſydd, er amſer *Zuinglius*, ac *Hungaria* y gynwys creſydd *Mahomet* a phabyddieth. Ar *Ital enwog*, lle mae *Rhufain*, gwladwriaeth *Genoa a Fenice* gadarn. Bu r' wlâd hon yn glodfawr am creſydd ac arglwyddieth gynt, ond wedi ymlgru, ymwanhychodd. Tua'r gogledd mae *Polonia* teyrnas gref, ynddi mae creſydd y Groegiaid, â'r Proteſtaniaid. A *Denmarc, a Sweden*, or unrhyw creſydd, dywedir ſod yma bobl alarant yn oer ar amſerau, gan leſain *Jeru, Jeru, Moſco lon*. tybir mae hepil yr Juddewon ydynt yn galaru am Jeruſalem a Damaſcus drwy orchymyn treſtadol. Yny gwledydd hyn nid oes agos ddim dydd dros y trimis gauaf mewn mannau, ac onid ychydig nôs amſer hâf. A *Muſcofia*, teyrnas helaeth o dair mil o filltyroedd o hyd, y dderbyniodd y creſydd Griſtnogol gan y Groegiaid yn y ſlwyddyn o oed Criſt. 942. Er nad unâ ag eglwys Rufain canys yn ei iaith ei hun yr addola Ddnw, etto mae'n ô goelgreſyddol.

Y nês at yr haul y mae *Dacia*, ynddi y Cynhwysir *Transilfania*, *Moldafia*, *Walachia*, *Bulgaria*, *Bofnia*, talcithiau dan awdurdod y Twrc, ond mae rhai Proteſtaniaid yn eu myſc: A *Sclafonia neu Illiricum* lle mae *Croatia*, *a Dalmatia*, Pregethodd Paul o Jeruſalem hyd yma, ac yn awr daliant y ffydd yr un ſut a'r Groegiaid. A *Groeg*, ei rhannau yw *Corinthus*, *Theſſalia*, *Macedonia*, *Achaia*, *Thracia*, lle mae *Conſtantinopl*, y adeiladodd Conſtantinus ein gwladwr ni ar yſtlys y môr Canoldir, ac yn awr prif ddinas y Twrciaid. Planodd yr apoſtl Paul eglwyſydd Criſtnogol yn y gwledydd hyn, a Scrifenodd amryw oi Epiſtolau attynt, ond er diwedd dûg dialedd Duw y Twrciaid arnynt, etto am dreth maent yn cael rhydd-did i broffeſſu 'r grefydd Griſtnogol, a gwrthododant lygredigaeth y Ladingiaid. Mae gan y Criſtnogion ſydd dan y Twrc bedwar patriarch parchedig (ſef megis archeſcobion) i lywodraethu'r Eglwyſydd, Un yn Conſtantinopl, un yn Alecſandria, un yn Jeruſalem, ac un yn Antiochia, heb law gweinidogion Cyffredin. America y henwir yn bedwerydd ran o'r byd, ond tybir ei bod yn gymaint ar tair erail!, y tu arall ir ddaiar y mae. Canys ſel pellen gron yw'r byd; pan ſachludo'r haul arnom ni, tywyna ar America. bydd nôs yma, tra fo hi dydd yno. Amſy gwyd y wlâd hon ir Europeaid ynghylch yr un amſer ac yr adferwyd dyſceidieth a chrefydd, Oedran Criſt 1492 Criſtopher Columbus

bus wrth ddirnad fod yr haul yn tywynnu y tû arall ir ddaiar cyhyd ar tû yma, a wybu fod yno wledydd, am hynny wedi cael dwy long gan frenin *Hiſpaen*, anturiodd hwylio hyd y môr mawr, oni ddaeth at ynys y alwodd ef *Hiſpaniola*. Nid oes ond cainc o fôr od oes ddim, rhwng *America* a *Thartaria* gogledd *Aſia*. Oddiyno y tybir fyned pobl yw phreſwylio hi gynt. Rhannau *America* yw *Mecſicana*, lle mae *Florida*, er bod y gwledydd hyn cyn agoſed at yr haul, ac yw duon *Affrica*, etto gwynion yw eu trigolion. Yr hyn y beriff i R. Ben Iſrael dybied mae hepil y dêg Llwyth aethant o *Aſſyria* drwy *Tartaria* i gyfanneddu yno. Eulynaddolgar ydynt, ond cydnabyddant anfarwolder yr enaid. Attebaſant *Ferdinando Soto* oedd yn ceiſio eu dyſcu, nad oedd ei grefydd ef o Dduw, am fod ei dilynwyr mor waedlyd. Rhan arall yw *Mecſico*, nid adwaenir moi therfyn tua'r gogledd, gelwir hi yn awr *Hiſpaen newydd*. canys Hiſpaeniaid y ddugaſant fyddinoedd ac a laddaſant chwe miliwn oi thrigolion ganedigol (y rhai oeddent noethion ac heb reolaeth) a chymeraſant eu lle hwynt. Yn ninas *Mecſico* y mae eiſteddle Rhaglaw brenin Hiſpaen, ac Archeſcob, ac yſcaldai. A *Yucutan*, lle lladwyd peth echryſlon o'r trigolion gan yr Hiſpaeniaid. Yr oedd yn y wlâd hon demlau têg cyn dyfod yr Hiſpaeniaid yno. Arferent hefyd enwaediad, ac addolent groes, yr hon adawſei gwr glân yno gynt er Coffadwrieth,

wrieth, meddent: A *Nicaracwa* lle mae mynydd yn bwrw tân allan o honaw. Mae 'r cyfryw beth mewn mannau eraill o America a'r hênfyd hefyd, megis *Ætna*, a *Fesufius*, ond ni ddywedir fod Simnai cyn ddyfned ir un, ac ir mynydd hwn, gan fod y twll, o ba un y mae 'r tân yn dyfod allan, wedi deuddeg ugainllâth o ddyfnder. Yn *Cwifira* y mae *Prydâin Newydd* a ymroddodd i Sr *Francis Drâce*: yn *America* y mae *Firginia*, *a Lloegr Newydd*, ac yndynt drefydd a rheolaeth hyfryd, a'r efengil yn llwyddianus ymyfc y Saefon, a rhai o'r trigolion ganedigol hefyd. *Affrainc Newydd. Deheudir America* yw *Peruana*, lle mae taleithiau eheng oddiyno i fôr y dehau; a rhai pobl dduon, a llawer o aur, a pherlau, dan awdurdod yr *Hifpaeniaid* y maent gan uwyaf, a gwnaeth daeargrynfâu niwed mawr yn y gwledydd hynn er pan ddaethant yno. Mae Saefon yn prefwylio yn amryw o ynyfoedd *America* fef *Barbadoes*, *Bermudas*, *Jamaica*. crefydd naturiol yr Indiaid hyn yw cydnabod fod Duw, a derchafant eu llygaid tua'r nef, aberthant, ac Arogldarthant, Gwnaeth gwyr *Mecfico* ddelw o baſteu, ac wedi ei dwyn megis mewn profeſſiwn, rhannafant y cryſtyn rhwng y bobl, gan ddywedyd eu bod yn bwytta cnawd eu Duw, a hynny mewn modd parchedig. Yr oedd gan wyr Peru dri delw i Dduw'r taranau, y rhai y alwent y tâd a'r mâb ar brawd. Cyffeſſei 'r Twyſog ei bechodau ir haul, ac yna neidieu i ddwfr rhedegog gan ddy-

muno

muno ar yr afon ddwyn ei bechodau ef ir môr y w boddi. Yngwlad *Peru* mae hi yn auaf, amſer hâf yn ein gwledydd ni, ymyſc y Barbariaid Truain hyn y gwnaeth yr Hiſpaniaid *Aceldama*, ac y rhoddasant y groes i ſefyll mewn *Golgotha* fwy na'r hon yn *Ieruſalem*, a'r cwbl i ynnill aur, nid eneidiau, ac i droi 'r bobl yn gaethweiſion y w geibio ef.

Y mae gwlad y welwyd ei chyrrau gan forwyr, y elwir *Magelanica*, neu tir y dehau anghydnabyddus, tybir ei bod yn gymaint ar cwbl y ddoſparthwyd y tu hwnw ir ddaear. Tebygol ei bod yn fawr iawn, gan fod yr haul yn troi yn ei chylch hi yn amſer gauaf gyda ni: ac nad oes ond ychydig o'r byd ſydd euſus gydnabyddus y tu hwnw ir haul.

Bellach i ddyfod at yr amſeroedd. Cyn ſeilio'r byd yr oedd yr Arglwydd Bendigedig yn rhagordeinio gwneuthur ei etholedigion yn wynſydedig drwy Griſt. megis y mae gwyr goludog, yn dymuno cael plant i etiſeddu eu meddiannau, felly yr ewyllyſiodd Duw greu dynion ac angylion i gyfranu ei fawr ddaioni iddynt, ac i gymeryd gwaſanaeth yſprydol oddiwrthynt; *ac Cyfryw y mae 'r Tâd yn eu ceiſio iw addoli ef.* Am hynny gwnaeth ef Adda ac Eſa mewn cyflwr hyfryd pûr, gorph ac enaid. Nid oedd raid iddynt wrth ddillad, canys nid oedd un golwg gwradwyddus arnynt, cyn pechu. Yr oedd yr holl greaduriaid yn ufudd i Adda, ac yn ſwynaidd wrth eu gilidd, daeth y bleiddiaid

Epheſ. 1. 4.

Joan. 4. 23.

bleiddiaid a'r defaid atto ef yn gyttûn i gymeryd henwau. wedi pechu o Adda ac Efa, ni adawodd Duw hwynt un dirwnod heb hanes
Gen. 3. 15. achubwr i ddirymu pechod a Satan. Gwelwn ynteu bregethu'r Efengil er y dydd Cyntaf y bu dyn ar y ddaiar. A lladdwyd Crift drwy fwriad ac addewid Duw er dechreuad
Datc. 13. 8. y byd. Cymododd Adda ac Efa a Duw drwy'r cyfamod grafol hwn cyn y dydd Sab. both, fel na phallei addoliad. Hiroes Adda fydd yn dangos iddo fyw mewn ufudd-dod i Dduw, canys ni ddarllenir ir un o'r annuwiol fyw cyhyd ar Patriarchau Sanctaidd. Cy-
Gen. 5. 1. frifir ef yn yr un llech-res a rhai credadwy. a dyfcodd ei blant, Cain ac Abel i addoli, ac aberthu: yr oedd yr aberthau y pryd hyn yn orchmynedig drwy air, wedi hynny drwy. fcrifen yn amfer Mofes. Ac yn arwyddoccâu yr haeddei'r aberthwr ei lâdd a'i lofci, ac yr aberthid Crift. Dûg Abel y pethau goreu y feddeu yn aberth ir Arglwydd yn ewyllyfcar, a chyffelybys ddyfod tân o'r
Lev. 9. 24. nef i gyrchu ei roddion ef i fynu. ac nid rhai Cain. fel yr anfonodd Duw dân i aberth Elias, ac y gwrthododd ebyrth y gau Brophwy-
1 Bren. 18. di. typ oedd hyn o'r gwrefogrwydd y rydd
25.— Duw yn ei wir addolwyr i dderchafu gweddiau yfprydol tua'r nef, ac mae trwy'r yfpryd nefol yr offrymmeu Crift ei hun. Y mae cenfigen Cain yn ei yrru ef i lâdd ei unig frawd Abel dduwiol, am ei fod yn rhyngu bodd Duw yn well

well nag ef ei hun. Yr oed erlidwyr Cyntaf megis y rhai diweddaraf yn addoli y gwir Dduw oddiallan. Wedi hynn yr oedd Ismael o'r un broffes ag Isaac, etto yn ei watwar ef. Ac Esau o'r un tâd a Jacob, etto yn ei gassâu ef: Escymunodd Duw Gain a'r rywiog allan oi addoliad, dyma ddechreuad rheolaeth eglwysig. Ar ol hyn rhoddes Duw fab duwiol arall i Adda sef Seth, yr hwn y genhedlodd Enos rasol, ac felly dechreuodd gwir addolwyr Duw amlhâu, au galw eu hunain yn bobl yr arglwydd, a hâd Cain felltigedig yn feibion dynion: a bu i rai duwiol fyw wedi wyth, wedi nawcant o flynyddoedd i glodfori Duw ynghyd. Os rhyfeddi, fod einioes y tadau cyn y dilyw cyhyd, ystyria eu bod yn llestri newydd ddyfod o law'r gwneuthurwr Perffaith. A bod eu hymborth yn iachus, sef dail a ffrwythau, o'r hyn yn awr y gwneir physygwrieth, ac yr oedd y ddaiar yn jevanc. A bendith doethineb yw hiroes, hefyd yr oedd eu hir gymdeithas hwynt ynghyd sel Cymanfa ffyddlon o henurieid daionus yn cadw purdeb gwirionedd ydoedd y pryd hynny heb ei scrifennu: ac yn fuddiol er amlhâu trigolion ir byd, a gweision i Dduw.

Gen. 4. 14.

Gen. 4. 26.

Dihar. 3. 16.

Pan oedd y byd yn un cant ar bumtheg oed, ac i feibion Duw ymlygru gyda merched dynion, anfonodd Duw ddilyw i foddi'r byd, gan achub Noah berffaith, yr hwn y tu chwe-chant o flynyddoedd gyda rhai y

welsent

welſent Adda: ac a oſnodd pan rybuddwyd ef am ddeſtryw 'r byd, gan ddarparu llong ar dir ſych, er bod pobl diameu yn ei watwar ef. Noah ai feibion adferodd y byd. Yn heppil ei fab ef Sem yr arhoſodd y wir ffydd.

Byrrhawyd einioes dynion y naill hanner ar ol y diluw, a hanner arall ar ol cymyſcu'r
Gen. 11. *jeithoedd* yn Babel. Bu Sem ai feibion duwiol fyw hyd amſer Abraham ac Iſaac, ynghylch pumcant o flynyddoedd ar ol y diluw. Ni bu Abraham fyw mor naw ugain mlynedd. Wrth rannu'r *jeithoedd* torrodd yr arglwydd gymundeb rhwng yr eulunaddolwyr a'u gilidd, a gwaſcarwyd hwynt hyd y byd. *Melchiſedec* (yr hyn oi gyfieithu yw ybrenin Cyfiawn) y ſendithiodd Abraham oedd *Sem* fel y tybia r'
Gen. 14. 18. dyſcedig. y Peth ſydd ſcriſenedig. a guttuna ag ef. Yr oedd heb rieni na cheraint yn amſer
Hebr. 7. 1. Abraham, *Heb ddechreu dyddiau* yn y byd newydd, *na diwedd oes* yn yr hên, yr oedd y rhai byrroes y pryd hynny yn tybied na byddei ef marw byth, wrth ei weled ef yn byw cyhyd. Hawdd oedd iddo ef fod yn frenin, canys tâd yr holl rai duwiol oedd ef. A dyledus oedd i Abraham gymeryd ei fendith ef, canys offeiriad Duw oedd ef, ai hên-hendaid ynteu befyd.
Joan. 8. 56. Gwelodd Abraham ddyfodiad Criſt yn y Gnawd a llawenychod. Darllen lyfr Geneſis, a rhyfeddi mor ufudd i orchymyn Duw, ac mor hyderus ar addewidion Duw oedd *Abraham, Iſaac, a Jacob, a Joſeph*, yr hwn lyfr y gynwys hiſtori

hiſtori 2369 flyn. Sef o ddechreuad y byd hyd gaethder *Iſrael* yn yr Aipht.

I *Abraham* y gorchmynodd Duw yr Enwaediad gyntaf, ſef blingo ymaeth blaengroen y rhan ddirgel ir plentyn gwryw. Yr hyn oedd yn arwyddoccâu y Sancteiddiid hâd *Abraham*. Sef y genid Criſt oi lwynau ef, yr hwn adywalltei ei waed dros ei bobl, ac y dylid torri ymaeth llygredigaeth trachwant. yn yr oes hon (tebygol) y bu *Iob* yn enwog mewn Crefydd yngwlad Uz. ir amſer hwn y perthyn hyd ei einioes ef. Canys bu fyw Saith vgain mlynedd ar ol ei brofi, ac o'r blaen yr oedd ganddo feibion a merched. Ac wyr *Abraham o Ceturah* oedd ei gyfaill ef *Bildad mab Suah*. *Darſu* ir pendefigion y ragddywedpwyd ymddwyn yn raſol mewn profedigaeth a goruchafieth. Ac wedi hyn nid allodd toſter yr Aiphtiaid ddiffodd Crefydd yr Iſraeliaid. Cofiaſant lw *Joſeph* am ſymmud ei eſcyrn ef gyd a hwynt wrth ymadel ar Aipht, diammeu nad anghofiaſant moi ffydd ef. o'r amſer y gwnaeth Dnw yr Cyfamod ag Abraham hyd ddyfodiad *Iſrael* o'r Aipht y bu 430. flyn. ynghylch oed y byd 2500. Gwell oedd gan *Moſes* fod yn fab i Dduw nag yn wyr i Pharao. dewiſodd adfyd gyda phobl Dduw. o flaen hawddfyd gyda phechod. A hynny wedi iddo fyned yn fawr, pan oedd ynghanol ei oed ai gôſ: gwell ynteu yw Cyffur yſprydol na digrifwch daiarol. Yn awr ordeinwyd yr Oen paſc er coffadwrieth

Deut. 10. 16.

Gen. 25. 2.

Exod. 13. 19.

Exod. 12. 41.

Hebr. 11. 27.

dwrieth i Iſrael oi gwarediad o'r Aipht, ac er
1 Cor. 5.7. yſpyſrwydd o Griſt i ddyſod: am hynny gelwir
Joan. 1. 29. ef yn oen i dynnu ymaeth bechodau. drwy
Ffydd yr aeth y bobl drwy r'môr, lle bedydd-
1 Cor. 10. wyd hwynt, a phlant yneu plith. a chan ſod pobl
2. Dduw wedi amlhâu yn fwy na chwechanmil,
ac wedi eu didoli ir anialwch oddiwrth eulyna-
ddolwyr, a byrrhâu einioes dyn, yſcrifennodd
Duw ei gyfraeth iddynt ar gerrig a'i ſyſei hun,
wedi iddo a lleſerydd eglur ei hadrodd wrth
Exod. 20. y bobl o'r mynydd tanllyd. Pan oedd yn rhod-
di teyrnas yw bobl, rheidiol oedd iddo roddi
cyfraith gyda hi, ie parodd iddynt gyfodi Co-
Deu. 27. 3. loſnau maen wedi eu gwyngalchu, a ſcrifenu
holl eiriau yr gyfraith arnynt yn nhir Canaan,
Fel y galleu pawb eu darllen er mwyn eu cadw.
Ac fel y byddei'r bobl hyſpyſach ar ewyllis eu
Harglwydd, goſodwyd hi nid yn vnig ar lèc-
hau, a Cholofnau, ac mewn llyfrau, ond ar ga-
Deut. 32. niâdau heſyd. tybir na bu er ioed yſcrifen
yn y byd cyn y pryd hyn. Or blaen yr oedd y
rhai pennaf o'r teuluoedd duwiol yn cael gwa-
ledigaethau Duw, ac yn dyſcu ir lleill yr byn y
fynegaſei Duw iddynt hwy. *a gela ſi rhag A-*
braham medd yr Arglwydd? Canys mi âi hadwaen
Gen. 18. 17. *ef y gorchymyn ef iw blant ac jw dylwyth ar ei ôl*
gadw o honynt ffordd yr Arglwydd.

Os gofynni pa fodd y gallei Moſes wybod
y pethau a ddigwyddaſent er dechreuad y
byd, ac ſydd ſcrifenedig yn ei lyfr cyntaf ei?
Attebaf, y gallei ef wybod llawer drwy fy-

negiad

negiad dynol o'r pethau yddyscaseu 'r genhedlaeth honno gan Joseph, ac ynteu gan Jacob, ac yntef gan Isaac, ac ynteu gan Abraham, ac ynteu gan Sem, a Sem gan Noah, a Noah gan Methuselah, ac ynteu gan Adda. A Chyda hynny yr oedd Moses yn cael ymddiddan a'r Arglwydd wyneb yn wyneb, yr hwn y ddatcuddiodd iddo ef y pethau suasent, a Llawer o'r perhau sydd dent. Joshua gweinidog ac etisedd yspryd Moses a ddûg Israel i Ganaan, ac a wnaeth gyssammod difrifol a hwynt, a'r usudhâu ir Arglwydd, a bwrw ymaeth eulynnod. o hynny hyd amser Saul bu Israel heb frenin, sef yspaid ynghylch 450 flynydd. yn y dyddiau hynny pan bechei 'r eglwys drwy gau addoliad a drwg foesau gadawei 'r Arglwydd i erlidwyr ei gorthrymmu, a phan ddiwygei ei ffyrdd, cyfodei waredwyr iddi. Bu llwyddiant crefydd yn helaethach yn amser y brenin Dafydd, gwr wrth fôdd Duw; ai fâb Solomon, y ddewisodd ddoethineb dduwiol oflaen golud bydol. Ynghylch hyn y tybir i *Frenhines Sheba* ddwyn y wir grefydd i Arabia ddedwydd, i Brenhiniaeth. Ond wedi hynny ymlygrodd Israel fwyfwy, nes i Dduw ddigio wrthynt, a Chyfodi brenin Assyria i gaethiwo y dêg llwyth, a brenin Babilon i gaethiwo 'r ddau eraill, gan loscì Jerusalem a'r Deml. Bu'r Scrythur a'r grefydd yn brin yn nechreu teyrnasiad Josiah; ac Ahaz, yr hwn y gaeodd y deml, hynny a barodd fawr gystudd.

Deu. 34. 10.

Josh. 24.

Act. 13. 20.

2 Brenh. 22. 15.

2 Cron. 28 23.

O amser Solomon hyd gaethiwed Babilon y

bu 438 *flyn*. oed y byd 3440. ond argyhoeddodd ygrefydd ei herlidwyr, canys y pryd hyn Cyhoeddodd Nebuchodonozor yw holl daleithiau mae Duw'r Iſraeliaid oedd y gwir Dduw, gan ei ſawrygu ef am wneuthur gwrthiau dros ei bobl yn eu Cyfyngder. Ond am ir Caldeaid attal y gwirionedd mewn anghyfiawnder, achyſtuddio Iſrael ddengmlynedd a thrugain, dymchwelodd Duw eu ymerodraeth hwynt, gan ei rhoddi ir Perſiaid. y rhai a hyfforddiaſant yr Juddewon i ddychwelyd, ac i ailadeiladu yr deml a Jeruſalem, ac a gydnabuaſant hefyd fawrhydi y gwir Dduw. Dengis llyfr *Ezra* helynt y ffydd dros 146. *flyn* ar ol dychweliad Iſrael o Babilon. Y prophwyd olaf ar ol ailadeiladu 'r deml oedd Malachi: ac yn gymaint ac nad oedd un prophwyd i gyfodi ar ei ol ef rai cantoedd o *flyn*. nes dyfodiad Joan fedyddiwr, mae 'n gadel ſiarſe arnynt, am ddyfal ddyſcu cyfraith Moſes. oed y byd 3608, Pan oedd *Alecſander brenin Macedonia*, yn orcheſtol yn gorchfygu cadernid Perſia, daeth tua Jeruſalem yn ddiclon, am i Jadduah yr Archoffeiriad ommedd ei gynorthwyo ef yn erbyn brenin Perſia, (ir hwn yr oedd Jadduah yn rhwymedig drwy lw) A thra yr oedd y ddinas dan ei dychryn yn ymprydio, ac yn gweddio Duw, cafodd yr Archoffeiriad gyngor mewn breuddwydd i agori pyrth y ddinas, ac i ſyned allan ai frodyr gyd a'g ef yn eu gwiſcoedd offeiriadol i wyneb y ſyddyn lidiog. Ar hyn rhedodd Alecſander i gyfarfod yr Archoffeiriad, ac ai cyfarchodd ef yn oſtyngedig

Dan. 3. 28. ar. 4. 1.

Mal. 4. 4.

dig a gorchymynnodd iw gapteniad na wnaent niwed iddynt: gan ddywedyd i Dduw yn y Cyfryw debygolieth ymddangos iddo ef, ac addaw rhwyddhynt yw daithef; wedi hynny dangosodd Jadduah iddo ef brophwydolieth Daniel, yn Crybwyll am fuddugolieth iddo ef, yr hyn annogodd Alecfander i adel ir Juddewon rydddid eu crefydd. Ar ol hyn mynnodd *Ptolemeus Philadelphus* brenin yr Aipht ddeuddeg a thrugain o ddyfcawdwyr yr Juddewon i gyfieithu yr hên deftament o'r Hebraec ir Groeg. Ond prifiodd eraill o'r brenhinoed Groegaidd yn erlidwyr chwerwon yn erbyn y wir grefydd. Ceifiodd vn o honynt ddyfod ir deml ir fan Sanctaidd Sancteiddiolaf yw halogi ai gau aberthau, ond wrth weddi Simon yr Archofferiad, trawodd Duw ef a gwendid, fel nad allodd Symmud. Ac wedi myned yn wych, penododd ddiwrnod i lâdd yr Juddewon, ond tynnod Duw ei goffadwrieth ef ymaeth ar y dydd hwnw: ac wedi hynny darfu i ddau angel ei ddychrynu ef ai fyddyn oddiwrth Jerufalem. Yn amfer *Antiochus Epiphanes* gwelwydbyddinoedd yn yr awyr vwchben Jerufalem, y pryd y ceifiodd ef yfcubo allan o'r byd enw yr Juddewon ai crefydd. Ac wedi iddo wneuthur creulondeb fawr, trawodd Duw ef a dolur gwaedlyd oni bu ef farw! Er na bu vn prophwyd yn Ifrael o amfer Malachi hyd Joan fedyddiwr, dros well na thrychant o flynyddoedd, etto glynodd yr Juddewon yn gefnog yn eu crefydd y dyddiau hynny. dengis llyfrau'r Apocrypha helynt yr amferoedd hyn,

Oedy byd 3700

hyn, y rhai er nad ydynt yw Cyfrif fel yr ſcrythurau Sanctaidd, oblegyd nad ydynt ymbob peth ynCyttuno a hwynt, na'g wedi eu ſcriſenu yn Hebraec, na'u derbyn gan yr Juddewon, etto haeddant barch hiſtoriau dynol, duwiol.

Bu rhyfel rhwng dau frawd am frenhinieth Je-
Oedy byd ruſalem; Cyrchodd y blaid oedd yn gwarchae
3903. ar y ddinas yn Onias gwr duwiol (yr hwn drwy weddi y baraſei law ar ſychter mawr) i weddio droſtynt ar iddynt gael y ſuddugolieth, a gweddiodd ynteu y geiriau hyn; *Arglwydd gan fod y naill blaid yn bobl iti a'r blaid arall felly, ac yn offeiriaid hefyd, na wrando ar weddiau y naill yn erbyn y llall*: ar hynny llabyddiaſant ef. Ar wyl y paſc gommeddodd y gwarchaewyr ebyrth am eu harian ir lleill yn y ddinas, yr hyn annogodd Dduw i anfon tymmheſtl i anrheithio ffrwyth y ddaiar, oni chymelloddnewyn y gwarchaewyr hynny i ymadel. Ar ſyrder daeth *Pompeius gadarn* i dorri'r ymryſſon, ac a ddaroſtyngodd y frenhinieth dan y Rhuſeiniaid, wedi ir Juddewon o'r blaen ddioddef llawer o doſter y Groegaid. Wedi ir goreſcynwr hwn wneuthur Celanedd yn Jeruſalem, trôdd ir deml; a lladdodd yno ddeuddeg mil; er hynny ni pheidieu 'r offeiriaid yn y Cyſamſer er maint oedd y dychryn a chyflawni ſwyddau 'r diwrnod, Canys ympryd oedd ymattaliodd *Pompeius* rhac yſpeilio'r deml oi thryſſor o ran parch ir lle, ond wedi hynny daeth Craſſus awyddus; ac a yſcubodd ymaeth ei golud, a chwympodd dialedd Duw ef drwy ddwylaw 'r Parthiaid, y rhai mewn

dirmyg

dirmyg a lanwaſant ei Safn ef ag aur. Gwnaeth y Rhufeiniaid vn *Herod* (Edomiad o'r naill du) yn frenin yr Juddewon. Yn amſer yr *Herod* yma y bu daiargryn mawr yn Judea y laddodd ddengmil o bobl, heb law aniſeiliaid lawer, ac y bu erlid mawr ar yr Juddewon am dynnu i lawr lûn eryr (Lluman y Rhufeiniaid,) a oſodaſeu ef ar ddrws y deml. Yn y flwyddyn olaf o deyrnaſiad hwn y ganwyd Criſt, Oed y byd tair mil, naw cant, a thrigain a thair. Ar hynny brawychodd Herod, ac a laddodd blant Bethlehem ar hyder llâdd Criſt yn ei grûd, ond bu ef ei hun farw yn y man gwedi. Er bod yr Eglwys yn ogoelgreſyddol y pryd hyn, etto darllenwn yn yr efengil am amryw rai duwiol, megis *Simeon*, a *Zacharias*, ac *Elazabeth*, ac eraill. Yn y bumthegfed flwyddyn o oedran Criſt Pan oedd *Auguſtus Cæſar* ymerodr gorſodawg Rhufain yn rhiſo ei filwyr, torrodd taran ddychrynllyd uwch eu Pennau, a dileuodd *C* y llythyren gyntaf o henw *Cæſar*, tebyg lle yr oedd ei lûn ai henw wedi eu hargraphu ar golofn. Canys yr oedd vn arall i lywydraethu vwch ei law ef. Yngbylch Pedair ar ddèg ar hugain oi oedran y croeshoeliwyd Criſt drwy ddymunniad ei wladwyr; daeth diflaniad ar yr holl ſwyddogion ai Condemnodd ef. Ymlidiodd ymerodr Rhufain Pilat ymaeth, am iddo gadw 'r tryſſor Cyhoeddus iddo ei hun: ac wedi ir Juddewon gael pumtheg mlynedd go-heddychol i glywed yr efengil gan yr apoſtolion i edrych a ediſarhaent, a nhwythau gan mwyaſ yn Caledu eu calonau, amlhâodd eu 3930.

hyn, y rhai er nad ydynt yw Cyfrif fel yr ſcrythurau Sanctaidd, oblegyd nad ydynt ymbob peth yn Cyttuno a hwynt, na'g wedi eu ſcriſenu yn Hebraec, na'u derbyn gan yr Juddewon, etto haeddant barch hiſtoriau dynol, duwiol.

Bu rhyfel rhwng dau frawd am frenhinieth Je-
Oedy byd ruſalem; Cyrchodd y blaid oedd yn gwarchae
3903. ar y ddinas yn Onias gwr duwiol (yr hwn drwy weddi y baraſei law ar ſychter mawr) i weddio droſtynt ar iddynt gael y ſuddugolieth, a gweddiodd ynteu y geiriau hyn; *Arglwydd gan fod y naill blaid yn bobl iti a'r blaid arall felly, ac yn offeiriaid hefyd, na wrando ar weddiau y naill yn erbyn y llall*: ar hynny llabyddiaſant ef. Ar wyl y paſc gommeddodd y gwarchaewyr ebyrth am eu harian ir lleill yn y ddinas, yr hyn annogodd Dduw i anfon tymmheſtl i anrheithio ffrwyth y ddaiar, oni chymelloddnewyn y gwarchaewyr hynny i ymadel. Ar ſyrder daeth *Pompeius gadarn* i dorri'r ymryſſon, ac a ddaroſtyngodd y frenhinieth dan y Rhuſeiniaid, wedi ir Juddewon o'r blaen ddioddef llawer o doſter y Groegaid. Wedi ir goreſcynwr hwn wneuthur Celanedd yn Jeruſalem, trôdd ir deml; a lladdodd yno ddeuddeg mil; er hynny ni pheidieu 'r offeiriaid yn y Cyſamſer er maint oedd y dychryn a chyflawni ſwyddau 'r diwrnod, Canys ympryd oedd ymattaliodd *Pompeius* rhac yſpeilio'r deml oi thryſſor o ran parch ir lle, ond wedi hynny daeth Craſſus awyddus; ac a yſcubodd ymaeth ei golud, a chwympodd dialedd Duw ef drwy ddwylaw 'r Parthiaid, y rhai mewn

dirmyg

dirmyg a lanwaſant ei Safn ef ag aur. Gwnaeth y Rhufeiniaid vn *Herod(*Edomiad o'r naill du*)* yn frenin yr Juddewon. Yn amſer yr *Herod* yma y bu daiargryn mawr yn Judea y laddodd ddengmil o bobl, heb law aniſeiliaid lawer, ac y bu erlid mawr ar yr Juddewon am dynnu i lawr lûn eryr*(* Lluman y Rhufeiniaid,*)* a oſodaſeu ef ar ddrws y deml. Yn y flwyddyn olaf o deyrnaſiad hwn y ganwyd Criſt, Oed y byd tair mil, naw cant, a thrigain a thair. Ar hynny brawychodd Herod, ac a laddodd blant Bethlehem ar hyder llâdd Criſt yn ei grûd, ond bu ef ei hun farw yn y man gwedi. Er bod yr Eglwys yn ogoelgreſyddol y pryd hyn, etto darllenwn yn yr efengil am amryw rai duwiol, megis *Simeon*, a *Zacharias*, ac *Elazabeth*, ac eraill. Yn y bumthegfed flwyddyn o oedran Criſt Pan oedd *Auguſtus Cæſar* ymerodr gorfodawg Rhufain yn rhoſo ei filwyr, torrodd taran ddychrynllyd uwch eu Pennau, a dileuodd *C* y llythyren gyntaf o henw *Cæſar*, tebyg lle yr oedd ei lûn ai henw wedi eu hargraphu ar golofn. Canys yr oedd vn arall i lywydraethu vwch ei law ef. Yngbylch Pedair ar ddèg ar hugain oi oedran y croeshoeliwyd Criſt drwy ddymunniad ei wladwyr; daeth diſlaniad ar yr holl ſwyddogion ai Condemnodd ef. Ymlidiodd ymerodr Rhufain Pilat ymaeth, am iddo gadw 'r tryſſor Cyhoeddus iddo ei hun: ac wedi ir Juddewon gael pumtheg mlynedd go-heddychol i glywed yr efengil gan yr apoſtolion i edrych a ediſarhaent, a nhwythau gan mwyaſ yn Caledu eu calonau, amlhâodd eu 3930.

helbulon ar bob trô, nes ir Rhufeiniaid gwbl ddinyſtro Jeruſalem ar deml, au gyrru ymaeth oi gwlâd, wedi llâdd o honynt vn cant a'r ddêg o ſiloedd, a gwerthu o honynt dèg cant a Phedwar ugain o ſiloedd i gaethiwed. A digwyddodd iddynt yn ôl eu ſtyſnigrwydd, pan leſaſant yn erbyn Criſt, bydded ei waed ef arnom ni, a'n Plant. Ac o herwydd iddynt ddewis *Caſar* o flaen *Criſt*, cawſant ddigon o *Caſar*, canys Cymellid hwynt i addoli ei lûn ef, ac erlidwyd hwynt am wrthod hynny. Cyn eu dinyſtr lliſeiriol, Safodd Seren un ffurf a chleddyf uwch ben y ddinas, ac ymagorodd un o ddryſſau mawr y deml o hono ei hun, er ei fod o brês, ac arno farrau heirn. *A chlybwyd llais yn yr awyr yn perid ir Criſtnogion ſyned ymaeth i Pella.* Yma Cymmerth ſwgythion Criſt afael arnynt, och gwelwn ac ofnwn, Mae Duw yn rhygryf ir gwrthnyſſiccaf o ddynion. Taflodd gawri yr hên fyd i ſod yn furgynod ar y ddaiar, bwriodd Pharao a'r Aiphtiaid i byſcod y môr côch, Herod ir llaù, a Jezabel ir cwn.

Oed. Criſt 72.

Luc. 19. 41.

Er ir Juddewon wrthod trugaredd yr eſengil, mynnodd Criſt weled o laſur ei enaid ymllith y cenhedloed. Canys drwy bregethiad yr apoſtolion, (y gawſant ddawn rhyfeddol i fynegi'r iechydwrieth i bob cenedl lle delent yn ei hiaith ei hun) mewn amſer bychan llanwyd pob teyrnas gan Griſtnogion, fel aneirif yſcuboriau ag yd mewn ychydig wythnôſau y cynhaiaf. Gwelodd rhaglunieth Duw yn dda raglyſnu peth ar y byd drwy philoſophyddieth y Groegiaid,

a

a rheolaeth foesawl y Rhufeiniaid, ac yno hanodd yr esengil. A hynny yn llawnder yr amseroedd, pan oedd y byd amlach o bobl nag y buasei e'r ioed o'r blaen. Pregethodd *Thomas Aple* ir Parthiaid, Mediaid, a'r Persiaid, ac er diwedd lladdwyd ef a phiccell. Esangylodd Simon Zelotes yn Affrica, a chroeshoelwyd ef. Llafuriodd Bartholomeus ymysc yr Indiaid, a blingwyd ef. Andreas a bregethodd ir Scythiaid, a chroesshoelwyd ef, a Mathew ir Juddewon, ac a labyddwyd. Peder ir Juddewon ar wascar, ac yn eu gwlâd. Philip ir Phrygiaid a chroesshoelwyd ef. Daeth Paul tua'r Gorllewyn, sef i wlâd Groeg a'r Ital, a'r Hispaen: a dywedir i rai oi gymdeithion ef bregethu yn Ffrainc, ac oddiyno anfon Joseph o Arimathea i blannu yr esengyl yn Prydain. Wedi i Paul gymeryd poen rysseddol i hyfforddi yr esengil, torrwyd ei ben ef yn Rhusain. Merthyrwyd Pedr hefyd. Esangylodd Thaddeus yn Edessa, lle r'iachâodd ef *Agbarus* y brenin; yr hwn a anfonasseu am Grist i ddysod atto ef, wrth glywed sôn am ei wrthiau ef, ac addawsei Crist anfon un oi ddyscyblion atto ef ar ol ei dderchafiad. Cynygiodd *Agbarus* aur i *Thaddeus* am ei gymwynas, ond gwrthododd yr Esangylwr y rhôdd, gan ddywedyd *Iddo ef adel yr eiddo ei hun, a pheth y wnai ef ac eiddo arall.* Cyn myned ymhellach yn histori r'testament newydd, ystyriwn fod y wir gresydd dros ddwy fil a hanner o flynyddoedd, sef er dechreuadd y byd hyd Moses, yn siml, ac yn blayn, heb sawr ddefodau corphorol mewn bwydydd,

na

na gwiſcoedd, nag amſeroedd, na llêodd, heb law'r aberthau, a'r enwaediad yn amſer Abraham. Wedi hynny o amſer Moſes hyd ddechafiad Criſt, dros ynghylch pumtheg Cant o flynyddoedd, bu rhifedi mawr o ffigurau a defodau gweledig i arwyddo Swyddau Criſt, a phan ddaeth Criſt ei hun yn y cnawd, a chyflawni'r peth yr oedd y rheini yn ei ragſynegi, dioſcodd crefydd y cyſcodau hynny, gan ddychwelyd ir playnder dechreuol mewn modd trâ yſprydol. Ond yr un oedd Sylwedd crefydd ymbob oes dan yr hên deſtament ar newydd. gwèl yr 11. *pennod at yr Hebr.* gan weithio yr un graſau ynghalonau 'r ffyddloniaid cyntaf a'r diweddaraf. Gwell oedd gan rai duwiol yr hên deſtament
Dan. 3. Dduw na'i bywyd, Cymerent eu bwrw i ffwrn
37, 18. o dân poeth, yn hyrrach nag yr addolent *Eulun yn* lle'r Arglwydd byw. ac felly yr oedd gan Sainct y Teſtament newydd: *Parod oedd Paul nid*
Act. 21. *iw rwymo yn unig, ond i farw hefyd er mwyn henw*
13. *yr Arglwydd Jeſu*. Yr un moddion gräs arferent, ſef cynghori, myſyrio, a gweddio. *Ymadroddion Job a gyfodent i fynu yr hwn oedd yn ſyrthio.*
Job. 4. 4. a dywed yr angel wrth Cornelius, *anfon am*
Act. 11. *Petr, yr hwn a leſara eiriau wrthit, trwy y rhai*
14. *i'th iacheir di a'th holl dy*. yn amſer y Pſalmydd
Pſal. 1. 2. yr ydoedd y gwynfydedig *yn myſyrio ynghyfraith Dduw ddydd a nôs.* a gorchymynwyd i
1 Tim. 4. Timotheus. *lynu wrth ddarllein, a myſyrio ar y*
15. *pethau hynny.* Nerthol oedd gweddiau pobl dda ymbob oes, fel y gwelir ym Moſes ac Elias, ac
Jag. 5. 15. medd Jago *llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn*

Yr un dedwyddwch yr oeddent yn ei geiſio, *Sef gogoniant tragwyddol, Gwyddai Job ſod ei Brynwr yn fyw ac y ſafai yn y diwedd ar y ddaear, ac er i bryfed ddifetha ei gorph ef, y cafai ef weled Duw yn ei gnawd.* Ac yr oedd y Criſtnogion cuſtuddiedig *yn cymeryd eu yſpeilio am y pethau oedd ganddynt yn llawen, gan wybod fod genddynt olud gwell yn y nefoedd.* Drwy r'un Cyfryngwr yr oeddent yn cael trugaredd Dduw. Dywed yr Apoſtol Paul ir Corinthiaid yn ei amſer ef, ac ir Iſraeliaid yn y diffaethwch yn amſer Moſes *fwytta o'r un bwyd yſprydol, ac yfed o'r un ddiod yſprydol o'r graig yſprydol, a'r graig oedd Griſt.* Ar un anwyldra amlygodd Duw tuag at y bobl dduwiol dan y Teſtament hên a'r newydd; gan obrwyo eu ymgeleddwyr hwy, *bendithiodd dy* Potyphar *er mwyn* Joſeph. *a Chefir gwobr am roddi phiolaed o ddwfr i un o ddyſcyblion Criſt*; a chyſtuddio eu cyſtuddwyr hwy, megis *Pharao*, A *Herod.* ymddangoſodd Criſt yn weledig dan yr hên deſtament, a chyflawnodd waith prynedigaeth yn nechreuad y newydd. yn Sicer y mae trugaredd Dduw wedi amlhau yn fwy tuag at y byd yngweinidogaeth y teſtamcnt newydd; am hynny y llawenychodd *Simeon* Ac y mae *Criſt* yn dywedyd fod *llygaid ei ddyſcyblion ef yn wynfydedig am weled y pethau yr oeddent yn eu gweled, o herwydd i lawer o Brophwydi ewyllyſio eu gweled ac nis gwelſant.* Canys mae'r eſengil yn Eglurach. Yr oedd y teſtament newydd wedi ei orchguddio yn yr hên, yn awr y mae'r hên wedi ei ddatcuddio yn y newydd,

Job. 19. 25,26.

Heb. 10. 34.

1 Cor. 10. 4.

Gen. 39.5.

Math. 10. 42.

Exod. 8. 1.

Act. 12. 1, 2,23.

Joſh. 5. 13, 14.

Luc. 2. 29.

Luc. 10. 23,24.

ac

ac fel yr haul yr Affrica yn rhoddi goleuni heb gyfgod. *Ac aberthwyd yn awr nid geifr a*
Heb.9.12. *lloi, eithr Crift ei hun, gan gaelini dragwyddol eyddhâd.* Hefyd nid oedd gynt ond ymbell deulu yn cael yfpyfrwydd o'r grefydd: ac wedi amfer *Mofes* nid oedd ond un genedl yn cael ei galw yn oeftadol, a rhan fwyaf o honno yn wrthodedig eifieu ufuddhâu: tra yr oedd agos yr holl genhedloedd eraill cyn amled a thywod y môr yngwaelod anghredinieth a chelledigaeth. Ond gorchmynwyd ir apoftolion gynyg Cymod a grâs i bob cenedl dan haul, fal y ganwyd plant yfprydol i Grift *megis y gwlith o*
Pfl.110. 3. *grôth y wawr, A' r gwledydd y fuafent mewn tywyllwch er dechreuad y byd a welfant oleuni'r bywyd.* Ar hyn llidiodd y Cythrael yn ddirfawr am golli ei ddeiliaid, a chynhyrfodd ymerodron Paganaidd Rhufain i erlid y Criftionogion yn filain. O fewn y trychant blynyddoedd Cyntaf ar oll ganedigaeth Crift y bu dêg o erlidigaethau trymion.

Y cyntaf o honynt y digwyddodd yn *theyrnafiad Nero.* Yr hwn wnaeth iro Cyrph y Criftnogion a gwêr ac a phyg, yw llofci'r nôs i oleuo heolydd Rhufain. Wedi hyn ofnodd *Domitianus* deyrnas Crift, a lladdodd ei geraint ef, a gyrrodd *Ioan* i *Bathmos*. Ond pan ddeallodd ef mae yfprydol ac angylaidd oedd teyrnas yr Jefu, attaliodd ei grenlondeb. Ar ol hyn gorch-
Oed. Cr. 100. mynodd *Trajanus* lâdd llawer mil o'r Criftnogion. Darfu i *Ignatius Pregethwr duwiol* ei argyhoeddi ef oi eulunaddolieth, a merthyr-

wyd

wyd ef am ei dyſtialaeth: ac ychydig cyn ei ddiwedd, *Nid wyſi ond yd i Dduw (eb y merthyr) ond pan falo'r anifeiliaid gwylltion fi rhwng eu dannedd, byddaf fi fara gwyn, ni byddaf ſi lai er ty malu.*

Yſcrifennod un oi raglawiaid at yr Emerodr, na ſedrei ef gael gwybodaeth o ddim drwg ar y Criſtianogion, er iddo eu Coſpi au boli yn ſanwl, onid eu bod yn ymgyſarfod cyn y dydd i ganu hymnau i Griſt, ac i gydſwytta, au bod yn ymwueuthur a'u gilidd i ymwrthod a lladrad, llofruddieth, a godineb: ar hynny caſodd y Criſtianogion heddwch. Ond yn amſer *Hadrianus* merthyrwyd *Zenon jarll duwiol* yn Rhufain, a deg mil o Griſtnogion gyda'g ef. Ar hyn plediodd dyſcawdwyr Criſtnogaidd eu hachos o flaen y gorthrymwr, oni lareiddiodd ef. ie Scrifenodd *Antoninus Pius* at ei ſwyddogion, ei fod ef yn gweled y Criſtnogion yn ddiofn ar ddiargryn, pan fyddeu ei Ddeiliaid Paganaidd ef yn llawn dychryn. Am hynuy tybiei eu bod hwy yn bobl dda, ac na haeddent goſpedigaeth. Rhydd *Philo*, *Scriſenydd dyſcedig* er ei fod yn Juddew gyfryw dyſtiolaeth am Griſtnogion yr oes hon yn yr Aipht: ſef eu bod hwy yn gadael eu tiroedd, yn ymprydio, ac yn gweddio, ac yn canu pſalmau, un yn dechreu, ar lleill tua'r diwedd yn cydbyncio.

Dywedir i Griſtion ievanc o gydnabyddieth *Joan yr apl*, adel ei broffeſs, a myned yn yſpeiliwr pen fforddd. A phan gyfarfu ar y mynydd ac Joan, ffoâwdd oddiwrtho ef rhag Cywilydd.

Ond

Ond wedi i Joan Iesain ar ei ôl ef, ac addaw iddo gymod a Chriſt, Safodd y lleidr dan gryn ac wylo. Ac wedi ir *Apoſtol* weddio droſto ef, dychwelwyd ef at y Saint.

Pan ſethei gan Satan ddiddymu'r ffydd drwy'r erlidwyr Paganaidd, cyffroei ymbleidiau yn yr eglwyſydd, ac amryw opiniwnau. Am hynny gorſu i *Polycarpus athro enwog* ddyſod o Aſia i eglwys Rufain ynghylch y Paſc, ac vnodd a hwynt mewn Cymmundeb yſprydol yn ſwpper yr Arglwydd, er nad oedd Cyſſondeb rhyngtho ef a nhwythau ynghylch y deſod hwnw. Ond wedi hynny yn Amſer *Ferus yr Emerodr* Cododd erlid yn erbyn yr eſengil: a merthyrwyd Polycarpus dyſcybl Joan yr *apl.* Yr hwn y ddywedodd wrth y rhai oedd yn ceiſio ganddo wadu ei ffydd, *Iddo waſnaethu Criſt er's gwell na phedwar ugain mlynedd, ai gael eſ yn feiſtr da, ac am hynny na adawei eſ mono ef byth.* Er ei fod yn oedranus, etto ni chwimiodd ronyn tra yr oeddynt yn ceiſio ei loſci ef, ond ni finniei 'r tân arno ef tra yr oedd ef yw, am hynny lladdaſant ef a'r cleddyf, a thra'r oedd y tân yn lloſci ei gelain ef, daeth arogl peraidd oddiwrtho eſ: flangellwyd eraill, a threiglwyd hwynt yn noeth ar hyd cregin llymion, a phryd nad ymwrthodent a'u ffydd er hynny, teflyd hwynt ir llewod iw llarpio. Merthyrwyd *Juſtinus* hefyd dyſcawdr llythrennog, yr hwn fuaſei vnwaith yn Philoſophydd cenhedlig; ond wrth weled mor gyflurus y byddeu'r Criſtnogion yn dioddef, dechreuodd ſyn feddylio, ac wrth ym-

Oed. Cr. 162.

ddiddan

ddiddan a hèn Griſtion trôdd at Dduw, tyſtiolaethodd nad ellid wneuthur niwed i Griſtion, er ei lâdd ef. Yn yr oes hon y bu *Ireneus* dyſcybl *Polycarpus* yn Athro buddiol yn ffrainc: yn ei amſer ef y bu ymdrech rhwng eſcob Rhufain ag eglwyſydd *Aſia* ynghylch y Paſc: mynneu rhai *Aſia* gadw'r un amſer a'r Juddewon, ond taereu Eglwys Europa iddynt dderbyn oddiwrth yr apoſtolion na ddylent gumuno ond ar y Sabboth yn unic. Am hyn Cyhoeddodd Fictor eſcob Rhufain nad arferei ef ddim Cymundeb ag eglwyſydd *Aſia*: ond darſu i *Ireneus* yn enw eglwyſi ffrainc, ac eraill, ei agyhoeddi ef oi boethder, er eu bod o'r un dybaeth ef ynghylch y pwnc. Gan ddangos nad oedd holl eglwyſi Criſt drwy'r byd yn Cadw yr un amſer i ymprydio, canys ymprydieu rhai ddiwrnod, eraill ddauddydd, etto bod undeb cariadus rhyngthynt: Ac na ddylid drwy ymdrech am gyſcod golli ſylwedd cretydd, ſef cariad. Yr oedd gwrthiau yn yr eglwyſydd yn amſer *Irenæus*, ac eſangylwyr yn myned ar lêd i bregethu: pan drymhâodd yr erlid yn ffrainc merthyrwyd ef, a llawer o'r Criſtnogion, yno y cafodd y gweinaid ddiangfa, a'r Cryfion galondid i ddioddef er mwyn Criſt, gan yſtyried nad yw dioddefiadau yr amſer preſennol hwn, yn haeddu eu Cyffelybu i'r gogoniant a ddatcuddir i ni. Safodd i fynu un *Fetius Jarll* i bledio gyd a'r Criſtnogion a merthyrwyd ef gyd a hwynt. *Blandina gwyryf* raſol a flinodd ei phenydwyr drwy ddioddefgarwch, gan

Rhuf. 8. 18

gyffeſſu

gyffesſu ei ffydd heb ymwrando ai phoen, wedi i ofn yrru *Biblis* i wadu'r ffydd, poenydwyd hi er mwyn ei chymell i gyhuddo ei chyfeillion; ac yn ddyſymwth, fal un wedi deffro o gwſc, addefodd Griſt, a thyſtiolaethodd nad oedd y Criſtnogion yn bwytta gwaed anifeiliaid, a pha fôdd y bwyttaent waed plant? Pan weleu'r encilwyr gweiniaid fod y rhai Calonog mor hârdd yn eu Cadwynau a'r briodas-ferch yn ei thrwſiadau, deuent o honynt eu hunain ir frawdle i gyffesſu Criſt er mwyn cael merthyrdod; er arteithio a ffrio yr Sainct ar farfor, etto buont ffyddlon hyd angeu. wedi lloſci 'r merthyron, teflid eu llydw ir afon, er mwyn gwanychu gobaith y Criſtnogion am yr adgyfodiad. Ond digwyddodd ir ymerodr fod mewn Cyfyngder ef ai fyddun o ran Sychter, ac wedi iddo geiſio Cymorth yn ofer gan ei eulynod, anfonodd, am y Criſtnogion ynghyd i weddio at eu Duw dros y fyddun, ac felly y gwnaethant, a chawſont law yn ebrwydd, ac am y Cymwynas hwnw gorchmynwyd oſtegu'r erlid.

Oed. Cri. 205. Dan emerodraeth *Seferus* y bu erlid tôſt yn enwedig ar Griſtnogion *Affrica* a *Chappadocia*, y pryd y merthyrwyd tâd *Origen*: ac er nad oedd ynteu ond llangc dwy ar bumtheg oed ac thei allan i gymeryd ei ferthyrdodd gyda'i dâd oni buaſei yw fam guddio ei ddillad ef, am hyny ny ſcrifennodd at ei dâd yw annog ef i ddioddef. Trôdd un *Capten Baſilides* yn Griſtion wrth roddi *Potamiena* i farwolieth am ei ffydd. Ag yehydig gwedi dioddefodd ei hun am ei

Ffydd yr un goſpedigaeth, ac y roeſei ef ar
eraill yn ei anghredinieth. Am hyn dywed *Ter-*
tullianus yn ei ſcriſen dros y Criſtnogion, fod
gwaed y merthyron yn hâd yr Eglwys. Canys
pobl wrth weled Cyſſur y merthyron a chwiliant
am yr achos o honi, ac wedi ei chaffael, ai dily-
nant, am fod tangneddyf a Duw yn awr angeu
yn beth dymmunol. Yr achoſion pam yr oedd y
rheolwyr Paganaidd cyn ſynyched, a chyn gieid-
died yn gorthrymu yr Criſtnogion oedd am-
ryw, megis, *Y gelyniaeth ſydd rhwng hâd y* Gen.3.15.
wraig a hâd y ddraig. Câs gan natur lygredig
Dduw ai ffyrdd. Am hynny codid celwyddau
ar y Sainct, eu bod yn lladd plant, ac yn godine-
bu yn eu cyfarfodydd: ac yr oedd y wir ffydd
yn goſtegu enlunaddolieth y cenhedloedd, am
hynny yn eu cyffroi hwynt, pan fwriodd Paul Act.16.
yſpryd dewiniaeth allan o langces, terfyſcodd 18.
dinas *Philippi*. a llanwyd dinas *Epheſus* o gy-
thryfwl yn erbyn yn efengil, rhag cyfrif teml y Act.19.
dduwies *Diana* yn ddiddim. A byddeu cyng- 27.
horion Criſtnogion yn aneſmwytho y rhai
oeddent yn ymroddi i bechod. Dyna'r peth y
wnaeth i *Herod* garcharu a mwrdro *Ioan Fedy-* Marc. 6.
ddiwr. Wedi i un o ordderchion *Nero* droi yn 17, 18.
griſtnoges, a gwrthod bodloni ei gynefin chwant
ef, ceiſiodd ymddial ar yr efengil. Hefyd yr oedd
y Criſtnogion o ran ofn Duw heb roddi ufuddod
i lawer ogyfreithiau y cenhedloedd, or achos hyn
y bwriwyd yr Iſraeliaid gynt ir *ffwrn dân, ac i* Dan.3.12.
ffau'r llewod. Ni fyneu y rhai grafol dyngu i ac pen 6.
Fforttun Cæſar, nag addoli ei ddelw ef yn y mar- 12.
chnadleodd,

chnadleodd, er gorchymyn y Swyddogion, am hynny bernid hwynt yn ystyfnig ac yn haeddu Côsp, rhag iddynt gyffroi hawl i frenhinieth: yn olaf, pa aflwydd bynnag y ddigwyddei ir cenhedloedd, newyn, neu haint, tybient i hynny fod o herwydd ir Cristnogion ddirmygu eu gau dduwiau hwynt, a hanny, gyda chwant yw meddiannau hwynt, ai blaenllymei nhwy i ddifetha'r ffyddloniaid.

Oed. Cr. 250. Wedi i Decius gymeryd lle *Philip* yr emerodr, (yr hwn y laddasеu ef am iddo droi yn Gristion) rhoddodd allan broclamasiwn gwaedlyd i lâdd y Cristnogion oll. dywed Historiâwr fod cyn hawsed cyfrif tywod y môr, a chyfrif henwau y rhai a ferthyrwyd y pryd hyn ynhaleithiau Rhufain, o'r dwyrain ir Gorllewyn: er i rai o'r Cristnogion lwfrhâu, ac aberthu i euynod rhag colli eu golud, etto cymerodd y lleill eu yspeilio am eu da ai bywyd yn ewyllysgar cyn y gwadent Grist, ie metheu gan y rheolwyr na thrwy swgythion nac addewidion, na gau resymau, na phoenydiau orchsygu ffydd gwragedd a merchedd: eithr yr oedd gwendid rasol yn gtysach nag awdurdod anghrediniol. Ac os byddeu rhai yn cyfaddef eu ffydd yn ofnus yn y sesliwnau, cyfodeu eraill o honynt eu hunain heb neb yn eu Cymell, i gyffessu yn galonog, oni byddeu'r dyrfa yn rhy-

Act. 24. 25. teddu, a'r barnwyr fel Phælix yn crynu, a'r Cristnogion yn gorfoleddu, canys byddei dyrnod Duw yn ddisymwth yn llâdd amryw o'r penydwyr, a'r encilwyr, ac ysprydion drwg

yn

yn meddianu yr lleill. Lladdwyd Decius ei hun mewn rhyfel a'r Barbariaid, a daeth Cornwyd marwol drwy'r holl ymerodraeth, y dalodd am ddifrodi'r diniwed; oni byddeu Cyrph y cenhedlig yn dyrrau yn yr heolydd, a'r Cwn yn eu llarpio, am na lefasent drin eu cleifion, na chladdu eu meirwon, rhag ofn yr haint: a'r Criſtnogion yn ymgleddus yw gilidd, heb ddim diffyg.

Ynghylch hyn y Cwympodd Origines athro nodedig: Siomwyd ef i fwrw aberth ir eulyn, rhag i Ethiopiad halogi ei gorph ef. Ond edifrhâodd gwedi hynny, a galârodd yn oer am ei wendid: a phan aeth fel herwr i Judea, ac ir gynylleidfa ddymuno arno bregethu, agorodd y bibl, ar lle cyntaf y trawodd wrtho oed hwn, ſef, *wrth yr anuuiol y dyweddodd Duw, beth Sydd iti a fynegech ar fy neddfau, neu a gymmerech ar fy nghyfammod yn dy enau?* yr hyn y wnaeth yw ddagrau ef attal ei eiriau, ac ir holl dyrfa wylo gyda'g ef. Pſal. 50. 16.

Ar ol hyn Cafodd yr Eglwys ychydig yſbaid o dangnheddyf, y barodd (ſel llygedyn rhwng dwy gafod yn codi chwyn yn yr yd) falchder, ac anghydfod ymhlith y Chriſtnogion, yn gymaint a phan ddaeth lleferydd attynt or Nêf yn gorchymyn, ceiſiwch ac chwi gewch, etto ni fedrent gyttuno ynghylch y nifer yr oeddid i weddio droſtint, nes i ddryc-hin eilwaith yrru'r defaid ynghyd, ac i greuloudeb *Falerianus yr ymerodr* dorri allan yn eu herbyn hwynt: y pryd y merthyrwyd *Cyprianus athro Duwiol* o Affrica; a dewiſodd tri chant yn *Carthago* eu bwrw i gyl poeth, yn hytrach nag aberthu i Eulun.

Profwyd pum math jar gospedigaeth ol yn-ol i geisio tynnu tair Morwyn Gristnogol oddiwrth y ffydd, sef, diodwyd hwynt a fineger, ac a bustl, wedi hynny flangellwyd hwynt, yna dirdynwyd hwynt, a rhostiwyd hwynt ar farwor, a thaflwyd hwynt i balfau bwystfilod rheibus: ac wedi i rheini eu harbed, lladdwyd hwynt a'r cleddyf gan na wadent Grist, bu hyn yn *Affrica*.

Dioddefodd y Cristnogion yr un ymdrin yn Ewyllyscar mewn mannau eraill. Yn yr *Hispaen* gwelwyd y nefoedd yn ymagoryd i dderbyn eneidiau'r merthyron.

Ar ol i *Falerianus* erlid yr Eglwys ddwy flynedd, cymerwyd ef yn garcharwr mewn rhyfel gan *Sapores brenin Persia*, a gwnawd ef yn gyff ir brenin hwnw i sangu arno wrth syned ar ei farch: Encyd wedi Cychwnnodd *Aurelianus* wneuthur blinder ir efengil, ond pan oedd yn scrifenu ei henw wrth warrant i gospi'r Cristnogion, rhwystrodd Cwlwm gwythi ei. A thros yspaid pedair blynedd a deugian gwedi cafodd yr efengil lonydd a llwyddiant: amlhâodd a chynyddodd y cynnulleidfau Cristnogol, oni orfu iddynt adel yr hên gornelau yr addolent ynddynt, a chysodi adeiladau eheng. Ond fel y mae'r hâf yn magu pryfed, felly tyfiff ymryslon a chenfigen o howddfyd: herwydd pa ham ansonodd rhaglunieth Duw oerfel ar yr Eglwysydd drwy *Ddioclesianus yr ymerodr*. Yr hwn a orchmynodd ir byd ei addoli ef, ac am na wnaeu'r Cristnogion hynny, lloscodd Eglwysydd, a scrythyrau drwy ei holl daleithiau, Nid arbedodd mo dywysogion

Oed. Cr. 301.

ſogion y llys na'i wraig ei hun: pan oedd miloedd o'r Criſtnogion wedi ymgyſarſod i addoli Duw, gorchmynodd yw filwyr eu lloſci hwynt ynghyd, am iddynt ommedd addoli yr eulyn *Jupiter*; ie merthyrodd leng oi filwyr Criſtnogol yr unwaith (ſef 6666) am yddynt roddi eu harfau i lawr, a naccâu dihenyddio eu brodyr: lliſodd afonydd gan waed y Criſtnogion, a dychymygwyd ymbob gwlâd boenydiau newyddion iddynt: a bu'r creulondeb hwn drwm ar ein cenedl ni yn Prydain. Ac anſonwyd ar lèd orchymyn argraphedig mewn prês i ddiſrodi Criſtnogaeth, ac i addoli *Jupiter*, *a Mawrth*, gan ddiolch ir gau dduwiau am y llawnder a'r iechyd y roddid ir byd y pryd hyn: Ond yn ebrwydd anfonodd Duw newyn a chornwyd tra marwol i ddiſetha y Paganiaid. Wedi ir gerwindeb hwn barhâu ddeg mlynedd, cododd Duw *Conſtantinus* yw liniaru. yr hwn ag ef mewn goſal i ryfela a *Macſentius* gormeſdeyrn yn Rhufain, y welodd groes yn *yr awyr, a hyn wedi ei yſcrifennu a* llythyrennau oſèr, *IN HOC VINCE, WRTH HWN GORCHFYGA*. ſelly rhododd ei hyder ar Griſt, a bwriodd i lawr orthrymwyr y gorllewyn, ar dwyrain, a llawer o'n gwladwyr ni yn ei ganlyn. A ſcrifenodd at frenin Perſia hefyd yw berſwadio ef i adel heddwch ir Criſtnogion yn ei wledydd ef, (canys darſuaſei iddo ferthyru un mil a'r bumtheg o honynt) gan fynegi iddo yr dialedd y ddigwyddaſei i erlidwyr eraill. *Oed. Cr.* 310.

Y pryd hyn Cyhoeddwyd rhydd-did i bawb i ddilyn y ffydd y welent orau. A chynyddodd y grefydd Gristnogaidd fel yr yd ddechreu'r hâf ar ol oerni gaiaf. Rhoddwyd yn ol ir Cristnogion y meddiannau y dreisiadid oddiarnynt, a breintiau yn ychwaneg: a gorfoleddant yngeiriau'r Psalmau. Cawsant swyddau, ac awdurdod yn eu dwylo ymhob gwlâd, diddymwyd llawer o ddrwg arferion pechadurus. gorchmynwyd fanwl gadw'r Sabbath. Yscrifenwyd aml gopiau or scrythûrau. Cyfodwyd i fynu yscolion dysc ag eglwysydd. felly ymadnewyddodd y grefydd i barhâu yn hwy na 'r yscrifen brès oedd yn ei gwahardd. Llwyddodd yr ymerodr duwiol hwn yn ei holl ffyrdd, a thrôdd amryw deyrnasoedd at Grist yn yr oes hon, wrth weled llaw Dduw yn erbyn eulynaddolieth. Ond-yr *Iberiaid* o ymyl *Eucsinus* y dderbyniasant y ffydd drwy wraig rasol, yr hon y iachâodd frenhines y wlâd drwy weddi. yr oes hon drwy amlder a rhydd-did yr efengil y fagodd soethysdra ymysc proffesswyr, a chwestiwnau rhy ddyfnion ynghylch y Drindod, ac undeb Crist a'r Tâd o'r un sylwedd, rhwng *Arius* ac erailll; oni thyfodd anghydfod gosidus ymysc yr eglwysydd. Ac wedi i *Constantinus* roddi senn ir ddwyblaid drwy lythyrau, a'u hannog i adel heibio ddadleuon anhawdd eu dirnad, ydoedd yn hurtio Cristnogion, ac ymosod at bethau sylweddol, llesol i adeiladaeth a chariad; casclodd Gymanfa fawr o Escobion, henuriaid, a Christnogion Cyffredin i *Nicea*, lle y gosodasant i lawr bynciau 'r ffydd mewn credo cynwys, a rheolau er cadw undeb.

Psal. 48. ac 68.

deb. Ac wedi cynhennau blinion, dywedir ddyfod trô ar ſol *Arius* a thywallt o hono ei berfedd. Ond ar ol marwolaeth *Conſtantinus*, darfu yw fab ef *Conſtantius*, (ir hwn y ſyrthiaſei rheolaeth y dwyrain) gefnogi ſect *Arius*, a throi'r blaid Arall allan o'u ſwyddau a'u gweinidogaethau, yr hyn y barodd derfyſcoedd gwaedlyd: ac anfonodd Duw ddaiargrynfau dychrynllyd; yn gymaint a phan oedd gymanfa geccrys yn ymgaſclu yn *Nic comedia* i gadarnhau amryfyſſedd, diniſtriodd daiargryn y ddinas. A chyn pen nemawr y mae *Julianus* yn cael yr ymerodraeth, yr hwn a adawodd y grefydd Griſtnogol yn yr hon y dygaſid ef i fynu, ac adferodd goelgrefydd y cenhedloedd; a chyſtuddwyd y Griſtnogion am eu gwahaniadau: etto amlygwyd ynddynt rafau nefol yn eu dioddefiâdau, ac ymbyfrydent dan y ſflangellau, a thyſtiolaethent yn hy yn erbyn yr eulynod. *Oed. Cr.* 350. 363. 366.

Y pryd hyn helyd y cafodd yr Juddewon gennad i adeiladur'r deml yn *Jeruſalem*, ac i aberthu; er mwyn gwradwyddo 'r efengil. Ond Symudodd daiargryn yr adeilad a'n bèn Sylfeini, i gyflawni bwgwth Criſt. *Ne adewid carreg ar garreg yna heb ei datted*; a deſcynnodd tân o'r nefoedd i loſci offèrau 'r Seiri, a gwelwyd ôl crôes ar eu dillad, ac nis gallent ei olchi ymmaeth. Math. 24. 2.

Ymhen y ddwy flynedd lladdwyd *Julianus* mewn brwydr yn erbyn y Perſiaid, pan gafodd ei friw marwol, taflodd ei waed tua 'r nêf, gan gydnabod fyned Criſt yn drèch nag ef. Ar ei ol ef

bu *Falens* yr Emerodr yn flin wrth y rhai ni thr-
oent yn *Ariaid.* Yn *Edessa* rhuthrodd gwraig ai
phlentyn yn ei llaw drwy lû o wyr arfog oeddent
yn myned i lâdd cynulleidsa rasol tra yr oeddent
yn cyd-addoli, gan ddywedyd wrth y milwyr oe-
ddynt yn ei ffoli hi am ei brys, ei bod hi yn cei-
sio myned i mewn at ei brodyr, er mwyn der-
byn y goron gyda hwynt: gorfyddeu ir rhai ia-
chaf yn y ffydd lechu am eu bywyd, ac addoli yn
y dirgel, tra yr oedd yr *Ariaid* yn meistroli'r
Cwbl yn gyhoeddus. Peth rhysedd fod cyn lleied
rhagor mewn deall yn achos o gymaint gelynieth,
nid oedd ond dwy lythyren yn y Groeg o amra-
ὁμούσιος ac ὁμοιούσιος tael rhyngthynt ar y cyntaf. Cydsylwedd ydoedd
Crist a'r tâd meddei'r naill blaid, o gyffelyb syl-
wedd y teurei'r llall ei fod ef. ond tân myglud yw
cyfeiliorni, godebyg ir angel du y sydd yn ei
gynneu, a dywylla 'r deall, ac a boetha 'r gwy-
niau i wneuthur mwyfwy o ddrwg.

Casodd eglwysydd y gorllewyn adeiladaeth a
thangneddyf gwell. drwy orchymyn *Theodosius*
yr ymerodr duwiol, dinistrwyd Temlau'r eulynod,
a rhoddwyd yr yspail ir tlodion. Cafwyd yn Scri-
fennedig yn un o'r meini y darfyddei am deml yr
eulun *Serapis* pan ddeuei'r groes ir goleu. Y pryd
hyn bu *Ambrose yn Athro* buddiol yn yr Ital, yr
hwn a naccâodd ollwn yr *Ymerodr Theodosius* yw
390 Eglwys nes iddo synegi ei Edifeirwch am dy-
wallt gwaed gwirion, wrth gospi'r dieuog yn-
ghymysc ag eraill am derfysc yn *Thessalonia*: ac
usuddhâodd y pendefig i gerydd yr athro. Pan
oedd yr ymerodr duwiol hwn yn rhy wan mewn

brwydr

brwydr yn erbyn gorthrymwyr, goſtyngodd ar ei liniau, a galwodd ar Dduw am gymorth, ac yn ebrwydd daeth gwynt cryf, y drôdd yn ol Saethau ei elynion ar eu pennau eu hunain. a phan yd. eodd ef yn tueddu peth tuag at yr *Ariaid*, daeth dyſcawdwr atto ef, ac wedi ei gyfarch ef yn barchedig, galwodd ei fab ef *Arcadius* gerfydd ei henw, megis bachgen Cyffredin; a thra yr oedd yr ymerodr yn anfodlon am hynny, attebodd ef, gan ddywedyd, os wyti yn cymerud yn ddrwg ddirmyg dy fab, meddwl beth y wnaiff Duw ir neb ni roddo iw fab Criſt ei ddyledus fraint, ai anrhydedd. Dan weinidogaeth *Ambroſe* y derbyniodd *Awſtyn* yr ailanedigaeth, ac ediſeirwch dwys: yr hwn y briſiodd yn athro dyſcedig yſprydol yn *Affrica*, ac adawodd oi ol lawer o lyfrau nodedig: ac felly y bu eraill ymblith y Groegiaid yn *Conſtantinopl*, yn enwedig *Cryſoſtom*, yr hwn adawodd y bùdd oedd iddo ef yw gael wrth fod yn wr o gyfraeth, ai helynt foneddigaidd, ac y ddewiſodd wafnaethu Duw mewn cyflwr gwaelach yn y byd wrth hyfforddi'r eſengil: gan *ddywedyd fod gormod golud yn ſoddi'r enaid, fal y mae gormod llwyth yn ſoddi'r llong*. A gwelodd Duw yn dda waredu 'r bobl yr ydoedd mor raſol yn eu dyſcu; yn gymaint a phan oedd y *Saraceniaid* yn cynorthwyo'r *Perſiaid* i orthrymu'r Criſtnogion, daeth cyffro byrbwyll ir ſyddyn, a neidiodd yr anghred ir Afon *Euphrates*, lle boddodd miloedd o honynt: a phan oedd y *Gothiaid* ar fedr lloſci *Conſtantinopl*, darfu i fyrddiwn o angylion yn rhith gwyr arfog eu gwilio ymaeth. Ond cafodd y *Oed. Cr.* 400

Gothiaid

Gothiaid a'r *Fandaliaid* (gwyr thyfelgar o'r go-
405. gledd) lwyddiant mwy i gyſtuddio'r gorllewyn; ynniliaſant Rufain, ac yſpeiliaſant hi, a phriſiaſant yn fflangell Duw ar y Criſtnogion am eu balchder au dicter wrth eu gilidd; yn enwedig yr eſgobion oedd euog o'r pechodau hyn, ie yn eu Cymanfâu, ai ymryſſonau ynghylch geiriau. Digwyddodd hefyd dân erchyll mewn dinaſoedd. a llif-ddyfroedd, a daiargrynfau ofnadwy, etto ni ollyngid y beiau i Syrthio; am hynny canlynodd cornwyd rhyfeddol a yſcubodd ddinaſoedd cyfain, ac aeth ar lêd y byd dros ddeugain o flynyddoedd. A thrachefn lladdodd daiargrynfâu filoedd o bobl ni
Oed. Cr. chymerent ond rhyſtychan o rybudd ymlaen
544. llaw, er i Symeon gwr duwiol, fyned o amgylch a fflangellu Colofnau dinaſoedd, gan erchi iddynt gymeryd gofal o ſefyll ar eu traed pan ddawnſient: yn yr oes hon mae Cymanfau o wyr Eglwyſig yn rhoddi braint i eſcobion *Rhufain a Chonſtantinopl*, i ſod vwchlaw eſcobion eraill; ac yn dechreu gorchymyn ffurf oſodedig o waſanaeth i Duw.

Wedi ir Saeſon oreſcin Lloegr a Bod yn bîr mewn anghredinieth, daeth attynt bregethwyr
598 o Rufain (ſef Awſtyn y monach) ac eraill, ac y gawſant lwyddaint yn eu taith, canys credodd *Penaethiaid a* chyffredin, a bedyddwyd dengmil yn ymyl *Eboroc* yn yr un diwrnod, a dywedir i ryfeddodau gyd ganlyn y gair er mwyn troedigaeth y Saeſon. Dywedir am *Gregorius* eſcob Rhufain y anfonodd y pregethwyr at y Saeſon, y crynei ef pan ddarllenei eiriau *Abra-*

ham

ham wrth y glwth, coffa i ti dderbyn dy wynfyd yn dy fywyd. Canys cyflawn oedd ei gyflwr ef yn y byd. Wedi i *Phocas* waedlyd lâdd ei feiſtr *Morys*, a myned yn ymerodr yn ei lê ef, er cael gair da eſcob Rhufain, rhoddodd iddo Ditl i fod yn ben ar yr holl eglwyſi: er i *Gregorius* ychydig o'r blaen brofi yn erbyn eſcob *Conſtantinopl*, nad allei eſcob yn y byd ymhonni or fath beth Luc. 16. 25. *Oed. Cr.* 602

Ynghylch y flwyddyn o oedran yr Arglwydd chwe chant, a thrigain a chwech, y dechreuodd creſydd *Mahomet* ledu drwy rym y *Saraceniaid*, y rhai oeddent wedi ſyrthio allan ac ymerodron y Criſtnogion: yr oedd yr oes hon wedi ymrannu yn reſunol o ran opiniwnau, a dychymygion dynol yn cael en croeſawu ymatterion creſydd. Ar hyn *Mahomet yr hudol*, (drwy help *Sergius Monach* eſcymunedig) y ddyfeiſiodd yr *Alcoran*, ſef llyfr gau greſydd y Turciaid. Ac am ei fod ef yn ſynych ynSyrthio yn y ffeintiadau, taerei mae ymddiddanion yr angel *Gabriel* y barent ei lewyg ef. Ac fal y derbynniai'r byd ei athrawieth ef yn rhwyddach, tymherodd hi i fodloni peth ar bawb. cydnebydd Griſt yn brophwyd ffyddlon er boddhâu 'r gwir Griſtion. Gorchmyniff enwaediad er mwyn yr Juddewon. Gwediff dduwdod Criſt er ynnill yr *Ariaid* oeddent aml yn y parthau hynny. Canhiadiff amlder o wragedd ir un gwr, a rhydd-did y cnawd, er denu y Sawl y garent bechod, yr hyn ſydd naturiol ir holl fyd: a hynny nid yn unic yn y bywyd hwn, eithr ymharadwys yr addaw ef wleddoedd, a gwragedd ir Sawl a ddilynant ei ffydd ef, ac a laddant bawb ai gwrtbodo. 666. Yn

Ynghylch hyn hefyd y daeth y gwaſanaeth ladin, letaniau ac amryw ddychymedig ddefodau mewn Cymeriad yn yr Eglwyſydd, er lleihâd i rinwedd, a phurdeb creſydd. fel hyn drwy 'r *Alcoran* a'r offeren mae bwgwth Duw yn dechreu Cymeryd gaſael ar ybyd, ſef *nerthol weithrediad cyſeiliorni am angharu'r gwirionedd.* Tybiſi rhai mae a'r amſer hwn y Cuttuna *rhifedi enw'r bwyſtfil*, gan benodi ei ddechreuad ef: etto niadawodd Duw mo'i etholedigion yn y monachlogydd, a'r eglwyſydd, o ba rai bu *Beda yn enwog* ymhlith y Saeſon, ac a gyfieithiodd beth o'r ſcrythur yn Saeſonaec. A gadawodd llawer o ſoneddigion a chyffredin eu hachoſion bydol, ac ymroddaſant i ſuchedd gaethach yn y monachlogydd, gan ymprydio a gweddio yn aml; ond Cam-arferwyd hynny mewn amſer i gynal llygredigaeth ofergoelus. Canys gorchymynodd y *Pab* oſod i ſynu ac addoli lluniau'r grôg a'r Seinctiau, ac eſcymunodd *Leo Iſaurus yr ymerodr, am* geiſio o hono wahardd addoli 'r delwau mudion, ac attaliodd yr Ital rhag uſuddhau iddo ef. Cymellodd y *Pab* hefyd arfer offeren *Gregorie* ymhob Eglwys, fal y byddei yr un ffurf waſanaeth ymhob man, a choronodd ef *Carolus magnus brenin ffrainc* yn ymerodr y gorllewyn, er mwyn cael ganddo ef ei hyfforddi ef yn y pethau hyn: Ac ymhen talm o ddyddiau chwanegwyd defodau newyddion at yr offeren, ſef gweddiau dros y meirw, a gwyliau calan gaiaf, a lluddwyd priodas ir offeiriaid, gan roddi iddynt lawer o freintiau awdurdodol yn lle priodas.

2 Theſ. 2. 10, 11. Dan. 13. 31.

729.

Oed. Cr. 854.

ynghylch

ynghylch hyn y dewiſodd yr eſcobion *Siwan* yn *Bâb* yn ddiwybod, canys dillad gwr y wiſcei hi, ac yſcolheictod y ſedrei hi, a phriſiodd yn wir Buttain o *Babilon*, a thra yr oedd yn rhodio dinas Ruſain daeth gwewyr eſcor arni hi, a ganwyd iddi faſterdyn yn yr heol. Cywilyddiodd yr eſcobion yn ddirfawr oi phlegyd hi, am ddarllen o honynt yr offeren a'r proſeſſi wrth ei dewis hi. y pryd hyn hefyd bu cyſtudd trwm ar y Saeſon, daeth gwyr *Denmarc* i mewn i Loegr, ac a laddaſant y Saeſon yn llidiog, heb arbed na Phethau Cyffredin, na Phethau Cyſſegredig, canys Paganiaid oeddent, a *Pharbâodd* y difrod anbrugarog hwnw yn hwy na dau cant o flynyddoedd. A chyn dyfod yr eſtroniaid hyn am eu pennau, ni pheidieu'r Saeſon a llâdd eu gilidd, canys yn faith brenhinieth y rhannaſent Loegr, yr hyn y barodd ymryſſon yn eu myſc; felly dialodd Duw waed y *Brittaniaid* arnynt, a gallent ddywedyd fel *Adonibezec*, *megis y gwnaethom felly y talodd Duw ini*; er iddynt dderbyn yr eſengil; fel y Cymerth *Dafydd* edifeirwch am lâdd *Uria*, *etto nid ymadawodd y cleddyf ai dy ef, dros hir amſer.* Barn. 1. 7. 2 Sam. 12. 9, 10.

Cafodd *Alured* er ei fod yn frenin duwiol, ei ran o'r gorthrymderau hyn. Hwn y Seiliodd yſcolion yn Rhydychen i hyfforddi gwybodaeth ymyſc y Saeſon, ni byddei ef un amſer heb ran o'r Scrythur yn ei gylch: a dymunodd ar Dduw anfon rhyw ddolur arno ef yw gadw oddiwrth anlladrwyd, a chynorthwyodd Duw ef yn ei flinderau. Er hynny mewn amſer daeth *Canutus* o Lychlyn i fod yn frenin ar Loegr, ac

wrth

wrth weled fal y trawſei Duw ei dad ef *Swanus* am ei greulondeb yn llâdd rhai crefyddol, ofnoddd ac adeiladodd fonachlog; a phan oedd gwenheithwyr yn mawrhâu ei awdurdod ef, eiſteddodd ar y traeth yn ymyl y môr, ac archodd ir llanw beidio a dyfod atto ef: ond pryd nad ufuddhae yw orchymyn ef, ceryddodd ei wenheithwyr, ac a ymddaroſtyngodd o flaen
Oed. Cr. Duw, ac a gyfaddefodd mae Duw oedd frenin,
990, a bod pob peth dan ei lywodraeth ef.

Cyn dyfod y blinder echryſlon ar Loegr oddiwrth *Denmarc*, gwelwyd Cwmwl drwy 'r deyrnas, ai hanner o dân, a'r hanner arall o waed; a glawiodd gwaed yn ymyl *Eborac*: wedi marw *Canutus cafodd Edward y Cyffeſſwr* y frenhinieth, yr hwn o-
1043. edd wr Duwiol. ac wedi ei farw ef, daeth y *Normaniaid i Loegr*, ac ynnillaſant y deirnas drwy vn frwydr, ac a feiſtrolaſant y ſaeſon yn drahaus, a rhe-
1066. olodd *William y Cwncwerwr* arnynt: y flwyddyn o'r blaen gwelwyd ſeren gynffonog ofnadwy uwchben lloegr dros ſaith niwrod.

Yn yr oes hon y tynnodd Anghriſt y mwgwd oddiar ei wyneb; gan ymddongos ir byd, y Twrc yn rheibus yn y dwyrain, a'r *Pab Hildebrandus* yn y
1074. Gorllewin, yr hwn oedd gonſuriwr (ſel y buaſei'r *pab Sylveſter* yr ail oi flaen ynteu yn y flwyddyn 1000.) ac yn gablwr; ac yn ymddercha fu uwchlaw brenhinoedd y ddaiar: ac o'r amſer yma allan, a thalm o'r blaen, drwy gleddyf, a gwenwyn, a chwnſurieth yr ymgodeu yr Pabau: weithiau byddeu dau, weithiau tri o honynt yn ymdynnu am y goruchafieth. a chan

iddynt

iddynt ymroddi i ddilyn cyngor y drwg cydffurfiaſant addoliad Eglwyſig yn y modd tebyccaf i ddiffodd purdeb ffydd yn enw crefydd, drwy attal oddiwrth bobl air Duw, ac yſpryd deallus mewn gweddi, ac yn lle hynny adrodd geiriau ladin ar dâſc heb ddirnad, na theimlad. ynghylch hyn y dechreuwyd cadw digwyl y meirw, yr hwn a ordeinwyd o herwydd breuddwyd *Abbad Cluniac*; yr hwn y welodd drwy hûn eneidiau'r meirwon yr cael bùdd oddiwrth ei offerenau ef. *Tra yr ydoedd y gweiſion yn cyſcu, yr havodd Satan yr Efrau.* Rhoddes *Berengarius* gynnyg ar argyhoeddi ofergoelion yr oes hon, a gorthrymwyd ef. ond drylliodd mellt a tharanau amryw o'r delwau yn eglwyſydd lloegr. a bu anfodlonrwydd Cyffredin am orfod o'r offeiriadau adel eu llêodd, neu wrthod eu gwragedd drwy orchymyn y Pâb: a phan appeliodd eſcob gorthrymedig at Griſt, rhoddes rybudd ir ſwyddogion pabaidd yw gyfarfod ef. Ymhen ychydig bu ef farw, ac mewn modd erchill cyrchodd angeu nhwythau ar unwaith. a gwelwyd rhyfeddodau lawer; Sychodd yr afonydd, crynodd y ddaiar, berwodd ffynnon o waed yn lloegr dair wythnos. Ymddangoſodd dwy leuad, a ſeren gynffonnog, a megis aneirif Sêr yn ſyrthio, a'r wybren ar dân oll. Wedi hynny gwelwyd tri haul, a thair lleuad, a chroes gôch ar draws y ganol. tyſtiolaethod amryw wyr duwiol a dyſcedig yn erbyn llygredigaeth yr amſer hwn, a merthyrwyd hwynt, ie er ir *Ymerodr Ffredericus Barbaroſſa* gyhoeddi drygioni'r Pâb, etto gorfu iddo

Math. 23.

Oed. Cr. 1092.

1110.

1158.

iddo ymoſtwng iddo ef; a rhoddes y *Pâb* ei droed
Pſal. 91. 13. ar ei wddf ef, gan gamarſer geiriau'r Pſalmydd, *y llew a'r ddraig a ſethri*: yr un yſpryd balchder yr-
1164. rodd y ddau Arch-eſcob faeſnig mewn cymanfa eglwyſig i ymwthio ac i ymgwffio am yr eiſted-
1177. dle uchaf. a thra yr oedd y *Phariſeaid* hyn yn anrhydeddu Duw yn ofer a thraddodiadau dynol, Cyſododd Duw bobl iddo ei hun yw addoli mewn yſpryd a gwirionedd: Sef yr *Albingenſes yn Tholouſe, a Croatia, a Dalmatia. Ar Waldenſes yn Lugdunum o ffrainc*, y rhai alwyd fal-hyn. Tra yr oedd *Waldez* dinaſydd goludog ac eraill yn cyd-ymddiddan, ac i un oi Gwmpeini Syrthio yn farw yn y lle, trawodd y fath ddychryn yndo ef, ac y barodd iddo ymroi i wellhâu ei ſuchedd: dechreuodd rannu llawer oi dda ir tlodion, a chwilio'r Scythurau, canys llythyrenog oedd ef, a chynghori ei deulu ai gymydogion i ediſarhâu; a chyfieithodd rannau o'r ſcrythur lân i rhai y welei ef yn ewyllyſcar yw dilyn: ac aeth y gronyn hâd mwſtard yn bren aml ei ganghennau. am hynny cyſtuddwyd ef ai ddilynwyr gan yr eglwyſwyr pabaidd, a chwalwyd hwynt, rhai i *Bohemia*, eraill i *Lombardy*, eraill hyd *taleithiau Ffrainc*, ac amlhâſant wrth eu gwaſcaru fal yr yd wrth ei hâu. Eu athrawieth oedd: *Na ddylid ollwn dim ir greſydd, ond ſy guttunol a'r Scrythyrau. Nad oes yr un Cyſryngwr heb law Criſt, ac na ddylid gweddio at ſeinctiau, na thros y marw; na ddylid addoli mor cymun, na lluniau, na themlau; mae Angriſt oedd y Pâb, am hynny y dylid gadel ymaith ei ddeſodau ef mewn*

bwydydd

bwydydd, ac amſercedd. Eu buchedd oedd gweddio yn hîr, yn wreſog, yn ſynych ymyſc eu gilidd, nid arferent un ffurf weddi, ond gweddi'r Arglwydd yn unic. Cyn Cymeryd eu bwyd gweddient ar i Duw ei ſendithio ef, fel y torthau yn yr anialwch. Athrawiaethent eu gilidd yn boenus. Nofieu un o honynt liw nôs dros afon amſer gaiaf i hyfforddi cymydog yngrâs Duw; byddei'r Scrythur ganddynt ar eu tafod leferydd, ie gan y bobl wledig; dioddefent eu llâd am eu ffydd yn gyſſurus.

Yn ſynych byddei Duw yn eu gwaredu hwynt a'u brodyr yn rhyfeddol, megis yn *Tholouſe*, lle y lleihâodd cornwyd y ſyddyn Babaidd oedd yn gwarchâu arni: ond wedi hynny rhoddodd y ddinas raſol honno genad i eſcobion coelgrefy ddol i ddyfod i mewn i ymgomio ynghylch eu ffydd, y rhai fel bradwyr y ddygaſant filwyr gyda 'u Cwttiau i dywallt gwaed gwirion. Mae eglwys y Groegiaid yn ymadel ag eglwys Ruſain, eiſieu cael gan y Pâb ddiwygio'r pethau oedd feius. yr hwn oedd yn pwyſo yn drwm ar Loegr hefyd, ac yn tynnu ei thryſſor atto ei hun am bardynau ir eneidiau, ac wrth amryw drofeydd eraill, onid oedd y penaethiaid yn achwyn arno wrth gymanfâodd Cyffredin. Blin echryſlon hefyd oedd helynt Criſtnogion y dwyrain yn *Aſia*, *Syria*, a'r gwledydd oddiamgylch, o herwydd y *Twrciaid*; y rhai er nad oeddent ar y cyntaf ond byddyn fechan y ddaethei o *Scythia* i gynorthwyo *Perſia* am gyflog, etto wedi Syrthio allan a'r *Perſiaid* gorchfugaſant eu teyrnas hwynt,

Oed. Cr. 1220

1237.

1245.

ac

ac eraill o'i hamgylch, a derbyniasant goelgrefydd *Mahomet*, oedd yn y gwledydd hynny o'r blaen. Ac er i dywysogion y gorllewin sef *Godfrey o Builon* ac eraill arwein byddinaedd Cedyrn yn eu herbyn, ac ynnill *Jerusalem* oddi arnynt, a llâdd o honynt lawer cant o filoedd, etto tyfei anghydfod rhwng y tywysogion a'u gilidd, neu rhwng yr ymerodr a'r Pâb ynghylch arglwyddieth, y roddei achlyssur i'r *Turciaid* i ynnill eu colled gyda'g elwie Cenfigennodd *Ymerodr Constantinopl a'r* Groegiad wrth y byddinoedd Ladingaidd, a chymysgent galch gyda'r blawd y werthent iddynt, yw gwenwyno. Er bod y Cristnogion ofergoelus (y rhai oeddent yn erlid purdeb crefydd yn eu gwladwyr eu hunain) yn anllwyddianus yn eu rhyfel a'r Twrc, etto daeth *Tamerlan ymerodr Tartaria* a byddyn yn ei erbyn ef, ac ai gorchfygodd efgan gau ar *Bajazet* (*yTwrt penaf a chreulonaf yn ei amser*) mewn grât haiarn sel llew yw herddangos: ac er mwyn cospi ei falchder ef, sangei ar ei gefn ef wrth fyned ar ei farch. Ar y daith hon dûg y Cwncwerwr hwn lawer o deyrnasoedd dano, a bu dirion wrth y Cristnogion. Pan oedd *Bajazet* yn myned tua'r frwydr hon mewn gofal a galar, (canys clywiei ddarfod i *Tamerlan* ynnill *Sebastia* oddiar eu wyr ef, a llâdd ei fab ef *Orthobules*) aeth heibio i fugail ydoedd yn canu pibau dan areilio ei braidd, gan ochneidio, a dywedyd, *dedwydd wyti nadoes geniti na Sebastia nag Orthobules yw golli.* yr hyn fy'n dangos, mae gwell yw Cyflwr y rhai Sy'n bodloni ar ychydig, na'rhai Sy'n meddu llawer.

Yn

Yn y gorllewin rhydd Duw ſwyſwy o eleuſyneg am lygredigaeth yr eglwyſwyr, ac mae rhai drwy'r yſpryd glân yn cael deall yn llyſr y Datcuddiad, ac yn profi mae Anghriſt yw'r Pab: ac yn prophwydo y cofodeu Duw weinidogion tlodion i bregethu'r efengil, ac i borthi praidd Criſt yn dduwiol. Ac yn dangos ſel yr oedd rhagrithwyr oſergoelus, *yn addurno eſcyrn y Sainct Meirwon, ac yn penydio y rhai byw am wirioneddeu ffydd. A'u bod yn fflangellu delwau bywiol Duw, ſef ei bobl, yr iddynt addoli delwau meudion.* a'u bod yn porthi, neu yn bytrach yn ſiomi defaid Criſt a phorſa ſur, ac afiachus, ſef dychymygion dynol, ac yn cau yn fanwl rhag iddynt gael blâs ar dir Duw, ſef y ſcrythurau. Rhagſynegodd rhai Sanctaidd *y Cyſodeu Duw rai yn yſpryd* Elias *i adferu purdeb creſydd*, er ei bod y pryd hynny dan gwmwl. Ac ymhen ychydig annogodd yſpryd yr Arglwydd *Ioan Wiecliffe* i *thro'r Gadair yn Rhydychen* i oleuo Lloegr. Yn hwn wedi ei erlid gan yr eſcobion a bregethodd yn droednoeth, gan dynnu llawer oddiwrth eulynddoliad pabaidd, i chwilio'r Scrythurau ac yw dilyn: arferei ef, a llawer o frodyr bregethu yn yr heolydd ar ddyddiau marchnad, pan lyſwyd yr Eglwyſydd iddynt. A phan oedd Cymanſa yn *Llundain* yn myned ynghylch holi *Wicliffe* ai lyfrau, digwyddodd yn yr awr honno ddaiar gryn mawr, a ddychrynodd y *preladiaid*. A mhâoddyſcyblion i Griſt yn ddirfawr drwy bregethau a llyfrau yr eſengylwr daionus hwn, ai gydweithwyr, er gwaetha'r rheolwyr oeddent yn ceiſio eu rhwyſtro:

Oed. Cr. 1324.

Oed. Cr. 1371.

ac wedi ei farw ef ai ben ar y gobenydd (canys causei ddiogelwch drwy hyfforddiad rhai o'r penaethiaid) scrifennodd yscolheigion Rhydychen dystiolaeth ir hollfyd oi burdeb ai Sancteiddrwydd ef.

Je yn *Bohemia* cyfododd *John Husse*, ac yscolheigion enwog yn *Prague* i siccrhâu ei athrawieth ef, gan brofi *fod Duw yn anfon y pregethwyr oeddent yn dal allan burdeb yr efengil, er bod y Pâb ai escobion yn eu gomedd, a bod eu cariad tu ag at Dduw ai bobl, au Sancteiddrwydd, au dioddefgarwch, yn arwyddion disiomedig oi galwad, canys wrth gariad yr adwaenir dyscyblion Crist*. Ac er i lawer geryddu *Husse* (fel y gwnawd a *Bartimaus*) i geisio ganddo dewi, etto llefodd yn fwy o lawer yn erbyn eulynaddoliad yr amser, a dangosodd y fath Anghenfil ydoedd yr Anghrist, gan fod tri phen, sef tri Phâb a'r unwaith yn ymdrechu am y llaw vchaf, y gwahaniad hwnw y lêdodd iddo ef ddrws ymadrodd. er diwedd anfonodd yr ymerodr am dano ef i *Gymansa Constance*, lle y caeth garcharwyd ef mewn heirn, er iddo o'r blaen gael addewid yr ymerodr a'r Pab penaf, (y rhai oeddent yno yn bresenol) y gallei ef fyned a dysod yn ddiogel ddirwystr. A phan welsant nas gellid moi ddenu ef at Babyddieth, blingasant ei goryn ef, (er tynnu ymaeth yr olew Cyssegredig meddent, ar hwn yr enneinaifid ef wrth dderbyn urddau) a gwiscasant am ei ben ef gap a lluniau Cythreuliaid wedi eu peintio arno, a llosgasant ef yn ylw; a thaerasant na ddylid cwplau addewid i *Heretic*. Oud tra yr oedd ef wrth y stange yr oedd ei gynghorion ef mor fuddiol,

diol, ai weddiau ef mor nerthol, onid oedd y bobl yn cydnabod iddo farw yn rasol. Oed. Cr. 1415.

O Garchar scrifenodd at ei wladwyr yw cadarnhâu yn y ffydd, gan ddywedyd *iddo gael datouddiadd y galwei'r Arglwydd bobl rasol iddo ei hun, ac orheini y Cyfodeu weinidogion i adferu grym duwioldeb. Ac os lloscau 'r Papistiaid ei lyfrau ef, fel y gwnaeth yr Iuddew a phrophwydolieth Jeremi, etto gosodid allan yr athrawieth eilwaith yn helaethach.* Jer. 36. 21.

Ar ol Husse Canlynodd *Jerome, ei gyfaill anwyl, ac athro dyscedig* o'r un ddinas. Yr hwn pan aeth i *Constance* o honaw ei hun i ymweled ai *frawd Husse*, (fal y Cynorthwya 'r naill aelod y llall mewn anghyflwr) Carcharwyd ef yno yn gaeth-filain dros agos i flwyddyn; ac er iddo lithro unwaith, etto yr eilwaith yr ymddangosodd o flaen y gymanfa, argyhoeddodd hwynt yn llym am waed *Husse*, a phrofessodd y wir grefydd yn nerthol; a daliodd hi hyd farw: am hyny lloscwyd ef wrth stanc cerfiedig ar lûn *Husse*, er Chawnegu ei alar, dywedodd y ddau ferthyr hyn wrth y *Papistiaid, y caent atteb i Ddaw, ac iddynt hwythau am eu gwaed ymhen y can mlynedd.* Ond darfu ir tân y laddodd yr athrawon sywhâu'r dyscyblion yn *Bohemia*, lle 'r ymnerthasant i ymddiffyn eu crefydd an bywyd; ac er ir *Pab* ar *ymeroâr* anfon lluodd mawrion yw diferthu hwynt, etto gorchfygasant y *Papistiaid gwaedlyd* mewn un brwydr ar ddeg cyn marw *Zisca eu Capten*, a hynny mewn modd rhyfeddol; canys ychydig nifer oeddent mewn Cyffelybieth yw

gelynion, a thrawei'r fath ofn yn y *Papistiaid*, oni ffôent Cyn ymladd weithiau. Ac wedi'r gwarediadau rhyfeddol hynny, mewn amser tyfodd gwahaniadau rhwng y penaethiaid, a thrwy frâd rhoddwyd y deyrnas ir *ymerodr*; yr hwn ai Cymerth yn fwynaidd, ac a orchmynodd ir hen filwyr ymgasclu i fewn yscuboriau er mwyn derbyn eu Cyflog yn heddychol, a Phan gafodd hwynt ynghyd, parodd losci'r yscuboriau, a nhwythau ynddynt. Yn Lloegr y Paratowyd yr un ymdrin ir ffyddloniaid gan eu llysenwi yn *Lolards*, (sef *lolium* (art) hynny yw efrau: ac am hynny Ceiswyd eu chwynu, a'u llosci, a rhwystro eu cyfarfodydd. Er gosod petisiwnau ar ddyssau'r *Parliament* am ddiwygiad grefoddol, etto ni cheid hynny drwy awdurdod ddynol yn yr oes honno; eithr rhoddwyd i farwolaeth y rhai ni addolent y groes, a'r bara yn y Cymun, a gosodwyd Cyfreithiau caeth i chwilio am bob dyn, a phob llyfr yw difetha, a'r y ddalieu allan y wir athrawieth: er hynny chwanegeu rhisedi rhai duwiol, er syrthio rhai, cyfodeu eraill, ond lleihâodd y *Papistiaid* beth, canys lladdwyd o honynt ddau cant o filoed yn y rhyfel y fu rhwng dau *Bâb* oeddent yn ymryssion ai gilidd dros naw mlynedd a'r ugain. Gwnaeth *Arglwydd Cobham* ei ran yn pledio gyda'r wir grefydd hyd farw, tystiolaethodd iddo gael grâs i ofni Duw, er pan dderbyniasei ef athrawiaeth *Wiccliffe*, ai fod o'r blaen yn byw mewn amryw bechodau ynghymdeithas y *Papistiaid*. Pan alwent arno i addoli 'r groes, estynnei allan ei freichiau, gan ddywedyd

Dyma

Dyma groes o wneuthuriad Duw, (gan feddwl ei gorph trá'r oedd ei freichiau ar lêd) ac etto nid addolwch, onid erlidiwch fi, anrhefymol ynteu addoli croes o waith dyn.

Merthyrwyd un ar bymtheg ar ugain ar unwaith, ac ymhen y mis trawodd Duw dafod *Arundel Archefcob Caergaint*, fel nad allei na llyncu, na lleſarn amryw ddyddiau Cyn ei farw, a chydnabyddod llawer yr amſer hwnw gymwyſed oedd barn Duw yn erbyn yr hwn oedd mor fywiog yn Ceiſio goſtegu gwir bregethwyr yr elengil. yn yr oes hon y gorchmynwyd dau wyl i Fair. *Oed. Cr.* 1439.

Ond mae Duw yn dychwelyd at y byd a mawr drugaredd, ac yn rhoddi dawn i ddyn y briſiodd yn hyffordiant mawr ir eſengil, ſef celfyddyd preintio; mynnei 'r ſcrythur i ddynol ryw gydnabod mae o'r nêf y mae cyſarwyddyd yn dyfod i drin y ddaiar, fel y caffo dyn lunieth Corphorol: ynteu llwyr y dylid ſendithio Duw am y modd hwn i amlhâu llunieth yſprydol, ynghylch mor ſuddiol a dawn y tafodau yn amſer yr Apoſtolion. 1450. Iſai. 28. 24.

Cyn y pryd hyn yr oed yr Srythurau a llyfrau da eraill yn anaml, ac yn ddrudion, o herwydd meithder eu ſcrifenu: profwyd ar lw yn erbyn proffeſſwr mewn llys pabaidd *yn y flwyddyn* 1429. iddo roddi un ſwllt or bumtheg ar ugain am y teſtament newydd yn *Llundain*: tebygol y Coſtiaſei 'r bibl Cyfan y tri chymaint, am yr hyn ſwm y galleſid purcaſu hawl i gryn dyfyn o dir yn yr oes honno. Ond yn ein dyddiau ni aml a rhâd yw llyfrau da, ac yſcolion yw dyſcu, am hynny hawſach cael gwybodaeth o air Duw, yr hyn ſydd

yn ddyrnod pen ir *Anghrift* : am ſod anwy bodaeth yn Cadarnhâu Cyſeiliorni, fel y mae oerni yn caledu 'r pyg, a goleuni ai gyrr i gilio, fel y gwna 'r tân ir plwm ymollwn.

Yſtyr rhaglunieth Duw, pan oedd yr *Eglwys* yn amlhâu ac yn dyfod o'r *Aipht*, y rhoddes ef ei ewyllys yn gyntaf yn ſcrifennedig, a phan oedd ar amlhâu a gwaredu ei bobl oddiwrth Babyddieth, caniadodd ei ſcrythurau yn breintiedig gyntaf. *Yn y flwyddyn o oedran Criſt* 1453. darſu ir *Turciaid* ynnill *Conſtantinopl*, prif ddinas ymerodraeth Griſtnogol y dwyrain dros un cant ar deg o flynyddoedd, ſef er amſer *ein gwladwr Conſtantinus* yr hwn ai hadeiladodd hi. Gofidus fyddei mynegu a chlywed doſted ſu ei difrod. Goreſcynnodd y *Turciaid Creulon* yn yr oes hon ddau cant o ddinaſoedd, a deuddeg o deirnaſoedd, a dwy ymerodraeth Griſtnogol, a hyny yn amſer un oi brenhinoedd : heb law y teirnaſoedd enwog y dreiſiaſant drwy fin arfau gynt a chwedi. Yr achoſion amlwg o lwyddiant yr Anghred hyn ydoedd lawer. *Sef,*

Oblegid ir Criſtnogion ymlygru gan mwyaf, heb roddi iawn ymddiried yn-Ghriſt, ond dewiſent *St George*, *a St Dennis*, ar cyfryw yn ymddiffynwyr iddynt, gan adel *Jeſu* heibio, heb yr hwn nis gallent ddim. Ac yr oeddent mor filain yn erbyn eu brodyr y ddilynent rym yr efengil, ac oedd y *Turciaid* yn erbyn y rhai a broffeſſent ei ffurf hi; ie mor amhûr ydoedd buchedd y rhan fwyaf o'r Criſtnogion, oni orfu i *Criſt* ddangos barn arnynt er tyſtiolaethu yn-

Joan. 15. 5.

gwydd

gwydd ei elynion mor anſodlon oedd ef i bechodau y rhai a ymhonnent oi enw ef; ac mor gâs oedd gando anwiredd, i hyn yſtyriwn yr hiſtori yma. Wedi ir *Twrc* wneuthur Cyngrair a *brenin Polonia*, *ac Hungaria*, a Symud ei fyddinoedd ymaeth oddiwrtho ef yn ddigon pell, gwelei'r *Pâb* y gallei'r brenin gael barr gwâg i ynhill peth oddiar y *Twrc*, os torrei ei ammod; ar hyn gwnaethpwyd rhuthr am ben y *Twrciaid*, a nhwy heb ddiſgwil dim o'r fath beth: a phan oedd y *Twrciaid* yn y frwydr ar golli'r maes, tynnodd eu brenin hwynt oi fynwes yr yſgriſen, lle yr oedd ammodau'r Cyrtundeb ar lawr, gan ddywedyd. *O Griſt os wyti Ddaw ſel y dywedant, ac y tybiwn ninnau dy fod ti, dial yr anffyddlondeb hwn ar y bobl ſy'n proſeſſu dy enw di, ond a'u gweithredoedd yn dywadu di.* Ar hyn aeth y *Twrc* yn drèch, er ei fod o'r blaen ar y gwaethaf. Amſeroedd eraill pan aent ir frwydr dan gablu Criſt, gorchfygid nhwythau; ond y naill amſer gyda'r llall, caniadodd Duw iddynt fod yn ffiangell liteiriol yw bobl anufudd; odid ddinas na thrêf drwy *Aſia*, *Affrica*, *a rhan fawr o Europa*, lle ni wnaeth yr angheredd geirwon hyn i waed y Criſtnogion ffrydio, a'r rhai y arbedei eu cleddyf, a werthid fel aniſeiliaid o farchnad i farchnad i dynnu yn lle ychen, neu i wneuthur rhyw galedi arall. Ac yn gwir ni chaiff y Criſtnogion y ſydd dan dreth drom ymyſc y *Twrciaid*, mor ymgynnill ond yn ddirgel, na bod mewn ſwydd, na gwiſco arfau, na dillad cwalth o'r un ſut a hwynt: na gwrthwynebu un cabl air yn erbyn *Criſt*: ac os dywed

ant

ant ddim yn erbyn *Mahomet*, cânt eu lloſci. Ar peth truanaſ o'r cwbl yw orſod iddynt ymadel a'u plant i ddwylo gelynion *Criſt* yw dwyn i ſynu megis mewn monachlogydd yn y gau grefydd, ac i ddyſcu traenio, ſel pan dyſont, ac anghofio eu rhieni (canys ni chânt ſyth moi hadnabod mwy ar ol eu tynnu oddiwrthynt) yr ymladdont yn ſedrus yn erbyn yr eſengil.

1506. Yn Lloegr Lloſcwyd pobl dduwiol am ymwrthod a phabyddieth. Tra yr oeddynt yn lloſci un o honynt yn cheaping Sadberie, torrodd tarw baiciedig yn rhydd, ac a whyliodd y *Doctor Whitzington* a gondemniaſei'r merthyr, gan luſco ei berſedd eſ hyd yr heol wrth ei gyrn, heb gwffwrdd a neb arall yn yr holl ymwaſc. Etto ni chymereu'r erlidwyr ddim rhybudd: eithr cipiaſant *John Browne* oi dy, ac ni chaſodd ei wraig moi hanes eſ, nes ei ddwyn eſ yw lôſci yn agos yw gartref: a thra'r oedd eſ yn y Cyffion yn aros ei ddihenydd, mynegodd yw wraig fal y darfuaſei ir *Eſcob* lôſci ei draed eſ hyd at yr eſcyrn, yw gymell eſ i wadu ei ffydd: ac wedi dymuno arni hi, ai blant barhâu yn ofn Duw, ymroddodd ir tân.

A *Thomas Man* a folianodd Dduw am ei wneuthur eſ yn offer i droi ſaithgant at y ffydd, yr oedd eſ yn marw droſti.

Yr oedd cynulleidfâu mawrion o bobl dduwiol yn ymgyfarfod heb wybod ir *Eſcobion* yn amryw fannau yn Lloegr; ond wrth gymell y wraig i dyſtiolaethu yn erbyn y gwr, a'r plant yn erbyn eu rhieni, a'r naill frawd yn erbyn y llall, cafwyd yſpyſrwydd, pwy oeddent yn dyſcu i

eraill

eraill werſi o'r teſtament newydd, a'r credo, a'r dêg gorchymyn, ac yn darllen neu yn gwrando yr Scrythurau ſaeſonaec y nôs, a tharfwyd hwynt fel y defaid gan y bleiddiaid.

Er nad oedd ond ymbell ddarn o'r ſcrythyrau yn ſaeſonaec, a rheini yn wahardddedig drwy gyfraeth y deyrnas, ac heb fawr bobl lythrenog hyd y wlâd y ſedreu eu darllen, etto rhyfeddol amled oedd y rhai y gawſent râs wrth eu clywed mewn cornelau, *a gwelwyd gwendid Duw yn gryfach na dynion.* 1 Cor. 1. 25.

Ynghylch y dyddiau hyn y prophwydodd rhai duwiol y glanheid yr Eglwys oddiwrth ei llygredigaeth, ac yr ail blodeuei purdeb yr eſengil: digwyddodd hefyd rai rhyfeddodau. *Syrthiodd croeſau gwaedlyd, a llún hoelion, a gwaiwffon ac yſpwng ar wiſcoedd pobl yn Germania. Tra yr oeddid yn Rhufain yn Cyſſegru priſ henuriaid, trawodd temeſtl angerddol yr Eglwys lle'r oeddent, ond Syrthiodd yr agoriadau o law delw Peder.* Angwanegodd dyſceidieth, a phreintwyd llyfrau'r hên athrawon, drwy lafur *Eraſmus* ac eraill. A chyfododd llawer o wyr duwiol dyſcedig i chwilio'r ſcrythyrau yn yr ieuthoedd, ymha rai yr ſcriſennaſeu'r *Prophwydi*, a'r *Apoſtolion* hwynt, *ſef yr Hebrew*, ar *Groeg*, a chawſant ddwfr y bywyd yn loiwfach yn y ffynnon, nag yn lleſtri mws y *Pâb.*

Scriſennodd *Luther*, *a Melancton*, *a Zwinglius*, a llawer eraill yn erbyn marſiandiaeth, ac enlynaddoliaeth y *Pâb: Na thalen yr Pardynau ddim y anfonei ef i bob gwlâd yw gwerthu am arian, ond bod maddeuant Pechod drwy ffydd yn-Ghriſt, ac y dylid addoli yn ol ewyllys Duw, ac nid yn ol coel y Pâb.*

Ar hyn caſclodd *Ymerodr Germania* gymanfa fawr o holl lywodraethwyr ei wledydd i ddinas *Wormes*, lle yr anſonwyd am *Luther* i bledio ei achos. A phan amlygodd yr *Ymerodr* wrthwyneb i ddywygiad crefydd, ceiſiodd ei gyſcillion gan *Luther* nad anturieu fyned ir ddinas: attebodd ynteu, *Yr ai ef i mewn yn Enw'r IESV, er bod yno gymaint o gythreuliaid yw wrthwynebu ef, ag oedd o gerrig ar bennau yr tai.* A phan ddaeth ger bron, ymadroddodd yn galonog ymhlaid yr efengil; gan yſpyſſu yddint, *Na ddylid coelio angel o'r nef gwaethach dynion ar y ddaiar, yn erbyn gair Duw.* A'r flwyddyn gwedi hyn ſcrifenodd y Pâb at Benaethiaid *Germania* oeddent ynghyd yn *Norenberg*, i ddymmo arnynt chwareu yr meddygon gofalus, a ſerio Cancr *Luther* a thân, fal na thaneu ymhellach. Ond attebaſant iddo, fod ei reolaeth lygredig ef yn blâ ir byd, am fod y gollyngdod y wertheu ef oddiwrth bechod, ai benyd yn y byd hwn, a'r purdan, yn gwneuthur pobl yn anuwiol, gan hyderu y gallent gyflawni eu chwantau, ac achub eu heneidiau am ychydig arian; gan benodi ynghylch cant o ſeiau anafus oedd yn Cyd-galyn pabyddieth.

Gal. 2.

Oed. Cr. 1522.

O hynny allan ymoſodd y tywyſogion i ſwcro'r pregethwyr, a'r bobl dduwiol i addoli Duw mewn purdeb yn gyhoeddus, ac nid yn unig mewn tyllau fel o'r blaen. Caſodd gweinidogaeth *Zuinglius*, a *Leo Juda* dycciant mawr yngwladwrieth *Helvetia*, lle gorchmynodd y Swyddogion loſci yr delwau, a bwrw ymaeth ddefodau llygredig, a phregethu gair Duw yn aml ac yn blayn,

blayn, gan gyhoeddi eu bod yn dal fulw fel yr oedd yr offeiriaid Pabaidd yn arfer cyrofergoelion er mwyn elw, a derchafu'r *Pâb*, a bod gweinidigion efangylaidd yn ceisio bûdd eneidiau, a derchafu *Crist*: ie ymha ddinas bynnag neu deyrnas y cafeu pregethiad yr efengil ychydig ryddid, Syrthieu'r offeren a'r delwau i lawr yno, fel *Dagon* gynt o flaen yr Arch. Ac yn gymaint nad ellid diſgwil amgenach, na chyfodei Ceidwad y Carchar uffernol waedd ac erlid ar ol y Carcharorion aethent yn rhyddion oddiwrtho ef, drwy ffydd yn Ghriſt, ymfoddd *twyſogion Germania*, ac arglwyddi dinaſoedd breimol mewn proteſtatiwn, ſef cyhoedd ddarcan eu meddwl i gyd-gynal dywygiad, ac am hynny y galwyd hwynt yn Broteſtants. 1529

O hyn allan aeth y Papiſtiaid yn greulonach, megis *eirth wedi colli eu cenawon*, wrth y Proteſtaniaid y ſyddeu dan eu palfau hwynt: gan dynnu aelodau rhai a gefail, a chladdu eraill yn fyw, a lloſci eraill yn ylw, a throgi eraill. Ac er na ddiffoddeu eu gwaed hwynt mo boethder digoſaint yr *Anghriſt*, etto troe llawer at râs Duw, wrth weled dioddefgarwch y merthyron diweddaraf megis y rhai Cyntaf.

Encyd wedi torri pen *George Scherter* (y droeſeu lawer at *Griſt* yn ei fywyd) ac ir Corph farw ynhyb pawb, trôdd ar ei gefn, ac a roddes y troed dehau dros yr aſſwy, ac felly ei ddwylaw yn groes wrth weled hyn ofnodd pawb, a chredodd llawer yw athrawieth ef, canys addawſei iddynt arwydd oi fod ef yn marw dros *Griſt*.

Yr

Yr oedd un yn *Mount Peliers* yn bodloni ymwadu a ffydd y Proteſtaniaid, er mwyn cael myned allan o garchar; a chyttumodd y Papiſtiaid it peth, ond iddo gymeryd hyn yn benyd arno, feſe drych ar loſci un oi hên gymdeithion yn y ffydd, yr hyn y wnaeth ef: ac wrth weled mor gyſſurus yr oedd hwnw yn marw, gwrthododd wadu ei ffydd, ei thr dewiſodd ddioddef drofti.

Er maint fu blinder eraill, etto caſodd *Luther* farw ai ben ar y gobenydd yn heddychol, ar ol iddo dros naw mlynedd ar ugain bregethu yn ſuddiol, a gweddio yn nerthol, ac yſcryſennu yn orcheſtol, a chael gwarediadau rhyfeddol, a dilyn buchedd Sanctaidd. Pan fyddeu golud yn dyfod atto, ofnei yn ddirfawr rhag bod Duw yn cynyg ei wobr iddo yn y byd hwn, gan ddwedyd, *Na chafei Duw fodloni mono felly.* Y diwrnod Cyn ei farw ef yr oedd ymddiddan ar ei fwrdd ef ynghylch y Nêf, a ydoedd y ſainct yn adnabod eu gilidd yno; A thra'r oedd ynteu yn eiſtedd yn egwan gyda hwynt yw bryd bwyd, adroddodd ei dyb, mae *fel yr adnabu Adda Efa ym-Haradwys er na welſei moni erioed o'r blaen, felly y bydd Cymdeithas y rhai perffaith yn y nêf, er na welſant eu gilidd mewn Cyrph gogoneddus erioed o'r blaen.*

Yn yr Hiſpaen mae yr ymgais melltigedig yn llâdd llawer o rai duwiol, dyſcedig, a boneddigaidd-Teiſi y Ceiſiaid hyn y neb y ſynont i garchar tywyll du, lle ni chaiff y Carcharor na darllen, nac yſcrifenu, ac os dywed y plentyn air dros ei dâd caeth, caiff yr un triniad ac yntef, am ddymuno yn dda i heretic. Dirdynnir yno, a llwythir a heirn yn greulon, ac yn ddirgel. Ymyſc

Ymyſc eraill y ſerthyrwyd yn yr *Ital*, nodedig ſu *dioddefgarwch Pomponius Algerius yſcolhaig o Padua*: yr hwn pan garcharwyd eſam ei zêl i bur greſydd, yſcrifenodd at ei frodyr, *Iddo ef ſel Sampſon gael dîl mêl ymol y llew, a pharadwys hyfryd yn y daiardy drewllyd, a llawenydd neſol yn yr ogoſ uffernol, ar lle bydden eraill yn eryrus, ei fod ef yn ymhyfrydu, a bod Criſt mor ſwyn a chadw Cymdeithas ai weiſion yn y Carchar iſaf*; Seliodd y ffydd ai waed yn Rhufain. wedi hyn condemnwyd vn cant ar bumtheg yn *Calabria* gwlâd or *Ital*, lle y derbyniaſid yr eſengil yn ewyllyſcar; a thorrodd y *Papiſtiaid* wythi gwaed pedwar ugain o'r *Proteſtuniaid* yn yr un diwrnod a chyllell gigidd, gan eu llâdd ſel defaid ol yn ol yr ydoedd y merthyron mor ſodlon i farw, a'r dihennyddiwr mor waedlyd yn taro ei gyllell rhwng ei ddannedd, tra fyddei yn ymaflyd yn y naill 1560
ar ol y llall, onid oedd yr edrychwyr yn wylo gan erchylled oedd y golwg: etto ni orphwyſaſont nes diniſtrio dwy dref, a mil oi trigolion.

Yr un ſiunyd y gwnawd yn *ffrainc*, a'r *Waldeſiaid yn Merindol a Cabriers*; y rhai a ddaliaſent burdeb yr eſengil yn dreſtadol er ys talm o flynyddoed; lle y lladdwyd y gwyr a'r gwragedd, a'r plant, heb arbed nebûn chyflawnodd y *Papiſtiaid* yr un peth ac yr ydoedd yr *Apoſtol Iago* pen 5.6.
yn achwyn rhagddo, *Condemnaſaut a lladdaſaut y cyfiawn, ac ynteu heb ſefyll yn herbyn*. Y Cyfryw zêl waedlyd i Baby ddieth y barodd i *ddawns Safoy*, erlid yr un bobl yn ei argiwyddieth

ynteu,

ynteu, Sef *Piedmont*, tan y mynydd *Myneu*, gan rostio rhai o honynt wrth dân araf, a chaethiwo eraill mewn llongau, a gyrru eraill i lechu ir creigiau.

Ynghylch hyn y bu *Calfin* yn bregethwr hynod yn *Genefa*, yr hwn oedd yn studio 'r gyfraeth ar y Cyntaf, nes i Dduw ynnill ei galon ef at yr scrythurau: yr ydoedd ef yn un o'r pregethwyr puraf, a chyflawnaf o râs a dysceidieth, a'r y fu er amser yr Apostolion, daeth llawer o'r *Ital*, a'r *Hispaen*, a *lloegr* at ei weinidogaeth ef, o ran arogl y bywyd oedd ynddi: dûg lawer o boen, a chystudd yngwaith yr arglwydd, er bod *Duwc Safoy* yn cenfigenu wrth ffyniant yr efengil yn y ddinas enwog hon, etto ymddiffynnodd Duw y ddinas ai eglwys yn ei erbyn ef. Ar ol *Calfin bu Beza* yn golofn yn eglwys *Genefa*, yr hwn oedd lawn o olud, a dysc, a goruchafieth: ac wedi ir Arglwyd ei ddarostwng ef drwy ddolur, ymrödd i ogoneddu ei waredwr yngweinidogaeth yr efengil, gan wneuthur ammod a Duw yn ei gyfyngder yngeiriau'r Prophwyd, *dwg fy enaid allan o garchar fel y moliannwyf dy enw.*

Psal. 142. 7.

Yn *Scotland* bu *Cnocs* yn *athro llwyddianus* i adferu gwir rasol ddysc, rhoddodd Duw iddo ddawn i rhagfynegu Pethau, yn enwedig yn erbyn rhwystrwyr yr efengil. Anibenus fyddeu portreiadu llafur a lludded Cymaint ac y gyfododd Duw i alw'r byd o dywyllwch i oleuni yn yr oes hon y tu hwnt ir môr, dyfal oeddent, a mentrus mewn dadlau Cyhoeddus i gau safnau athrawon Papyddieth. Di-

wyd

Diwyd yn Pregethu, ac yn ſcrifenu, addſwyn yn dioddef, nerthol mewn gweddiau; rhaid im ddywedyd yngeiriau *Daſydd*, *yr Arglwydd a roddes y gair, mawr oedd mintai y rhai a pre-gethent.* Pſal. 68. 11.

Yn *Lloegr* befyd bu tyſtion ffyddlon i Dduw y pryd hyn, megis *Bilney*, yr hwn wrth glywed llawer yn dywedyd, *na chlywſem er ied ſôn am adgyfodiad y Corph*, (canys ni ddeallent mo'r credo Lladin) tofturiodd wrth ei wadwyr, a phregethodd ymhob man y cafei rydid ynddo: ac yn y maeſydd, ac o dy i dy, nes ei loſci ef am ei boen, efe drôdd *Latimer* at Dduw.

Hynod fu gwaith grâs befyd yn *Jawet Bainham*, gwr o gyfraith, a mâb i farchog; yr hwn drwy gôſp y gymellwyd ai enau i wadu ffydd ei galon; ond Cyn pen y mîs wedi iddo gael rhyddid ei gorph, yr oedd ei gydwybod ef yn gaeth, nes iddo fyned at gynulleidfa ddirgel o'r bobl dduwiol, a chydnabod eu gwymp yn ediſarus: Oed. Cr. 1532. aeth befyd ir eglwys blwyf ar y Sabboth, a'r teſtament newydd Saeſonaec yn ei law, a myne-godd in holl bobl dan wylo dagrau heilltion, ſel y darſuaſei iddo ef wadu Duw, a dymunodd arnynt faddeu iddo ef: gan eu Cynghori i ochelyd dicter Duw, a'u galw hwynt yn dyſtion, ei fod ef yn dych-welyd at y gwirionedd eilwaith, yr hyn y lcriten-odd ei at yr Eſcob befyd. Am hyn Carchar wyd ef yn fleiniach nag o'r blaen; gan ei gadw yn y cyffion a heirn ar ei draed bum thegnôs yng lôdy'r Eſcob, ai ſflangellu yn fynych, ac er diwed lloſca-ſant ef wrth Stanc. A thra yr oedd ef yn tân ai

aelodau

aelodau wedi hanner lloſci, dywedodd wrth y Papiſtiaid; *Yr ydych yn gofyn am ryſeddodau gennym, gwelwch yma yn awr ryfeddod, Canys nid wyfi yn teimlo mwy o boen y tân hwn, na Phe byddwn ar wely mân-blu, neu un o bêr-lyſiau.*

Ar ol hwn Canlynodd *John Frith*, yr hwn y ſcrifenodd mor fuddiol o'r Carchar, ac y ſicrhâodd ymadrodd yr *Apoſtol*, na rwymir gair Duw, canys derbyniodd *Cranmer* ac eraill adeiladaeth oddiwrth ei waith ef.

Ynghylch hyn y collod y Pâb ei awdurdod yn *Lloegr*, ſef na chydnabyddid ef yn ben ir Eglwys, ac am hynny na roddid un tammed brât yn ei ſafn ef mwy. Ac y bu *Tyndal* gwr o gyffiniau Cymru yn hyfforddiant mawr i wir-wybodaeth, canys cyfieuthodd a phreintiodd yr ſcrythurau yn ſaeſonaec, ac anfonodd hwynt yw tanu yn Lloegr, a llyfrau buddiol eraill; a thycciaſant er iechydwrieth i laweroedd yn yr oes honno: ar hyn Cyffrôdd y rhai oedd yn caru tywyllwch, fal *Jeruſalem* wrth eni Criſt, ac ni orphwyſaſant nes cael ei loſci ef ai lyfrau; tra yr oedd yn diſgwil ei ddiwedd, efe drôdd geidwad y Carchar ai dylwyth i ofni Duw. Pan wahoddodd ei wladwyr M. *Tyndal* i edrych ar gonſurwr y ſyddeu arfer o wneuthur pethau rhyfeddol, drwy ei ffydd attaliodd ef nerth gythreulyg y Jwgler; yr hwn wedi chwyſu yn ſwyno, ac heb allu gwneuthur dim oi gynefin gaſtiau, a gyſaddefodd ſod rhyw un yn y ſtafell yn diddymu ei ſcîl ef. Er bod y *Brenin Harry* 8. yn bwrw i lawr awdurdod y Pâb, etto nid ymwrthododd ai athrawieth ef, am hyny

ny

ny dygpwyd *Lambert* Gydweithiwr *Tyndal* yn yr
efengil, i bledio ar gyhoedd a dêg o'r escobion ol
yn-ol o flaen y brenin; yr hyn y wnaeth ef yn
orcheſtol, canys yr oedd Duw wedi ei gynyſca- *Oed. Cr.*
eddu ef a Zêl, ac a dyſceidieth ragorol. Ac am ei 1538.
dyſtiolaeth lloſcwyd ef yn Llundain, A phan oedd
ei holl gorph ef yn ffaglu, cododd ei ddwylaw
i ſynu, ai fuſedd yn goleuo ſol Canwyllau, gan
leſain wrth y bobl, *Nid ond Criſt, neb ond Criſt.*

Ar ol hyn lloſcwyd llawer o'r bobl dduwiol yn
Lloegr, a thorwyd pen *Arglwydd Cromwell*, yr
hwn ydoedd ir ffyddloniaid ſel *Obadiah ynhŷ Ahab.*
Ymyſc eraill hynod ſu ffydd lleſtr gwan *ſef Anne*
Aſcew, gwraig ſonheddig; yr hon y ddangoſodd
yw herlidwyr, fal yr odddent yn gwrthwynebu'r
yſpryd glân, y rhai ai racciâſant hi yn greulon,
oni thynnafant agos ei holl gymalau ai heſcyrn
oddiwrth eu gilidd, eiſieu caffael genddi wadu ei
ffydd, neu ochain dan ei phoen. Ac er ei bod hi o
dylwyth ardderchog, a chynnig iddi bethau maw-
rion am droi yn *Bapiſties*, etto gwrthododd y cy- *Oed. C.*
fan, ac ymroddodd i ddiweddu ei dyddiau yn tân 1546.
er tyſtiolaeth yr Efengil.

Gwelwyd yr un dewrder mewn gwraig raſol
yn *Scotland*, yr hon y farnwyd yn heretic, eiſieu
iddi alw ar Fair, gyda'g ar Grift, pan fyddeu hi
mewn gwewyr eſcor, a phan oedd hi yn cymeryd
ei chenad ai gwr (yr hwn oedd heſyd i gymeryd
ei farwolaeth gyda hi am ei ffydd) annogodd
ef i lawenychu, ac eb hi, *Ni ddywedaſ nôs da i*
chwi, canys yn ebrwydd ymgyfarfyddwn ynheirnas
nêf. Yn y flwyddyn 1547. gwelodd Duw yn dda

roddi ynghalon y *brenin Edward* 6. ai gynghorwyr, ſerch ir wir ffydd, a gallu yn eu dwylaw yw hyfforddi. Ac er nad oedd y *Brenin* ond bachgen, etto ſel *Joſiah brenin daionus Jeruſalem*, parodd ymoſyn a gair Duw, ac uſuddhâu iddo; ie arferodd *Duwc Somerſet* y pennaf o Arglwyddi'r cyngor ei holl egni mewn zêl graſol i fwrw eulynaddoliaeth i lawr. A thrwy Act o Barliament diddymwyd y Cyfreithiau caeth gwaedlyd y wneuthid o amſer i amſer i orthrymu grym yr eſengyl. ond cododd ynghylch dengmil o wyr Cerniu (ein cydgenedl ni) *a Deſonſire*, yn arfog i wrthwynebu diwygiad y ffydd, gan geiſio 'r gyſraeth gaeth yn ei herbyn i ſod eilwaith mewn grym, a'r offeren Lladin; i hyn attebodd y *brenin*, *Nad oedd achos i ddeiliaid gwyno rhagddo ef, am yſcrifenu cyfreithau a llaeth yn lle gwaed, ac nad oedd y llyfr gwaſanaeth ond yr un yn ſaeſonaec, ac oedd o'r blaen yn Lladin, er ei ſod beth yn llai o herwydd gadel allan o hono eſ rai pethau anweddaidd oedd yn yr offeren Lladin, a bod yn well iddynt glywed y gweddiau yn yr iaith y ddeallent.* A chan na roddent le i reſwm, gorchfygwyd hwynt mewn dwy frwydr, er eu bod yn fwy eu rhifedi na byddun y brenin.

Yn yr un achos cafodd gwyr y *brenin Edward* ſuddugolieth yn *Scotland*, er ir *Papiſtiaid* hynny ddwyn y Bara mewn blwch, a'r delwau eraill yr hyderent arnynt, gyda hwynt ir maes. Lle lladdwyd tair mil arddèg o'r *Scotiaid*, a chant yn unig o'r *Saeſon*, digwyddodd hyn ar yr un diwrnod ac y lloſcwyd y delwau yn Llundain.

Daroſtyn.

Daroſtyngwyd hefyd y gwrthryſelwyr yn *Norffolc a Sire Eborac*. A churwyd *gwyr Ffraing yn Jerſey*. Yn yr amſer hwn rhoddwyd *biblau Saeſonaec* i bob plwyf yn Lloegr, a goſodwyd allan y *llyfr Homili* i gynorthwyo y lleodd oeddent weigion: canys anhawdd ydoedd cael pregethwr ymbob plwyf cyn gynted ar ol troi ymaeth gymaint o offeiriadau pabaidd. ond gan nad oedd y deyrnas yn dwyn ffrwyth cyſattebol ir llafur, a'r hâd, a'r cafodydd nefol yr oedd Duw yn ei ganhiadu idde, gadawodd ir *Papiſtiaid* ei batingo hi eilwaith, a lloſci 'r *Proteſtaniaid* yn aml, i edrych y ddygei hi ffrwyth gwell gwedi. Canys ar ôl ir *frenhines Marie* addaw yn dêg ir *Proteſtaniaid* er mwyn cael y goron, galwodd *Barliament* i fwrw i lawr y greſydd y gawſei ryddid gan ei *brawd Edward*, a goſododd *Babyddieth* i fynu eilwaith, ac i hyfforddi ei phwrpas priododd *Phylip brenin Hiſpaen*.

Ac er rhybuddio 'r byd o'r peth oedd ar ddyfod, gwelwyd dau haul yn Llundain, ac enſys ai chefn yn iſaf, ai dau gorn i fynu, megis pe buaſen 'r nef ar fedr Saethu tua 'r ddaiar.

Yn y broſedigaeth danllyd cymellwyd rhai i wadu eu ffydd, megis yr *Juſtus Hales*, yr hwn wedi hynny ai boddodd ei hun o dra gofid calon.

Ac wedi dihenyddio yr arglywyddes *Jane Gray, Criſtnoges gyflawn o zêl*, a gwybodaeth raſol, amhwyllodd yr *Juſtus Morgan* ai barnaſeu hi i golli ei phen, a lleſodd nes ei farw, *am dynnu 'r arglwyddes Jane* oddiwrtho ef.

Yn y flwyddyn 1555. â'r drydydd o deyrnaſiad

y *frenh. Marie*, y decreuwyd lloſci'r Pregethwyr duwiol: ar Cyntaf o honynt y dorrodd y briſc, oedd Mr *Rogers*. Yr hwn, pan arweinwyd ef o gaeth garchar ir tân, a chyfarfod ar y ffordd ai wraig ag un a'r ddêg o blant, y rhai pe gallaſent y ddiffoddaſent y tân ai dragrau; ni ryſodd garu Criſt ai wirionedd yn fwy na'i wraig, a'i blant, ai fywyd hefyd. A gorfoleddodd y brodyr yn ddirfawr weled Cadernid ei ffydd ef.

Ac wedi hwn canlynodd Mr *Sanders* i wneuthur yr unrhyw dyſtiolaeth. Yr hwn yn ei ieuenctid y roddaſid yn ſerſiant, ond ni orphwyſodd ei gydwybod ef nes troi at ei lyfrau i fyned yn bregethwr. Dangoſodd *fod yr offeren fel gwenwyn lawer wedi ei gymyſc ag ychydig lefrith*, ſef llawer o amryſuſeddau ymyſc rhai Scrythurau. Lloſcwyd ef *yn Ghofentri*.

Felly hefyd y digwyddodd i *Hooper Eſcob Caer Wrangon*, yr hwn wedi cau arno yn fanwl yngharcharau Llundain, (nid ydoedd ryſedd cloi arno am ei fod yn dlws mor werthfawr) a anfonwyd i *Gaerloiw* yw loſci; lle yr ymgaſclodd llawer yw weled ef, ac i weddio gyda'g ef, gan ſendithio Duw am y grâs y dderbyniaſent drwy ei bregethiad ddwys ef, canys dywedei, *nad oedd pobl, heb ir yſpryd ſerwi ymaeth eu trachwantau, gymwyſach i Dduw, na chig amrwd yn fwyd i ddyn.* Pan ddaeth at y ſtanc rhoddwyd ger ei fron ef yſcrifen oddiwrth y frenhines i beri arbed ei fywyd ef, os troeu yn *Bapiſt*, ac wedi iddo wrthod y gau gymwynas hwnw, rhoddodd ei enaid i law Dduw, ar ol yw gorph ef ddioddef angerdd y tân

dri

dri chwarter awr heb chwimio. Tyſtiolaethodd *nad alleu un garu Criſt a'i enaid, a pherchi yr offeren a'i gorph, mwy nag y gall gwraig ſerchu ei gwr a'i chalon, tra y rhoddo hi ei chorph i eraill.*

Yr achoſion penaf yngolwg dynion o ſerthyrdod y bobl dduwiol y pryd hyn, oedd eu ceſnogrwydd hwynt i Sefyll gyda 'r ſcrythurau yn erbyn traddodiadau pabaidd. Gan wrthod addef y *pâb* yn ben ir eglwys, nag yn wir aelod o boni, o herwydd ei ddrygioni. Gomeddaſant heſyd addoli lluniau, a'r bara yn yr offeren; gan egluro nad oedd na chorph nag yſpryd *Criſt* yn breſenol ynddi, am hynny y dylid tynnu oddiwrthi beth bynag y ſyddeu 'r dial dynol. Ie ni chilient ymaeth er cael rhybudd oi perigl; canys dewiſent goron ferthyrdod, ſel y bobl raſol yn y brif eglwys.

Pan roddwyd dyſyn i Dr *Tailor* (yr hwn y gynyddodd y praidd y ddechreuaſeu *Bilney* ei gaſclu yn *Hadley*, onid aeth y plwyf yn yſcol ddyſcedig) naccâodd ddianc, er bod ei berthynaſau yn tâergeiſio ganddo ei arbed ei hun; eithr dywedodd. *Na chaſen ef fyth y fath achlyſur i ogoneddu Dum, a thrw y ddioddef dros ei efengyl ef.* Am hynny aeth i Lundain heb neb yn ei wilied ef ar hyd y ffordd. A phan ddaeth ger bron, tyſtiolaethodd y gwir yn hy. Ac yn y carchar llaweny chodd, yn enwedig am gymdeithas yr *Angel Bradford*. Yr oedd Carcharau Lloegr yn awr fal Eglwyſydd llawn o'r bobl dduwiolaf, a hyfryd oedd weled eu rhinweddau, a chlywed eu Cynghorion, ai gweddiau. Wedi ei ſwrw ef i farw, a'r Swyddogion

yn eiriol arno am gymodi a phabyddieth, *dywedodd Iddo dwyllo llawer yn Hadley*; ar hyn tybiasant y troeu ef, hyd oni ddeonglodd y peth, *sef y twyllau ef y pryfed ym monwent Hadley, am na chaent fwytta mo'i gorph Cnawdig ef, eithr gadawei ei losci yn tân cyn y gwadeu Grist*; ac felly y bu.

Ac nid pregethwyr yn unic, ond proffesswyr Cyffredin hefyd fuont ffyddlon hyd angau. canys wedi i *Boner escob Llundain* holi *un Tomkins gwehydd*, ac am nad ymwadeu ai grefydd, yr hon y ddilyneu ef yn ddiwyd, pwyodd yr *Escob* ef yn greulon, gan dynu gwallt ei ben ef ai farf, a chymerth gan wyll dair-dyblig olau, ac a losco dd ei law ef, onid oedd y dwfr yn saethu allan o'r giau; etto nid oedd y merthyr yn teimlo gronyn o boen, am fod ei yspryd ef yn gyflawn o gyssur, ac wedi hynny lloscasant ei holl gorph ef yn *Smithfield*.

Felly y gwnaethpwyd ag *William Hunter, bachgen o ran oedran, a gwr mewn gwybodaeth*, yr hwn, tra yr oedd ef wrth y stanc yn gweddio y geiriau hyn, *mab Duw tywyna arna fi, yn* ebrwydd diseler riodd yr haul yn ei wyneb, er bod yr wybren yn dywyll iawn, ac yn gymylog o'r blaen.

Yn Neheudir Cymru hefyd dioddefodd rhai am yr un achos, sef escob Pfarrar o Fynyw, yr hwn y gyhuddwyd gan swyddogion malaisys ei escobaeth yn amser y *brenin Edward*, ac a garcharwyd ar gam, megis pe buasei yn tueddu at *Babyddieth*; ac yn amser y *frenhines Marie* mynnodd yr un Cyhuddwyr ei losci ef am wrthwynebu *pabyddieth*. Wrth fyned i farw pan oedd un yn Cwyno iddo dosted fydden ei boen, attebodd ynteu, *os gwelwch*

gwelwch fi yn aflonydd, na choeliwch fy athrawieth. a safodd ynghanol y tân, nes ei drengu.

Yr oedd hefyd *un Rawlins Wynne YnGhaerddydd*, yr hwn er ei fod yn anllythrennog, etto wedi cyffroi ei feddwl i geisio gwybod, a dilyn ewyllis *Duw*, wrth wrando ar ei blentyn yn darllen yr Scythurau Saesonaec, y gafodd y fath wybodaeth a zèl, ac y droes lawer at ofn Duw, am hynny ar ol hîr garchar, lloscwyd ef yn ei dref gartrefol. Ac wrth fyned at y ftanc gweleu ei gymydogion gyfnewidiad ryfeddol yn ei gorph ef, canys lle'r oedd o'r blaen yn Crymu gan oedran, yr oedd yn awr yn fyth inion, a chantho wyneb Siriol. Am yr un achos lloscwyd gwr duwiol 1558.
fiml yn *Herford Weft* elwid *William Nichol.*

Yn Ghaer-Lleon yn ymyl Gwynedd y lloscwyd *George Marfh Pregethwr duwiol*, yr hwn pan glywodd fod ymofyn am dano ef, aeth i mewn o hono ei hun, ac argyhoeddodd ei ddiodefgarwch ef lawer o bobl: oni orfu ir *Escob* bregethu i geisio gan bobl goelio mae heretic y loscafei ef: a thyn pen nemawr lloscodd pattain yr *Escob* (fal y dywedent) a bu ef farw yn ferthyr i *Fenus.* Dywedodd *Marfh fod Duw yn dyrnu ac yn nithio yr yd yn amfer y frenhines Marie y hunafen ef yn amfer y brenin Edward; Ac y dylen rhai dâ ddioddef mwy er mwyn Crift, nag y mae y rhai drwg yn eu goddef er mwyn pechod; gan en bod yn dwyn carchar ag angen, am ymddiol, nen ledratta rian ywtreulio ar en chwantau.*

A thra yr oedd y merthyron yn canmol *Duw* wrth y ftancian, yr oedd yr offeiriaid llygredig

yn

y n canmol y *pâb* yn eu gorſèddau, ond cyrhaeddodd llaw Dduw rai o honynt. Canys tra yr oedd *officiriad Crondal* yn ei bregeth yn clodfori y maddeuant pechodau y dderbyniaſcu eſ oddiwrth genad y pâb iddo eſ ei hun, ac ir plwyf, ac wrth hwnnw yn hyderu ei ſod mewn cyflwr da, yn ebrwydd ſyrthiodd yn fârw yn y pulpud, ac ni ſymudodd fyth na llaw na throed.

Gwelwyd arwydd gwell ar un Mr *Haukes gwr gallwog yn yr ſcrythuraw*: yr hwn pan oedd yn myned yw loſci eiſicu dwyn ei bſentyn yw ſeddio yn ol yr offeren. y gadarnhâodd ei gyfneſeiſiaid yn y ffydd; y rhai ddymunaſant arno pan fyddeu eſ yn tân, roddi iddynt arwydd os gellid gadw y meddwl yn llonydd yn y fâth boen er mwyn yr efengyl. A phan oedd y merthyr yn tân wedi Crychu ei groen, a cholli ei leſerydd, a lloſci ei fyſedd, oni thybiodd pawb iddo drengu, yn ebrwydd cododd ei ddwylaw (a nhwy yn ſtaglu yn olau) ywch ei ben; gan eu taro ynghyd dairgwaith: yr hyn y barodd ir bobl glodfori Duw gyda bloedd fawr. Ni bu ddim llai cyſſurus helynt *Bradford* yn ei gyſtudd; yr hwn y gawſeu râs mawr gan Dduw yn ievangc; a phan oeddid yn ei alw eſi weinidogaeth yr eſengyl, yr oedd yn arſwydus ganddo ſel *Moſes* gymeryd y ſwydd arno, o ran y dyb wâel oedd ganddo am dano ei hun, nes i athro enwog ei argyhoeddi eſ, ai annog eſ, *Nad attalieu fara haidd oddiwrth eneidiau newynllyd, onid oedd ganddo fara gwyn yw roddi iddynt*. Rhagddangoſodd y deuei plâ am broffeſſu 'r eſengyl yn gnawdol, a chanlynodd y chwys marwol y

pryd

pryd hynny. Pregethu, a darllen, a gweddio a myfyrio oedd ei fywyd ef, ar ei liniau y byddeu yn ſtudio, dan ſynych wylo. addſwyn, a ffyddlon a chyflawn o Zêl oedd ef. Yſcrifenodd *fod y lyd yn fodlon i Babyddieth, oblegyd nad oedd yr offeren yn Ceryddu neb am bechod, fal yr oedd pregethiad yr efengyl, a bod yr eglwys butteinaidd yn ymdrwſſio a defodau brithion, ond bod yr eglwys briod yn* Pſal. 45. *blayn hebddynt, ac yn deg oddiſewn.*

Wedi ei garcharu yn amſer y *frenhines Marie*, cafodd y fath garedigrwydd gan ei geidwaid, ac a roddes iddo achlyſſur i bregethu beunydd, a llenwi ei ſtafell o bobl dduwiol, ac yn fynech i gyfrannu ſwpper yr Arglwydd. Er ei fod ef unwaith yn ô anewyllyſcar i fwydd y weinidogaeth, etto yr oedd ef yn chwannog i ferthyrdod, gan ddywedyd yn ei weddi, pan ddaeth yr amſer Cuſtudd Cyffredin ar dduwioldeb, *wele fi,* Iſai. 6. 8. *anſon fi.* A gorſoleddodd yngharchar Duw, *am iddo anfon am dano ef, fel Elias, mewn cerbyd tanllyd.* Wedi ei rybuddio ef yngharchar oi farwolaeth, gweddiodd, a chynghorodd mor yſprydol ymyſc ei gyfeillion, a bu mor hyfryd yn ei enaid, megis pe buaſeu yn y nêf euſus. Pan ddaeth at y ſtanc yn *Smithfield*, a dechreu cynghori 'r bobl, rhwyſtrodd y *Siri* ef; am fod yr ymwaſc yn fawr. (fel y byddeu wrth loſci 'r holl ferthyron, am hynny ofneu 'r ſwyddogion rhag Cythryfwl, a phryſſurent i orphen eu gorchwyl.) ond trôdd *Mr Bradford* at ei gyd-ferthyr, gan ei galonni ef, wrth yſtyried y cafent y nós honno ſwpper llawen gyda 'r Arglwydd. Ar ol hyn lloſcwyd mewn amryw fannau

yn

yn Lloegr y ſlwyddyn hon lawer o wyr duwiol, boneddigion a chyffredin; weithiau pedwar, weithiau pump, weithiau chwêch yn yr un tanllwyth, dan gyffeſſu eu ffydd yn raſol: ie yr ydoedd y ſath nerth ynghyffes y merthyron, ag y drôdd lawer y ſuaſent *Bapiſtiaid* yn amſer y *brenin Edward*, yn *Broteſtaniaid* cynes yn amſer *y frenhines Marie*. Canys gwelyd llawer o râs ac o anwyldra Duw tuag at y rhai cyſtuddiedig y pryd hyn.

Pan oedd *Robert Smith* wrth loſci yn dymuno ar Dduw *ddangos arwydd arno er daioni*, wedi iddo fyned yn loûn dû yn tân, yn ddiſymwth cyſododd yn ei ſefyll a churodd y bonion breichiau ydoedd ganddo, i ddangos llawenydd ei galon. Yn *Norwich* hefyd carcharwyd un *Mr. Robert Samuel* Pregethwr graſol, gan ei gadwyno ef yn ei union ſefyll wrth bôſt, ſal na chaſeu onid blaenau ei draed i gynal ei holl gorph; ai benydio a newyn, heb roddi iddo ond tri thammaid o ſara, a thair llwyaid o ddwfr yn y dydd; a phan geiſieu yfed ei drwnc ei hun, nid oedd ddefnyn o ddwfr yn ei gorph yw wneuthur. yn y Cyflwr hwn Syrthiodd mewn llewyg, a ſafodd un mewn gwiſc wen yn ei ymyl ef, ac a ddywedod, *Samuel Cymmer gyſſur, canys ar ôl y dydd hwn, ni newyni ac ni ſycheda byth mwy:* ac o hynny allan ni theimlodd na newyn na ſyched hyd oni loſcwyd ef. Achyn pen nemawr o amſer dygpwyd ef at y ſtanc lle y mynegodd y weledigaeth iw gyſeillion, gan ddywedyd nad allei ef o ran gorchwyledd adrodd y ſath gyſſuron y gawſeu ef gan Griſt yn ei boenau. Pan ddaeth at y tân ni thybiodd y penyd hwnw ond chwareu,

wrth

wrth y triniad y gawſeu ef gan erlidwyr yngharchar. *O greulondeb Pabaidd! o ddioddefgarwch ſanctaidd!* Tyſtiolaethodd rhai iddynt weled ei gorph ef yn diſcleirio yn tân fel arian côeth.

Felly y ceiſiodd yr vnrhyw erlydwyr lâdd *Robert Glover gwr bonheddig*, drwy oerni, a gorthrymder yngharchar; ond nerthodd Duw ef yn ei gorph ai enaid, gan roddi iddo brawf o tywyd tragwyddol. Wedi iddynt ei gondemnio ef, bu anghyſlurus ddwy nôs cyn ei loſci: ond pan ddaeth at olwg y ſtanc, cafodd y fâth ſiccrwydd hyfryd o gariad Duw, oni chûrodd ei ddwylo ynghyd, gan lefain ar ei gyfaill yn llawen, a dywedyd, *efe ddaeth, efe ddaeth:* mor ſiriol ac un y gawſeu ei waredu oddiwrth ryw berygl marwol, ac nid fel un yn myned iddo.

Gwelodd yr erlidwyr achos i ddychrynu pe goſodaſent hynny at eu calonau; canys pan loſcwyd *Eſcob Ridley a Latimer yn Rhydychen*, am iddynt dyſtiolaethu gydâ 'r eſengyl yn ddiwyd yn yr eglwyſydd, ac yſcolion dyſc, arhoſodd *Gardiner Eſcob Wincheſter* un o'r erlidwyr penaf heb ei giniaw hyd yr hwyr, nes clywed ir merthyron hynny gael eu diwedd, ac yno eiſteddodd i wledda gyda 'i gyſeillion yn llawen. Ond trawodd llaw Dduw ef ar y bwrdd, oni chwyddodd ei gorph ef, a Phoetbodd y tu ſewn iddo ef, a bu ſarw a'i dafod allan fel gloun dû.

A thra yr oedd *un Hubberdin* yn pregethu yn erbyn y Proteſtaniaid, ac mewn gwyn yn curo 'r pulpid ai draed, ſyrthiodd y pulpid, ac ynteu hefyd, ac ychydig gwedi bu farw oi gwymp.

Ecto

Etto ni pheidieu 'r erlid. Eithr dygpwyd *Philpott*, un o gedyrn Duw ir tân yn *Llundain*. Yr oedd y merthyr hwn yn fâb i farchog, ac yn yscolhaig mawr, a thrafaeliwr. Ymddadleuodd mor nerthol mewn cymanfa, nad alleu 'r Papistiaid wrthsefyll yr yspryd a'r doethineb drwy 'r hwn yr oedd efyn llefaru. Argyhoeddodd hwynt yn egniol oflaen arglwyddi 'r cyngor, canys doeth, a duwiol, a dewr ydoedd ef. Am hynny cafodd ef gyda'g eraill helynt gaeth drymder gaiaf, mewn cyffion o heirn ynglôdy *Boner Escob Llundain*: etto llawenychent a chanent psalmau. Yscrifennodd at ei gyd-filwyr caeth, ei fod ef yn gobeithio y llareiddieu angerdd y tân, wrth fod Duw yn yscafnhâu trymder y carchar. Pan ddaeth at yr stanc, plygodd ei lîn, a dywedodd, *talaf fy addunedau ynoti o Smithfield*: a chussanodd y stanc, gan ddywedyd eilwaith, *a wrthodafi ddioddef wrth y pren hwn dros fy mhrynwr, y ddioddefodd farwolaeth wradwyddus drosofi ar y groes?* ar ol ei ferthyrdod ef, Scrifenodd gwraig dduwiol at *Boner*, y bydden raid iddo roddi Cyfrif am waed yr *Abel* gyfiawn hwnw, ac y gorfyddeu iddo ef, ai offeiriadau coronfoel (eilliant eu corynnau i wneuthur eu gwallt wrth eu clustiau ar lûn coron) roddi bifwel ar eu penau i guddio nôd y bwyftfil: am fod y wir grefyd yn anghwanegu wrth dywallt gwaed y merthyron, ac wrth dorri 'r blychau hynny, yr oedd yr enaint gwerthfawr yn llenwi 'r deyrnas a'i arogl. Hyfryd oedd gweled mor gariadus oedd y bobl dduwiol y fydddent rydd, yn gweini i gyfreidiau y rhai rhwym, yn enwedig amryw wragedd

boneddigion

boneddigion a chyffredin, fel y rhai a ymgleddasant Grist hyd farw, ac a baratoesant bêrlyssiau iddo ef yn ei fêdd. Gwniau rai gryssau newydd ir merthyron hyn yw llosci ynddynt, (dioscid hwynt wrth y stanc hyd at y crysau) gan ddywedyd y paratoent scarffiau i filwyr Crist i ynnill y frwydr olaf. *Ynteu hyspys yw fod yr un yspryd cariad yn y rhai credadwy ymhob oes.*

Scrifennodd *Mr. Philpott* fod patrwn eglur o nerth grâs Duw yn yr *Arglwydddes Fane,* yr hon er ei bod yn gyfoethog, yn ievanc, yn anrhydeddus, yn dèg ei phryd ai gwedd, ac heb fod dan awdurdod neb, etto dirmygodd y cwbl oll, ac ymroddes i Groes Crist: Ac y cyfodei hi yn y farn yn erbyn y rhai oeddent yn gwadu Crist rhag ofn colled, fel brenhines y deheu yn erbyn y genedl gynt. Cyffessod hi ei hun yn amser enbydus, fod melysdra Crist yn ei hynnill hi fwyfwy, ai bod yn blaslu mwyniant y byd fal physygwrieth gwrthwynebus.

Ac fel y gwelwyd yn awr yn y brofedigaeth hon ffyddlondeb y merthyron, ac ymgêledd Duw tuag attynt yn eu cystuddiau trymmaf, a 'i ddialeddau ar yr erlidwyr, felly 'r anghyssur y ddigwyddeu ir encilwyr llyrfion; megis i *un West,* yr hwn rhag ofn y ddarllenodd yr offeren yn erbyn ei gydwybod, a bu ef farw ychydig gwedi.

Eraill am y cyfryw wendid y syrthient i flinder meddwl, hyd oni ddychwelent at Dduw, neu wnaent ben am danynt eu hunain, neu nhwy gafent ryw aflwydd arall. Fel y bu i *Richard Denton gôf*; at yr hwn yr anfonodd un o'r merthyron

thyron fflyring yn arwydd, gan gofio iddo ef ei fywiogrwydd yn y ffydd gynt, a dymuno arno bryſſuro ar ol ei gymdeithion, Attebodd *Denton*, *gwir yw, ond och ni fedrafi ddioddef fy lloſci.* Etto gwedi, trawodd tân yn ei dy ef, ac wrth geiſio achub ei ddodreſn, lloſcwyd ef a dau oi dylwyth; gan ddioddef heb ddiolch yn ei achos ei hun y peth a wrthodaſeu ef yn achos Criſt.

Gwelwn ynteu fod *Paul* yn caru *Timotheus* pan orchmynodd iddo gymeryd ei ran o gyſtudd yr efengyl. Ynechreu'r flwyddyn 1556 lloſcwyd ſaith yn yr un tanllwyth yn *Smithfield.* a phump ar vnwaith yn *Ghaergaint*, yn y tân Canaſant pſalmau, trâ'r oedd yr edrychwyr oi hamgylch yn ty wallt dagrau.

2. Tim. 1. 8

Yn *Rhydychen* dioddefodd *Cranmer* ferthyrdod, ar ol iddo gael llawer ſegſa gan y *Papiſtiaid* drwy ymddadlu, ac iddynt ei ddurddo ef, gan roddi am dano ef ddillad eſcobaidd ai dioſc, (tel y gwnaeth y milwyr a Chriſt wrth ei watwor ef a gwîſc frenhinawl) Pan aeth ef at y tân daliodd ei law ddeheu ynddo yn gyntaf, am iddo o'r blaen drwy wenieth ei elynion ſcrifenu ei henw a hi wrth papyr pabaidd, yr hyn y wnaeth iddo ef wylo yn chwerw-doſt. rhyfeddodd llawer na ſyflodd ef ronyn yn y tân, er ei fod yn hen-wr barf-wyn.

Ar ol hyn lloſcwyd chwech yn yr un tân yn *Smithfield*, ar un rhifedi yn *Colcheſter*; a digwyddodd i *Boner* loſci dau wr duwiol yn yr un tân, a'r naill yn gripl, a'r llall yn ddall. ac wedi eu rhwymo hwynt gerfydd eu canolau wrth y ſtanc, bwriodd y cripl ei faglau ymaeth, gan ddywedyd with

ei

ei gydſerthyr, *Cymer gyſſur ſy mrawd, iatheir di o'th ddallineb yn awr, a minneu o'm cloffni.*

Lloſgwyd llangc dall *yn Ghaerloiw* am yr un achos, a thranoeth merthyrwyd gwraig weddw a dwy o wyryſon graſol yn *Smithfield*, y rhai a ddaliaſant y ffydd yn gadarn. Ac yn ymyl *Llundain* lloſcwyd tri ar ddég yn yr un tân, ſef un ar ddêg o wyr, a dwy wraig, y rhai a ſafodd yn rhyddion yn tân, nes rhoddi eu heneidiau ir Arglwydd. Wrth fyned a hwynt yw dibenydd, cauoddy ſiri arnynt mewn dwy ſtafell, ac wedi hynny aeth at y naill blaid, ac a daerodd yw Cymdeithion hwynt wadu eu ffydd, ac am hynny yr arbedid eu bywyd hwynt; attebaſant iddo ef, *nad oedd eu ffydd hwynt wedi ei hadeiladu ar ddynion, ond ar air Duw.* Aphan wnaeth ef felly ar blaid arall, cafodd yr un atteb.

Lloſcwyd tri yn yr un tân yn *Newberie*, un o honynt oedd wr dyſcedig o *Rydychen*, y gollaſeu ei lê yn amſer *y brenin Edward* am ei Zêl ir pâb; y pryd y cyſaddefodd ef wrth ei gyſaill oedd yn gadel y deyrnas am yr un ſtyfnigrwydd ſel hyn, *Yr ydym yn dioddef llawer dros y Pâb, ond nid oes gennym y fath felyſdra yn ein Calonau oddiwrth ei greſydd ef, ac y welwn ni y Proteſtaniaid yn eu ſwynhau yn eu ffordd nhwy; yr ydym ni yn ymdrechu am ni wyddom ni pa beth, yn fwy o ran ewyllis, na chydwybod, etto gwell genifi fyned i gardotta, na chael o honynt eu gair yn drechaf.* Ond yn amſer *y frenhines Marie*, er iddo gael y byd wrth ei fodd, etto wrth weled cyſſur a graſlonrwyd y merthyron, trôdd yn hollhawl at yr efengyl, a

theimlodd

theimlodd yr offeren yn flin iddo ei gwrando; Am hynny cuſtuddwyd a dugpwyd ef ir tân, lle y dywedodd wrth ei gydfilwyr, *Byddwch gyſſurus, yn llê 'r marwor hyn ni gawn berlau, y mae yſpryd Duw yn tyſtiolaethu hynny i'n yſprydoedd ni.*

Yn *Garnſey* y Lloſcwyd gwraig ai dwy ferched yn yr un tân; yr oedd un o'r merched yn wraig i bregethwr, ac yn feichiog agos yw thymp; a phan dorrod angerdd y tân ei bol hi, Syrthiodd y plentyn oddiwrthi hi: Ac wedi ei gipio ef i fynu, ai ddwyn at y Swyddogion, gwnaethpwyd ag ef mor anghrugarog, ac y gwnaeth Pharao a Phlant yr Hebreiaid, neu Herod a phlant Bethlehem, gan ei fwrw ef ir tân at ei fam, er ei fod yn blentyn gwryw golygus. felly bedyddwyd a thân yr hwn a aned yn ferthyr, i dyſtiolaethu dynered mamaethod yw'r Papiſtiaid.

Yr un fath hyffordiad y gafodd morwyn ddall yn *Darby*, yr hon oedd yn byw wrth wau hoſânau, ac a brynodd *deſtament newydd*; rhoddei hon geiniog fel yr ynnillei hi i ryw un am ddarllen iddi benodau ynddo, oni chafodd hi wybodaeth iachuſol; am hynny lloſcwyd hi.

Yn y flwyddyn 1557 Lloſcwyd ſaith yn yr un tân *ynghaergaint*, a phump ar unwaith yn *Smithfield*, a ſaith ar unwaith yn *Maidſtone*, ac eilwaith ſaith yn yr un tân *ynghaergaint*. yr oedd un o honynt ſef gwraig *Benden* y garcharwyd naw wythnos mewn twll cyfyngc, ni chafodd hi un gwely i orwedd arno, na newid ei dillad, na dim llunieth, ond gwerth tair ffyrling yn y dydd, ac ni chafodd neb wybod p'le yr oedd hi, nes yw

brawd

brawd a'r foreucweth ei chlywed hi yn adrodd ei chwyn wrth Dduw mewn gweddi: ar ol hynny pan ofynnodd yr Escob iddi, a fodlonei hi i fyned i'r offeren, attebodd, y gwyddei hi yn yspyssach y pryd hynny na'g o'r blaen, nad oeddent hwy o Dduw, am eu bod mor giaidd.

Merthyrwyd dêg yn yr un tân yn *Lewes*, a dêg eraill yn *Colchester*.

Yn y flwyddyn 1558 merthyrwyd rhai o'r gynylleidfa ddirgel y gyfarfyddent yn *Islington*. Tyftiolaethodd yr *Athro* ei fod ef yn *Rhufain*, lle y gwelfei ef gymaint o lygredigaeth ac y wnaeth iddo ffieiddio *Pabyddieth*. A bu ryfedd dioddefgarwch *Cutbert Sympfon y diacon*, Pan boenwyd ef yn greulon, eifieu iddo ddangos y llyfr, lle'r oedd henwau'r bobl dduwiol oeddent wedi ymwneuthur i gyd addoli yn ol yfpryd yr efengyl; er hynny dalwyd hwynt ynghyd gwedi, a lloscwyd tri ar ddèg o honynt. Carcharwyd gwraig dlawd, ddewr yn yr Scrythyrau, yn *Ecfeter*, am iddi arghoeddi un ydoedd yn adgweirio delwau, y rhai a anffurfiafid yn amfer y *brenin Edward*; Ebbi, *yr wyti yn ynfyd wneuthur trwynau newydd ir delwau y gollant eu pennau cyn bo hir*. pan fwgythid hi, *attebei fod ei chalon yn ficer gyda Chrift*: pan gynygid iddi arian, dywedei *ei bod hi yn myned i ddinas llè ni cherddent*. Ac ynghylch wythnos cyn marw'r *frenhines Marie*, lloscwyd pump yn yr un tân yn *Ghaergaint*. pan farnwyd y rhain i farw, cyfodod un o honynt yn enw'r lleill eu gyd, ac wedi ei gynhyrfu gan Zèl ddirfawr, adroddodd efcymundod yn erbyn y

Papiſtiaid ag yſpryd awdurdodawl, gan ddymu no ar Dduw ddangos barn arnynt er adeiladaeth ir deyrnas. A gwnaeth Duw yn ol gair eu weiſion. Canys cyn pen yr wythnos, bu farw'r frenhines, a ſyrthiodd pabyddieth yn *Lloegr*: ac yna dychwelodd yr Hiſpaenwyr adref. Ac er eu dyſod i Loegr i geiſio diffodd yr Efengyl, etto hi enynnod râs yn eneidiau rhai o honynt, a hyfforddiaſant wîr wybodaeth yn eu gwlâd eu hunain, oni erlidwyd yno lawer o'i phlegyd.

Maith fyddei mynegi gymaint y ferthyrwyd yn *Lloegr* yn y dymmheſtl hon, am hynny mi a grybwyllais am ychydig o lawer, ac na bô ond ſôn a chrybwyll am y fâth bêth mwy.

Pan ſu farw *y frenhines Marie*, agorwyd dryſau carcharau i lawer oeddent wedi eu bwrw i farw. A chafodd yr adar nefol y gaeaſid arnynt yn y cewyll, eu gollwng allan i byngcio yn y Côed. ie Cafodd rhai fal *Joſeph* eu codi o garchârau i orſêddau, yn amſer y trwm gyſtudd gwelwyd goſal Duw yn pryſſuro gwarediad yw bobl.

Methodd gan yr erlidwyr gyflawni yr hyn a ewyllyſient, pan oedd gallu dynol yn eu dwylo; megis pan ddaeth marchog ai weiſion i luſco gwraig ddiwiol i'r offeren yn erbyn ei meddwl, trawodd ffit or gowt arno ef cyn doſted, ac y gorfu ei ddwyn ef adref, a gadel y wraig yn llonydd. A dywed *Melancton*, i angel roddi rhybudd i droſglwyddo *Grineus ddiwiol* oddiar ffordd erlid peryglus oedd yn dyſod am ei ben ef yn ddiſymmwth. Tra yr oedd yr *arglwyddes Elizabeth* yngharchar yn *Woodſtocc* yn amſer ei *chwaer*, daeth un

a

a dêg ar ugain o wyr gyda'g ef yno mewn bwri-ad yw llâdd hi fel y tybid, ond yr oedd y pen ceidwad wedi wyned oddi cartref, a chwedi gadel ſiarſe ar ei frawd na chaſaei nèb ſiarad a hi; a'r gorchymyn y roddaſid er gwneuthur ei char-char hi yn gaethach, y brifiodd yn fôdd i achub ei bywyd hi: felly trowd ei chaethiwed yn ddiogelwch iddi.

Nid anhynod fu anfodlonrwydd *Duw* yn erbyn yr erlidwyr, ni chaſodd y *frenhines Marie* ond yr aflwydd bîgilidd wedi tywallt gwâed y rhai duwiol; (yr oedd *Hezechias a Jehoſophat* wrth ddiwygio pethau Crefyddol yn ffynnu, a *Manaſſes eulynaddolgar* yn methu) Bu newyn mawr yn *Lloegr* yn ei hamſer hi, oni orfu bwytta mês yn lle yd. Hi gollodd *Calice dinas enwog o Ffraine*, y ſuaſai ym-meddiant y *Saeſon* er's llawer o flynyddoed: Gwradwyddwyd hi yn ddirfawr o herwyd anffrwythlondeb ei phriodas. Gorchymynwyd ir *Eſcobion* a'r *offeiriadau* roddi diolch yn yr eglwyſydd am ei beichiogi hi, a gweddio am nerth iddi i eſcor, canys dymuniad ei chalon hi oedd cael plentyn i etifeddu 'r goron, y peth ni chaniâdodd *Duw* iddi.

Yr hyn y gyhoeddod i bawb, fod offeiriadau yr Eglwys Gatholic (fel y galwent eu hunain) yn ſiomedig, ac nas galleu eu offerennau dynnu enaid o'r pûrdân ir nèf, mwy na phlentyn o'r brû ir byd.

Hefyd collodd y *frenhines oferg elus honno* ſerch a chymdeithas ei gwr, a phryd na pheidieu ag erlid er dim a ddigwyddeu iddi tra fyddeu

Papiſtiaid ag yſpryd awdurdodawl, gan ddymu-no ar Dduw ddangos barn arnynt er adeiladaeth ir deyrnas. A gwnaeth Duw yn ol gair eu weiſion. Canys cyn pen yr wythnos, bu farw'r frenhines, a ſyrthiodd pabyddieth yn *Lloegr*: ac yna dychwelodd yr Hiſpaenwyr adref. Ac er eu dyſod i Loegr i geiſio diffodd yr Efengyl, etto hi enynnod râs yn eneidiau rhai o honynt, a hyfforddiaſant wîr wybodaeth yn eu gwlâd eu hunain, oni erlidwyd yno lawer o'i phlegyd.

Maith fyddei mynegi gymaint y ferthyrwyd yn *Lloegr* yn y dymmheſtl hon, am hynny mi a grybwyllais am ychydig o lawer, ac na bô ond ſôn a chrybwyll am y fâth bêth mwy.

Pan ſu farw *y frenhines Marie*, agorwyd dryſau carcharau i lawer oeddent wedi eu bwrw i farw. A chafodd yr adar nefol y gaeaſid arnynt yn y cewyll, eu gollwng allan i byngcio yn y Côed. ie Cafodd rhai fal *Joſeph* eu codi o garchârau i orſeddau, yn amſer y trwm gyſtudd gwelwyd goſal Duw yn pryſſuro gwarediad yw bobl.

Methodd gan yr erlidwyr gyflawni yr hyn a ewyllyſient, pan oedd gallu dynol yn eu dwylo; megis pan ddaeth marchog ai weiſion i luſco gwraig ddiwiol i'r offeren yn erbyn ei meddwl, trawodd ffit or gowt arno ef cyn doſted, ac y gorfu ei ddwyn ef adref, a gadel y wraig yn llonydd. A dywed *Melancton*, i angel roddi rhybudd i droſglwyddo *Grineus ddiwiol* oddiar ffordd erlid peryglus oedd yn dyſod am ei ben ef yn ddiſymmwth. Tra yr oedd yr *arglwyddes Elizabeth* yngharchar yn *Woodſtocc* yn amſer ei *chwaer*, daeth un

a

a dêg ar ugain o wyr gyda'g ef yno mewn bwri-ad yw llâdd hi fel y tybid, ond yr oedd y pen cei-dwad wedi wyned oddi cartref, a chwedi gadel ſiarſe ar ei frawd na chaſaei nêb ſiarad a hi; a'r gorchymyn y roddaſid er gwneuthur ei char-char hi yn gaethach, y briſiodd yn fôdd i achub ei bywyd hi: felly trowd ei chaethiwed yn ddio-gelwch iddi.

Nid anhynod fu anfodlonrwydd *Duw* yn erbyn yr erlidwyr, ni chaſodd y *frenhines Marie* ond yr aflwydd bîgilidd wedi tywallt gwâed y rhai duwiol; (yr oedd *Hezechias a Jehoſophat* wrth ddiwygio pethau Crefyddol yn ffynnu, a *Manaſſes eulynaddolgar* yn methu) Bu newyn mawr yn *Lloegr* yn ei hamſer hi, oni orfu bwytta mês yn lle yd. Hi gollodd *Calice dinas enwog o Ffraine*, y ſuaſai ym-meddiant y *Saeſon* er's llawer o flynyddoed: Gwradwyddwyd hi yn ddirfawr o herwyd anffrwythlondeb ei phriodas. Gorchymynwyd ir *Eſcobion* a'r *offeiriadau* roddi diolch yn yr eglwyſydd am ei beichiogi hi, a gweddio am nerth iddi i eſcor, canys dymuniad ei chalon hi oedd cael plentyn i etifeddu 'r goron, y peth ni chaniâdodd *Duw* iddi.

Yr hyn y gyhoeddod i bawb, fod offeiriadau yr Eglwys Gatholic (fel y galwent eu hunain) yn ſiomedig, ac nas galleu eu offerennau dynnu enaid o'r pûrdân ir nêf, mwy na phlentyn o'r brû ir byd.

Hefyd collodd y *frenhines oferg elus honno* ſerch a chymdeithas ei gwr, a phryd na pheidieu ag erlid er dim a ddigwyddeu iddi tra fyddeu

ſyw, llonyddodd angeu hi yn fuan; a bu farw dan ochneidio, ac nid fel y merthyron dan byncio.

Goddiweddodd dialedd weinidogion ei chreulondeb hi hefyd. A daeth megis y clwyf byrr yn eu myſc hwynt a yſcubodd ymaeth lawer o honynt yn ddiſymmwth. Bu farw'r *Cardinal Pool Cenad y Pâb* dranoeth ar ol y *frenhines*. Cipiodd angau diſyfyd un *Duning Canghellawr Norwich*, a *Jeffery Canghellawr Salisburie*. Bu farw *Gardiner* ai dafod allan, fel pe buaſei gyda *Dives* yn uffern tra yr oedd ef ar y ddaiar, heb ddefnyn o ddwfr yw oeri. Ofnodd yr *Juſtus Morgan* yr *arglwyddes Jane* ar ol torri ei phen hi, yn fwy nag yr ofnodd *Herod Joan Fedyddiwr* ar ol torri ei ben ef er bodloni *Herodias*. Pan oedd *Eſcob Dofer* yn dyfod allan o ſtafell y *Cardinal Pool*, lle buaſei yn ceiſio ei fendith ef, ſyrthiodd dros y griſiau a thorrodd ei wddf. Ehedodd Brân dros ben *Baili Crowland* (yr hwn ychydig o'r blaen y gymellaſei 'r offeren ar ei blwyf ai holl allu) a than grawcio gollyngodd ei brynti yn ei wyneb ef, oni redodd i lawr o ben ei drwyn ef hyd ei farf; ac yr oedd y ſawr mor ffiaidd, na pheidiodd ef a chwdy, a rhêgu 'r frân nes ei farw. Syrthiodd y *Goliah* hwn drwy foddion gwael. a gorchſugwyd ef gan elyn mwy anfoeſol nag egniol, gan ddioddef dirmig gyd-a dinyſtr; felly gwybedyn y dagodd y *Pab Adrianus*. Nychodd un *Baulding* hyd angeu, o ddyrnod mellten ai trawſei ef wrth ddala *un Seaman* y ferthyrwyd.

Ni ddiangodd erlidwyr y tu hwnt ir môr rhag dialedd

dialedd chwaith. Pan oedd *Cardinal Creſſentius* yn llywodraethu cymanfa *Tridentum* dros y Pâb, daeth Cî du mawr, a llygaid tanllyd jw ſtafell ef, ac ni welei nèb ond y *Cardinal* mono ef, ar hynny clafychodd a bu farw. A phan oedd erlidiwr mawr yn *Antwerp* yn myned gyda'i wraig mewn Cerbyd dros bont ymhen y drêf, ſafodd y meirch, oni ddolefodd ef yn ddiclon wrth y gyrrwr, Gyrr ymlaen yn enw milo gythreuliaid: ar hynny Cododd Corwynt diſymmwth (er bod yr hîn yn deg o'r blaen) y daflodd y Cerbyd dros y bont i glawdd dwfn, lle trigodd ef a'i wraig.

Wedi Coroni'r *frenhines Elizabeth*, ac iddi roddi ei bryd a'i gallu i gynal yr efengyl, Cynnyddodd gwybodaeth o *Ddduw* yn *Lloegr* yn ddirfawr, ac en ir *Papiſtiaid* oddifewn ac oddi allan ir deyrnas oſod maglau yn aml yw dinyſtrio hi, etto y mddiffynnodd *Duw* hi, ai waith yn ei llaw hi. Ac yn fynech daeth eu dichellion nhwy ir golau drwy foddion rhyfeddol: megis Pan gymerwyd llong, yr oedd offeiriad Pabaidd yn mono ynddi, ac iddo rwygo a thaflu ei bapyrau ir môr, Chwythodd gwynt hwy ir llong eilwaith, ac wedi eu rhoddi yn ghyd, gwybuwyd wrthynt fod y *Pab* a'r *Hiſpaen* a *Ffrainc* yn bwriadu rhuthro am ben *Lloegr*. Ac er mwyn Cadarnhâu yr deyrnas yn eu herbyn hwynt catwyd peirianau rhyfel ni chawſid yn *Lloegr* er ioed o'r blaen, megis Powder gwn, a mwyn Prês, a charreg reidiol yw drin ef, i wneuthur gynnau mawrion; y pethau oeddent ddeffygiol o'r blaen. ac adeiladwyd mwy o longau nag oedd cyn ei hamſer hi.

Wedi methu pob brâd ddirgel, y mae 'r *Hispaen* yn bârod i wneuthur celanedd yr yr amlwg, ac yn anfon byddyn fawr, elwyd *Anoreſcynol*, i gwncwerio *Lloegr*. yr hon pan ddaeth ir *môr Saeſnig*, bwriodd angor y tu neſaf i *Ffrainc* i aros am ychwaneg o gymdeithion. ond yn y Cyfamſer, gyrrodd y *Saeſon*, oedd yn agos nhwythau, wyth o longau tanllyd ymyſc llongau 'r *Hiſpaenwyr*, yr hyn y barodd ddychryn, a chri, a gwaſcarfa fawr yn eu plith: ac a roddes achlyſſur a mantais ir *Saeſon* i ddryllio rhai, ac i yſſigo eraill o honynt, ac i ddigaloni 'r cwbl, oni ymroeſant i hwylio gyda 'r gwynt tua 'r gogledd, o amgylch *Scotland*, a'r *Iwerddon*, i ddychwelyd adref gyda chywilydd a colled fawr, rhwng ymlâddau a rhymhèſtlau. wedi hynny cyfaddefodd un oi Penaethiaid hwy, *ei fod ef yn tybied mae* Proteſtant *ydoedd* Criſt.

Oed. Cr. 1588.

Cafodd y Papiſtiaid y gwaethaf yn y rhyfel y godaſent drwy *iarll Tyron* yn yr *Iwerddon* hefyd, er iddo barhâu yn hîr. a Chynorthwyodd y *Saeſon* yr *Hollandiaid* i ynnill rhydid eu gwlâd a'u crefydd. ond yn *Ffrainc* wedi i dduwioldeb amlhâu, a methu o'r brenin drwy ryfel ddiwreiddio ei dilynwyr, denwyd *tywyſog Nafarre*, *Penaeth y Proteſtaniaid*, i briodi *Chwaer y brenin* mewn ffûg cuttundeb rhwng y ddwyblaid. A phan ymgaſclodd y rhai ardderchoccaf o'r tu crefyddol ir neithior yn y brif ddinas, rhuthrodd y *Papiſtiaid* am eu pennau liw nôs tra yr oeddent yn eu gwlâu yn ddioſal, a lladdaſant ddengmil o honynt ar *ddigwyl Bartholomeus*, yn y flwyddyn

1572.

1572. Ac yn gyflym anfonwyd gair i ddinaſoedd eraill i wneuthur yr un cieidd-dra; a lladdwyd y tadau a'r plant yn eu breichiau, a lladdwyd y plant ai dwylo am yddfau eu tâdau; yn rhai dinaſoedd caewyd y Pyrth rhag ir un ddianc oddiwrth y giggyddieth waedlyd.

Lladdwyd cantoedd yn *Weldis*, a miloedd yn *Orleance*, ac wyth gant yn *Lugdunum*, lle y dechreuodd *Waldez* adgweirio crefydd. Tri ugain ar ddèg yn *Burdeaux*, llawer yn *Tholos a Roan*; ymhob man wedi dengmil a'r ugain: mor doſturus oedd y golwg, oni orfu ir cigyddion anfon am wîn i gynal eu calondid, er bod defaid y lladdfa yn rhoddi ei gyddfau i lawr yn ddiymdrech.

Am hyn gorchmynodd y *Pâb* lawenydd mawr yn *Rhuſain*, a gorfoleddodd *brenin Ffraine* gan dybied iddo wneuthur diben llwyr o'r *Proteſtaniaid*.

Ond ymwrolodd *Rochel*, a rhai dinaſoedd eraill, lle'r oedd y *Proteſtaniaid* amlaf, yw ymddiffyn eu hunain; ac ni thycciodd i holl allu *Ffraine* warchau a'r *Rochel*, am i *Ddaw* anfon pyſcod dieithr hyd yr afon yn ymborth ir ddinas; ac felly drwy ryſeddod ddiddymu pwrpas ei elynion. Ar hyn blinodd y brenin yn ymguro, a chyflychodd i roddi rhydid a heddwch ir rhai crefyddol a weddillaſid drwy *Ffraine* oll. Ymhen y ddwy flynedd, bu farw'r *brenin* hwnw dan waedu drwy holl dyllau ei gorph, ſef ei ſafn, a'i ffroenau, a'i lygaid, a'i gluſtiau, a'i rannau iſaf; yr hwn y gwnaeth i waed ffrydio ffrydiodd gwaed o hono, fal y darlleneu ei bechod yn ei benyd, ynnyddiau'r trychineb hwn gwelwyd

Seren

Seren newydd dros ddwy flynedd, ac yna diffoddodd. Yn *Sevil* o'r *Hispaen* y charcharwyd wythgant ar unwaith am burdeb ffydd, gan eu lloſci o feſur yr ugain, er bod llawer o honynt yn uchel-râdd yn y byd.

Yn *Fflandria* befyd cynyddod yr efengil, yn enwedig yninas *Lile*, ac erlidwyd hi yn fanwl; ymyſc eraill o rai dûwiol y ferthyrwyd yno, enwog fu dau bregethwr, ſef *Guy de Brez*, *a Peregrine de la Grange*, y rhai pan oedd eu caredigion yn cwyno iddynt wrth weled eu heirn, a ddywedaſant, *Fod yn werthfawroccach ganddynt gadwynau heirn er mwyn Criſt, na chadwynau aur ffordd arall, a bod ſwn y linciau yn felyſach ganddynt na cherddorieth, a'u bod yn eu cuſtudd yn cael prawf Siccr o'r peth y bregethaſent o'r blaen.*

Yr un amſer merthyrwyd llawer yn *Fenice*, gan eu taflu ir môr. Yn *Falence* cynygwyd ei bywyd i *Margaret Pierrone* er taflu ei bibl ir tân o flaen y dref, eithr gwrthododd wneuthur felly, a chymerth ei merthyrdod, gan garu gair bywyd tragwyddol yn fwy na'i bywyd naturiol. *Oed. Cr* 1593.

Wedi i Loegr gael hir dawelwch, a goleuni Cynes yr haul efengylaidd, dychymygodd y *Papiſtiaid* gyfodi temheſtl erchill drwy frâd y powder gwn.

Ganys pan ydoedd y *brenin James, a'r ddau dy o Barliament* i eiſtedd yn *Weſtminſter*, y nôs o'r blaen caſwyd un baryl ar bumtheg ar ugain o bowder gwn, wedi ei guddio mewn ſeleri dan dai'r *Parliament*, lle dalwyd *Guido Fawkes*, a chelfi yn ei gylch parodol i ennyn y powder i chwythu 1605.

i fynu yr *Parliament* dranoeth pan ymgyfarfyddent. Ar yr un dydd ymgaſclodd y rhai penaf o'r *Papiſtiaid* yn y wlâd hefyd, ar hyder yr ymchwanegent ſel pellen eira wrth ymſymyd ar hyd y deyrnas, a galw ar eu cyfeillion i gyfodi mewn arfau; ir diben hwnw dugaſant lawer o feirch mawrion: yr hyn y wnaeth ir wlâd ganlyn ar eu hol hwynt drwy ddwy ſhire neu dair, nes llâdd a dal y rhai pryſſuraf o honynt.

Ond yn y *Faltoline* cyflawnodd y *Papiſtiaid* eu dychymygion drygionus yn erbyn y *Proteſtaniaid*, er iddynt fethu yn *Lloegr*; canys cyfodaſant yn ddiſymmwth mewn arfau, a lladdaſant y rheolwyr a'r pregethwyr, a'r cyffredin, yn eu tai ac yn yr eglwyſydd, heb arbed na gwragedd na phlant. Y pryd y bu nodedig calondid gwraig fonheddig ievangc ai phlentyn yn ei breichiau; canys pan oſynnodd y lleiddiaid y droei hi yn *Bapiſties* i achub ei bywyd ei hun ai phlentyn, attebodd ſel hyn. *Gan nad arbedodd Duw mo'i fab, ond ei roddi i farw er fy mwyn i, minnau a'm rhoddaf fy hun am plentyn i farw er ei fwyn ynteu.* Ar hynny lladdaſant hi. 1620.

Cyn y gelanedd hon yn ygwledydd hyn canodd clôch alarwm o honi ei hun; ac wedi'r gigyddieth, clybwyd llais yn yr awyr yn dywedyd, *gwae, gwae am waed y gwirioniaid.* A gwelodd y byd y ſeren gynffonog gôch yngylch dwy flynedd o'r blaen. ac ychydig gwedi torrodd allan ryfel echryſlon yn *Germania* rhwng y *Papiſtiaid* a'r *Proteſtaniaid* a barhâodd ddêg ar ugain o flynyddoedd; a naw mlynedd cyn ei ddârfod, clybwyd hela

hela mawr gan y Cythrael yn *Bafaria* arglwyddieth o *Germania*, gyda bloeddio mawr, a llais cwn, a dywedodd *pan ddarfyddei iddo hela, yr âei i byſgotta; ſef yr arferei ddichell pan beidiei trais.*

Yn yr *7werddon* Cyfododd y Gwyddelod ofergoelus yn ddiſymwth, a lladdafant o'r *Saeſon* a chymru ddau cant o filoedd mewn dau fis, cyn cael hamdden yw gwrthſefyll hwynt, ond wedi hynny daeth dial dwys arnynt hwythau. Dwy flynedd cyn hynny Cododd y *Scotiaid* mewn arfau. Ac ychydig gwedi torrodd allan y rhyfel brwd yn *Lloegr*, am yr hwn anghydfod anafus, nid rhaid yn awr ſôn yn helaethach, am fod ei friwiau, neu ei greithiau yw gweled etto. Yn unig Cyfaddefwn drugaredd *Duw* yn peri i wybodaeth efangylaidd chwanegu drwy ymdrech y ddwyblaid. Oddiwrth ymgur y dûr a'r Calleſtr ennynnodd goleuni gyda 'r tân. Cyn y rhyfel, hi lawiodd wenith, a digwyddodd amryw ryfeddodau eraill.

Ded. Cr. 1641.

Yn *Piedmont* rhuthrodd *Duc Safoy* am ben y *Waldeſiaid* duwiol; a digwyddodd yr un-rhyw drychineb i *Broteſtaniaid Cracofia yn Polonia.* Cafodd y rhai gorthrumedig or ddau fan hynny gymorth Caredig allan o *Loegr*, y gafclwyd iddynt drwy ddefofiwn ewyllyſcar; fal y derbyniodd y *Saint Cuſtuddiedig o 7ndea* elufen haelionus oddiwrth eglwyſydd y cenhedloedd yn amſer yr *apl. Paul.* Cyn pen yr hanner blwyddyn gwedi, cafodd *duc Safoy* ei lenwi a gwaed drwy ddwylo 'r *Hiſpaenwyr.*

Bellach wedi bwrw golwg cin meddwl ar bob

gw

gwlâd ac oes, ni allwn ddywedyd yn hy, na bu gwybodaeth yr efengyl er ioed eglurach, a'r scrythurau, a llyfrau da amlach, a rhattach, na phregethwyr fedrussach oddieithr y Prophwydi, a'r apostolion, nag ydynt yr amser hwn ynheyrnasoedd y Gollewin, lle mae adgweiriad a rhydid cresydd. Yr Arglwydd a roddo ei râs i wneuthur ein bucheddau yn gyfattebol ir cynorthwyau, fal na ddiffodder yr yspryd.

Ac am deyrnasoedd y dwyrain, gobeithio nas gorthruma Coel. gresydd *Mahomet* mor efengyl yn y gwledydd hynny yn oestadol. Amlygwyd arwydd o hynny ir *Turciaid* yn *Medina*, lle mae bèdd *Mahomet*, i ymweled a pha un yr ymgasclant o bell. Canys ar ol idaranau dychrynllyd a themestl ddeffroi meddyliâu'r bobl yno, gwelwyd y geiriau hyn yn scrifenedig a llythrenau *Arabaidd* yn y ffurfafen, *oh Pam y Credwch mewn Celwyddau!* Ac yn foreu gwelwyd gwraig siriol mewn gwisc wen, a'r haul oi hamgylch, a llyfr yn ei llaw, yn dylod oddiwrth y gogledd-orllewin, a chyferbyn a hi yr oedd megis buddinoedd o'r *Persiaid* ac o'r *Twrciaid* mewn tresn barodol i ymlâdd a hi: etto hi safodd yn ei llê, ac agorodd y llyfr ydoedd yn ei llaw hi; ar hynny ffoawdd y buddinoedd, a diffoddodd yr holl lampau wrth fèdd *Mahomet*. A bu hyn beunydd dros dair wythnos. *Cynhyrfwyd un oi offeiriadau hwynt i esponi iddynt y ddrychiolaeth, gan ddywedyd, mae fel ac y darfu ir* Juddewon, *a'r* Cristnogion *ddigio* Duw *wrth droi at ddelwau, a defodau dynol, oddiwrth ei gyfraeth Sanctaidd ef; felly ddarfod iddynt hwythau, un ai llygru deddf* Mahomet,

Oed. Cr. 1620.

met, *a'r enogrwydd o hynny a barasei i'r byddinoedd ffoi; Neu fod llyfr arall nid oeddent yn ei chwilio, yr hwn pan agorid ef, y barei i bob gallu dynol gilio. Am hynny deb ef, yr wyfi yn ofni, nad yw ein crefydd ni ond llygredig, a'n prophwyd ni ond hudol: yr hwn a addawodd ddychwelyd attom cyn hyn, ac ni chyflawnodd, ie daw* Crist *y sonir am dano, ac a fydd ag enw mor ddisclair a'r haul. a hynny tros byth.* Am hyn poenwyd a lladdwyd yr offeiriad. Ond byw yw'r Arglwydd nêf y ddichon ddwyn i ben yr hyn yr anfonodd y weledigaeth yw ragarwyddoccâu.

1664. 1665. Gwelwyd tair feren gynffonog o fewn yr un hanner blwyddyn, ac ychydig gwedi torrodd allan gornwyd angerddol yn Lloegr, a gwympodd fwy o bobl na haint y nodau yn amfer Dafydd. A lloscodd Llundain: a bwriodd mynydd Ætna dân ofnadwy allan o honaw a loscodd drefydd, ac a wnaeth niweid mawr yn Sicilia. Canys ar ol daiargryn dychrynllydd, tarddodd allan o'r mynydd ffrwd boeth o ryw fettel toddedig, ac a aeth yn ddilyw o chwe milltir o lêd, gan ddifetha pethau y ffordd y cerddodd.

1 Chron. 21.24.

Oed. Cr. 1620.

Hanes y ffydd ymmhlith y cymru.

WRth ddwyn hanes y ffydd mewn gwledydd eraill, tybiais yn ddyladwy draethu beth yn helaethach am ei helynt yn ein gwlâd ein hunain, mal na byddem ddieithrol ac anghyfarwydd gartref.

Diammau

Diamau ſod ein Genedl ni er ys hîr amſer wedi gwladychu yn yr ynys hon, a thebygol ei dyſod ar y cyntaf oddiwrth wledydd y dwyrein, gan fod Cymaint carenydd rhwng ein iaith ni ag eithoedd y parthau hynny. Mae ei llefariad yn aml fel yr Hebraec yn dyſod oddiwrth gyffiniau y galon, o wraidd y geneu, ac nid fel y Saeſonaec oddiar flaen y tafod. Ac mae llawer o eiriau'r Groegiaid ynddi, megis haul, dagrau, argraphu, a'r cyfryw. Ac yr ydoedd cydnabyddiaeth rhwng ein gwlâd ni a hwynt. Canys darllennir i Bladud brenin Prydain ſyned ir Athen er mwyn dyſceidiaeth: a phan ddychwelſodd adref dug bedwar o Philoſophyddion oddiyno gyda'g ef i ddyſcu'r celfyddydau yma; ac i hynny ſeiliodd yſcolion dyſc, acth. wedi bu'r Druidion yn ddyſcawdwyr doethion o Baganiaid. Ond tebyg ſod ein gwladwyr yn anuſudd ir gwybodaeth anianol ydoedd yn eu myſe. Canys yn yr oes honno, tra yr oedd Rhifall yn rheoli, glawiodd gwaed dros dridiau yn ddibaid; ac o hynny cododd y fath liaws o wybed gwenwynllyd, ac ar ol y rheini canlynodd y fâth blâ marwol, oni ddeleuwyd agos genedl a henw y Britaniaid. Mevyn amſer attyfaſant dracheſn, a gorchfugâſant ogledd Germania, a thrwy guttundeb rhoddwyd Cambria merch Beli brenin Prydain i dywyſog y wlad honno, ac o honi y daeth y Cimbriaid, cenedl enwog o'r gogledd. yn y drydydd oes gwedi bu Llûdd yn frenin clodfawr yma, eſe ehengodd ac a gadarnhâodd y brîfddinas, pryd y galwyd hi caer-Lûdd, ac oddiwrth hynny Llundain. Yn ol hyn antonodd Prydain fyddyn *Oed. byd* 3300.

fyddyn gynorthwyol i Gallia yn erbyn Cæſar ydoedd yn rhyſela yno yr hyn a gyffrôdd y Rhufeiniaid (y gwncweriodd y rhan fwyaf o'r byd o Perſia hyd yma) i oreſcyn yr ynys hon, ydoedd anghydnabyddus iddynt hyd hynny. Ond prifiodd y Britaniaid yn anioddefgar dan iâu y Rhufeiniaid, a daeth Claudius Cæſar attynt yw llonyddu. Dracheſn cododd Prydain gyda ei brenin Arifog i geiſio ynill ei rhydd-did; ac er i Glaudius Cæſar ddyfod eilwaith i mewn yn llidiog, erto gorfu iddo guttuno ag Arifog, a rhoddi ei ferch Geniſta iddo, ac ammodau eſmwythach o ufudd-dod ir ynys. Yn amſer ei mab hwy Meurig, yr heidiodd y Pictiaid i mewn o Scythia (felly y gelwid gwledydd y gogledd, Llychlyn, a rhan o Germania gynt) y rhai a diriaſont yn Scotia i nythu yno. Galwyd yr Jwerddon yn Wernia, o ran lleithdra ei thîr, ac yn Scotia (y ſydd air Groegaidd yn arwyddoccâu *tywyllwch*, ac oddiwrtho y daeth y gair arferol *cyſgod*) o herwydd bod ei choedydd yn ei gweuthur yn ynys dywyll. Ond darfu ir Scotiaid eu hwylio hwynt oddiyno ir * Albain gogledd Prydain. Lladdodd Meurig eu brenin hwy mewn brwydr, a chaethiwodd nhwythau, ond goddefodd iddynt fyw yn eithafoedd anial y wlâd, a alwyd Caethnes. Galwyd hwynt Phichtiaid neu Graithuniaid, am eu bod yn gweuthur creithiau ag argraphia dau ar eu cyrph, tebyg mal yr ymddangoſent yn fwy ofnadwy yw gelymon. Wedi dyfod perh caethder budol ar ein gwlad ni o Rufain, anfonodd Duw iddi foddion rhydd-did yſprydol o Gaerſalem, gan ganhiadu yr eſengyl

*Scotland.

yn

yn gynar iddi, ſef yn nyddiau 'r apoſtolion, er pelled ydoedd hi oddiwrth Paleſtina. Dywed Euſebius ſyned rhai o'r apoſtolion *ir ynyſoydd elwir Brittanaidd.* Ac aeth ffydd ein henafiaid mor enwog drwy 'r byd, oni byddai athrawon goddoccaf y Criſtnogion yn boſtio o honi ynheirnasoedd y dwyrain a'r gorllewyn; Ac yn argymmennu oddiwrthi i brofi Duwdod Criſt. gan ſod ei deirnas ef yn treiddio, lle nid allai un Cæſar finio. felly y dengis Tertullianus y ſcrifennodd gyga'r Criſtnogion yn yr ail canfed o oedran Criſt. Medd ef, Britannorum inacceſſa Romanis loca Chriſto ſubdita. *Mae 'r mannau o'r eiddo 'r Britaniaid ſydd anhygyrch ir Rhufeiniaid, wedi ymroddi i Griſt.* Yr oedd rhai o'n cenedl ni yn yr Albain heb ſyned dan awdurdod y Rhufeiniaid. a thy ſtiolaethiff Origen, y ſcrifenodd ynghylch pedair blynedd a deugain gwedi, Virtus Domini Salvatoris & cum his eſt, qui ab orbe noſtro in Britannia dividuntur, & cum univerſis qui ſub ſole in nomine ejus crediderunt. *Fod rhinwedd yr Arglwydd iachawdwr gydà rheini yn Prydain a wahanwyd oddiwrth ein byd ni, a chydà phawb dan haul ar a gredaſant yn ei enw ef.* Ac medd Theodoret. *ein pyſcodwyr ni a'n Publicanod, a'r Gwniedydd a ddugaſant y cyfreithiau efangylaidd ir holl genhedloedd, ac ynnillaſant nid yn unig y Rhufeiniaid, ond y Scythiaid befyd, a'r Indiaid, a'r Ethiopiaid, a'r Perſiaid, a'r Brittaniaid, a'r Cimbriaid,*

ἐπὶ τὰς ἑσπερίους ἐξέβησαν τέρμονας.

οἱ ἁλιεῖς, καὶ οἱ τελῶναι, καὶ ὁ σκηνοποιὸς ἄπαντα ἀνθρώπους τοὺς εὐαγγελικὰς παρεσκεύαζον νόμους, καὶ οὐ μόνον Ῥωμαίους, ἀλλὰ καὶ τοὺς Σκύθας ἅπαντας, καὶ Ἰνδοὺς, καὶ Αἰθίοπας, καὶ Πέρσας, καὶ Βρεττανούς,

Βρεττανὲς, ἡ κίμβρις, ἡ Γερμανὲς λέξασι τὸ σαφὲς. Ἀλλ' ὁ θεὸς νόμους ἀγαθοὺς, *Cimbraid a'r Germaniaid idderbyn deddfau'r Crorſhoeliedig.* A gwelodd Duw yn dda beri i'r wreichionen efengylaidd yn Prydain loſci tua'r nenn, ac ennyn zêl yn y brenin Lleucius, yr hwn a ſedyddwyd ynghylch y naw ugainfed flwyddyn o Oedran Criſt. Galwyd hwn *Llês, a'r Lleuſer Mawr*, am y gwybodaeth a ddigwyddodd yn ei amſer ef; canys canlynodd y Penaethiaid ei eſampl ef: a chynorthwyodd Doewan a phregethwyr eraill y flydd yma yn ddidog. Ac felly aeth ein gwlâd ni yn flaenor ar yr holl deyrnaſoedd yn proffeſſu 'r efengyl drwy gyffredin gyngor. Tybir iddi ymgaloni mewn Criſtnogaeth beth yn hyfach,, o herwydd i ymerodr Rhufain gyhoeddi ei ewyllis da tuag at y Criſtnogion, am iddynt weddio am law yw fyddyn efoedd ar drigo o fyched. Dywed Croniclau Germania i Leucius adel ei reiolti fydol a myned i bregethu 'r efengyl mewn rhannau o honi, a throi llawer at Griſt. Ond tebyccaf mae Brittwn arall, o'r un henw a wnaeth hynny cyn ei amſer ef. Wedi marw Lleucius yn ddiblant, daeth Seferus yr ymerodr i heddychu Prydain ydoedd gythryblus. a gwnaeth glâwdd ar draws yr Albain i attal y phichtiaid. Gwedi yn nillodd y Britaniaid eu rhydd-dyd gan ddifetha y Rhufeiniaid; a phan ddaeth *Cuſteint a byddyn yn eu herbyn hwynt; heddychaſant ag ef; yr hwn ai dyhuddodd hwy ai fwynder, ac a briododd eu penadures Helen, merch hawddgar, ddyſcedig, a chrefyddol, o'r hon y ganwyd iddo y mab graſol * Cuſtenyn; yr hwn wedi marw ei dad yngbaer

Oed. Cr. 180.

*Conſtantius.

*Conſtantinus.

ebrauc

Ebrauc, aeth yn ymeroder; ac a brifiodd yn Swccwr daionus ir Criſtnogion oll. o prydain y pryd hyn y dechreuodd Duw weithio dywygiad yn y byd drwy Cwſtenyn fawr, ſal y dywed ei broclamaſiwn ef at Raglawiaethau paleſtina. *Pan farnodd Duw fy ngweinidogaeth i yn gymwys i gyflawni ei ewyllus ef, gan ddechreu o fôr Prydain, a'r parthau tua machlud haul, gyrrodd ar ffô y drygau oeddent yn gorthrymmu dynion, a chynnyddodd y ffydd ddedwyddaf.* Cydnabyddir hyn yn anrhydedd i prydain, *olau etcwyn o eirias ei Sanctteiddrwydd y lewyrchodd ir ymerodraeth oll.* Caſclodd Cwſtenyn gymanſa gyffredin Eglwyſig yn * Gallia, yn y flwyddyn o oedran yr Arglwydd, trychant a phedair ar ddèg, ac un arall yn Nicea wedi hynny, ac yr oedd eſobion Prydain ymbob un o'r ddau. Ac nid oedd milwyr Britaniaidd ddieithrol yw ſyddinoedd ef, wrth fwrw gorthrymwyr y byd i lawr. ynghylch ôes gwr gwedi, aeth ein gwladwyr ni yn dra llioſog i ganlyn Macſimus eu rheolwr i Gallia. yr hwn a geiſiodd ddiſwyddo ei feiſtreid ymerodron Rhufain, a chymeryd eu llê hwynt. y pryd hynny fel y tybir y plannodd Conan Meriadoc Arglwydd Rhywioniog wyr Gwynedd yn * Lydaw. y rhai anfonaſant adref am wragedd, ac hebryngwyd iddynt un mil ar ddèg o wyryfon; y rhai a daſlwyd gan demmeſtl ar y môr i ran o Germania: lle derbynwyd hwy gan genhedloedd Barbariaidd gelyniaethol i Prydain, a ſynnaſent ymrewydd a hwynt, ac am nas Caent eu llâdd a orugaſant. y mae parch i goffadwriaeth

blwydd. y Arg. 306

Ffraingc

Oed. Cr. 400.

Letavia

Oed. Cr. 450

y merthyron hyn am eu diweirdeb. ar ol hynny, gorfu i Frittaniaid Llydaw, gymeryd gwragedd o'r wlâd honno, a thorrasant eu tasodau hwy, rhag iddynt lygru Cymraeg eu plant. ond wedi ir phichtiaid ymgyfathrachu a'r Scotiaid, preswylwyr yr Iwerddon, Cawsant eu Cynorthwy nhwy i flino ein henafiaid ni, ac i helaethu eu terfynau, a rhyngthynt meddianasant yr Albain. ac oddiyno mewn amser anrheithiasant Loegr, ydoedd ry wan yw gwrthsefyll hwynt, gan ir Rheolwyr Rhufeinaidd dynnu allan o honi agos yr holl wyr jeveingc yw Calyn hwy ar bob achlysur i Gallia, ar Ital, i ddiffyn ymerodraeth Rhufain, ydoedd yr amseroedd hynny yn cael lloneid ei dwylaw gan amryw elynion gartref. wedi 'r bedwaredd ganfed o oed Crist, mae tystiolaeth hynod am ffydd y Britaniaid yn Scrifenâdau un o'r hên bregethwyr Groegaidd, clod-fawrussaf yn y byd, sef Ioan * Aureneu o Constantinopl. *profodd ynysoedd Prydain, rinwedd y gair, canys seilwyd eglwysydd yno. Od ai i'r môr mawr, neu'r ynysoedd hynny o'r eiddo Prydain, neu os Llongwrio a wnei i fôr Eucsinus, neu od ai i barthau yr Deheu, cai glywed pawb ym-hob man yn philosophyddio ynghylch pethau 'r scrythyrau, yn ddiau ag iaith arall, ond nid a ffydd arall, a garw-sain y llefarant,* ond

Chrysostomus

Αἱ Βρεττανικαὶ νῆσοι τῆς δυνάμεως τοῦ ῥήματος ἤσθιοντο. καὶ γὰρ κἀκεῖ ἐκκλησίαι πεπήγασι.

κἂν εἰς τὸν ὠκεανὸν ἀπέλθῃς, κἂν πρὸς τὰς Βρεττανικὰς νήσους ἐκείνας, κἂν εἰς τὸν εὔξεινον πλεύσῃς πόντον, κἂν πρὸς τὰ νότια ἀπέλθῃς μέρη, πάντων ἀκούσῃ παντάχου τὰ ἀπὸ τῆς γραφῆς φιλοσοφούντων, φωνῇ μὲν ἑτέρᾳ, πίστει δὲ οὐκ ἑτέρᾳ, σολοικίζουσι μὲν τῷ φθόγγῳ, εὐσεβοῦσι δὲ τῷ τρόπῳ.

ond buchedd ddiwiol a ddilynant. ynghylch hyn Cyfododd o Gymry un Morgan, yn Ladin gelwir ef Pelagius, tybir mae Abbad Bangor îs y coed oedd ef, a thano fwy na dwyfil o fynych. Aeth hwn i Rufain, ac oddiyno i Gaerſalem; fel yr oedd arfer Criſtnogion y pryd hynny i ddyfod ynghyd yno o bob parth ac iaith, er mwyn gweled gwlâd ganedigaeth Criſt ai apoſtolion. A phan ddeuent ynghyd byddai ganddynt yr un ffydd, er nad oeddent o'r un iaith. ymgyfarfyddai pob cenedl ar ei phen ei hun, ond yr un Criſt y addolent, a'r un rheol wirionedd y gadwent. Bu ein Gwladwr ni yn enwog, ac yn anwyl am ei ſancteiddrwydd ai wybodaeth ymyſc y Criſtnogion, a'r dyſcawdwyr godidoccaf yn y byd, megis eſcob Rhufain, ac Awſtyn eſcob Hippo. ond er diwedd athrawiaethodd ymhob gwlâd, fod ewyllis rydd gan bob dyn, heb bechod gwreiddiol; a pharodd anghydfod mawr ymhob mann. yſcrifenodd Hierom ydoedd yn Bethlehem, yn erbyn Morgan ydoedd yntef yn Jeruſalem, gan gymwyſo yn ei erbyn ef eiriau Jeremi, *oddiwrth brophwydi Jeruſalem yr aeth halogrwydd allan ir holl dir.* gan ei fod ef yn Cael achlyſur i hâu ei athrawiaeth ymyſc y Criſtnogion a ymgyfarfyddent yno o'r holl fyd. Ar ol hyn magodd llidd, a lladdodd dilynwyr Morgan rai o braidd Hierome, a lloſcaſant eu monachlogydd. A phan ymrwyſtrodd trigolion Prydain hefyd a'r ddadl hon, cawſant gan eſcobion Gallia anfon Garmon eſcob Antiſiodor, a Lupus eſcob Trecaſſe, attynt i gynorth- pen. 23 15

wyo eu ffydd. y rhai wedi dyfod i'n gwlâd ni, lle 'r oedd Criſtnogaeth wedi gwanhychu, a droeſant lawer at ddaioni wrth ymddadlu yn gyhoeddus, a phregethu yn aml. A phan oedd ein henaſſiaid ni mewn Cyfyng gyngor o herwydd y Phichtiaid a'r Saeſon ydoedd yn rhuthro arnynt yn unfryd; Ar ol aml ymprydiau, a gweddiau derchaſedig, a chymûnau, arhôſodd Garmon, gyda thyrfa ddewiſol o ddyſcyblion mewn Cynllwyn: a chynted ag y daeth byddin y gelynion yno, yn ddiſymmwth Crôch-leſodd ef, ai ddilynwyr gan adrodd *Alleluia* deirgwaith, onid oedd y wlâd yn dadſeinio. a thrawodd y fath fraw yn y Saeſon a'r Phichtiaid, oni ddiangaſant gan ſwrw eu harfau ymmaith, a boddodd llawer o honynt yn yr afon wrth geiſio myned trwyddi ar frys. Digwyddodd hyn yn ymyl yr wyddcruc yn ſîre y ffliat, a gelwir y lle *Maes Garmon* hyd heddyw. Dyma ſuddugolieth debyg i un Gideon gynt, pan ffôawdd gwerſyll y Midianiaid wrth glywed rhai diarfog yn lleſain *Cleddyf yr Arglwydd a Gideon*. Gwedi hyn darfu ir Gwyddyl Phichtiaid ddyfod i Fôn, a churo 'r Britaniaid mewn man elwir *Cerrig y Gwyddyl*. Ond gwedi caſwathon Law-hir tâd * Maglocun ai hymlidiodd hwynt ymmaith. Pregethodd Ninianus Brittwn yr eſengyl ir Phichtiaid yn yr Albain, ac a ffynnodd yn ei waith: ac ymhen deuddeg mlynedd gwedi daeth Padric Britwn arall i bregethu ir Iwerddon. Ganeſ d ef yn yr Albain yn nhrèf Banafau, ynnhalaith Tabernia, ai dâd oedd Ddeon, ai daid yn henuriad. Cipiodd yr Scotiaid

Bar. 7. 20.

Maelgwyn. b'wydd. yr Arg 420.

hwn

hwn gyd a'g eraill yn garcharor yn ievangc, a gwerthaſant ef yn gaethwas yn yr Jwerddon, yn yr hwn gyflwr y trôdd ef at Dduw yn ddifrifol, gan weddio yn aml; ac wedi hîr gultudd cafodd ddychwelyd adref: a phan oedd ei rieni yn daer arno am aros gyda hwynt, mewn breuddwyd gwelai un o'r Jwerddon yn rhoi llythr iddo ef, yn necchreu *'r* hwn y darllenai, *llais y Gwyddelod*, a thybiai glywed eu lleſain hwynt yn un-air yn dywedyd, *yr ydym yn deiſyf arnati fachgen Sanctaidd ddyfod a rhodio yn ein myſc ni etto*; a chynhyrfodd hynny ei galon ef. aeth i Gallia at Garmon a Marthin dyſcawdwyr yſprydol, nerthol, ac arhoſodd gyda hwynt rai blynyddoedd i ymgadarnhâu mewn grâs a dyſceidiaeth. Ac oddiyno Cyrchodd i Ruſain, lle cafodd hyfforddiant a chymdeithion i ddychwelyd ir Jwerddon, lle y tyccıodd ei weinidogaeth ef yn ddirfawr, i droi'r tywyſogion a'r Cyffredin at ffydd Griſt, yr hon oedd yno ymyſc rhai o'r blaen. Cymerth helyd boen rafol yn Neheubarth Cymry, wrth fyned ar ei daith. ychydig gwedi bu Dubricius o Gaerlleon ar wyſc, a chadoc o Langarfan, a Gildas Albainus yn hyfforddiant mawr i ddyſceidiaeth a chrefydd yn Ghymry. Dywedir am Gildas, pan oedd ef yn pregethu, a dyfod o ſam Dewi (a hi yn feichiog arno ef) i mewn yw gynulleidfa ef, yn ddiſymwth Syrthiodd attal ar ei bregethiad ef, iel Luc. 1, 20. ar leferydd Zacharias, a chwedi prophwydodd ir wraig y byddai'r plentyn y ddygai hi yn ei chrôth, yn odidog yngair y gogoniant. A phrifiodd y peth felly. Canys aeth Dewi yn Archeſcob tra

yſprydol, ac anrhydeddus. Yr ydoedd Mynyw mor hynod am grefydd yn ei amſer ef, ac y dywedid y gallai Criſtion gael Cymaint adeiladaeth iw enaid wrth fyned yn Bererin yno ddwywaith, ac y gai o fyned i Rufain unwaith.

Meneviam ſi bis, & Romam ſi ſemel ibis:
Merces æqua tibi redditur hic & ibi.

Dôs i Fynyw ddwywaith, ac i Rufain unwaith.
Ar un elw cryno, y gaidi yma ac yno. Ynghylchy pryd hwn gwnaeth Teilau, a Phadern hefyd eu rhannau yn gwasnaethu eu cenhedlaeth. Yn yr oes hon yr ydoedd gan y Britaniaid dri Archeſcob. un yn Llundain, un yn Ghaer Ebrauc, ac un yn Ghaer Lleon ar Wyſc, yn Neheubarth Cymry, heb law escobion, a gweinidigion. Yr oedd eglwyſydd Cymry dan lywodraeth Archeſcob Chaer Lleon ar Wyſc, a rhai Lloegr dan lywodraeth Archeſcob Llundain, a rhai yr Albain a'r gogleddir tu hwynt i Humber, dan lywodraeth Archeſcob Caer Ebrauc. yr ydoedd hefyd yſcoldai noddedig yn amryw fannau, lle 'r oeddid yn dwyn philoſophyddion i fynu, ac athrawon ac enwediccaf coleds ynGhymry ydoedd ynGhaer Lleon ar Wyſc, ond am fod Prydain *yn gwybod ewyllis ei Harglwydd ac heb ei wneuthur, darperir iddi lawer offonodiau*: ac am ei bod yn dir Cyndyn, *yn dwyn drain a meiri yn lle llyſſiau Cymwys ir llafurwr nefol, aeth yn anghymeradwy, ac yn agos i felldith a lloſciad.* Yngbylch Pedwar Cant a thrugain o oed Criſt, mae 'r Rhufeiniaid y fuaſent yn llywodraethu arni yn hîr, yn ei gadel yn weddw. Mae 'r Phichtiaid a'r Scotiaid yn rhuthro iddi fel

Oed. Cr. 460.

bleiddiaid

bleiddiaid yr hwyr, ac mae'r Saeſon anghredadwy, pobl o ogledd-dir Germania, a gyflogaſid yw gwrthſefyll hwy, yn lle Cynorthwywyr yn prifio yn llwyr ddiniſtrwyr ein cenedl ni. A thrwy dân a chleddyf yn troi 'r dinaſoedd yn garneddau, a chelaneddau 'r dinaſyddion yn domenydd, a'r hyn nis gallent ei reibio wrth chwareu 'r llewod, yſclyfaethent ef ar ddull llwynogod. Canys wedi ir Britaniaid eu curo hwy yn ddewr, ac wrth gyttundeb ddyfod o'r penaethiaid ynghyd yn ddiarfog i dynnu ammodau heddwch, ac i gydwledda au penaethiaid nhwythau, cawſant eu llâdd yn dwyllodrus a chyllill hirion yngwaſtadedd caer * Caradoc. a rhoddes hynny o drychineb ſantais ir dibirwyr i oreſcyn llawer o'r ynys. ond drwy ddewrder a phwyll Emrys Aurelianus, a'i frawd Vthr, a'i nai ef y brenin Arthur, gwelodd Duw yn dda roddi 'r Maes ir Britaniaid mewn llawer brwydr, ac attal gerwindeb y Saeſon, nas gallaſant mo ddifrodi ein henafiaid ni i gyd a'r unwaith. Canys heb law Cymry glynaſant yngorllewin a gogledd Lloegr amryw flynyddoedd, wedi ir Saeſon breſwylio Llundain, a dwyrein barthau 'r ynys. Yn yr amſeroedd helbulus hyn gofododd rhai law Dduw at eu calonnau, ac ymroeſant yw waſnaethu ef gyda'g oſn a dychryn. O'r cyfryw yr ydoedd Centigernus. Yr hwn a Seiliodd ſonachlog Llanelwy ynghylch y flwyddyn 560: ordeinwyd ir mynych oeddent naw cant ymranu, fel y delai'r naill dyrfa i mewn i addoli Duw, pan ddarfyddai ir llall; fel na pheidiai addoliad Soniarus un amſer. oddiyno aeth ef i Glaſcu yn yr Albain,

* Salisbu-rie.

Lle bu ef yn hyfforddiant mawr ir eſengyl, a Gildas Albainus heſyd. Clomen Celli yr un môdd a gyſododdd lawer o ſonachlogydd ym-Hrydain, a'r Jwerddon. Aphan aeth i Glaſcu, ef a rhai oi ddilynwyr i ymweled a Chentigernus, Cyſarfuant ai gilidd dan ganu pſalmau. Meddai 'r naill blaid *y Sainct ânt o rinwedd i rinwedd, ymddengis pob un gerbron Duw yn Sion. Meddai 'r llall, yn ffyrdd yr Arglwydd mawr yw gogoniant yr Arglwydd.* Anſonodd Americ brenin yr Jwerddon am Frittwn duwiol dyſcedig elwid Gildas. (ac a gyſenwir Badon) i adferu treſn eglwyſig yn ei deyrnas ef, gan addaw ufuddhâu yw athrawieth ef. Aphan gymerodd yr athro yſdrydol y gwaith mewn llaw, bendithiodd Duw ei orchwyl ef yn diwygio pethau crefyddol drwy 'r Jwerddon oll; lle y llacciaſent lawer er amſer Padrig. Mae 'r Prydydd y ddaroganodd ynghylch y Coronog Faban, yn galw hwn yn brophwyd

Pſal. 84. 7.

Pſal. 138. 5.

Coronog Faban y gaiff mawr urddas,
Medd yr hên Bropbwyd a elwir Gildas.

Bu ef fyw yn y tô neſaf at y brenin Arthur, ac a ſcrifennodd lyſr Ladin y ſydd etto yw weled, i fynegi helynt Prydain, ac i argyhoeddi ei wladwyr oi pechodau ai peryglon. Ac o herwydd ei fod yn hynaf llyſr o waith Cymro a'r ſydd yw gael yn brintiedig, a mwyaf ei barch, ac yn berthynaſol i'm perwyl, wedi ei ſcrifennu at ein henafiaid ni ynghylch amſer eu diſrawd, darfu i mi ei dalfyrru, ai gyfieithu o'r

Blwy. yr Arg. 564.

Ladin

Ladin ir Gymraec. ac i'th hyfforddi yw ddeall ef, gofodais ymbell air ynghwrr y dalennau, y pennodau hefyd, a'r adnôdau, lle Ceir yr ſcrythyrau y arferiff ef yn aml, er nad oeddent wedi eu rhannu felly yn ei amſer ef.

Rhag y madrodd * Polydorus Fergilius at Cuthbert Tonſtall eſcob Llundain. * *hwn a brintiodd y Llyfr gyntaf.*

Pan i'm rhoddais fy hun i ſcrifenu hiſtori Lloegr, ac er mwyn hynny i ddyfal chwilio Croniclau, darllenais yn Beda ddarſod i ryw hiſtoriawr gynt ai henw Gildas, yn wyloſus alaethu dinyſtr a phechôdau ei wladwyr y Britaniaid. A thra yr oeddwn yn chwilio am dano, tydi goreu Eſcob, yr hwn wyt yn dra gofalus am chwanegu dyſceidiaeth, a gefaiſt y llyfr: A phan aeth y gair allan ymyſc yſcolheigion gael hên awdwr, a bod chwant iddo, gwelais yn dda ei gyhoeddi, ac yntef yn gryf mewn athrawiaeth. oſ gwnaiff leſhâd, fel y mae yn dra buddiol, cyfrifer hynny i ti, am ei ddyfod o'r tywyll ir golau a thi yn arweinydd, bydd wych. 1523.

GILDAS FRITTWN YNGHYLCH ADFYD PRYDAIN.

Tewais a ſôn gyda mawr ofid Calon, fel y mae'r Arglwydd chwiliwr yr arennau yn dyſt i mi, dros ddeg mlynedd. Ond gwelwn yn ein amſer ni mal y galar-nâdodd Jeremi, *ſod y ddinas aml ei phobl yn eiſtedd ei hunan yn weddw. a thywyſoges y taleithiau tan deirnged*, ſef yr Eglwys. a *thywyllu yr aur*, ſef llewyrch gair Duw. A darllennwn *Galarnad. Jer. pen. 1. ac 4. 1.*

ir

Math. 8, 12. ir Arglwydd ddywedyd *y teflid plant y deyrnas ir tywyllwch eithaf. Ac y torrid ymmaith yr oliwydden wyllt a impiasid yn y dda, oddieithr iddi ofni* Gwelwn faint o ddifrawch sydd mewn pobl o'r oes hon, er ei bod yn dra phechadurus a du, mewn zèl gan hynny i dy Dduw, ai gyfraith, a chwedi sy nghymmell gan weddiau Sanctaidd y brodyr, ymosodais i lesaru, sel yr assyn y ddangosodd ir Swynwr fod angel ai gleddyf noeth yn ei erbyn ef, er cael ei churo am ei phôen. ynys Prydain sydd sel priodas-ferch wedi ei thrwsslio a llawer o dlyssau. a chyn dyfodiad Crist yn y cnawd addolodd synyddoedd, ac asonydd peryglus, a phethau Cythreulig, (agos cyn amled a rhai 'r Aipht) lluniau hyllion rhai o honynt sydd etto yw gweled ynghylch Caerau anghyfanne ddol. Ond wedi i Grist y gwir haul ddangos ei belydr, sef ei orchmynion iddi, yn amser Tiberius Cæsar; derbynwyd hwynt gan rai eneidiau yn llygoer, a chan eraill yn galonog: ac yn yr erlid yn amser Diocleſianus golenodd lampau 'r merthyron ynddi. y rhai a safasant yn y maes yn ddewr gyda Christ yn wrryw ac yn fenyw. y pryd yr addurnwyd Albanus Sanctaidd a gwrthiau rhyseddol yngolwg yr annuwiol, oeddent yn ei arteithio et am ei gyffes rasol. Canys drwy weddi wresog agorodd ffordd i syned drwy frwynen yr ason enwog Thamesis yn Droed-sych gyda mîl o wyr, a'r dyfroedd yn sefyll o'u deutu sel caulennydd mawrion. oni thrôdd yr arteithiwr o flaidd yn oen, i sychedu am fuddugoliaeth merthyrdod. ond wedi'r demestl, mae

Rhuf. 11. 17.

Num. 22.

mae'r Criſtnogion a golugon ſiriol yn mwynhâu goleuni tawel yr awyr nefol. adnewyddant yr eglwyſydd y fwriaſid i lawr, addolant a chalonnau ac a geneuau pûr, a gorfoleddant. A pharhâodd Cyſſondeb byfryd ymyſc aelodau Criſt, nes i hocced Arrius ac eraill, fel nadrodd chwythu gwenwyr marwol amryw hereſiau o'r tu hwnt ir môr i'n gwlad ni, yr hon oedd chwanog i glywed rhyw newydd-beth. Er diwedd gan fod yr ynys yn dwyn henw y Rhufeiniaid y rhai ai goreſcynnaſent hi er ys talm o flynyddoedd, ond nid yn arfer eu moddion hwynt, eithr yn bwrw allan egin chwerw, anfonodd ei gwyr jevaingc yn llûoedd i ganlyn Macſimus y Gormeſdeyrn i Gallia, y rhai ni ddychwelaſant adref mwy. Ar ol hyn y mae Prydain wedi Colli ei milwyr ai rheolwyr, yn tuchan dan orthrumder dwy genedl tramor greulon, ſef y Pictiaid a'r Scotiaid dros lawer o flynyddoedd, ac yn Cael Cymorth yn eu herbyn o Rufain ddwywaith. ond gwedi dychwelyd o'r Rhufeiniaid adref (y rhai Cyn ymadel a rybuddiaſent ein gwlâd ni i ddyſcu traenio, ac nad ymollyngai 'n llibyn o ran muſcrelli yw chaethiwo gan genhedloedd nid oeddent ddim cryfach na hi) y mae'r Pictiaid A'r Scotiaid (y rhai orchguddient eu hwynebau a blew, yn hytrach na rhannau gwradwyddus eu Cyrph a dillad) yn heidio drachefn, ac yn Cymeryd meddiant o'r holl ogledd-dir, a darnir y dinaſyddion alaethus gan y gelynion, ſel wyn gan gigyddion: a newyn angeiriawl a lynai wrth y diangol, gan fod y wlâd mor fynech wedi ei hyſpeilio,

nid

nid oedd ymborth ond y ddelid wrth hela. Mae'r gweddillion truenus yn anfon llythyrau y adroddant fel hyn, *At* * *Aetius ocheneidiau'r Britaniaid. mae 'r Barbariaid yn ein gyrru ni at y môr, a'r môr yn ein gyrru ni at y Barbariaid, rhwng y ddau lleddir neu foddir ni.* yn y Cyfamser wedi methu 'r genadwri, rhoddafant eu hyder ar *Dduw*, ac nid ar ddyn, a'r pryd hynny y gwnaethant gelanedd ymysc eu gelynion gyntaf; yn ol ymadrodd Philo, *Bydd Cymorth Duw barod lle metho un dyn.* Dros enyd fechan peidiodd hyfder y gelynion, ond nid ein drigioni ni. Ciliodd y gelynion oddiwrth y dinasoedd, ond ni chiliodd y dinasyddion oddiwrth eu pechodau. Canys yr oedd ein cenedl ni, megis y mae yn awr, yn grêf i bechu, ac yn wan i ryfela. Yn yr yspaid tangneddyf llifeiriodd yr ynys o bob rhyw lawnder Cynhalieth, gyda'r hwn y cydtyfodd trythyllwch, oni ellid ddywedyd
1 Cor. 5. 1. y pryd hynny yn gymwys, *bod yn eich plith chwi y Cyfryw odineb*, ac na *henwir ymysc y Cenhedloedd.* Ac nid y bai hwnw yn unic, eithr pob rhyw lygredigaeth a'r sydd ddigwyddawl i natur ddynol, ac yn gwyr-droi pob daioni yn awr hefyd. Sef casineb ir gwirionedd, ac ir rhai ai haero, serch ir Celwydd, ac ir neb ai gwnelo, croesawu'r drwg yn lle da; perchi gloddest am fwynder, a chwenych tywyllwch yn lle 'r haul, a chymeryd Satan
Hosh. 8. 4. am angel goleuni. *Eneinwyd Brenhinoedd nid trwy'r Arglwydd*, ond y rhai fyddau creulonach nag eraill; a chyn pen nemawr, lleddid hwynt, a dewisid rhai

* *Rhaglaw Gallia dan y Rhufeiniaid. blwy. yr Arg.* 446.

rhai gwaeth. Ac os digwyddai i un o honynt ſod yn hynawſach, ac yn nês at y gwirionedd, gwrthwynebid hwnw megis dinyſtriwr Prydain. Yr un módd oedd ganddynt y pethau a ddigiau, a'r pethau a ſodlonau Dduw; oni ellid ddywedyd wrth ein gwlâd ni — *hád y rhai dryglonus, gwrthodaſoch yr Arglwyd, digiaſoch Sanct Iſrael, i ba beth i'ch tarewir mwy? cildynrwydd a chwannegwch: y pen oll ſydd glwyfus, a'r holl galon yn llèſc, o wadn y troed hyd y pen nid oes dim cyfan ynddo.* Ac nid y gwyr bydol yn unic oedd fel hyn, ond praidd Duw hefyd, a'i bugeiliaid. Yn y cyſamſer y mae Duw yn ewyllyſio glanhâu ei deulu, wrth anſon iddynt air ſod eu hên elynion yn darparu dyſod attynt yw difrodi, ac i gymeryd y wlád; ond nid ydynt well er hynny. *Gan na chymer gwás pengaled addyſc a'r eiriau; ffflangellir yr ynfyd ac nid yw yn ſynied.* Canys y mae plâ angheuol yn llâdd cymaint lliaws o'r bobl, nas gallau'r byw eu claddu. Etto Cyflawnir prophwydolieth Eſai, *Gwahoddodd Duw i wylofain, ac i foeledd, ac i ymwregyſſu a ſachliain, ac wele lawenydd a gorfoledd, gan fwytta cig ag yfed, a dywedyd, bwyttawn, ac yfwn, Canys y foru y byddwn feiw.* O herwydd neſſâodd yr amſer *i gyflawni eu hanwireddau fel rhai yr Amoriaid gynt.* Y pryd y dallwyd y cynghoriaid a'r brenin balch i ollwn y Saeſon oi gwirfodd ir ynys, yw cynorthwyo yn erbyn eu hên elynion. O ddioglud hurtrwydd meddwl y tywyſogion! fel rhai *Zoan, y roddaſont i Pharao gyngor anoeth.* Ofnent *y Saeſon o'r blaen fel angeu, ac etto gwahoddaſont y bleiddiaid hynny i gorlan

Eſai. 1. 4, 5, 6.

Dihar. 29. 19. ac 27. 22.

Eſai. 22. 12, 13.

Gen. 15. 16.

Eſai. 19. 11.

* *Canys gwnaethent tuthr i Prydain o'r blaen, ac arferent yſpeilio ar y mór.*

deſaid, yn gyntaf daeth tair llongaid o honynt i mewn ir ddwyrein-rann o'r ynys, lle 'r arhoſaſont drwy genad y brenin anhappys. Ac wedi dyfod torfoedd ychwaneg attynt, addawſant yn dèg dros drô, yr ymladdent dros eu lletteuwyr Syber. Ond mewn amſer goſynnant haelioni mwy, a thorrant eu cyngrair, a rhuthrant dros yr ynys o'r dwyrain ir gorllewin. oni chyflawnwyd ynom ni air y prophwyd *y cenhedloedd o Dduw y ddaethant*
Pſal 79. 1. *i'th etifeddiaeth, halogaſant dy deml Sanctiaid.* Onid oedd dros yr holl wlâd gelain y trigolion, gyda'r eglwyſwyr, yn ddarnau hyd yr heolydd, ie yn dyrrau cymyſcedig, megis mewn gwryf mawr y gweſcir afalau ynddo; heb fedd iddynt, oddieithr tai wedi ſyrthio, neu foliau milod. Diangodd y gweddillion ir môr a'r mynyddoedd, gan
Pſal. 44. 11. oernâdu fal hyn, *Rhoddaiſt ni fel defaid iw bwytta, a gwaſceraiſt ni ymyſc y cenhedloedd.* Ac mewn amſer maent eilwaith yn ymgaſclu ynghyd o bob parth, fel y gwenin ir cwch ar dymmeſtl; gan alw ar Dduw a'u holl galon, a llwythant y nefoedd ag aneiriſ weddiau na lwyr ddifethyd monynt; a than lywodraeth Emrys Aurelianus, gwr pwyllog, (rhieni yr hwn a laddeſid yn y derfyſc) maent yn rhoi curſa yw gelynion drwy helpe Duw. Ac o hynny allan weithiau byddai 'r dinaſyddion, weithiau'r gelynion yn cael y maes; fel y profai'r Arglwydd yn ol ei arfer, ydoedd Iſrael breſennol yn ei garu ef ai peidio: hyd ſlwyddyn gwerſyll
* *Bath.* mynydd * Badon, ar lladdfa ddiweddaf agos y wnawd ar y diffeithwyr, yr hyn oedd bedair blynedd a deugain, ac un mîs ar ol dyfodiad y Saeſon

i mewn, a'r amſer y ganwyd fi. Nid aeth deſtrywedigaeth yr ynys, a'r cynorthwy y ddigwyddodd iddi heb ei ddiſgwyl, iyth allan o gôſ y rhai ai gwelſent. am hynny gwnaeth y brenhinoedd, a'r penathiaid, a'r eglwyſwyr, a'r cyffredin, bob un eu dyledſwyddau. Ond pan gyſododd tô arall ni wyddai oddiwrth ddim, ond y tawelwch preſennol, dymchwelwyd gwirionedd a chyfiawnder, fel na welir mo'i hôl mewn grâdd yn y byd o ddynion; oddieithr ychydig iawn y ſydd a'u bywyd yn hôff gan Dduw, ac au gweddiau yn cynal ein gwendid ni. Na thybied neb fy mod i yn bwrw attynt hwy, tra yr wyf mor byſy yn cwynofain pentwr y rhai drygionus, y ſydd *yn gwaſnaethu eu bolian* a diafol yn hytrach na Chriſt. Canys i ba beth y celwn ni yr hyn y mae'r cenhedloedd oddiamgylch, nid yn unig yn ei wybod, ond yn ei ddannod? ſef bod gan Prydain frenhinoedd o dreiſwyr, a barnwyr o orthrumwyr, y ſclyfaethant y gwirion, ac a gadwant yr euog, a chanddynt lawer o wragedd putteinaidd, yn llochesu lladron a godinebwyr, yn anudonwyr, yn codi terfyſcoedd ymyſc eu gilidd. megis y darfu ir gormeſdeyrn * Cuſtenyn y leni yn yr eglwys lâdd dau o'r bâd brenhinol, er iddo ymrwymo a llw cyhoeddus na wnai dwyll iw bobl. wedi iddo a'r blaen yrru ymmaith ei wraig o ſerch ar butteiniaid. Oh pam yr wyti yn archolli dy enaid dy hun? Oh

* *Y Cuſtenyn hwn aeth yn frenin ar ol Arthur. dywedir iddo ediſarhâu am ei ddwyg gwedi hyn, a phregethu yr efengyl yn yr Albain, ar ferthyru ef yno.*

pam

pam yr wyti yn ennyn y tân iti dyhun? edifarhâ a thyred at Grift *y tâd daionus, y wnaiff wlêdd* o gyffur nefol ir dychweledig, fel y profo * *mor fe-*
*Pfal 34,8 *lys yw'r Arglwydd.* A pheth y wnei ditheu Aurelius Conan y ceneu llêw, onid wyti ar foddi yn yr unrhyw frunti o fwrdwr a godineb? oni
Pfal 7,12. Deut. 32. 39. throi at yr Arglwydd yn fuan, efe *a chwery a'i gleddyf attati* ar fyrder, *ac ni bydd á'th waredo di oi law ef.* A thitheu Fortipor benllwyd rheolwr. Gwent, tebyg i lewpart amliwiog o anwireddau, mab diras i frenin da, fel Manaffes i Hezechia, beth a wnei di yn Cyffio yn dy orfedd-faingc dwyllodrus, halogedig gan fwrdwr a phutteindra? na threulia yr ychydig fydd yn ol o'th ddyddiau yn digio Duw. Canys *yn awr y mae'r amfer Cymeradwy, a dydd iechydwrieth* yn tywynnu ir edifeiriol. A thitheu Cuneglas, pam y gwnei gymaint helbul i ddynion drwy ryfel Cartrefol, aci Dduw drwy aneirif bechodau, yn erbyn y gair
1 Cor. 6,9 Sy'n dywedyd, *nas gall godinebwyr etifeddu teyrnas nef?* paid ath ddigofaint tuag at Dduw ai braidd, newid dy foddion, mal y bo iddynt hwy
Marh. 16. 19. weddio drofoti, y rhai allant rwymo yr euog ary ddaiar, a rhoi gollyngdod ir edifeiriol. Titheu hefyd * Maglocun, a yrr aift gymaint o frenhinoedd gormefol allan oi teyrn gader ai bywyd,
Maelgwyn tywyfog Gwynedd. pam yr ymdreiglei yn y fath dduon bechodau, megis pettit wedi meddwi ar wîn Sodome? oni
Cathwallain orthrumaifti drwy gleddyf a thân, dy * ewythr y brenin ai filwyr dewr, y rhai oeddent mewn brwydr, nid anhebyg yr olwg arnynt i genawon llewod? efceuluſaiſt eiriau'r prophwyd ydd-

ddywed

ddywed, *gwyr gwaedlyd a thwyllodrus ni byddant byw hanner eu dyddiau. Gwae di anrheithiwr, pan ddarffo it anrheithio i'th aurheithir.* Pan addunedaist ſynd yn fonach, (yſgatfydd o ran pigiadau dy gydwybod) a chwedi troi o frân yn glomen, a hedeg rhag ewiredd creulon y gwalch i gelloedd diogel y Sainct; o faint fuaſai llawenydd yr eglwys, oni buaſai i elyn dynol ryw dy dynnu di allan oi mynwes hi! O ſel y buaſai gobaith nefol yn calonni yr yſprydoedd cuſtuddiedig, buaſit heb *ddychwelyd fel y ci at y chwdfa!* Yn awr *rhoddi dy aelodau yn arfau anghyſiawnder i bechod a diafol.* Ni wrendi dy gluſtiau hyfrydlais dyſcyblion Criſt yn canu mawl i Dduw, ond dadwrdd gwenheithwyr celwyddog yn canu dy fawl dy hun. ie yr wyti fel ebol gwyllt yn rhedeg drwy ſaeuſydd anwiredd, yn tybîed ſod y fan lle ni bu yn telyſach, ac fyth yn myned rhagddo. Canys gan ddirmygu dy wraig briod, ceraiſt wraig gwr arall, ac ynteu yn fyw; a hwnw, nid eltron, ond mab dy frawd. Ac i Soddi dy warr galed yn ddyfnach, bwriaiſt arni ychwaneg o bwys enogrwydd, gan i ti drwy hocced y ſudrog, lâdd dy wraig dy hun, a gwr y llall, yw chymeryd hi attat. Pa wr duwiol wrth glywed y fath beth, nad ocheneidiai ei ymyſcaroedd ef? Pa eglwyſwr a'r ſydd ai galon yn union tuag at Dduw, na ddywed gyda'r prophwyd, *pwy a rydd i'm pen ddwfr, ac i'm llygaid ffynon o ddagrau, fel yr wylwn ddydd a nôs, am laddedigion fy mhobl?* Nid oes diffyg cynghorion arnati, gan fod geniti athro ſydd * ddy-

Pſal. 55. 23.

Eſai. 33. 1.

2 Pet. 2.

Jer. 9. 1.

*Elltud tebyg, neu Ddaniel y ſeiliodd fonachlog Fangor fawr ynghymru: dd ynghylch hyn.

ſcawdwr hyawdl agos i Prydain oll. o frenin golch dy galon oddiwrth dy ddrygioni, ac na ddirmyga Dduw ſydd yn dywedyd, "Pan lefarwyf am 'genedl neu frenhiniaeth, y diwreiddiaf, y chwa-
Jer. 18.7,8 'laf, y tynnaf i lawr, ac y difethaf, os y genedl honno y dywedais yn ei herbyn a dry oddi wrth ei drygioni, myfi a edifarhâf am y drwg a amcenais ei wneuthur iddi. Hefyd ynghaniad Deu-
Deut. 32. teronomium, "cenedl heb gyngor a deall ydynt
28,29,30. 'hwy, oh na baent ddoethion, na ddeallent, nad 'yſtyrient eu diwedd. Pa fodd yr ymlidiei un fil?
Math. 11. 'ac y gyrrei dau, ddengmil i ffoi? Ac deuwch at-'tafi bawb ſydd yn llwythog. Na fychana 'r pro-phwydi, na ninnau chwaith er ein gwaeled, y rhai ydym mewn meſur o ddiragrith dwywolder me-
Eſai, 56. ddwl yn dal ar air y prophwyd, rhag ein cael "yn
10. 'glwn mudion. Er nad wyfi mor gyflawn ò rym 'i ddangos ei anwiredd i dy Jacob, ai becbodau i
Mic. 3.8. 'dy Iſrael, etto cofiwn eiriau Solomon, "y neb a
Dihar. 24. 'ddywedo wrth yr annuwiol, cyfiawn wyt, y bobl
24, 25. 'ai melldithiant ef, ond ir neb a'i ceryddo y bydd
Dihar. 29. 'gobaith. Y brenin drwy farn a gadarnhâ y
4. 12. 'wlâd, ond os gwrendi ar gelwydd, ei holl weiſion 'fyddant anuwiol. Gwae y rhai a ddywedant
Eſai. 5. 20. 'am y drwg da yw, ac am y da drwg yw. gan 'oſod tywyllwch am oleuni, a goleuni am dy-'wyllwch, y chwerw am ſelys, a melys am chwe-
Math. 13. 'rw. y rhai ſydd ganddynt lygaid heb weled, a
15. 'chluſtiau heb glywed, ai calon wedi tywyllu. gan gwmwl têw eu drygioni. Na ddywedwch mae dychymygdychryn i chwi yr ydym ni, gan fod y prophwydi Sanctaidd oeddent enau Duw i ddynion,

ddynion, yn tyſtiolaethu gyda ni yn erbyn y cenfigeuus a'r gwargaled o'r oes hon. Canys diammau gan bob doeth, fod pechodau yr amſer hwn yn lawer trymach na rhai 'r cynfyd; gan fod yr apoſtol yn dywedyd — *yr un a dorrai gyfraith Moſes a fyddei farw, pa faint mwy coſpedigaeth y bernir haeddu o'r hwn a fathrodd Fâb Duw.* Pan ddywedodd Samuell wrth Saul, — *ynfyd y gwnaethoſt, ni chedwaiſt orchymyn yr Arglwydd, ni Saiſ dy frenhiniaeth di.* beth y wnaeth ef yw gyffelybu i ſwrdwr a godineb, ſef anwireddau 'r amſer hwn? hetyd — *annuſudd dod ſydd fel pechod dewiniaeth, a throſeddiad ſydd eulunaddoliaeth, o herwydd it fwrw ymmaith air yr Arglwydd, ynteu ath fwrw dytheu ymmaith.* Creffwch fod troſeddiad yn ddelw addolieth. Am hynny na wenheithied yr anwiriaid hyn monynt eu hunain, am fod heb aberthu i Dduwiau'r Paganiaid, tra fônt fel *môch yn Sathru gemmau Criſt dan draed,* eulyn addolwyr ydynt. Pan rifodd Dafydd y bobl, daroſtyngwyd ef a *lladdfa dengmil a thrugain o honynt.* A daeth gair yr Arglwyd at Baaſa brenin Iſrael gan ddywedyd, — *o herwydd i'm dy wneuthur yn flaenor ar fy mhobl Iſrael, a pheri o honoti iddynt fy nigio i ai pechodau, wele y cwn a fwyty yr hwn a fyddo marw o'r eiddo Baaſa yn y ddinas, ac adar y nefoedd a fwyty yr hwn a fyddo mawr o'r eiddo ef yn y maes.* Gwrandewch hefyd beth y ſwgythiodd yr Arglwydd drwy enau Elias Sanctaidd yn erbyn Ahab brenin drygionus Iſrael, drwy ddichell pa un ai wraig, y gorthrumwyd Naboth wirion am ei winllan. — *A leddaiſt i ac a feddiennaiſt hefyd? Yn y*

Heb. 10. 28, 29.

1 Sam. 13, 14.

1 Sam. 15. 23.

2 Sam. 24. 1, 15.

1 Bren. 16. 1, 2, 4.

1 Brenh. 12. 2. 13. 19.

ſan lle llyſodd y cwn waed Naboth, y llyf cwn dy waed tithau hefyd. A gwybyddis yn ſiccr ir peth ddyſod
1 Bren. 21. 2. 13. 19. felly. ond rhag i yſpryd celwyddoc yngenau eich prophwydi chwi, eich hudo chwi fel y bu i Ahab,
1 Bren. 22. 23. clywch eiriau 'r prophwyd Michea, *wele yr Arglwydd y roddodd yſpryd celwyddoc yngenau dy holl brophwydi hyn, a'r Arglwydd a lefarodd ddrwg am danati.* Canys dir yw, ſod yn awr athrawon llawn o yſpryd gwrthwynebus, yn cyhoeddi eu Ewyllis lygredig eu hunain, yn hytrach
Pſal. 55. 21 na'r gwirionedd; *ai geiriau yn dynerach nag olew, a hwynt yn biccellau.* Y rhai a ddywedant *heddwch,*
Jer. 6. 14. Eſai. 57. 21. *heddwch, er na bydd heddwch* irrhai a barhânt yn eu pechodau, *Nid oes lawenydd ir annuwiol* medd yr Arglwydd. Dywed Azariah wrth Aſa, *yr Arglwydd ſydd gyda chwi, tra ſyddoch gyd ag ef, ac os ceiſiwch ef, chwi a'i cewch ef; ond os gadewch ef, yntef a'ch gedi chwithau.*
2 Cron. 15. 2. Ac os prophwyd a geryddodd Jehoſaphat am helpu brenin anghyfiawn gan ddywedyd, *ai cynorthwyo yr annuwiol, a charu 'r neb a gaſſá 'r Arglwydd a wnait ti? Am hyn digofaint oddiwrth yr Arglwydd ſydd arnati:* beth y
2 Cron. 19. 2. wneir ir rhai a leffetheirir ai pechodau eu hunain? Camweddau pa rai ſydd raid ini eu
Pſal. 97. 10. caſâu, fel y dywed y Pſalmwr, *y rhai a gerwch yr Arglwydd caſewch ddrygioni.* Yſtyriwch eiriau 'r prophwyd Zechariah yr hwn a ſafodd oddiar y bobl, ac a ddywedodd wrthynt hwy oeddent yn gadel yr Arglwydd, fel y gwnewch chwithau yn awr, *fel hyn y dywedodd Duw, pa ham yr ydych chwi yn troſeddu gorchmynion yr Arglwydd? dian na ffynnwch chwi, Ca-*

nys

nys gadawſoch yr Arglwydd, am hynny yntef a'ch gedi chwithau. Medd Eſai gwrandewch air yr Arglwydd tywyſogion Sodoma, clywch gyfraith ein Duw ni pobl Gomorrah: na chwanegwch ddwyn offrwm ofer. Ond yr ydym ni yn awyddus yn derbyn yr offrummau y mae ein Arglwydd yn eu gwrthod. A thrachefn medd ef, *pan weddiooh lawer nî wrandawaf.* Ond dengis pa ſodd y Cymodiſſ, *ymlanhewch, bwriwch ymmaith eich drygioni, dyſcwch wneuthur daioni, ceiſiwch farn, os byddwch Ewyllyſcar, ac ufudd, daioni y tir a fwyttewch; Ond os gwrthodwch a chleddyf i'ch yſſir.* Gwrandewch, derbyniwch yr hwn ſydd mor ddiragrith yn tyſtiolaethu beth ſydd gobr eich da a'ch drwg. Ac nid ſel eich bolerwyr gwenieithus y anadlant wenwyn i'ch cluſtiau. 2 Cron. 24.20. Iſai 10. 13.15.16. 19. Eſai 5.11. 12,13,14. 24,25.

'Gwae i chwi y rhai a gyſodwch yn foreu i 'ddilyn meddwdod, a arhoſwch hyd yr hwyr, oni enynno y gwin chwi, Yn eich gwleddoedd y mae y delyn a'r bibell a'r gwin; 'ond am waith yr Arglwydd nid edrychwch, 'a gweithredoedd ei dwylaw ef nid yſtyriwch. Am hynny y caeth-gludwyd fy mhobl, 'am nad oes ganddynt wybodaeth, ai gwyr 'anrhydeddus a newynwyd, ai lliaws a wywódd gan ſyched. Herwydd hynny yr ymhengodd uffern, ac yr agorodd ei Safn yn 'anferth, ac yno y diſcyn eu gogoniant ai lliaws, am iddynt ddiyſtyru cyfraith Arglwydd 'y lluoedd, a dirmygu

'gair Sanct yr Iſrael. Er hyn oll ni ddychwe-
'lodd llid ein Arglwydd, ond etto y mae ei law
'ef wedi ei heſtyn allan; Clywch yr hyn y
ddywed Jeremi wrth y bobl yntyd, ai brenhino-
Jer.2.5,6. edd yſtyſnig, "pa anwiredd a gafodd eich tadau
'chwi ynoſi, gan iddynt ymbellhâu oddiwr-
'thif, a rhodio ar ol cferedd, a myned yn o-
'fer? ac ni ddywedant pa le y mae'r Argl-
'wydd a'n dug ni i fynu o dir yr Aipht? mi
'a wrandewais, ac a glywais, ond ni ddywe-
Jer.8.6,7. 'dent yn iawn, nid edifarhâodd neb am ei anwi-
'redd gan ddywedyd beth a wneuthum i? pob
'un oedd yn troi yw yrfa megis march yn rhu-
'thro ir frwydr. Y barcyt yn yr awyr a edwyn
'ei dymhorau, y durtur, a'r wennol a'r aran, a
'gadwant amſer eu dyſodiad, eithr fy mhobl i ni
'wyddant farn yr Arglwydd. Dracheſn ein
Jer.9.13, 'Arglwydd a ddywedodd am wrthod o honynt fy
24, 15. 'nghyfraith yr bon a roddais iddynt, ac na wran-
'dawſant ar fy llêf, na rhodio ynddi, eithr my-
'ned yn ol drygioni eu calon eu hun; am hynny
'mi a'i bwydaf hwynt y bobl hyn a wermod, ac ai
'diodaf hwynt a dwfr buſtl. Am hynny na we-
Jer.11.24. 'ddia dros y bobl hyn, Canys ni wrandawaf yr
'amſer y gwaeddant arnaf o herwydd eu dryg-
'fyd. Beth ynteu y wnaiff ein rheolwyr anbą-
pus ni yr awr hon? Gommeddwyd gan Dduw ir
ychydig y gawſant y *fordd gûl*, *ac* a adawſant y
lydan, dywallt eu gweddiau dros y cyfryw ac y
barhânt yn eu drygau. yn y gwrthwyneb pan
droent at Dduw ai holl galon, nid allai Jonas be-
Jonah 4. ri i ddial ddeſcyn ar y Niniſeaid, Ac medd

yr

yr Arglwydd yn Amos. "Mewn tair o anwire-
'ddau Judah, ac mewn pedair ni throaf hwynt; Amos 2.4.
'am iddynt ddirmygu Cyfraith yr Arglwydd, ac 5,6.
'nas cadwafant ei ddeddfau ef; ond eu oferedd
'ai cyfeiliornodd hwynt. eithr anfonaf dân i Ju-
'dah, ac efe a ddifa Sylfeini Jerufalem. Mewn
'tair o anwireddau Ifrael, ac mewn pedair ni
'throaf hwynt; am iddynt werthu y Cyfiawn am
'arian, ar tlawd er pâr o efcidiau. Gwrandewch
fwgythion y prophwyd Zephaniah. "Agos yw Zeph. 1.
'dydd mawr yr Arglwyd, agos a phryffur iawn, 14,15,16.
'fef llais dydd yr Arglwydd fydd chwerw. diwr-
'nod-llidiog yw 'r diwrnod hwnw, diwrnod trallod
'a chyfyngdra, diwrnod diniftr, ac anghyfan-
'nedd-dra; diwrnod tywyll a dû, diwrnod Cw-
'mylau a thywyllni, diwrnod udcorn, ac alarwm
'yn erbyn y dinafoedd Caeroc. Ac Haggai. "Un- Hag. 2,6.
'waith etto, efcydwaf y nefoedd a'r ddaiar a'r môr
'ar fychdir. Yn awr befyd edrychwch beth y ddy-
wed y prphwyd Zechariah, "Dychwelwch attafi Zech. 1.3.
'medd yr Arglwydd, ac mi a ddychwelaf attoch 4.
'chwithau. Na fyddwch fel eich tadau y rhai y
'galwodd y prophwydi o'r blaen arnynt, gan ddy-
'wedyd, fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, dy-
'chwelwch oddiwrth eich ffyrdd drwg, ond ni
'chlywent, ac ni wrandawent arnaf. Medd Ma- Mal. 4. 1.
lachi Sanctiaid "wele ddydd yr Arglwydd yn dy-
'fod, yn llofci megis ffwrn, a'r holl feilchion, a
'holl weithredwyr anwiredd a fyddant Sofl, a'r
'dydd fydd yn dyfod ai llyfc hwynt, medd Argl-
'wydd y lluoedd, fel nas gadawo iddynt na gw-
'reiddyn na changen. Gwelwch befyd fel yr y-

madroddiff

ymadroddiff Job Sanctaidd ynghylch dechreu
Job. 21.7, 8, 9, 10, 12, 17, 18. a diwedd yr annuwiol. "Pa ham y mae 'r an-
'nuwiol yn byw, yn heneiddio, a'u hâd yn ol
'eu dymuniad? Eu tai ſydd mewn heddwch
'allan o ofn, ac nid yw gwialen Duw arnynt
'hwy. Nid yw eu buwch yn erthylu; Cymerant
'dympan a thelyn. Ai nid yw Duw yn edrych
ar weithredoedd yr anghreſyddol? ydyw; *Canys diffydd Canwyll yr annuwolion, a daw dinyſtr arnynt hwy, a byddant fel ſoſt o flaen gwynt, ac fel*
Pſzec. 9. 8. *mân-us y gippiodd Corwynt.* Pan oedd *Ezeciel* yn
9, 10. gwaeddi o herwydd llâdd Iſrael, dywedoddyr
Arglwydd wrtho, *anwiredd ty Iſrael a Juda ſydd fawr tros ben, a llawn yw y tir o gamwedd, wele fi, nid erbyd ſy llygad, ac ni thoſturiaf.* A
Ezec. 14. 13, 14. gair yr Arglwydd a ddaeth atto ef drachefn
gan ddywedyd, "Hâ ſâb dyn pan becho gw-
'lad i'm herbyn trwy wneuthur Camwedd, yna
'yr eſtynnaf fy llaw arni, a thorraf ffon ei ba-
'ra hi, ac anfonaf arni newyn, ac a dorraf ym-
'maith o honi ddyn ac aniſail; pe byddei yn
'ei chanol y trywyr hyn, Noah, Daniel, a
'Job, hwynt hwy yn eu Cyfiawnder a achu-
1 Sam. 2. 30. 'bent eu henaid eu hun yn unig medd yr Argl-
'wydd. Fy anrhydeddwyr a anrhydedafi medd
'yr Arglwydd, am dirmygwyr a ddirmygir.
'Oh Ceiſiwn a chwiliwn ein ffyrdd, a dychw-
Galatnâd. 3. 40. 41. 'elwn at yr Arglwydd, derchafwn ein calon-
'nau, a'n dwylo at Dduw yn y nefoedd. Onid
'oes ynoſi y peth oedd yn yr apoſtol i ddywed-
yd, *mi a ddymunwn ſy mod ſy hun yn anathema*
Rhuf. 9. 3. *oddiwrth Grſt dros ſy mrodyr*; Etto gallaf ddyw-

edyd

edyd o'm holl galon gyda'r apoſtol mewn lle arall, — *hiarethus wyf am donoch oll i fod yn ymyſcaroedd Jeſu Griſt* Yma o ran gwylder y gorphywyſwn yn ewyllyſcar fel un a ddelei o'r môr ir porthladd, oni bae fy mod i yn gweled gymaint mynyddoedd o yſcelerder yn ymgodi yn erbyn Duw yn yr eſcobion a'r eglwyſwyr o'n urdd ni. Y rhai ſydd raid i mi eu llabyddio a cheryddon caledion, fel y byddont feirw i bechod, a byw i Dduw, ac na byddwyf euog o dderbyn wyneb. Ond dymunwn nawdd y rheini, buchedd pa rai yr wyfi nid yn unic yn ei ganmol, ond yn ei gyfrif yn well na holl olud y byd, ac yn deiſyf bod yn gyfrannog o honaw. Y mae gan Prydain offeiriadau anoeth, a llawer o weinidogion digywilydd, y elwir yn ſugeiliaid, a nhwy yn fleiddiaid parodol i lâdd eneidiau; yn rhag ddarbodi iw boliau eu hunain, ac nid i leſhâd y gwerin. Yn Rhoddi eſamplau o'r gwaethaf drwy ddrwg ſoddion, heb argyhoeddi 'r bobl oi pechodau, o herwydd eu bod nhwy eu hunain yn euog o'r unrhyw. Yn traiſ-feddiannu Cadair Pedr, ac yn baeddu un Judas fradwr. Yn edrych a golugon ſarrug, ar y Cyfiawn tlodion fel ar nadroedd; ac yn perchi yr anwiriaid cyfoethogion fel angylion. yn ſudion ac yn anfedrus ynghylch ordinhâdau 'r Apoſtolion, ond yn gyfarwydd ar achoſion budol. Yn ymdreiglo mewn brunti pechodau anoddef, heb ſod ganddynt deilyngdod athrawaidd, ond yr henw Phil. 1. 8.

yn

yn unig. yn anaddas i neb rhyw râdd eglwyſig, yr hon ni ddylai neb ei chymeryd, ond rhai Sanctaidd, perffaith, a dilynwyr yr apoſtolion, *a diargoedd*, i ddywedyd yngeiriau athro 'r cenheddloedd. Pa fodd y gall y rhai nid ydynt gydnabyddus a ffydd, ac ni chymerſant ediſeirwch am eu pechodau, ymgodi i urdd eglwyſig heb gyſſegredrad? Pan gaffont yr oruchafieth ymgryſhânt mewn chwantau Cybydd-dod a thruthullwch, heb neb a leſaſo annod iddynt na'i hanwireddau hên, na'r newydd. O bobl anhappys, oni ddiengwch rhag y bleiddiaid rheſbus hynny, fel y gwnaeth Lot oddiwrth gaſod tanllyd Sodom? a chwi *ddeillion, os y'ch arweinir gan y deillion, Syrthiwch* ynghyd i *ffôs* uffern. Gwnnad yw'r eſcobion a'r henuriaid oll wedi eu diwyno a balchder ac aflendid; eithr bod rhai yn ddiwair, ac yn dda; etto coſpwyd *Eli* a'r un fath farwolaeth ai feibion, er nad ydoedd ef ei hun yn treiſio aberthau 'r Arglwydd. Pa un o honynt fel Noah ommeddodd ollwn gelynion Duw ir Arch, yr hon yn awr yw'r eglwys? fal y dangoſid, na ddylai neb ond y diniwed a'r gwir ediſeiriol fod yn nhy Dduw. Pwy *gaſſáodd gynnulleidfa y drygionus, a chyda 'r annuwolion nid eiſteddodd?* pwy ſydd yn bendithio yn unic y rhai a waredant y cyfiawn, ac ni chwenychant eiddo arall, fel y gwnaeth *Melchiſedech?* Pa un fel y *Eſai* y *glanhawyd ei wefuſau a thân yr allor*, wedi ei gyffes oſtyngedig? Pa un o honoch chwi y rhai ydych yn Cyffio yn yr eiſteddle weinidogaethol, wedi eich bwrw allan o gyngor yr anwiriaid, a'ch curo

1 Tim. 3. 2.

Matth. 15. 14.

1 Sam. 2. 22, 24.

Pſal. 26. 5.

Gen. 14. 18.

Eſai. 6, 7, 8.

ſel

fel yr apoſtolion Sanctaidd, a *gyfriſwyd yn deil wng i ddioddef ammarch o ochos Criſt* y gwir Dduw? *Ar ol rhwyman, carcharau, a llongddryllíadau, a gwialenodiau, a pheryglon lladron, llíf-ddyfroedd, cenhedloedd, ſuddewon, a gau apoſtolion, ar ol newyn ac ympryd, ac anhunedd, a gofal tros yr eglwyſi, a llaſur yn pregethu'r efengyl, fel y lleſtr etholedig.* Pa un o honoch chwi fel y merthyr Sanctaidd Ignatius eſcob Antiochia, ar ôl gweithrediadau rhyfeddol yn-Ghriſt; er ei dyſtiolaeth ef y ſalwyd gan lewod? wrth glywed ei eiriau ef pan dducpwyd ef i ddioddef, ni thybiwch eich hunain yn Griſtnogion canolig, chwaethach gweinidogion mewn Cyffeiybieth iddo ef. Canys dywed yn y llythyr a anſonodd ef at eglwys Rufain; "Yr ydwyf yn ymdrechu ag aniſeiliaid ddydd a "nôs O Syria hyd Rufain, ar tôr ac ar dir, a dego "lewpardiaid ſef milwyr yn ſy ngwilied, y rhai a "ymgreulonant wrth fy nghymwynâſau, ond dy"ſcir fi yn fwy wrth eu di-hirwch hwynt, ond ni'm "cyfiawnheir wrth hyn. Pa bryd y daw'r bwyſt"filod iachuſol y baratowyd i mi? pa bryd y gol"lyngir hwynt? pa bryd y bwyttant fy nghnawd i? "os arbedant fi, fel y gwnaethant a rhai, mi ai "cymmellaf hwynt i'm llyncu: myfi a ymhyr"ddaf fy hún arnynt hwy. rhoddwch genad i "mi, gwn beth ſydd orau ar fy llês, yn awr yr "wyfi yn dechreu bod yn ddyſcybl i Griſt: ym "maith a gwyn ddynol, fal y byddwyf deilwng i "gaffael Jeſu Griſt. gofoder arnafi bob Coſpedi"gaeth allo'r diafol ei ddychymyg; y tân, y groes, "aniſeiliaid, tyniad fy eſcyrn, drylliad fy aelodau, Act. 5. 34, 40. 2 Cor 11. 23, 26, 28.

am

am y byddwyf deilwng i fwynhâu Jeſu Griſt. Pa un o honoch chwi ſel Polycarpus bugail Eglwys Smyrna, a hiliodd y bwrdd yn addfwyn i rhai oeddent yn ei gyrchu ef ir tân er cariad Criſt? ac a ddywedodd *y rhoddid iddo allu goddef angerdd y tân yn ddiyſcog heb ei hoelio wrtho.* Pa un o honoch chwi y gadwodd y rheol apoſtolaidd mewn Cythrybliadau Gormeſdeyrn, ſef *y dylid ufuddhâu i Ddduw yn hytrach nag i ddynion.* Am hynny gwrandewch ymadroddion ein Arglwydd, ai brophwydi yn erbyn bugeiliaid diog, anoneſt, amherffeth, fel i'ch piger ai piccellau hwynt er mwyn eich iachâu. Condemnwyd Eli yr offeiriad yn Silo, eiſieu iddo mewn Zêl Duw iawn geryddu ei blant, y rhai a laddwyd yn yr un diwrnod. Ac os digwydd y ſath bethau i rhai a geiſiant amendio eu deiliaid a geiriau heb gôſp, beth y wneir i rhai Sydd yn tynnu eraill i ddrwg, ac yn eu hannog? Medd eſai, " yr Arglwydd ſy yn Seſyll i farnu y bobloedd. yr Arglwydd a ddaw i farn a henuriaid ei bobl ai tywyſogion: Canys chwi a boraſoch y winllan, anrhaith y tlawd ſydd yn eich tai. yr offeiriaid a gyſeiliornaſant drwy ddiod gadarn. y byrddau oll ſy lawn o chwydfa, a budreddi heb lê glân. Am hynny gwrandewch air yr Arglwyd ddynion gwatwarus, llywodraethwyr y bobl hyn y rhai ſydd yn Jeruſalem, am i chwi ddywedyd gwnaethom ammod ag angau, ac ag uffern y gwnaethom gyngrair: pan ddêl ffrewyll lifeiriol ni ddaw attom ni, Canys goſodaſom ein gobaith ar gelwydd,

Act. 4, 19.

rhoddes Eli ſenn yw feibion. 1 Sam 2, 23, 24.

Eſai. 3. 13, 14. ac pen. 28, 7, 8, 14, 15. 18.

a

'a than ffalſter y llechaſom. y cenllyſc a yſcuba
'noddfa celwydd, â'r dyfroedd a ſoddant y llo-
'ches: A diddymir eich ammod ag angau, a'ch
'Cyngrair ag Uffern ni ſaiſ; pan ddêl y ffrewyll
'liſeiriol byddwch yn ſathrſa iddi. A thrachefn
medd yr Arglwydd, "o herwydd bod y bo-
'bl hyn yn neſſau attaf ai genau, ac yn
'ſy anrhydeddu i ai gweſuſau, a phellhâu eu
'Calon oddiwrthiſ; am hynny wele fi yn ch-
'wanegu gwneuthur yn rhyfedd ymyſc y bobl
'hyn, ſef gwrthiau a rhyfeddod. Canys difethir Eſai. 29,
'doethioeb eu doethion hwynt a deall eu rhai 13,14.
'deallgar hwynt a ymguddia. Gwrandewch beth Jer.2,8,9.
y ddywed y prophwyd Jeremi, wrth y bugei-
liaid anoeth, "yr offeiriaid ni ddywedaſant pa
'lê y mae 'r Arglwydd? a rhai ſy yn trino y
'gyfraith nid adnabuant fi; y bugeiliaid heſyd a
'droſeddaſant im herbyn, oblegyd hyn mi a-
'ddadleuaf a chwi etto medd yr Arglwydd, ie da- pen 5,30,
'dleuaf a meibion eich meibion chwi. A pheth 31.
'erchyll y wnawd yn y tir, y prophwydi a bro-
'phwydant gelwydd, yr offeiriaid heſyd ai can-
'molant, a'm pobl a hoffant hynny: etto beth
'a wnewch yn niwedd hyn? Wrth bwy y dy-
'wedaf, a phwy a rybuddiaffel y clywant? wele
'eu cluſt hwy ſydd ddienwaededig, ac ni allant
'wrando: wele dirmygus ganddynt air yr Argl- pen 6,10,
'wydd, ac ni dderbyniant ef canys eſtynnaf fy llaw 12. 13.
'ar drigolion y wlâd medd yr Arglwydd: oblegyd
'o'r lleiaf o honynt hyd ymwyaf pob un ſydd yn
'ymroi i gybydd-dod, ac or prophwyd hyd yr
'offeiriad pob un ſydd yn gwneuthur ffalſter.
'Cynorthwyant ddwylo

pen.23.14, 15,17, 19, 20. *y drygionus, fel na ddychwel neb oddiwrth ei ddrygioni. Gwnaethpwyd hwynt oll i mi fel Sodoma, ai thrigolion fel Gomorrah.* Am hynny fel hyn y dywed ein Arglwydd wrth y prophwydi, *wele mi ai bwydaf hwynt a wermod, ac ai diodaf hwynt a buſtl. Canys dywedant wrth fy nghablwyr bydd i chwi heddwich, ac wrth bob un ſydd yn rhodio yn ol anwiredd ei galon ei hun ni ddaw arnoch niwed. Wele Corwynt llidiawgrwydd yr Arglwydd aeth allan, a themeſtl angerddol a Syrth ar bennau y drygionus, digoſaint yr Arglwydd ni ddychwel, nes iddo gwplâu meddwl ei galon.* Joel Sanctaidd heſyd wrth gynghori yr offeiriaid eſceulus, a galaru am golled y bobl herwydd eu pechodau, a ddywedodd, *deffrowch feddwyr, ac wylwch, ac udwch holl yſwyr gwin, canys torrwyd hyſrydwch oddiwrth*

Joel.1.5. *eich min. wyled yr offeiriaid gweinidogion yr Arglwydd, a dywedant, arbed dy bobl o Arglwydd, ac na ddyro dy etifeddiaeth i warth, i lywodraethu o'r*

pen.2.17. *cenhedloedd arnynt, fel na ddywedont ymhlith y bobloedd pa lê y mae eu Duw hwynt?* Ond ni wrandewch chwi ar y pethau hyn, ond ar y pethau a ddigiant Dduw yn fwy. i chwi y perthyn gair yr Arglwydd yn Amos, "Caſeais a ffieiddi-
'ais eich gwyliau; ac nid aroglaf yn eich Cym-
'manfâoedd. canys er i chwi offrymmu i mi
'boeth offrymmau, a'ch offrymmau bwyd, ni

Amos 5. 21,22. ac pen.8.11, 12. 'ſyddaf fodlon idd ynt. Canys wele yr dyddiau
'yn dyfod medd ein Arglwydd, yr anfonaf ne-
'wyn ir tîr, nid newyn am fara, na ſyched am
'ddwfr, ond am wrando geiriau 'r Arglwydd. a

'hwy a wibiant o'r gogledd hyd y dwyrain i geis-
'io gair ein Arglwydd, ac nis cânt. Ac medd Mic, 3.4.6.
Micah. "Lleſant ar yr Arglwydd, ac nis ettyb
'hwynt, eſe a guddia ei wyneb oddiwrthynt y
'pryd hwnw, ſel y buont ddrwg yn eu gwei-
'thredoedd. Yr haul a fachluda ar y prophwydi,
'a'r dydd a ddua arnynt. Ac medd Zephaniah.
"Offeiriaid Jeruſalem a halogaſant y cyſſegr, Zeph. 3.4.
'gwnaethant yn Sceler yn y gyfraith. yr Argl- 5.
'wydd cyfiawn a ddwg ei farn i oleuni yn foreu.
Ac yn *Malachi*, "Chwi offeiriaid y rhai ydych yn *Mal.* 1,6,
'dirmygu fy enw, wrth offrwm ar fy allor fa'a 7, 14.
'halogedig, melltigedig yw y twyllodrus, medd
'Arglwydd y lluoedd. Ac yn *Ezeciel*, "Gwae Ezec. 13.
'y wniant gluſtogau tan holl benelinoedd i ddym- 18. ac pen.
'chwelyd eneidiau. ei hoffeiriaid a ddirmyga- 22.26.
'ſant fy nghyfraith, ac a halogaſant fy mhethau
'Sanctaidd: ni wnaethont ragor rhwng cyſſegre-
'dic a halogedic, ac ni wnaethont wybod rhagor
'rhwng yr aflan a'r glan. Cuddiaſant hefyd eu
'llygaid oddiwrth fy Sabbothau. Gwelwn beth
'y ddywed gwneuthurwr ac achubwr y byd;
'chwi yw halen y ddaiar, eithr o diflaſodd yr ha-
'len a pha beth yr helltir ef? ni thâl eſe mwy
'ddim, onid yw fwrw allan, ai ſathru gan ddy-
'nion. Chwi yw goleuni y byd. Ond pa un o Math. 5.3
offeiriadau yr oes hon ſydd yn gyrru ymmaith dy- 13.14.19.
wyllwch? le oni wnaeth eu pechodau dûon hw-
ynt y fath nôs niwlog drwy'r holl ynys, ac a be-
riff i bawb agos golli'r iawn ffordd. "Pwy byn-
'nag a dorro un o'r gorchmynion lleiaf, ac a ddyſ-
'co i ddynion felly, lleiaf y gelwir ef yn nheyrnas
neſoedd.

nefoedd. Pa un o honoch Sy'n yſtyried y peth s ganlyn? ſef *pa fodd ydywedi wrth dy frawd gâd i mi fwrw allan y brycheuyn o'th lygad, ac wele*
Mat.7,4,6. *drawſt yn dy lygad dy hun? na rodawch y peth ſy Sanctaidd ir Cwn, ac na theflwch eich gemmau oflaen y môch. Gwae chwi ragrithwyr ſydd yn cau*
Lu.11,52. *teyrnas nefoedd, nid ydych yn myned i mewn eich hunain, nag yn gadel i eraill fyned i mewn*; gwaed pa rai a ofynnir ar eich dwylo chwi yn nydd y farn. Dylai pob dyſcawdwr debygu i Paul, yr hwn nis gallai dim ei *wahanu oddiwrth gari-*
Rhuf.8,35 *ad Criſt, na gorthrumder, nag ymlid na chleddyf.* ond yr ydych chwi yn goddef llawer er mwyn gwneuthur drygioni a digio Criſt. Darllenwyd i chwi wrth dderbyn urddau, *chwychwi ydych rywogaeth etholedig, brenhinol offeiriadaeth, cenedl Sanctaidd, pobl briodol: fel y mynegoch rinweddau*
1Pet.2,9. *yr hwn a'ch galwodd allan o dywyllwch yw ryfeddol oleuni ef.* Ond nid ydych chwi yn unic heb fynegi rhinweddau Duw, eithr yn peri ir anghredadwy eu dirmygu drwy eich drwg fucheddau chwi. o elynion Duw ac nid ei offeiriaid ef! o ſradwyr ac nid dilynwyr yr apoſtolion Sanctaidd; gwrthwynebwyr Criſt, ac nid ei weinidogion. Gellid roi i chwi ſenn glaiarach, ond ni leſhâ teimlo briw pwdr yn eſmwyth, y bo rhaid ei Serio a thân. clywſoch hefyd y *rhaid ir diaconi-*
1Tim.3,8. *aid fod yn honeſt, nid yn ddau eiriog, nid yn ym-*
9 *roi i win lawer, nid yn budr elwa: ond yn dala dirgelwch yffydd mewn cydwybod bûr.* Ond troir hyn yn y gwrthwyneb, gan fod y gwyr eglwyſig yn anoneſt, yn ddau eiriog, yn feddwon,

yn

yn budr elwa, yn dala anfyddlondeb mewn cydwybod amhur. clywſoch hefyd yn y dydd hwnw, (pryd y buaſai unionach eich lluſco chwi i garchar i'ch cyſtwyo, na'ch goliwn ir offeiriadaeth) ir Arglwydd ddywedydd wrth Pedr am ei gyffeſſe, *Gwyn dy fyd ti Simon, canys nid cig a gwaed a ddatcuddiodd i ti hyn; ond fy Nhâd ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys.* Ond yr ydych chwi yn gwadu Criſt a'ch gweithredoedd yn lle ei gyffeſſu ef, ac ni chydweithia Duw a chwi i *adeiladu ar y tywod*, yn ol y gair, *hwy a wnaethont frenhinoedd ac nid trwoſi.* Addawyd i bob gweinidog Sanctaidd, *Pa beth bynnag a rwymech ar y ddaiar, a fydd rhwymmedig yn y neſoedd, a pha beth bynnag a ryddhaech ar y ddaiar a fydd wedi ei ryddhâu yn y neſoedd.* Ond pa fodd y rhyddhewch chwi beth, ſel y byddo wedi ei ryddhâu yn y neſoedd, a chwi eich hunain wedi eich cau allan o'r neſoedd am eich pechodau? a chwedi eich gefynnu a rhaffau anfad anwireddau, *a rhaffau ei bechodau y rhwymir pob un.* Pa fodd y rhwymwch beth ar y ddaiar, mal y byddo rhwymedig uchod, a chwithau wedi eich attal gan eich pechodau, fal nas galloch eſcyn i fynu, eithr deſcyn ir carchar uffernol? Ceiſiwch un aſtyllen edifeirwch ar ol llong-ddrylliad, ſel y diangoch i dir y rhai byw; ac y troer oddiwrthych ddigoſaint yr Arglwydd: yr hwn a ddywed yn drugarog, *nid wyf yn ewyllyſio marwolaeth pechadur, ond yn hytrach iddo droi a byw.* Yr holl Alluog, Duw pob diddanwch a thrugaredd, a gadwo yr ychydig ſugeiliaid da oddiwrth bob niwed,

Math. 16. 17, 18.

Math. 7. 26.

Hoſh. 8, 4.

Dihar. 5. 22.

ac ai gwnelo yn freiniol o'r ddinas Gaer Salem nefol. Ir Tâd, ar Mâb, ar yſpryd glân y byddo gogoniant yn oes oeſoedd, Amen. Yma y terfyna Gildas. Wrth hyn y gwelwn gael o'r Britaniaid yr unrhyw rybuddion, ac y gafas yr Iſraeliaid gynt oflaen eu caethiwed, ac ynghylch yr un modd y gwrthodaſant hwynt, ac ynghylch yr un fath guſtudd a ganlynodd; ac nid heb ei haeddu. yr achos amlwg oi deſtryw ydoedd hollhaul bechaduriaeth pob grâdd ar ddynion, Sef barnwyr, eglwyſwyr, a chyffredin. a'r ymlygriad y ſagodd oddiwrth ymbleidiau yr Arriaid a'r Morganiaid.

1 Tim. 6. 3, 4. Pan gymerodd ymddadlau opiniwnus lê pregethau iachus, paraſant lid yn lle duwioldeb. Aml ryfeloedd hefyd a oſtegaſant gyfreithiau dinaſol ac yſprydol; ac y wnaethant bechaduriaid yn hyſach: a ffrwythlondeb y tîr ai gwnaeth yn wreſoccach.

Deut. 32. 35. Y Britwn fel *Jeſhurun aeth yn frâs, ac a wingodd, pwyntiodd, yna efe wrthododd Dduw yr hwn ai gwnaeth.* Am hynny caſodd ei gyſtwyo, a chollodd y wlâd a halogodd. Ac ni wnaeth Arglwydd y winllan mor Cam fwrw allan denantiaid aniolchgar. Yr hwn yn ei ddoethineb ai gyfiawnder a ganhiadodd ir un fath beth ddigwydd mewn llawer o wledydd eraill ynghylch yr un amſer, gan laccio ffrwyn cenhedloed y gogledd: y rhai oeddent bob amſer pan lanwent eu gwledydd oerion eu hunain, yn deirion am ymhyrddu i deoedd cynheſach. Heidient am bennau rhai eraill, pan lenwent eu cychod eu hunain. y cyfryw oedd y Pictiaid y ddaethant ir Albain, Y Gothiaid ar Fandaliaid a ymgyrchaſant ir Ital, ar Affric, a'r Hiſpaen ychydig

dig cyn yr amſer hwn. a'r Lwmbardiaida bresw-
liaſant yn yr Ital. Ar Ffranconiaid ynghylch hyn
a arhoſant yn Gallîa, ac ai galwaſant hi Ffrainc.
Ac ychydig gwedi daeth y Twrciaid a'r Tartari-
aid i gymeryd meddiant o'r gwledydd gorau yn
yr hollfyd, Sef Aſia leiaſ, Arabia, yr Aipht, a Syria.
Ymhob oes torrodd Duw genhedloedd pechadu-
rus i lawr *ſel glaſwellt.* a hynny yw ymddiffyn ei
hun ai anrhydedd, yn erbyn pechaduriaid afreo- Pſal. 37.
lus. Pan addfedeu eu hanwireddau *troſſeddwyr* 2. 38.
a gyd-ddeſtrywid. Weithiau drwy'r elfennau, ſef
drwy ddwfr yn amſer Noah, a thrwy dân yn am-
ſer Lot. Weithiau drwy ddynion megis y canane-
aid yn amſer Joſhua, a'r Iſraeliaid drwy'r Aſſyria-
id, ar Caldeaid. ie yn y Cynfyd pan oedd llawer
o'r ddaiar yn wâg, a digon o lê i bobl i fyw wrth
yſtlys eu gilidd, etto *diſethodd meibion Eſau yr Ho-*
riaid a thrigaſant yn eu lle hwynt. Ar Ammoniaid a
ddiſethaſant y Zamzumiaid, ac a drigaſant yn eu Deut. 2.
lle hwynt. ar Caphtoriaid a ddiſethaſant yr Aſiaidd. 12. 21, 23.
modd cyntaf difwynwyd y ddaiar gyd a'i thrigo-
lion, ond yr ail modd digwyddodd dialedd i bobl
yn unig: a bu'r tîr diangol, ſel y rhoddai gynhalia-
eth i genedl arall y brifiai dros drô yn uſuddach
yw Duw.

Yr achlyſur o wanhychiad ein gwlâd ydoedd
rheoliad yRhuſeiniaid arnilai hymadawiad hwy o
honi i ddiffyn yr Ital. Megis mewn dychryn pan
gilio'r gwaed o'r wyneb a'r aelodau at y galon yw
diddanu hi, digwydd gleſni a lleſcedd ynddynt
hwy. Ni adawodd ei hên feiſtraid fawr oi hôl,
ond amryw eiriau Ladin yn gymyſcedig a'n iaith

ni. Aphlaniad y Britaniaid yn Llydaw a eiddilodd lawer ar eu cenedl gartref: ac ai Cymwysodd i
Math. 7.2. dderbyn *yr un meſur* gan y Saeſon ac y roddaſent hwythau ir Letafiaid. Anghydſod y penaethiaid hefyd a agorodd adwyau i ollwn afliwydd ir ynys. Pan aeth Fortigern duwc cerniu yn frenin drwy frâd gwaedlyd, rhoddodd fwy ymddiried yn y Saeſon y gyflogaſai, nag yn ei ddeiliaid ganedigol. Gorfu ir brenin Arthur ryfela ai wladwr Melſas tywyſog gwlâd yr hâf, i ddial trais ei frenhines Gwenhwyfar. A chwedi iddo ynnill deuddeg brwydr oddiar y Saeſon, trwy anfodlonrwydd ei nai Modred cafodd ei farwolaeth. A chyda'g ef Syrthiodd
Math. 12. 25. llwyddiant ei genedl; a'r *deyrnas wedi ymrannu yn ei herbyn ei hun a anghyfaneddwyd*. Hefyd tra yr oedd Prydain yn wan, yr oedd hi yn brydferth; ai glendid y barodd i gymaint o ddieithraid ei threiſio. Ni chafodd lonydd gan yſpeilwyr wrth fod ei thîr mor gyfoethog. ffrwythlondeb y pren afalau y wnaiff ergydio cymaint o baſtynau atto,
Job. 1. 10. yn enwedig os bydd heb *gae* yn ei gylch. aeth *ei hymddiffynſeydd fel ffigyſwydd ai blaenffrwyth arnynt, pan yſcydwyd hwynt, Syrthiaſant yn ſafnau y bwyttawyr*. Pe buaſai yn addoli Duw yn ddyladwy, *ni chwſai neb chwenych moi thir, er anam.*
Nahum 3. 12. *ltd ni gwr-rywiaid*. Ac os buaſai rhuthr iddi, *cwnaſai'r Arglwydd amddiffyn ar ei holl ogoniant.*
Exod. 34. 23, 24. Eſai. 4. 5. Ond wedi iddi ddigio Duw, aeth ei golud hi yn obrwy ir Sawl ai Lladdent hi. *Plannaſei'r Arglwydd winllan* (Sef ei eglwys) *ynddi, a diſgwilioddiddi ddwyn grawnwîn* o weithredoedd graſol,
Eſai. 5. 2, 5, 6, 7. *a hithen a ddûg rawn gwyllion* o foeſau drwg: *Sef*

trais

trais yn lle barn, ac yn lle *cyfiawnder gwaedd. Am hynny tynnodd ymmaeth ei chae* amdiffin *fel y porid hi, a thorrodd ei magwyr, fel y byddai yn Sathrfa: a gosodod hi yn ddifrod, ac i'r cwmylau y gorchymynnodd na lawient law arni*, gan attal oddiwrthi neu brinhâu ei ordinhâdau a moddion grâs. Cyn pen nemawr ar ol yſcrifen Gildas bu agos i blâ elwid y *Gall felen* a dibennu gweddillion y Britaniaid. y rhai wedi hynny a gollaſant Gaerloiw ar Bath, ar cwbl o orllewin Lloegr (oddieithr cerniu.) A delèodd y Saeſon y grefydd Gryſtnogol, a throeſant yr Eglwyſydd yn demlau eulynnod Paganaidd, drwy eu hargl. wythiaethau oll. Ac er i Awſtin y monach, a phregethwyr eraill ddyfod o Rufain, a throi llawer o'r Saeſon at broffeſſe y grefydd Griſtnogol; etto ni chaſodd y cymry fawr eſmwythâd, o herwydd na chynorthwyent bregethiad yr eſengyl ir Saeſon, ac na dderbynient ddefodau Eglwys Rufain, oeddent wedi amlhâu y pryd hwnw. Yn enwedig cythrybliodd y ddadl loerig (ſef pa ddydd o'r lleuad y cedwid y paſc) lawer ar y Britaniaid ar Gwyddelod. Dilynai ein cenedl ni arfer yr Aſiaid. a chadwai 'r Gwyddelod yr un tymhorau ac oedd arferol ymyſc eglwyſydd y Gorllewin, a Rhufain yn amſer Padrig. Ond talm gwedi ſef yn y chweched oes, newidiodd eglwys Rufain ei harfer gyntaf i ddilyn defod Alecſandria, a chymerth boen i droi eraill i gydffurfio a hi. Yngbylch hyn goreſcynnodd y Saeſon Gaerlleon ar Ddwfrdwy, a lladdaſant un cant ar ddeg o fynych Bangor îs y coed. Ond rhwyſtrodd

Oed. Cr. 586.

Brochwel

Brochwel tywyſog Powys iddynt ddyfod tros ddwfrdwy, nes i Cadſan brenin Gwynedd, a Bledrus tywyſog Cerniu, a Meredyth brenin Deheubarth ddyfod y wſwccwr ef. Pryd yr ymladdaſant a'r Saeſon, ac a laddaſant o honynt fwy na mîl, a gyrraſant y lleill i ffoi, a dialwyd arnynt waed y mynych. Ynghylch blwyddyn yr Arglwydd chwe chant a phedair a thrugain, amſer hâf, digwyddodd tywyllwch mawr oddiwrth clip ar yr haul; ar ol hynny gwelwyd y neſoedd yn danllyd, ac yn nechreu'r Cynhaiaf gwnaeth plâ tra marwol ddiſrawd angerddol ar drigolion Prydain a'r Jwerddon. Ond arbedodd y plâ hwn a'r gall ſeiſen y Pictiaid a'r Scotiaid yn yr Albain, er iddynt fod yn dôſt wrth y Britaniaid. Cydnabyddwn ddoethineb, a daioni, a chyfiawnder Duw, yn ei farnedigaethau ar ein henafiaid ni. Canys gadawai gryn ennyd rhwng y dyrnodiau y roddai iddynt, fel y caent amſer i yſtyried eu ffyrdd, ac i droi oddiwrth eu hanwireddau, er y naill gerydd, cyn dyfod y llall. Ac felly y gwnaeth ef ar Iſraeliaid pan ddygn ddigiod eſ wrthynt; gan adel Caethiwo Samaria yn gyntaf, ac ymhen talm o flynyddoedd gwedi, y caethiwyd Jeruſalem ar ddwy waith neu dair, ar Cuſtudd olaf, ſyddai drymmaf. wedi i weddillion y Britaniaid lynu encyd mewn dalfau yng-ogledd Lloegr o Cumbria i Glaſcu rhwng y Saeſon, a'r Pictiaid, megis rhwng y rhiſc a'r pren; ynghylch y flwyddyn o oedran yr Arglwydd ſaith gant a thrugain, ymoſodod eu gelynion o'u dautu i warchae ar ddinas Alcluid, lle gwaethant ymroad iddynt drwy guttundeb. A

Blwydd. yr Argl. 617.

2 Bren. 18. 9. ac pen. 24. 11. ac pen. 25. 4.

chan

chan eu bod fel yd rhwng dau ſaen melin, aethant yn wynn wrth eu dryllio, a rhoddaſant eu bryd ar waſnaethu Duw yn fanylach, ac amlhâſant yn y monachlogydd. Ac er iddynt gadw eu crefydd, collaſant eu iaith, canys Saeſonaec y Sieryd y Cumbriaid yn awr. Yn yr un oes cyfyngwyd ar Gymry hefyd. Canys gwnaeth Offa Sais, brenin Merſia, glawdd mawr dwfn o fôr i fôr, yn derfyn rhwng Cymry alloegr. y pryd y cwttogwyd terfynau Powys a deheubarth. Yr ydoedd Cymry wedi ei rhannu yn dair talaeth; ſef *Gwynedd*, ac yn Aberffraw ym Môn yr oedd llys y tywyſog, a *Deheubarth*, ac yn Ghaer Fyrddin a Dinfawr y Cartrefai'r tywyſog. a *Phowys*, ac yn Mathraſal y Preſwyliai'r tywyſog, wedi colli 'r Mwythig. Tywyſog Gwynedd oedd bennaf, a'r ddau eraill i dalu teyrnged iddo ef. a gorfu i Gerniu fyned dan jau 'r Saeſon. ynghylch oes gwr gwedi teyrnaſodd Alfred yn Lloegr. Anfonodd et i Gymry am ddau wr dyſcedig yw hyfforddi ef i Seilio yſcolion yn Rhydychen, ſet Aſſer, ac Joan D'erigena o Fynyw: yr hwn wedi iddo ſtudio gartref, aeth ir Athen i gael ychwaneg o gydnabyddiaeth ag yſcolheictod. a phan ddychwelodd ef adref, cyrchwyd ef at Alfred i ddechreu dyſceidiaeth yn Rhydychen. yr Alfred hwn a drôdd gyfreithiau Dwfnwal Moelmut brenin Prydain o'r Gymraec ir Saeſonaec, ac ai goſododd yn rheol yw ddeiliaid mewn rhan o Merſia, o'r tu dehau ir Thames, a pharhâodd hynny hyd amſer Edward y Cyffeſſwr. Ynghylch wyth mlynedd a thrugain gwedi y rheolodd Howel dda Gymry oll. Ac am ei ſod ef yn

Bl. yr Arg. 777.

n. 809.

Bl. yr Arg. 872.

wr

Blwyddyn yr Arglwydd 940. wr creſyddol, ac yn ceiſio gwellhâu ei wlâd, caſclodd ynghyd eglwyſwyr a Phendefigion cymry i ddiwygio 'r gyſraith, gan ddiddymu pethau afreidiol, ac eſponi pethau ammheus, a chadernhâu pethau iachus. Y mae ei gyſraith ef yw gweled etto yn Gymraec, ac yn Ladin, a bu mewn grym drychant a deugain o flynyddoedd, nes dwyn y Cymbry yw rheoli wrth gyſraith Loegr. Wedi ir Normaniaid gwncwerio Lloegr, a chael tiroedd pennaethiaid y Saeſon, blyſiaſant Gymry heſyd, a chymeraſant bob âchlyſur i ymhyrddu iddi. Yr hyn ſu haws iddynt ei wneuthur, o herwydd yr ymryſonau cenſigenus oedd rhwng y blaenoriaid Cymreig yn eu myſc eu hunain. Yn amſer Gwilym Gôch cyflogodd Jeſtyn Arglwydd Morganwg weiſion y brenin yw gynorthwyo ef i ryſela yn erbyn tywyſog Deheubarth; yr hyn a wnaethant hwy yn gefnog, gan lâdd y tywyſog ag Jeſtyn heſyd, a chymeryd ei arglwyddiaeth ef iddynt eu hunain, yr hon a ddaliaſant hwy, a'u etiſeddion rhag llaw. ynghylch yr un amſer ynnillodd y Normaniaid Arglwyddiaeth Brecheiniog, a meddianaſant y wlâd: yr un môdd y gwnaethant a Dyfet, ſef Swydd Penfro, ac Aberteifi, a Phowys, a Rhywonioc, a Tegengl, a glan y môr o Gaer lleon ar Ddowrdwy i Gonwy. gan eu goreſcyn a'r cleddyf, ac adeiladu ceſtyll yw Preſwylio'n ddiogelâch. ond nid allai'r Cymry oddef y gormeſiaid; am hynny yn fynech Cyſodaſant mewn arfau yw gyru ymmaith; yr hyn a gyffrôdd y brenin

William Ruſus. 1091.

William

William Rufus i ddyfod yn eu herbyn ai holl allu ddwywaith yn filain, a gwaeddodd y gorthrumedig ar Dduw yn daer, ac a gawſant eu gwaredu na lwyr ddifrodwyd hwynt. er hynny anghofiant law Dduw drachefn, ac yſpeilia'r penaethiaid eu gilidd yn ddichellgar, ac yn waedlyd, a threiſiant wragedd. Ac wrth glywed eu bod mor afreolus, tyngodd y brenin Harry y Cyntaf o'r henw, nas gadawai un byw yngwynedd, na Phowys, heb eu llwyr ddiffetha: a bwriadodd ddwyn pobl eraill i gyfanneddu yn eu llè hwynt. ir pwrpas hwnw Cyfododd holl allu Lloegr, a'r Albain, a gofododd allan dair byddun ar un-waith yn erbyn Cymry. un tua'r Deheubarth, a'r llall tua Gwynedd dan law brenin yr Albain, ar drydydd y arweiniai'r brenin ei hun. Ond ymgaſclodd y Cymbry ir creigiau a'r coedydd, ag ymgadwaſant nes iddynt heddychu a'r brenin. Ond wedi ei farw eſ, yn amſer y brenin Stephen rhoddaſant gais ar guro 'r dieithriaid allan oi gwlâd, gan lâdd o honynt dair mil mewn brwydr dôſt. Daeth y brenin Harry yr ail a byddun grêf yn eu herbyn nhwy Yn drallidiog, a gwerſyllodd ar fynydd Berwyn. Ymgaſclodd y Cymbry ynghyd ir coedydd a'r uchelderau, a chwaraeſant oddiyno mor ddyfal nad allai dim llunieth ddyfod at werſyll eu gelynion. a ſyrthiodd glaw mor angerddol, oni ymroddodd y brenin i ddychwelyd tua Lloegr heb wneuthur fawr niwed. Yn amſer y blinderau hyn mentrodd Madoc, un o feibion Owen

Elw. yr Arg. 1113.

1166.

tywyſog

tywyſog Gwynedd, i geiſio gwlad arall ar amcan hyd y môr mawr tua machlud haul: a chwedi gweled gwledydd hyfryd heb drigolion, dychwelodd adref, a llanwodd ddeg o longau a'r cyfryw oi genedl ag ydoedd chwanog i fyned lle
1170. caent heddwch; athybir iddynt wladychu yn Mecſico. O herwydd Pan ddat cuddwyd America ir Europeaid yn yr oes ddiweddaf aeth heibio, caſwyd yno eiriau Cymreig. Canys pan ymddiddanont ynghyd dywedant wrth eu gilidd, *gwrando.* ac y mae yno aderyn brith a chraig y alwant *Pengwyn.* ac ynys a elwir *Corroeſo, a Phen Bryton*; ac afon elwir *Gwyndor.* Er maint oedd helbul Joan brenin Lloegr oddiwrth y Pab, a'r Arglwyddi; etto cymerth hamdden i ddyſod ddwy waith tua Gwynedd a thorſoedd maurion. Ond
1211. Cadwodd Llywelyn ap Jorwerth y tywyſog ei bobl ai da yn yr eryri, nes Guttuno a'r brenin, gan roddi iddo Swydd y fflint, ac ugain mil o gattel. Ond pan welodd Llewelyn fantais gwrthryfelodd eilwaith, ac ynnillodd y Mwythic. a lloſcodd y brenin Groeſyſſallt, a thalm gwedi, lloſcodd y tywyſog hi hefyd. Cyſododd yng-Hymry benadur dewr ar ei ol ynteu, ſef Llewelyn ap Gryffyth, ac a geiſiodd fwrw ymmaith iau'r Saeſon, ac a gadwoddy maes a dengmil o wyr, gan guro ei elynion yn fynech. Yn ei amſer ef hi lawiodd waed yn amryw fannau yn-Ghymry, ac ymhen pum mlynedd gwedi lladdwyd y tywyſog Llewe-
1282. lyn, a darſu i frenin Lloegr ſef Edward y Cyntaf
Galarnad. lwyr ddaroſtwng y Cymbry, a goſod dieithraid
3.9. *arnynt* yw Cyſtwyo, *a chaeodd eu ffyrdd a cherrig*

nâdd,

nâdd, gan adeiladu ceſtyll cryfion ynGwynedd, ſef ynG wonwy, Caer, Narton a Beumaris i lochelu gorthrumwyr. a goſododd ei Arglwyddi yn Nimbech, a Rhuthyn, a lleoedd cedyrn eraill ir unrhyw ddiben: a phan derfyſcai'r Cymbry lleddid peth Echryſlon o honynt: ac er hynny ni pheidient a mentro eu bywyd ar bob achlyſur. Yn amſer y *Wiclefiaid*, yr oed un *Cymro nodedig* elwid *Walter Brute* o eſcobaeth *Henffordd* yr hwn oedd ddyſcedig, ac yn dyfal gynghori eraill i dduwioldeb er ei fodyn wr llyg. Argyhoeddodd ei wladwyr am ſwyno drwy eiriau, neu ddwfr bendigaid, gan ddangos *na leſodd enw'r Jeſu i feibion* Act. 19. 14
Sceſa. eglurodd mor wrthwyneb i *Griſt* oedd yr ymarweddiad gyffredin, gan fod *Criſt* yn gorchymyn cariad, a'r *Pâb* yn tywallt gwaed, ac ir eſengil ddiddymu 'r defodau Cnawdol, a bod y *Pab* yn eu hailgoſod hwynt i fynu. Digwyddodd amrafael rhwng yr arglwydd Gray o gaſtell Rhuthyn, ac Owen Arglwydd Glyndwfrdwy yngbylch cau mynydd. A Phan ſafodd ei gymydogion gyda'g Owen, ac ymladd a'r Arglwydd Gray, a'i gymeryd eſ yn garcharor, ar hynny o rwyddeb ymgaſclodd y Cymbry atto eſ o bob parth, gan ei annog ef i ryſela a'r Saeſon, a'r hyder bruttaiu Merddyn a'r daroganau; i edrych allent ynnill yn ol dracheſn yr hyn a gollaſai eu henafiaid. Ond gwnaeth y gwrthryſel hwnw niwed mawr 1400.
iddynt. O herwydd wedi eu gorchfygu, aeth y brenin Harry y pedwerydd yn orddig wrthynt, ac yn orthrumwr creulon arnynt: efe a wnaeth eu Galarnad
lleſſetheiriau yn drymmach, au rhwymmau yn 3. 7.
dynnach.

dynnach, ac ordeiniodd bethau anrheſumol yn eu herbyn hwy; gan oſod cyfreithiau ydoedd yn gwarafun i un Cymbro brynu tîr, na bod yn ſwrdes o un dref ſarchnad, na ſwyddog, na gwiſco arfau, na chael cyfraith ar ſais ond drwy Juſtiſiaid a chwèſt o ſaeſon. na chadw ei blant at ddyſceidiaeth, na'i rhoddi yn brentiſiaid i grefft yn y byd mewn un dref yn y deyrnas. Goſodwyd deddfau hefyd na chai 'r Cymbry mor ymgyfarfod ynghyd i ymr gynghori ond yngwydd y ſwyddogion ſeiſnig, na chaent gadw neb rhyw gaſtell, nag amddiffynſa. Ac oš ſais a briodai Gymraes, gorfyddai iddo golli ei ſwrdeiſiaeth ai ſwydd. Nid oedd llaſaſus chwaith ddwyn dim llunaieth i Gymry heb genad yſpyſol y brenin neu 'r cyngor. Y gyfraith yw goleuni gwladwriaeth, *am hynny os ydoedd hi yn dywyllwch, oh faint oedd y tywyllwch hwnw?* os rheol llywodraeth oedd anghyfiawn, mawr oedd yr anghyfiawnder hwnw! pan *drowd barn yn wermod*, aeth trais yn fuſtl. tôſt oedd y gyfraith, ond toſtach oedd anghyfraith y ſwyddogion milain.

Math. 6, 23.

Amos 5, 7.

Gwelwn yma mor afleſol fu i'n henafiaid, amcanu bwrw cuſtudd oddiwrthynt, cyn troi at Dduw drwy edifeirwch. Prifiodd y gwrthryfel hwn ſel un zedeciah, yn achos o gaethiwed Babilonaidd. Darfu ir daroganau eu ſiomi nhw hefyd. Cnawd i bob cenedl dan orthrumder goelio pob Bruttiwr ar addawo ryddhâd iddynt. Creſawai'r Iſraeliaid y prophwydi gwenheithus, ond deuai'r peth yn y gwrthwyneb ir bobl anwireddus. Pan *dorrodd Hanaaniah y gefyn pren*, rhoddes Duw yn ei lê *iau o haiarn*

2 Bren. 24, 20.

Jer. 28, 10.

iarn ar eu gwarrau. Dull yr amſeroedd Pabaidd hynny, a chuſtudd, gyda'g biraeth am waredíad, a wnaeth ein henafiaid ni yn dueddol i roi lle i ſeddyliau ofergoelus. *Y newynog a'r ſychedig a freuddwydia am lunieth, ond pan deffrô gwâg a deffygiol fydd ei enaid.* Pan gafodd y brenin Arthur ei friw marwol aeth i ynys * Wydren yw ddiweddu, er mewn celu ei farwolaeth; rhag llawenychu ei elynion, na digaloni ei ddeiliaid. am hynny bu ein gwladwyr ni gantoedd o flynyddoedd gwedi, yn tybied na buaſai ef farw: ond yn brithgoelio y caenr ef eilwaith i lywodraethu arnynt, fel y taer ddymunent. a phan ai tywyſogion Cymry a'r mâes addiar y Saeſon mewn dwy frwydr neu dair, ymhyſâent yn aruthr, gan ddiſgwil cyflawni bruttiau 'r prydyddion am gael o'r Britaniaid ail-goreſcyn yr ynys. a hynny a wnaeth ir Saeſon o ran gwawd, wiſco coron am ben Llewelyn y dorraſent oddiar ei gorph ef, wrth ei oſod ar y twr yn Llundain. Ar ol Rhyſel Owen Glyndwfr, parhâodd y Caethiwed gorthrwm hwn ar ein cenedl ni drwy yr amſer y rheolodd pump o frenhinoedd Lloegr; ac yn ddigon o hyd er dwyn dygn dlodi, ac anwybodaeth arni. Ac i ddigaloni neu ddiffodd yr hyn o ſawrfrydigrwydd, ac o fedruſrwydd, celfyddyd, ffydd, a moeſau da y fuaſai yn eu myſc gynt. yn y cyflwr hwn cafodd achos i alaru ger bron Duw fel Sion guſtuddiol; *Nyni a wnaethom gamwedd, ac a fuõ anuſydd, a thitheu nid arbedaiſt. Gorchguddiaiſt ni a ſorriant. Ti a'n gwnaethoſt yn ſorod ac yn yſcybion. Dychryn a magl a ddaeth arnom, anrhaith a*

Eſai 19. 8.

Glaſſenbury.

Galarnad. 3. 42, 43. ac pen. 5. 16.

a diniſtr. Syrthiodd y goron oddiam ein pen, gwae ni yn awr bechu o honom. Canys cyflawnwyd ynddi fwgwth Duw yn ddigon union — *oblegyd na waſnaethodd yr Arglwydd ei Duw mewn llawenydd, ac mewn hyfrydwch calon, am amldra pob dim, am hynny y gwaſnaethodd ei gelynion mewn newyn, ac mewn ſyched, ac mewn noethni, ac mewn eiſiau pob dim, ac efe a roddes iau haiarn ar ei gwddf.* Yn amſer yr anwybodaeth hon yr arferodd ein gwladwyr ymgymdeithaſu ar tylwyth têg yn y coedydd y nôs. er hyn *nid yn dragywydd y gwrthododd yr Arglwyd hwynt, ond er iddo eu cuſtuddio yn* drwm, etto efe a *doſturiodd* wrthynt *yn ol amlder ei drugareddau.* Ac a ddattododd lawer o'u rhwymmau trwy y brenin Harri y Seithfed. Yr hwn oedd wyr i Owen Tudyr O Fôn (a briodaſai frenhines weddw yr oedd efyn ei waſnaethu) ac a gafodd y frenhiniaeth fel hyn. Pan ddigiodd pennaethiaid Lloegr wrth y brenin Riſſiard y trydydd, am iddo fwrdro ei neiaint bychain ydoedd dan ei olygiad ef, a Chipio 'r goron oddiarnynt, gwahoddaſant i mewn yr iarll Harry, ydoedd yn Llydaw yn llechu. Ar hynny tiriodd ef yn Aber daugleddeu, a chwedi i gryn fyddin o Gymbry a Saeſon godi gyda'g ef, aeth a'r mâes oddiar y brenin Riſſiard, a chymerth ei le ef. A phriſiodd yn Eſmwythâd, nid i Gymry yn unic, ond i Loegr hefyd: a diweddodd ymdrech tôſt a fuaſai rhwng dau deulu frenhinol am y goron dalm o flynyddoedd, ymha un y lladdefid llawer o filoedd. Gan ei fod ef yn etifedd y naill dy, priododdetifeddes y ty arall: ac felly heddychodd y deir-

Deut. 28. 47, 48.

Galarnad. 3. 31, 32.

nas,

nas. Yn y chweched flwyddyn ar ugain o deyrnaſiad ei ſab eſ, y brenin Harri Wythſed, gwnawd Act o Barliament i gael o Gymry yr un breintiau, rhydd-dyd, a chyfiawnder a Lloegr, gan ei rhannu yn Siroedd, a threſnu Seſſiwnau iddi. yn nyddiau ei ſab yntef, ſef y brenin Edward y chweched, cynygwyd iddi warediad oddiwrth ei chaethiwed yſprydol, ſel y cawſai ryddhâd o'r blaen oddiwrth ei chyfyngder bydol. Ond nid oedd neb a fedrai, ac a fynnai gyfieithu, a phregethu gair Duw yn gymraeg yn yr yſpaid hwnw. a dyna'r achos na chafwyd neb yn Ghymry wedi hynny - ſef yn amſer y frenhines Mary, i ddwyn tyſtiolaeth gyda ffydd y Proteſtaniaid drwy ddioddefaint, oddieithr tri yn y deheubarth y fedrent Saeſonaec. Yr hyn ſydd Argoel hynod reitied ydyw cyfeithiad, a phregethiad yr Scrythurau yn iaith gyffredin pobl, i weithio ynddynt râs, a ffydd iachuſol. Yn nechreu teyrnaſiad y frenhines Elizabeth, gorchymynwyd drwy Act o Barliament droi'r bibl yn gymraec. Ond yr oedd ein gwlâd ni wedi myned yn ddichwant am dano, neu yn anfedrus tuag at y fath beth. am hynny ſafodd y gwaith ynghylch naw mlynedd, ac yno Riſſiard Dafies eſcob Mynyw, ag William Salisbury gwr bonheddig, a gyfieithiaſant y Teſtament Newydd yn Gymraec, ac ai printiaſant ymlwyddyn yr Arglwydd, mil, a phum Cant, a thrugain, a Saith. Ac am tod llythr Saeſonaec Mr W. S at y frenhines yn amlygu peth o helynt ein cenedl ni y pryd hynny, cyfieithais hyn o honaw eſ. *Oed. Cr.* 1567.

a diniſtr. Syrthiodd y goron oddiam ein pen, gwae ni yn awr bechu o honom. Canys cyflawnwyd ynddi ſwgwth Duw yn ddigon union — *oblegyd na waſnaethodd yr Arglwydd ei Duw mewn llawenydd, ac mewn hyfrydwch calon, am amldra pob dim, am hynny y gwaſnaethodd ei gelynion mewn newyn, ac mewn ſyched, ac mewn noethni, ac mewn eiſiau pob dim, ac efe a roddes iau haiarn ar ei gwddf.* Yn amſer yr anwybodaeth hon yr arferodd ein gwladwyr ymgymdeithaſu ar tylwyth têg yn y coedydd y nôs. er hyn *nid yn dragywydd y gwrthododd yr Arglwyd hwynt, ond er iddo eu cuſtuddio yn* drwm, etto efe a *doſturiodd* wrthynt *yn ol amlder ei drugareddau.* Ac a ddattododd lawer o'u rhwymmau trwy y brenin Harri y Seithfed. Yr hwn oedd wyr i Owen Tudyr O Fôn (a briodaſai frenhines weddw yr oedd efyn ei waſnaethu) ac a gafodd y frenhiniaeth ſel hyn. Pan ddigiodd pennaethiaid Lloegr wrth y brenin Riſſiard y trydydd, am iddo ſwrdro ei neiaint bychain ydoedd dan ei olygiad ef, a Chipio 'r goron oddiarnynt, gwahoddaſant i mewn yr iarll Harry, ydoedd yn Llydaw yn llechu. Ar hynny tiriodd ef yn Aber daugleddeu, a chwedi i gryn fyddun o Gymbry a Saeſon godi gyda'g ef, aeth a'r mâes oddiar y brenin Riſſiard, a chymerth ei le ef. A phrifiodd yn Eſmwythâd, nid i Gymry yn unic, ond i Loegr hefyd: a diweddodd ymdrech tôſt a fuaſai rhwng dau deulu frenhinol am y goron dalm o flynyddoedd, ymha un y lladdefid llawer o filoedd. Gan ei fod ef yn etifedd y naill dy, priododd etifeddes y ty arall: ac felly heddychodd y deir-

Deut. 28. 47, 48.

Galarn. d. 3. 31, 32.

nas,

nas. Yn y chweched flwyddyn ar ugain o deyrnaſiad ei ſab ef, y brenin Harri Wythfed, gwnawd Act o Barliament i gael o Gymry yr un breintiau, rhydd-dyd, a chyfiawnder a Lloegr, gan ei rhannu yn Siroedd, a threfnu Seſſiwnau iddi. yn nyddiau ei ſab yntef, ſef y brenin Edward y chweched, cynygwyd iddi warediad oddiwrth ei chaethiwed yſprydol, fel y cawſai ryddhâd o'r blaen oddiwrth ei chyfyngder bydol. Ond nid oedd neb a fedrai, ac a fynnai gyfieithu, a phregethu gair Duw yn gymraeg yn yr yſpaid hwnw. a dyna'r achos na chafwyd neb yn Ghymry wedi hynny - ſef yn amſer y frenhines Mary, i ddwyn tyſtiolaeth gyda ffydd y Proteſtaniaid drwy ddioddefaint, oddieithr tri yn y deheubarth y fedrent Saeſonaec. Yr hyn ſydd Argoel hynod reitied ydyw cyfeithiad, a phregethiad yr Scrythurau yn iaith gyffredin pobl, i weithio ynddynt râs, a ffydd iachuſol. Yn nechreu teyrnaſiad y frenhines Elizabeth, gorchymynwyd drwy Act o Barliament droi'r bibl yn gymraec. Ond yr oedd ein gwlâd ni wedi myned yn ddichwant am dano, neu yn anfedrus tuag at y fath beth. am hynny ſafodd y gwaith ynghylch naw mlynedd, ac yno Riſſiard Dafies eſcob Mynyw, ag William Salisbury gwr bonheddig, a gyfieithiaſant y Teſtament Newydd yn Gymraec, ac ai printiaſant ymlwyddyn yr Arglwydd, mil, a phum Cant, a thrugain, a Saith. Ac am fod llythr Saeſonaec Mr W. S at y frenhines yn amlygu peth o helynt ein cenedl ni y pryd hynny, cyfieithais hyn o honaw ef. *Oed.Cr.* 1567.

Ir rhinweddolaf, ar Ardderchoccaf Dywysoges, Elizabeth.

Pan ail cofwyf ddull y grefyd wedi llygru yn Lloegr, a'r defodau ofer a ymluſcaſent i'n gwlâd ninnau Cymry, pryd yn lle'r by wiol Dduw yr addolau dynion ddelwau meirwon, o gôed, a cherrig, clychau ac eſcyrn. a phan yſtyriwyf hefyd ein diweddar gyffredin ymadawiad oddiwrth Sancteiddiolaf air Duw, y dderbyniaſid unwaith, a'r erlidigaethau anhrugarog y Sydd ar lawer etto mewn gwledydd eraill; Nid allaf amgen na wnelwyf fal y truan *Bartimeus ddall*, neu *'r gwahanglwyfus O Samaria i'n Achubwr*, ſef dyſod yn dra goſtyngedig oſtaen eich mawrhydi, nid yu vnic droſof fy hun; ond hefyd am waredigaeth llawer mil o'm gwladwyr oddiwrth yſprydol ddallineb anwybodaeth, a ffiaidd haint hên eulun-addoliaeth, a gau ofergoel: yn ddyladwy i gydnabod eich Cymwynas digyffelyb chwi i ni, wrth ganhiadu Cael o honom yr Scrythyrau Sanctaidd, eli ein dallineb yſprydol, a'n gwahanglwyf, yn ein hyſpyſaf dafodiaith. yr oedd ein gwladwyr ni gynt yn anhawdd ganddynt dderbyn y grefydd Rufeinaidd, ac nid heb achos, etto yn awr gwedi (y Cyſryw yw niweid drwg arfer) anhawdd ſu ganddynt ei gadel, a derbyn efengyl Jeſu Griſt. Ar ol cuſtuddio 'r genedl hon yn dra gofidus a hîr ryſeloedd, *am ei gwrthgiliad* fel y tybir'; A'i llwyr oreſcin, ai chadw tanodd a chyfreithiau ſarrug, etto er diwedd rhyngodd bodd i Dduw oi gynefin drugaredd edrych i lawr dracheſn arnynt, gan anſon dau frenin o goffadwriaeth

wriaeth tra enwog, Harri Seithfed, ai fâb Harri yr wythfed, Sefeich tâd â'ch taid chwi. y rhai yn rasuſol ai gollyngodd hwy oi poenau, ac a eſtyn-ytbâſant eu beichiau anoddet. y naill a ſiarteri o rydd-did, a'r llall a'c Actáu o Barliament, gan droi ymmaith eu Caethiwed hwy, a'u gwneuthur yn vngorph ai ddeiliaid o Loegr. Diammeu nad Cymwynas bychan ydoedd hynny. etto y mae'r lleſhâd hwn o'r eiddo eich mawrhydi chwi, yn rhagori arno, yn gymaint ac y mae 'r enaid yn rhagori ar y Corph. Os yw *Mair Magdalen* mor enwog drwy 'r holl fyd lle *pregethir yr eſengyl*, am roddi blychaid o enaint defnyddiol i enneinio Corph cnawdol Criſt; Cedwir eich haelioni chwithau byth mewn Coffadwriaeth, am ganhiadu ennaint yr yſpryd Glân i enneinio ei gorph yſprydol ef, ſef yr eglwys. Yn gymaint ac i eſcobion Cymry fy'ngalw i wneuthur peth tuag at oſod allan y gorchwyl teilwng hwn, tybiaf yn ddyledus yma yn eu henw hwy gyflwyno i'ch mawrhydi (megis y blaenffrwyth goreu) lyfr Teſtament Newydd ein Harglwydd Jeſu Criſt, wedi ei gyfeithu ir Gymraec. Adymunwn ar Dduw gael o'ch deiliad chwi o Gymru gwbl o lyfr gair Duw yr un ffunud. yna y gallai eu cyd-ddeiliaid o Loegr adrodd yn hyfryd am danynt yn y geiriau hyn. *Y bobloedd a eiſteddent mewn tywyllwch a welſant cleuni mawr: y rhai a breſwylient ynhîr Cyſcod angeu, arnynt hwy y llewyrchod y goleuni. Gwynfyd y bobl y mae felly iddynt, ie bendigedig y bobl y mae 'r*

Arglwydd yn Ddaw iddynt. Yna y dywedent ill dau yn frawdol fel hyn, — *Deuweh ac eſcynnwn i fynydd yr Arglwydd, i dy Duw Jacob, ac Efe a ddyſc i ni ei ffyrdd, ac ni a rodiwn yn ei lwybrau ef.*

Dros ugain mlynedd wedi hyn, bu Cymru heb nemawr o bregethwyr ynddi, na'r hen deſtament yn ei hiaith, er bod rhai ewyllyſwyr da iddi. Dywedodd y doctor Powel drofli yn y llyfr Saeſonaec y brintiodd ef 1584, *Os rhyglyddai fodd i Ddaw anfon iddi y bibl yn ei hiaith ei hunan yn ol y cyfreithiau Duwiol a wneithid, y byddai yw chyſtadlu ag un wlád yn Lloegr, os y rheolwyr a'r dyſcawdwyr fyddent da.* Y flwyddyn nesaf at hon anrheithiodd cynhaiaf anhymerus yr yd, a lladdodd y gaiaf y cattel agos i gyd drwy Gymru oll. a chyfododd Cymbro ai galon yn greſynu wrth anwybodaeth ei wlâd i betiſiwna'r frenhines a'r Parliament am ychwaneg o hyfforddiant iddi: gan ddangos *fod y*

Hag. 1. 9. *blâ o newyn arni, o herwydd anghyfannedd-dra ty Ddaw yndi.* Ac ym mlwyddyn yr Arglwydd mil a phumcant, a phedwar ugain ac wyth, cyfieithwyd a phrintwyd y bibl cyfan yn Gymraeg gan y doctor Morgan Ficcar Llanrhaiadr ym Mochnant. Ond ni hwyrach fel y dywedodd Nathaniel,

Oed. Cr. 1588.

Joan. 1. 46. *a ddichon dim da ddyfod o Nazareth?* Yr amheua't Gwyneddwr, allai'r fath gymwynas iachuſol ddeilliaw o'r gymdogaeth honno. Etto gwêl fel y prifiodd ceccri rhai o'i biwyfolion yn fantais ir athro hwn yn ei orchwyl pwys-fawr. Canys pan orfu iddo fyned i lys yr Archeſcob i atteb iddynt, canfu'r prelad pwyllog ei odidowgrwydd ef, ac ai hannogodd ef ir gwaith bendigaid hwnw. Cymer

hyn

hyn o grynodeb a chyfiethiad oi lythr ladin ef at y frenchines, a brintwyd gyda 'r bibl Cymraeg oi ladmerjaeth ef. —

Ir arddêrchoccaf frenhines Elizabeth, grâs a bendith ynyr Arglwydd.

Pa gymaint y mae eich mawrhydi chwi (o di-doccaf dywyſoges) yn nylêd y goruchaf Dduw, nid yn unic ei ryſeddol amddiffin ef yn tarfu y gelynion creulon yn ddiweddar, eithr hefyd y duwioldeb rhagorol, clodfawr drwy 'r hollfyd, a pha un yr addurnodd ef eich mawrhydi, Sy'n eglur dyſtiolaethu. a hyn a ddengis pa radlawn oſal ydoedd gan eich mawrhydi chwi am eich Britaniaid, nid amgen na'ch ordinhâd drwy awdurdod Parliament y deyrnas i droi yn Gymraeg yr ddwy yſcrifen o Sanctaidd air Duw, ſef yr hèn a'r newydd. yr hyn hefyd Sy'n datcan ein Syrthni, a'n eſgeulyſder ni, gan nad allai y fath athrwm anghenrhaid ein cynhyrfu ni, na chyfraith mor lleſol ein cymell ni, ſel nad arhoſai peth mor bwys-fawr, (mwy na pha un nis gallai dim fyth fod) cyhyd heb ei gymeryd mewn llaw. Canys y teſtament Newydd yn unic y drôdd eſcob Menyw yn Gymraeg er ys ugain mlynedd, gyda chynorthwy *William Salisbury*, gwr a haeddai yn dda ar law ein eglwys ni. Nid hawdd mynegi faint o leſhâad y wnaeth ef i'n gwlâd ni wrth y gorchwyl hwnw. Canys y pryd hynny prin y medrai ymbell un bregethu yn Gymraeg, o herwydd bod y heiriau rheidiol i eglurо Sanctiaidd ddirgeledigaethau yr Scrythr lân yn gymraeg wedi myned ar aball, megis wedi eu golchi ymmaith a dwfr * Lethe; neu wedi eu claddu

* *Afon yn Affrica yn gwneuthur i rhai a yfau oi dwfr anghofio pob peth.*

dan lwch anarfer: mal nas gallau na'r dyſcawdwyr agor yn ddigon amlwg yr hyn a ewyllyſient, na'r gwrandawyr eu deall; na dirnad pa rai oedd geiriau'r ſcrythyrau, a pha rai oedd eſponiadau o honynt. Yn ddiau pan ymgaſclent yn chwannog at bregethau, a bod yn ddyſal ynddynt, etto anhyſpys ac yn amheus y byddai y rhan fwyaf yn ymadel, megis wedi cael tryſſor mawr nis gallent gloddio atto, neu fod mewn gwlêdd fawr, heb gael bwytta o honaw. Ond yn awr drwy ddirfawr ddaioni y Goruchaf Dduw, a llafur y Cyfeithydd hwn, y mae genym ſwy o bregethwyr a pharottach, a gwrandawyr hyddyſcach. Fel y mae'r ddau beth hyn yn dda gan y duwiol, ettonid yw'r un o'r ddau hyd yn hyn yn gyfattebol yw dymuniad hwy. Canys gan fod ar ein gwlâd ni eiſiau yr yſcrifen gyntaf honno o air Duw, y ſydd ragſynegiad, a darluniad, a thyſt ddiogel ir llall: och faint o eſamplau, pa nifer o addewidion a chyſſuron ſydd dan gûdd? Pa faint o rybuddion, annogau, a thyſtiolaethau y mae ein pobl ni oi hanfodd hebddynt? iechydwriaeth dragwyddol pa rai ſydd mewn mawr berigl hyd yn hynn; Pan yw pob un i *fyw drwy ffydd, a bod ffydd trwy glywed, a chlywed trwy air Duw.* Yr hwn ni Seiniodd ond ychydig i'n cenedl ni hyd hynn, gan ei fod mewn iaith ddieithr. Am hynny wrth weled mor llefol, ac angenrheidiol ydoedd cyfieithu'r Scrythyrau eraill ir Gymraec, (er i atgof o'm gwendid fy hun, a maintioli 'r gorchwyl, a drygianiaeth rhai anwydau fy nigalonni yn hîr) gan gydſynio a dymuniadau 'r duwiol, goddefais fy mherſwa-

Rhuſ. 10. 17.

dio

dio i oſod ar y gwaith poenus hwn; a thra anghymeradwy i lawer. A chwedi ei ddechreu, deſſygiaſwn o ran anhawſtra yr peth, a maintioli 'r gôſt, a dugaſwn bum llyfr Moeſen yn unig at y printwâſc, oni bae ir parchediccaf archeſcob Caer gaint, achleſwr dyſceidiaeth, amddiffynwr y gwirionedd, a thirion wrth ein cenedl ni, ſy nghymorth a'i haelioni, a'i awdurdod, ac a'i gyngor i ſyned ymlaen. Ar ol ei eſampl ef, aeth gwyr da eraill yn gynorthwyol i mi. Oni chyfieithais i yr Teſtament Hên i gyd, a diwygiais argraphiad y Newydd. Os tybia neb mae gwell er mwyn Cyttundeb ſyddai Cymell ein cenedl ni i ddyſcu Saeſonaec, na throi 'r Scrythyrau i'n iaith ni, dymunwn arnynt ymogel, na yrront greſydd ymmaith wrth hyfforddi Cordiad. Er bod yn ddymunol i drigolion yr un ynys Siarad yr un iaith; ecto mae yn gyſtal yw yſtyried, y gofyn hynny gymaint o amſer a thrafferth yw ddwyn i ben, oni byddai yn rhy greulon ewyllyſio neu oddef pobl Dduw i golli drwy newyn ei air ef yn y cyfrwng. Heb law hynny diammau y dichon cyſſondeb creſydd wneuthur mwy tuag at danghneſedd, na chyſſondeb iaith. Ac nid duwiol cyfrif budd yn well na chreſydd, a chordiad addiallan, yn well na'r heddwch y mae gair Duw yn ei ſelio ymmeddyliau dynion. Yn olaf, mor anoeth yw y rhai y dybiant, pe gwarafunid gair Duw yn ein iaith mammawl, yr annogai hynny i ddyſcu un arall. Canys bydd creſydd yn an-

Joan White gift.

anadnabyddus onis dyscir yn iaith y cyffredin; a r peth y bo un heb adnobod ei selysdra a'i werthfawrogrwydd, ni chymer ddim poen er mewn ei gael. Am hynny attolugwn ar eich mawrhydi i rhai y rhoddasoch un fron y gwiri onedd cusus, ganhiadu yr llall, sel y clodforo bob tafod Dduw. Yn yr oes hon preintwyd befyd rai llyfrau Cymraeg eraill i wneuthur ymadroddiad ynghylch pethau Scrythyrol yn hawsach, ac yn rhwyddach. Megis Dicsionari William Salisburi, sef llyfr yn dangos arwoccâd geiriau Cymreig, y gyhoeddodd ef ugain mlynedd o flaen cyfeithiad y Testament Newydd. A'r un flwyddyn ac y preintwyd y Testament Newydd gartref, cyhoeddodd y doctor Griffith Roberts Ramadeg Cymraeg yn yr Ital, ac ai anrhegodd ef i jarll Penfro, gan ei ganwol am na ddywedai ond bruttaniaeth wrth Gymro ymysc Pennaduriaid y deyrnas. A chwedi yscrifenodd y doctor Joan Dafydd Rhys Ramadeg Cymraeg arall. ac yn y flwyddyn 1595. gwnaeth Harri Perri ddosparth ar Retoreg, yn dyscu lluniaeth ymadrodd yn Gymraeg. Yn nechreu yr hwn y mae 'r ferfi ladin yma o waith Henri Holland.

Ancillas Dominus præmisit, spero sequentem
Post dominam: facilem sterne libelle viam.

Sydd yn datcan ei obaith ef fod aml bregethiad, a gwybodaeth o'r efengyl a'r ddyfod ir wlâd, am i'r Arglwydd anfon y llawforwynion, sef Gramadeg a Retoreg i gyweirio 'r ffordd iddi. Ac ar yr un flwyddyn rhoddwyd y psalmau ar gynghanedd Gymraeg yn America. A thrôdd trafaeliwr arall

Sef

Sef Mr M. Cyffin lyfr eſcob Juel yn Gymraeg. Wedi dychwelyd Caethiwed Cymry ſel un Job, Cynhyrfwyd rhai o'r Charedigion o bob parth, *i roddi iddi bob un ei dlws im chuſſurò am yr holl ddrwg a ddigwyddaſai iddi.* Ynghylch hyn gwnaeth Mr Robert Holland gweinidog Llanddyfferwn yn Sire Gaer. Fyrddin, draethawd byrr yn erbyn conſurwyr a Dewiniaid, ar ddull ymadrodd rhwng Tudyr a Gronw. Ac ymhen dwy flynedd ar ugain gwedi trôdd ef gatecíſme Mr Perkins yn Gymraeg, ac ai preintiodd ef. Yn nheyrnaſiad y brenin James wedi diwygio cyfieithad y bibl yn Saeſonaec, gwnaeth yr eſcob Parry drwy gynorthwy y Doctor Daſies o Fallwyd, yr un Cymwynas i'n gwladwyr ni yn Cywreinio yr bibl Cymraeg, gan addef yn ei lythr ladin at y brenin, *iddo dacctu'r autiuna a minaetthau ei ragflaenoriaid eſ, a Lleſſa tywyſſenau ar ol eu cynhaiaſ hwy.* Pryd y printwyd y llyfr Homili hefyd yn Gymraeg. Er dyfod y bibl Cymraeg ir llannau, ni ddaethai monò etto yn gyfan i dai, am ei fod o brint mawr, ac o gymaint prîs na chlywai ond rhyw un arno ei bwrcaſu. am hynny yn y flwyddyn mil a chwechanta deg ar ugain, drwy draul yr anrhydeddus Sr Thomas Middleton, a Mr Heilyn Alderman o Londain printwyd ef a llythyrennau mân, ac aeth ei faintioli a'i brîs yn gynhwyſach, acyno daeth i ddwylo'r gwerin yn amlach. Galleſid galw'r gorchwyl hwn ſel mâb Zilpha, *Gad*, ſef *bagad y mae tyrfa yn dyfod.* Canys o hynny allan aeth gwybodaeth o Ddduw ar gynydd amlwg ymhlith ein gwladwyr ni. Ac i hyfforddi ein pregethwyr, perfeithiodd y doctor

Job. 42. 11.

1620.

Gen. 30. 11.

Daſies

Dafies ddicfionari Cymraeg, a ddechreuasai 'r doctor Thomas Williams, ac eraill o ewyllyswyr da i Gymru: a gwaeth Ramadeg Cymraeg hefyd. a Chyfieithwyd llyfrau godidog tuag at adeiladaeth ysprydol; Sef llyfr y Resolusion, a'r ymarfer o Dduwioldeb, a'r llwybr hyffordd ir nefoedd. gwnaeth carwr y Cymro, a Sail y grefydd Gristnogol, a chaniâdau Scrythyrol Ficcar Llanddyfri lesnâad i amryw. Lluosogodd hefyd yscolion i blant drwy Gymru, a ducpwyd i fynu lawer oi gwynievaingc mewn dysceidiaeth yn y coleds y berthyn iddi yn Rhydychen (y seiliodd y frenhines Elizabeth yn y flwyddyn 1572 drwy annogaeth Sr Hugh Price) ac mewn yscoldai eraill. Ac fel y rhoddes Duw *hâd ir hauwr, amlhâodd y torthau ir bwyttawyr*. a phreintwyd eilwaith chwe mîl o Fiblau
1654. Cymraeg a llythyrennau mân, ac aethont cyn ratted a biblau Saesonaec. Ac er mwyn hên bobl, a rhai fyddent a golugon gwannach, printwyd llaweroedd o'r Testament Newydd yn gymraeg ar eu pennau eu hunain a llythyrennau brâsach. Felly
Hab. 2. 2. gwnawd scrifen gymraeg o ewyllys Duw *yn eglur ar lechau, fel y rhedo yr hwn ai darllenno*. A chyn rhatted, ac y llawenycho yr hwn ai pryno. Printwyd hefyd lawer o lyfrau buddiol eraill yn gymraeg, megis catecism escob Usher, a'r hwn a wnaeth y Gymansa yn Westminster. Drec selius ynghylch tragwyddoldeb, y cywyr ddychwelwr. Galwad ir anychweledig, a'r cyfryw. Ac fel y gwelodd Duw yn dda aml hâu cynorthwyau 'r ffydd yn ein plith, felly amlhâodd rifedi y Sawl ai iawn arferant. Wedi iddo roddi goleuni'r efengyl i'n gwlâd, deffrôdd

gyd-

gydwybodau amryw hobl; *ſwrw oddiwrthynt weithredoedd y tywyllwch, ac i rodio yn weddus megis wrth lîw dydd. Nid mewn meddwdod, anlladrwydd, achenſigen*, ond mewn ſobrwydd, diweirdeb, a chariad Duw. am hynny nid yn ofer y goleuodd ef ei lampau, gan ſod rhai yn *gweithio eu iechydwriaeth* wrthynt. Ac ni chwbl gywilyddwyd gobaith ein henafiaid; Y phai yn eu Zèl a addawſant ir awdurdod, *os cafai en gwlàd air Duw yn ei hiaith, y rhodiai hi yn ei ffyrdd ef.* gwn i'm gofid, ſod y rhan fwyaf yn rhodio 'n ddrwg ſucheddol, etto tâl yr hyn ſydd o eneidiau graſol ynddi yn awr, lwy na'r gôſt na'r boen a gymerwyd yw hyfforddi mewn gwybodaeth er ys can mlynedd. Ar Arglwydd a ganhiado yw daioni rhag llaw dehygu ir *goleuni yr hwn a lewyrcha fwyfmy hyd ganol dydd.* Pellach y ſtyriwn mor ddwys y darlu i'n henafiaid ni ddigio Duw, gan iddynt ſod dan drais a blinder ecbryſlon ynghylch mil o flynyddoedd. Oni ellid eu galw *Magor Miſſabib, Jef dychryn o amgylch; a ſyrthiaſant ar gleddyf eu gelynion. Bu hîr gwyn rhwng yr Arglwydd a thrigolion ein gwlàd, nes* iddynt gael y gwaethaf, a'u torri yn niwyn. Yna y gallaſai un ofyn *pwy a gyſyd* Gymru *Canys bechan yw? Ond yr Arglwydd ai coſiodd yn ei hiſel rádd o herwydd ei drugaredd.* A gweithiodd ei gwarediad ſel un Iſrael yn amſer Ahaſuerus ac Eſther, drwy briodas. gan wneuthur ei chaſeion yn dirion wrthi, ai herlidwyr yn ddiddanwyr iddi. Y rhai a dynnaſant oddiarni y caethiwed teimladwy mewn pethau bydol yn gyntaf, ac ar ôl hynny canhiadaſant iddi ſoddion rhyddhâd

Gwel lyth W. S. a'r Dr Po.

Jer. 20. 3. Hoſh. 4. 1.

Amo 7. 2.

Pſal. 136, 23.

hâd oddiwrth gadwynau 'r tywyllwch yſprydol. Pe rhôn ir faeſon tra yr oeddent yn gorthrummu ein cenedl ni, gynnyg ſiotdd y Proteſtaniaid iddi, tebyg y buaſai cyn anhawſed genddi ei derbyn, ac oedd gan yr Americiaid truenus dderbyn ffydd yr Hiſpaeniaid trahaus. y rhai a ddyweddaſant, *na cheiſient hwy mor nêf, os oedd yr Hiſpaeniaid yn myned yno*. Neu ag oedd gan yr Iſraeliaid goelio addewidion Duw drwy ei brophwyd Moſes yn yr Aipht; *Y rhai ni wrandawſant gan gyſyngdra yſpryd, a chan gaethiwed caled.* Exod. 6.9.

Ac er tynered ſu'r moddion i ddwyn gair Duw at ein cenedl ni, etto arafaidd, ac oerllyd y creſawyd ef. Cododd Cerniu mewn arfau yw wrthwynebu ef. a bu Gymru ugain mlynedd heb ddim o'r Scrythyr lân yn ei hiaith yn gyhoeddus, wedi troi'r bibl cyfan yn Saeſonaec drwy genad awdurdod y deyrnas. A chwedi troi'r naill deſtament yn gymraeg, bu ugain mlynedd drachefn heb y llall. a phan gafwyd y ddau ir eglwyſydd, bu dwy flynedd a deugain gwedi cyn eu cael i dai, ac i ddwylo 'r cyffredin. ac hyd yn hyn nid aeth diwydrwydd creſydd gymaint mewn cymeriad yn ein plith ni, ac ydyw yn Lloegr, a'r Albain, a gwledydd eraill, ac nid rhyfedd i anwybodaeth bylu ein cenedl ni, pryd na leſaſent gan y gyfraith roi dyſceidiaeth yw plant: na chan babyddiaeth yr amſeroedd hynny gael golwg o'r ſcrythyrau. A chwedi iddynt dros lawer oes gynefino a'r cyflwr hwnw, aeth y carchar yn gartref; a dywed y ddihareb, *yr aderyn a faccer yn uffern, yn uffern y myn drigo*. Y

rhai

ai fyddo yn hîr yn gorwedd mewn daiardy tywyll, triſt, a leſmeiriant, pan ddelont ir awyr heulog. Grwgnachodd yr Iſraeliaid ymadel a'r Aipht, wedi eu bod yno cyhyd. Yn yr oeſoedd diweddaf, yr oedd y Germaniaid, a gwyr Ffrainc, a'r Saeſon yn daer ar yr awdurdodau oedd arnynt am gael rhydd-did i ddilyn purdeb crefydd, ac onis caent, nhwy ai dilynent hyd ferthyrdod. Ond gorſu ir awdurdodau goruchel gymell y Cymry i ddaioni, a braidd y deffrôent er hynny. Ond *Arglwydd y cynhaiaf* a ddichon dreſnu ir dydd a gododd yn araf, brifio yn dèg i achub llawer o ffrwyth a llaſur yn ein gwlâd, *a bod goleuni yn yr hwyr.* a lleſtair i'n pechodau ei dywyllu. Zech. 14. 7.

Ond er pan ddaeth yr ſcrythyrâu yn Gymraeg in plith, y mae 'r helynt orau ar ein cenedl ni ar y fu ers llawer o genedlaethau. Rhoddes Duw iddi heddwch oddiamgylch. Ni wyr y tô preſennol oddiwrth y cyfyngdra gofidus ydoedd gynefin i'n henafiaid ni gynt. Y mae 'r Saeſon oeddent fleiddiaid rheibus, wedi myned i ni yn ſugeiliaid ymgeleddgar ac agos cyn hynawſed wrthym ni, ac ydym ni wrth eu gilidd. y nhwy ſy'n printio ein llyfrau ni, ac yn dyſcu celfyddydau i ni; ac yn marchnatta a'n gwlâd nid wrth y dur ar haiarn, ond yr aur a'r arian. Yr hon ſydd yn awr lawnach o ddynion ac o olud, nag y fu ers talm o'r blaen; *a'n celloedd yn llawn o bob rhyw luniaeth, a'n defaid yn dwyn myrddiwn, a'n hychen yn gryfion i lafurio, heb na rhuthro i mewn, na myned allan, na gwaedd yn ein heolydd.* Mae gwybodaeth wedi amlhâu, a'r Cythreuliaid yn Pſal. 144. 13

y

y coedydd wedi diſtewi. Mae ein moddion hefyd wedi rhywiogeiddio llawer. nid oes mor fath yſpeilio, a threiſio a mwrdro, ag y glywſom ni gan ein henafiaid ei fod yn eu myſc er's talm. mae Powys yn weddus wrth fel y bu. Mae Lloegr yn agored i ni hefyd, a chyn hyfed ini breſwylio ynddi mewn Cyfiawnder, ac oedd i'n hên rieni ni Cyn ei cholli. Ni bu ein cenedl ni yn yr Jwerddon er ioed amlach. A diammeu pe cryſhaeu ufudodd i air Duw yn ein myſc ni, chwanegid at ein trugareddau ni. *Canys gwyn fyd y bobl y mae'r Arglwydd yn Ddnw iddynt. er gorwedd o honynt ymmyſc y crochanau, byddant fel eſcyll colommen wedi eu gwiſco ag arian, a'i hadenydd ag aur melyn.* ynteu nag *anghyttuna ag iachus eiriau ein Harglwydd Jeſu Griſt, a'r athrawiaeth ſydd ar ol Duwioldeb. Os ewyllyſi yn ddai'r wlád, a gweled dyddiau da, gochel y drwg, a gwna y da.* Am hynny dywedaf wrth y Cymro a ryddhawyd, yn ol y Siarſe y roddes Criſt ar y clwyfus a iachawyd — *Wele ti a wnaethpwyd yn iâch, na phecha mwyach, rhag digwydd i ti beth a fyddo gwaeth.* Mae ewyllis Duw yn ddatcuddiedig yn yr oes hon; *Caffed ei pherſſaith waith ynom ni, rhag nad arbedo'r Arglwydd monom ni* mwy na'n henafiaid. Cyndyn yw'r anwybodaeth, a'r drygioni ſydd yn ein myſc ni etto. *wedi yr hyn oll a ddaeth arnom am ein mawr gamwedd, a rhoddi o'r Arglwydd ini ddiangfa fel hyn, a dorrwn ni dracheſn ei orchymynion ef; oni ddig-*

Pſal. 144. 15.
Pſal. 68 13
1 Tim. 6, 2.
1 Pet. 3, 11.
Joan. 5. 14
Ezr. 9. 13, 14.

ia

ia ese wrthym nes ein difetha, fel na byddo vn diangol? Nid ydym ni heddyw. ond tipin o weddill y Britaniaid, mogelwn rhag i'n Gwneuthurwr yn ei ddig fwrw y mmaith hynny ir diniſtriwr ar ôl y llall. *Gwelwn ddaioni a thoſter Duw, Sef i'n tadau a gwympaſant, toſter, eithr daioni i ni os orhoſwn yn ei ddaioni ef: os amgen torrir ninnau hefyd ymmaith.* Canys prifia goleuni yr eſengyl i bobl anufudd fel mellten beryglus, a ddwg daranau dychrynllyd ar ei hôl. *Cadwn farnedigaethau'r Arglwydd, ac na wnawn y ffiaidd bethau a wnaeth y rhai a fu o'n blaen: fel na Chwydo y wlâd ninnau megis y chwydoddhi y genedl a fu o'n blaen.* Rhuf. 12, 22. Levit. 18, 26, 27, 28,

Gweddiwn ar Dduw am roi yſprydei râs i bob grâdd ar ddynion yn ein myſc, *fel yr adeiladont yr hên ddiffaethfa, ac y Cyfodont anghyfanneddfra llawer oes: Sef tabernacl Dafydd yr hwn a Syrthiodd* yn ein gwlâd ni yn amſer ein hên dadau; *ac yr adeilader ei fylchau drachefn: fel y byddo ir hyn a weddillwyd o honom geiſio'r Arglwydd, yr hwn Sydd yn gwneuthur yr holl bethau hyn*; Ac a'n *gwaredodd o dy Caethiwed* bydol ac yſprydol, y mae 'r Gwyddelod yn nychu ynddo etto. Gwilia arnat yn ddyfal o Gymbro, rhag iti rwyſtro na digaloni adferiad y ffydd yn dy frô. Canys *yr Arglwydd yr hwn a ddewiſodd y gweddill a gerydda bob gwrthwynebwr, Onid pentewyn yw hwn wedi ei achub o'r tân?* yn hytrach gwnaed yr oes hon ei rhan yn adeiladu ar yſail ſcrythyrol a oſododd yr oes ddiweddaf, ac Eſai. 61, 4. Act. 15, 16, 17. Zech. 3, 2.

yn

yn Cynnyddu 'r gwaith a ddechreuwyd drwy gymaint o anhawſtra, fel *y torro goleuni Cymry allan fel y wawr, ac na ddiffodder ei Phentewyn*. Byddai yn gymorth nid bychan iddi, pe Cyfodai ei blaenoriaid goleds neu ddau ynddi, i ddwyn gwyr jeveingc gobeithiol i fynu mewn dyſceidiaeth a moeſau da, tuag at eu Cymhwyſo gyda bendith y goruchaf i weinidogaeth efangylol, a ſwyddogaeth wladwriaethol. Beth ſydd fwy Cyſſurus ir gydwybod, na'r hyn y wneler tuag at adferu addoliad Duw ymyſc pobl y fu mewn hîr drueni a thywyllwch? pan ddychwelwyd Caethiwed yr Iſraeliaid o Babilon, aeth *Joſhua yr archoffeiriad, a Zerubbabel y tywyſog* wrth ailadeiladu 'r deml yn anwyl gan Dduw, a dynion, ac angylion. Ac ychydig gwedi ni bu neb rhyw orchwyl a ddiddanodd Nehemiah gymaint, ai lafur ef yn ailadeiladu Jeruſalem, gyda ei zêl yn gwellhau buchedd a threſn ei genedl. Medd ef *Cofia ſi o fy Nuw er llès i mi: yn ol yr hyn oll a wneuthum i'r bobl hyn*. A phan ddug hwynt i Sanctei-ddio'r Sabboth yr oeddent or blaen yn ei halogi, dywedodd ef, *Am hyn hefyd Cofia ſi fy Nuw, ac arbed ſi yn ol lliaws dy drugaredd. Ni dàeleir y caredigrwydd a wneler i deml yr Arglwydd*, Ac ni phalla ei wobr. Pan gyfrannodd Dafydd ei feddwl ir prophwyd Nathan, ei fod ef ar fedr adeiladu ty i Dduw, y noſſon honno mynegodd Duw y gwnai ef dy iddo yntef; Ac a'i Cwplaôdd yn helaeth. Pan ſwccrodd Obed Edom Arch Dduw, cafodd daledigaeth ſyber a hynod, *oni ſynegwyd in brenin, gan ddywedyd; yr Arglwydd a ſendithiodd*

Zech. 3, 1. ac pen. 4, 7

Neh. 5, 19 ac pen. 13. 22.

2 Sam. 7, 2, 4, 11.

dithiodd dy Obed Edom, a'r hyn oll oedd ganddo, er mwyn Arch Ddaw. diandlawd ydoedd y fendith a lonnodd gymaint oll ac oedd eiddo ef. Y tarth a weler yn eſcyn i ſynu, a ſydd ſiccr o ddeſcyn i lawr eilwaith yn law ffrwythlon. Ac ſelly y gwnaiff anadliad y galon raſol, y ſyddo a'r ewyllis ac a'r gallu yn ymgodi at bethau perthynol i deyrnas nef, gan ddychwelyd â chafodydd o fendithion aml. Ni bydd y nêf yn nyled y ddaiar. Yr hyn a wyddai Salomon yn hy-dda wrth ei brawf, a'i lwyddiant ryfeddol wedi iddo adeiladu'r deml. Am hynny yn ei ddoethineb a'i ſerch cynghorodd ei fab, gan ddywedyd, *anrhydedda yr Arglwydd a'th gyfoeth, ac a'r peth pennaf o'th holl ffrwyth: ſelly y llenwir dy yſcuborian â digonoldeb, a'th winwyryſoedd a dorrant gan wîn newydd.* Ac nid yn y byd yma yn unig y ceir tâl am yr hyn adreulier ar waſanaeth Duw, eithr yny byd arall hefyd. Pan gipio marwolaeth y rhai didda at benyd a phrinc dragwyddol, Caiff y Goruchwylwyr ffyddlon a arferant eu talentau yn-gwaſanaeth eu Harglwydd *dryſſor yn y nefoedd yr hwn ni ddeſyfydd*, a chynhalieth ogoneddus byth. ynteu maſnach ynnillfawr *yw rhoddi echwyn i'r Arglwydd.* a goreu bwſmonaeth yw llafurio i danu'r hâd y tyfiff ei gnwd yn uwch na'r cymylau. *Oblegyd yr hwn ſydd yn hau iw gnawd ei hun, o'r cnawd a fêd llygredigaeth, eithr yr hwn ſydd yn hau i'r yſpryd, o'r yſpryd a fêd fywyd tragwyddol.* Obnad ymegnïai'n cenedl i fod mor fywiog, ac mor wreſog yn y grefydd Griſtnogol ag y fu rhai o'n hendeidiau ni gynt. Troeſant hwy Scotiaid, a Phichtiaid,

2 Sam. 6, 12.

Dihar. 3, 1, 9, 10.

Luc. 12, 33.

Gal. 6, 8.

yn Gynnyddu 'r gwaith a ddechreuwyd drwy gymaint o anhawſtra, fel *y torro goleuni Cymry allan fel y wawr, ac na ddiffodder ei Phentewyn*. Byddai yn gymorth nid bychan iddi, pe Cyfodai ei blaenoriaid goleds neu ddau ynddi, i ddwyn gwyr jeveingc gobeithiol i ſynu mewn dyſceidiaeth a moeſau da, tuag at eu Cymhwyſo gyda bendith y goruchaf i weinidogaeth efangylol, a ſwyddogaeth wladwriaethol. Beth ſydd ſwy Cyſſurus ir gydwybod, na'r hyn y wneler tuag at adferu addoliad Duw ymyſc pobl y ſu mewn hîr drueni a thywyllwch? pan ddychwelwyd Caethiwed yr Iſraeliaid o Babilon, aeth *Joſhua yr archoffeiriad, a Zerubbabel y tywyſog* wrth ailadeiladu 'r deml yn anwyl gan Dduw, a dynion, ac angylion. Ac ychydig gwedi ni bu neb rhyw orchwyl a ddiddanodd Nehemiah gymaint, ai lafur ef yn ailadeiladu Jeruſalem, gyda ei zêl yn gwellhau buchedd a threſn ei genedl. Medd ef *Cofia ſi o fy Nuw er llês i mi: yn ol yr hyn oll a wneuthum i'r bobl hyn*. A phan ddug hwynt i Sanctei-ddio'r Sabboth yr oeddent or blaen yn ei halogi, dywedodd ef, *Am hyn hefyd Cofia ſi fy Nuw, ac arbed ſi yn ol lliaws dy drugaredd. Ni ddeleir y caredigrwydd a wneler i deml yr Arglwydd*, Ac ni phalla ei wobr. Pan gyſrannodd Dafydd ei feddwl ir prophwyd Nathan, ei fod ef ar fedr adeiladu ty i Dduw, y noſſon honno mynegodd Duw y gwnai ef dy iddo yntef; Ac a'i Cwplaôdd yn helaeth. Pan ſwccrodd Obed Edom Arch Dduw, cafodd daledigaeth ſyber a hynod, *oni ſynegwyd in brenin, gan ddywedyd; yr Arglwydd a fendithiodd*

Zech. 3, 1. ac pen. 4, 7

Neh. 5, 19 ac pen. 13. 22.

2 Sam. 7, 2, 4, 11.

dithiodd dy Obed Edom, a'r hyn oll oedd ganddo, er mwyn Arch Dduw. diandlawd ydoedd y fendith a lonnodd gymaint oll ac oedd eiddo ef. Y tarth a weler yn escyn i synu, a sydd siccr o ddescyn i lawr eilwaith yn law ffrwythlon. Ac felly y gwnaiff anadliad y galon rasol, y syddo a'r ewyllis ac a'r gallu yn ymgodi at bethau perthynol i deyrnas nef, gan ddychwelyd â chafodydd o fendithion aml. Ni bydd y nêf yn nyled y ddaiar. Yr hyn a wyddai Salomon yn hy-dda wrth ei brawf, a'i lwyddiant ryfeddol wedi iddo adeiladu'r deml. Am hynny yn ei ddoethineb a'i serch cynghorodd ei fab, gan ddywedyd, *anrhydedda yr Arglwydd a'th gyfoeth, ac a'r peth pennaf o'th holl ffrwyth: felly y llenwir dy yscuboriau â digonoldeb, a'th winwyryfoedd a dorrant gan wîn newydd.* Ac nid yn y byd yma yn unig y ceir tâl am yr hyn adreulier ar wasanaeth Duw, eithr yn y byd arall hefyd. Pan gipio marwolaeth y rhai didda at benyd a phrind. dragwyddol, Caiff y Goruchwylwyr ffyddlon a arferant eu talentau yn-gwasanaeth eu Harglwydd *dryssor yn y nefoedd yr hwn ni ddersydd*, a chynhalieth ogoneddus byth. ynteu masnach ynnillfawr *yw rhoddi echwyn i'r Arglwydd.* a goreu hwsmonaeth yw llafurio i danu'r hâd y tyfiff ei gnwd yn uwch na'r cymylau. *Oblegyd yr hwn sydd yn hau iw gnawd ei huu, o'r cnawd a fêd lygredigaeth, eithr yr hwn sydd yn hau i'r yspryd, o'r yspryd a fêd fywyd tragwyddol.* Oh nad ymegniai'n cenedl i fod mor fywiog, ac mor wresog yn y grefydd Gristnogol ag y fu rhai o'n hendeidiau ni gynt. Troesant hwy Scotiaid, a Phichtiaid,

2 Sam. 6, 12.

Dihar. 3, 1, 9, 10.

Luc. 12, 33.

Gal. 6, 8.

ctiaid, a Germaniaid, a chenhedloedd eraill at ffydd Grift, ac a eſceulyſwn ni hi yn ein Cartref ein hunain? yr oeddent hwy yn flaenaf, ag a fyddwn ninnau *yn olaf* yn achoſion teyrnas nêf? yr oeddent hwy ſal eryrod yn ymgais *a haul y Cyfiawnder*, ac a fyddwn ninnau fal dulluanod yn hoffach gennym y tywyllwch? Na ddiry-
1 Bren. 21. 3. wiwn, eithr fel *Naboth* glynwn yn y *Winllan* efan-gylaidd y fydd *dreftadaeth ein henafiaid. a rhodiwn fel plant y goleuni.* ac ymddygwn *yn ddyladwy wrth*
Rhuf. 13, 13. *fodd Duw, megis y mae hi yn bryd i ni bellach, nid mwn Cyfeddach, a meddwdod; nid mewn Cyd-orwedd, ac anlladrwydd, nid mewn Cynnen, a chenfigen.* Maly gallo ein gwlâd a fu Cyhyd dan wradwydd fyned yn enwog am rinwedd. Tybia rhai mae heppil Cam ydym ni, a pheth o weddillion y Cenhedloedd a ddiangafant o dir Canáan tuar gorllewyn rhag y dialedd diniſtriol a ddaeth arnynt yn amſer Joſhua. Os yw hynny yn bod, (Canys nid yw'r chwedl heb liw, ac y mae'r henw yn iby gynefin i ni Sef Cam a chamwedd) et.c. byddwn rafol, a bendith Criſt a ylch ymmaith felldith Noah. a chaiff y cenhedloedd o'n hamgylch
Gen. 9, 22. 25. wybod nad *ardal drygioni ydym, na'r bobl, wrth y rhai y llidiodd yr Arglwydd yn dragywydd.* eithr
Mal. 1, 4. Eſai. 61. 9. *y rhai a'n gwelant* a gydnabyddant, ein bod y'r *hâd a fendithiodd yr Arglwydd. Cyd-yſtyriwn bawb ei gilidd, i ymannog nid i gâs, a thyrnau drwg,*
Heb. 10, 24. *eithr i gariad a gweithredoedd da.* Herwydd *Cyfiawnder a ddarchafa genhedl: ond Cywilydd pobloedd*
Dihar. 14, 34. *yw pechod.*

Profiad o Siccr wirionedd y Grefydd Griſtnogol.

ER bod achau'r ffydd (y argraphwyd euſus) yn gwirio Duw yn dâd iddi, etto gellir cael ychwaneg o hyſpyſrwydd am hynny. wrth ei phryd ai gwêdd y ſydd yn tebygu iddo ef; a'i oſal ymgleddus yntef yn Cynal ei hathrawieth, ſef yr ſcrythurau ſanctaidd: ac oddiwrth amryw yſtyriaethau eraill y ganlynant.

1. Rhaid ydoedd i ddyn er y dydd Cyntaf y gwnawd ef waſnaethu *Duw*, i hynny y crewyd ef. Ac ſal y gwnai ef hynny mewn môdd Cymeradwy, rheidiol oedd iddo wybod ewyllis ei Greawdwr. Yr hon y ſynegwyd ir bobl gyntaf hir-hoedlog, ac a ſcrifenwyd ir cenedlaethau byr-oes; yr hwn a ordeiniodd yr haul i ddyn er y dechreuad i wneuthur gorchwylion Corphorol wrtho, y roddes iddo reol yn foreu i gyflawni dyledſwyddau yſprydol wrthi, a mwy na thebygol mae'r efangylaidd oedd honno, gan nâd oes grefydd yn y byd cyn hyned a'r Griſtnogol, na ſcrifennâdau yn y byd mor oedranus a rhai 'r prophwydi, nag yn mynegu Cymaint ynghylch y Cynfyd. Nid yw dychymygion y *Pâb*, a *Mahomet*, ond Babanod anelwig, diſynwyr, wrth y rhain; ie cywion gorphenhaf, y ddeorodd gwreſogrwydd llwyddiant bydol, y ddaethant o'r Cibau yn ddiweddar, ac a ddarfyddant eilwaith. Caſodd yr eſengyl ei chredu

redu lawer Cant o flynyddoedd cyn eu geni nhwy, a chaiff etto ar ol eu marw nhwy, canys *tragwyddol yw*. gwelwn barhâu o adeilâdau Duw,
Datc 14.6 ſef y nefoedd ar ddaiar, yn hwy na rhai cadarnaf o waith dynion, ac a wnaethpwyd oi blaen nhwy hefyd. Y mae ffordd grâs yn hynach na ffordd Pechod, ac y mae amſer yn dwyn gwir ir goleu: haeddeu'r ffydd ynteu barch o herwydd ei phenwynni, ai bod yn brofedig ag yn gamoladwy gan bob oes.

2 Perffaith helaeth yw gweithredoedd *Duw*; nid oes yn y nefoedd a'r ddaiar ddim ynniffig, eithr yn gwbl ddigonol y maent i gynal dyn gyda chariad *Duw*: gwelir hyn hefyd yn athrawieth
Pſal. 119. 96. y ffydd; medd *Daſydd dy orchymyn ſydd dra ebeng.* Yn yr ſcrythyr y mae digon o gyfarwyddyd i ddyn pa ſodd i ymddwyn tu-ag at *Dduw*, a thu-ag at ddyn, ac i edrych atto ei hun, *i fyw yn ddoeth, yn gyfiawn, ac yn ſobr.* Ac ni reola ein gweithredoedd ni yn unic a'n geiriau, ond ein meddyliau, a'n gwyniau, a'n chwantau, a'n dymuniadau, y rhai ni chyffwrdd cyfreithiau dynol a hwynt.

Y mae pob peth y wnelo, y ddywedo, y feddylio dynion yn orchmynedig neu yn ommeddedig yngair *Duw*. Ac y mae pob daioni a ddigwydd ir graſol yn y byd yma, ac yn y byd a ddaw; a phob aflwydd a ddigwydd ir anufydd, yn gynwyſedig yn ei addewidion, a'i fwgythion. Nid yw 'r delwau y gerfier gan ddyſais gywreinwaith ddim wrth ddyn y greawdd *doethineb Duw*, yr hwn ſydd ganddo bob aelod, a chymal, a gien, a gwythen a'r ſydd reidiol iddo, ac yſpryd yw

Cynhyrfu,

Cynhyrfu, er ei wueuthur yn waſnaethgar i *Dduw*, ac iddo ei hun; dyna 'r fath ragorieth berffeithrwydd y welir rhwng Cyfreithiau dynol, a gorchmynion bywiol Duw.

3 Ergyd ſcriſenâdau 'r grefydd Griſtnogol yw gogoneddu *Duw*, a chymwyſo dynion i hynny yn dragywydd; *yr hai ſydd o'r ddaiar a'r pechod am hynny y ſoniant, ac y ſyniant*, ond yr hyn ſydd o'r nef, yno y cyrchiff eilwaith. Arwydd yw bod element y tân nefol hwn uchod, am ei fod yn eſcyn tu ag i ſynu.

Dengis yr ſcrythurau mal y creawdd, ac y prynodd, ac y cynal yr Arglwydd y byd, er eglurhâu ei drugaredd ef, ac fal y barnodd ef y byd yn amſer *Noah*, ac wedi, er amlygu ei gyfiawnder ef: Galwant am ſanctеiddrwyd, gan orchymyn hynny, a rhoddi ger bron annogaethau cryfion i berſwadio dynion i fod yn raſol; megis eſampl *Duw* ei hun: a ddywed *byddwch Sanctaidd, canys Sanctaidd ydwyfi.* Cydymffurfia rhai ai pen llywydd a'i ami ddaioni ef; attolygant ar bobl *er trugareddau Duw roddi eu Cyrph yn aberth byw, Sanctaidd, yr hyn yw eu rheſymol waſanaeth hwynt.* torrir calleſtr a'r gluſtog, ar galon galed ar ymyſcaroedd tyner *Jeſu Griſt.* fal y byddo 'r edifeiriol *fyw trwy ffydd Mâb Duw, yr hwn a'i carodd* hwynt, *ac a'i dodes ei hun droſtynt hwy.* Erchant Adel pob mwyniant bydol, a *dwyn pob croes i ddilyn Duw.* Ni buaſen dyn fyth yn rhoddi y fath daſc arno ei hun, a chûed ganddo ei bleſer, ai berchod, ai eſmwythder: yr hyn ſydd arg-

1 Pet. 1. 16

Rhuf. 12. 1

Gal. 2. 20

Marc. 10. 28.

oel i *Ddûw* wneuthur y gorchymynion heb ge nad dyn, canys mae dyn pechadurus yn dueddol i geisio, ac nid i *wadu yr hunan.* Tyst yw Crefydd *Mahomet*, y ganiâda iw dilynwyr ddigon o anlladrwyd, ac ysgpail; a dychmygion y *Páb* y gynhaliant ei falchder ef. Beth yw ei burdân ef, onid pair gelfyddgar i droi ei weddiau ai bardynau plumaidd ef yn aur yw goffrau ef?

4 Y mae gair Crist *yn awdurdodol*, ac felly yn amlygn ei ddyfod oddiwrth y brenin nefol. Megis y bu yn y Creadigaeth, pan *ddywedodd Duw bydded goleuni, a goleuni a fu.* gweithia'r scrythyrau mor rymmus ryfeddol ar eneidiau dynion, ac y rhaid eu cydnabod yn *allu Duw er iechydwrieth i rhai sydd yn Credu. Nid anhawdd dirnad* Pendefig goruchel wrth ei foddion, *ai ymddygiad, er ei fod mewn trwsiad plaen* Pan lefaro *Duw* yn ei air wrth gydwybodau dynion, bwrir i lawr y meddyliau balchaf, trumheir y meddyliau ysgafnaf, dychryniff y meddyliau dewraf, archollir y Calonau Calettaf *megis a chleddyf dauſiniog.* Aml ac amlwg yw gwaith rhagluniaeth *Duw* yn tynuu i lawr y Cedyrn, a'r beilchion ymysc ei elynion, ac nid llai hynod gwaith ei drugaredd ef drwy'r scrythyrau yn *iselu ucheldrem dynion*. Parodd carcharor truan wrth adrodd ewyllis *Duw* i farnwr *grynu* ynghanol ei reiolti. Gwnaeth pysgodwr gwael i eraill *weithio allan eu iechydwrieth drwy ofn a dychryn*, oeddent o'r blaen yn pryssuro at golledigaeth drwywawd a chwerthin. Cafodd gwatwarwyr wybod rhagor rhwng gwaith meddwdod a phrophwydoliaeth. prifiodd y gwîn newydd yn fineger llym, a barodd yw Cydwybodau dolurus hwynt ofidio, a llesain am iachâad. Canys tra

Math. 7. 28.
Gen. 1. 3.
Rhuf. 1. 16
Heb. 4. 12.
Luc. 1. 51. 52.
Act. 24. 25

yr oedd Petr yn agori iddynt yr hyn oedd gynwyſedig yn ſcrifennâdau'r propwydi, (fal y *tywallteí Duw o'i yſpryd ar hob cnawd yn y dyddiau diweddaf*, *Ac yr adgyfodei ef Griſt i'r orſeddſaingc*, *gan oſod ei elynion yn droed-ſaingc iddo ef*) *dwyſbigwyd* y gwrandawyr *yn eu calonnau*, oni *ddywedaſant wrth yr Apoſtolion*, *Ha-wyr frodyr beth a wnawn ni?* Ac mal y mae'r ſcrythyrau yn *feibion y daran* i ddeffroi Cydwybodau cyſclud, felly hefyd yn *feibion diddanwch* i gydwbodau dychrynllyd. Cyhoeddant rydd-did ir Caethion yn gyſtal a chaethiwed i'r rhyddion: a chan eu bod *yn attal poethder y ffwrn danllyd*, ſef digofaint a gofid meddwl, byddem waeth na'r anghrêd gynt, oni chyfaddeſwn ſod eu gallu o *Ddaw*. Y penod cyntaf o'r epiſtol at y Rhufeiniaid y gynhyrfodd *Luther*, y Benod gyntaf or epiſtol Cyntaf at *Timotheus*, ar 15adn. a gyſſurodd *Junius a Bilney*, oni ymroeſant i garu *Duw*. Y mae gwlithin hyfryd ar bob glaſwelltyn, a mêl ymhob meillionen, a melyſdra ymhob meddyſen, ac arogl Peraidd ymhob llyſieuyn yn yr ardd yſprydol hon. Gwelir y ſath gyſnewidiad ryſeddol yn y rhai ſydd yn derbyn grâs yr efengyl, megis pe troeu gwiberod yn glomennod, neu fleiddiaid yn ddefaid. *Paul yr erlidiwr* aeth yn *bregethwr* yr efengyl. Troiff y meddwon yn ſobr, a'r anllad yn ddiwair, a'r daiarol yn neſol, ar dyn *oi gôf yw iawn bwyll*, er iddo o'r blaen *dorri pob rhwyman* i ganlyn ei drachwantau. dôfiff y boneddigion gwreſoccaf, *a'r llancian gwylltaf a lanhânt eu llwybrau*, *wrth ymgadw yn ol gair Duw*. er bod Joſiah yn freniñ hoywdeg, etto wrth *glywed darllen llyfr y gyfraith meddalhâodd ei galon ef*, *ymoſtyngodd*, *ac wylodd gerbron yr Arglwydd*, *a gwnaeth gyſammod* Cyhoeddus

Act. 2. 13, 14. 16, 17. 31, 35. 37.

Dan. 3

Pſal. 119. 9.

2 Brenh. 22. 10, 11. 19. ac pen. 23. 3.

ar ſyned ar ôl yr Arglwydd, ac ar gadw ei orchymynion ef a'i holl galon, ac a'i holl enaid. yr hyn hefyd a gyflawnodd ef yn ffyddlon. Pe cerddeu a ſon yn erbyn ei ffrwd, (ſel yr Jorddonen gynt) ni byddei hynny ryſeddach nag ymarweddiad y gwir Griſtnogion, y ſydd yngwrthwyneb yw chwantau naturiol.

5. Gwaith *Duw* yn Cadw yr ſcrythyrau o amſer i amſer, er maint ydoedd bwriadau angylion, a dynion drwg yw diſetha hwy, a ddengis ſod eu ganedigaeth hwy o honaw ef. Cais y Creaduriaid oll ymddiffin eu hepil, megis yr jâr ei chywion, a'r ddafad ei hoen. Ceiſiodd y Cythrael ymhob oes ſwrw geiriau *Duw* allan o feddyliau, a ſerch pobl; a gwneuthur eu Coffadwriaethau fal rhidyllau, i ollwn i lawr yr yd ffrwythlon, ac i ddala yr ſothach a'r ehedion. *y mae'r drwg yn Cipio gair y deyrnas oddiar y galon aneallus*, etto mae'n *ſcrifenedig ar galonnau* miloedd. Ni bu malais dynion drwg ſegur chwaith, eithr ymegniâſant i ddileu 'r ſcrythyrau allan o'r byd. Mae'n rhyw i bôb dyn *drwg gaſàu eu goleuni, a'i wrthod, fel nad argyoedder ei weithredoedd ef.* Lliaws y byd ai gadernid y wnaethant ruthr arnynt. *Y bobloedd a derfyſcaſant, a brenhinoedd y ddaiar ymoſodaſant, ac a ymgyngoràſant i ddryllio rhwymau'r Arglwydd*, er cael rhydid i bechu. yr oedd amlder y Cyffredin, a phower a chyngor y penaethiaid ynghyd yn eu herbyn. yr ydoedd ir *bwyſtfil* a'i hwiliei hwy lawer o *bennau*, a mwy o *gyrn*, ſef Cyffrwyſtra a mawr allu. Gyrrodd brenhionoedd eulynaddolgar Iſrael yr ſcrythyrau i lechu mewn cornèlau. yng-hûdd yn y deml y *caſodd Helciah lyfr cyfraith yr Arglwydd, yr hwn a roddaſid drwy law Moſes*, a thaflaſant

Math. 13. 19.

Joan. 3. 20

Pſal. 2. 1.

Datc. 13. 1

2 Cron. 34. 14.

hwynt ir tân. *torrdd Jehojacim lyfr Jeremi a chyllell,* Jer. 36. 23
ac a'i lloſcodd ef. Ac wedi hynny cawſant yr un
fath ymdrin gan gedyrn *frenhinoedd Aſſyria, Babylon, Caloſyria, ac Emerodron Rhufain*,
yr awdurdodau mwyaf yn y byd; y rhai oeddent
fel bleiddiaid gwangcus, a llytrau 'r ffydd, a'i dilynwyr, ar olwg ſal wyn diymwared. Collwyd llyfrau
Philoſophyddion, a phrydyddion, a'r eiddo *Solomon* ynghylch planhigion; er nad oedd llid iddynt yn ceiſio eu llâdd, etto buont feirw o ran oedran. Ond y mae llyfrau *Duw* wedi dyfod drwy
lawer o beryglon, a batelion, etto yn ſyw ac yn
iâch, ac yn cenhedlu yn eu henaint; *er i lu ei gorch-* Gen. 49.
fygu hwynt, (ſal Gad) *hwy orfyddaſant er diwedd.* 19.
Prennau'r Arglwydd ſydd lawn ſugn, er gwaethaf Pſal. 104.
poethder angerdd uffernol; ie gwreiddiâſant yn 16.
ddyfnach, ac yn gadarnach, ar ôl eu ſiglo gan y
temhèſtloedd cryfion, ac aethont yn ffrwythlonach: *nerth Duw y berffeithwyd yn eu gwendid hwynt.* Pan ſyddo'r gwntoedd yn ſtyno yr yd wrth
ſlodeuo, er ſaled y blewyn ſydd yn dala y blodeuyn, etto o herwydd nas gall dynion fyw heb
lunieth, y mae *Duw* yn peri ir gronyn gwanlynu yn ei gafael, er gwaethaf gwrthwyneb cryf; yr un modd y gwelir *rhaglunieth Duw* yn cadwyd yr enaid.

6 Cafodd yr y eſengyl fath dycciant yn gorchfygu'r byd, ac y ddengis ſod *Duw* ar ei phlaid, yſtyriwn ſod llawer o rwyſtrau i attal ei chynyrch. yn
amſer yr *Apoſtolion* yr oedd arfer a chwſtwm pob
un o deyrnaſoedd y ddaiar yn ei herbyn, yr ydoedd eulynaddolieth wedi hir wreiddio yn eu myſc.

Cais

Cais aniſeiliaid dynnu at eu Cynefin, er afiachuſſed fyddo. Y mae gorchmynion y wîr ffydd yn anbawdd i gig a gwaed. *Gadel pleſèrau, tai, a thiroedd, a'r bywyd naturiol hefyd, er mwyn Criſt*, y-
Marc.10. 22. doedd gâs gan y Cyfoethogion. Ac y mae ei phynciau yn anhebygol ynhyb y doethion; ſef i forwyn eſcor, ac i Dduw gymeryd natur dyn. Am
Luk.19. 14.47. hynny nid oedd râdd yn y byd a'r ddynion nas gwrthwynebodd ufuddhâu, megis *tywyſogion, dinaſyddion, Philoſophyddion, Phariſeaid, ſcrifenyddion,*
Act.17. 18. *areithwyr, milwyr, Crefftwyr, a chyffredin.* darfu
Act. 24. 1. Math,27. 27,28. i'r ſwyddogion goſpi y rhai credadwy, a'r milwyr eu dychrynu, a'r areithwyr eu Cyhyddo, a'r philoſophyddion drwy gau reſumau geiſio eu hurtio, a'r lliaws er mwyn eu pendaſadu floeddio,
Act.16. 24. Math.27. 25. er hynny aeth y ffydd ymlaen yn orcheſtol drwyddynt oll. nid allodd cleddyfau'r Swyddwyr,
Act.19, 34. na gwaiwffyn y milwyr, na cholynnau'r *Aſpiaid*, ſef drwg dafôdau, ei chadw yn ôl. Hefyd er bod y rhwyſtrau yn fawrion, nid oedd cynorthwyau gweledig, ac offêrau yr efengyl onid bychain; Gwâel ydoedd Cyflyrau, a theneu ydoedd mintai pregethwyr y Cynfyd: *ychydig* oeddent yn erbyn *llawer*, a rhai *ſiml* yn erbyn *Cyfreithwyr*; *pyſcodwyr*, a *gwehyddion*, yn erbyn *beneddigion*, a *ſwyddogion*; etto cawſont *oruchafiaeth yn-Ghriſt*, yr hwn y *eglurhâodd arogledd ei wy-*
2 Cor. 2. 14. *bodaeth trwyddynt hwy ymhôb llê.* Gan fod bwled, fydd dippin o blwm Crwn, heb na blaen, na mîn, yn myned yn rhwyddach drwy fâen a phren, nag y gall llaw dyn hyrddu'r arf flaenllymmaſ, mae 'n dangos egni 'r tân yn torri allan o gyfyndra,

gyſyngdra. pylni yr offêrau efangylaidd y ddylei 'n argyhoeddi, mae nerth *Zêl Arglwydd y lluoedd* ydoedd yn eu gyrru drwy gymaint o anhawſtra. Pan orchfygodd *Moſes ffyddlon yr Aipht* a'i *brenin a gwialen ac â llwch*, cyffeſſodd ei elynion fod *bys Duw* gydag ef. ni ſyrchiaſeu ſtyſnigrwydd y byd wrth bregethiad yr apoſtolion, *na muriau Jerico* wrth waith yr Iſraeliaid ynbloeddio, oni bae fod *Duw* gyd-â hwynt. Ni buaſeu *ffôl bethau y byd yn gwradwyddo y doethion*, a *gwan bethau 'r byd yn gwradwyddo y pethau Cedyrn*, oni baei i *Ddduw eu hethol*, Pan ydoedd *yr adar yn diſa, a'r haul yn lloſci, a'r drain yn tagu tair rhan o hâd y gair*, hawdd ſuaſeu i'r môch a'r mîlod orphen y rhan arall, fal nad aethei ſyth mor gnudfawr, am nad oedd un Cae o waith dyn yn ei gylch. *Cyffelyb oedd teyrnas nefoedd i ronyn ô hâd mwſtard, y lleiaf o'r hadau*, a lliaws mawr o gywyon drwg yn ceiſio ei gipio, heb ddyn yw tarſu; ac etto tyſodd yn bren Canghennog. Rhyſedd nas gallaſeu gymaint o gwn lyngcu 'r typyn *ſurdoes*, cyn iddo beri ir byd newid ei flâs! Ac wrth adferu'r ffydd, *bu pin ſcriſennu Luther* yn drech *na chleddyf Cæſar*.

Isai. 9. 7.

Exod. 8. 17 19.

1 Cor. 1. 27.

Math. 13. 4.

Math. 13. 31.

7 Y mae pethau yn digwydd yn y byd, fal y rhagſynega 'r ſcrythur am danynt. A phwy y wyddei beth y ſyddei helynt y byd, onid yr hwn ydoedd yw reoli? Digwydd Cyſtudd a blinder ir duwiol, fal y mae'n ſcriſenedig, *pawb a'r ſy yn ewyllyſio byw yn ddduwiol yn-Ghriſt Jeſu a erlidir. ac aml ddrygau a gaiff y cyfiawn: ond yr Arglwydd a'i gwared ef oddiwrthynt oll.* Encilia proffeſſwyr diffrwyth, creſydd pa rai y ddifleniff

2 Tim. 3. 12.

Pſal. 34. 19.

iff o ran eu chwantau Cnawdol, a phrofedigaethau bydol, fel y rhagfynegodd *Criſt, y gwyweu'r egin gan boetbder erlid*, ac y tegid nhwy gan ddrain gofalon y byd. Gwelir llwyddiant amſerol ir anuwiol, yr hwn drosychydig tydd *yn gadarn ac yn frigoc* fal y *Lawrif gwyrdd*, ac yn y man *aiff ymaith ac ni bydd mwy o honaw*, mal y datcad y prophwyd. Amlwg yw, fod y rhan fwyaf o ddynion *yn myned hyd ffordd Lydan* Llygredigaeth i uffern, a rhan leiaf yn cael ac yn cadw *y ffordd gûl* ir nêf, fal y dywed yr eſengyl. pwy ni chydnebydd fod pobl ddrwg yn amlach na rhai dâ, yn yr oes hon, a phob amſer? Cwyniff gair Duw yn drwm rhag pechadurieth dynol ryw, ac oni weli achos? ydyw dyn yn perchi ei wneuthurwr ai brynwr? y mae'r anifeiliaid yr ydwyti yn eu magu yn ufuddach i ti, nag wyti ir hwn a'th wnaeth, a phob peth arall ith gynal di. Beth bynnag a'th ddigio di, enw Duw y gaiff ei rwygo drwy dy lwon di. Rhy gynnefin hefyd yw i ddynion orthrechu, a thwyllo, a llâdd eu gilidd, a hynny yn ddicheilgar. Chwrna'r ci, a chwyth y neidr cyn brathu, a hynny o rybudd a'th hyfforddа yw gochelyd: ond dan dewi, ie dan wenu y dryga'r naill ddyn y llall. onid all ei ddiſetha *â chuwch*, fel *Judas* eſe ai bradycha a *chuſan*. am hynny os cwbl anghredi, rhaid iti ymwrthod a'th deimlad naturiol, gyſtal a ffydd yſprydol.

Mach. 13. 4. 22.

Pſal. 37. 35, 36.

Math. 7. 13, 14.

Gen. 6.

8. Y Dialeddau trymion a oddiweddaſant wrthwynebwyr y gair ymhob oes y ddylent berſwadio dynion yw berchi. *Adweinir yr Arglwydd wrth y farn y wna.* Bu, bydd *Jeruſalem* a'i Chyfraith (ſef yr eglwys ufudd i ewyllis *Criſt*) *fel maen trwm*, a yſſiga'r neb a geiſio ei daflu ymmaith

Pſal. 9. 16.

a phawb a ymlwytho ag ef yn ddiau a rwygir. plâau yr Aipht, a'r Anghriſt y dyſtiolaethant hyn. er bod llawer fel y glwth yn dianc yn ddigoſp nes myned ir *tân aniffoddadwy*; etto odid wlâd, nag amſer, na wnaeth *Duw* rai troſſeddwyr echryſlon yn ddrychau yw Cymydogion, i weled ynddynt *mor ofnadwy yw ſyrthio yn nwylou'r Duw byw.* y mae mor hawdd i bob Cymydogaeth henwi rhai na cherddaſant fyth gam rhwydd, ar ôl gwneuthur rhyw anwiredd y waherddir yn yr ſcrythyrau, nad rhaid i mi roddi eſamplau y chwaneg ar lawr, heb law y rhai ſydd ſcrifennedig o'r blaen yn hiſtori 'r ffydd. Zech. 12. 3. Exod. 8. 9. Datc. 15. 7. Luc. 16. 19. 23.

9 Nid all fod fwy o amgylchiadau tebygol i wiro hên ſcrifennâdau y wnawd er's miloedd o flynyddoedd, nag ſydd yn perthyn ir Scrythyrau: canys yr oeddent yn gyhoeddus, a galleu eu gelynion eu gwarthddywedyd os gwelent achos. Ond nid oeddent yn gwadu, either yn Cyfaddef yr peth y adrodder ynddynt. yn unic rhoddent gam yſtyr arnynt, ac yn ſynech edifarhâent, ac ufuddhâent iddynt, fel y gwnaeth Saul. Parodd Cyfraith *Ddaw* gyfnewidiadau hynod drwy 'r byd, am hynny nid ellid ei chelu. Yr ydoedd copîau o'r Scrythyrau mewn amryw wledydd pell oddiwrth eu gilidd, ac yn Cyttuno ymhob peth Sylweddol; y gwyr goneſtaf yn y byd (a'u gelynion yn dyſtion) ydoedd yn eu Cadw nhwy, y rhai a ofnent golled tragwyddol *os chwanegent attynt, neu os tynnent beth oddiwrthynt.* Y cloddiau, a'r tomennydd, a'r ceſtill amharus cyn amled yn y terfynau rhwng Cymru, a Lloegr

gr, ſydd yn dangos mae gwir yw 'r Croniclau y ddatcan y rhyſeloedd tôſt ſu gynt rhwng y Cymru a'r Saeſon. Llediaith Gymreig Llydaw, Sy'n creirio yr hiſtoriâu y ſynegant i'n cenedl ni ſyned i Ffrainc i breſwylio yn yr hên amſer. Ac nid oes lai o arwyddion gweledig i'n ſiccrhâu yn ſcritenâdau *Duw*. canys gwelir yn awr ôl yr eglwyſydd eſangylaidd y blannodd yr Apoſtolion, ac yr anſonaſant epiſtôlau attynt. Y mae yn *Aſia*, *Affrica*, a'n gwledydd ninnau gynulleidfâodd a theyrnâsoedd Criſtnogol, y barchant yr ſcrythyrau etto: ſal y traddododd eu henafiaid iddynt. heb law yr Juddewon ſydd yn aml yn dwyn tyſtiolaeth ir hên brophwydi, ſal y derbyniaſant gan eu henafiaid nhwythau.

Os amheui y ſu natur dyn berffaith ar y cyntaf, ac iddo Syrthio gwedi hynny, ſel y mae yn Geneſis; wele gynneddfau yn yr enaid ſydd yn arwyddoccâu ei fod unwaith yn well; wrth ſurni llym y ddiod neu'r gwîn, gelli ddirnad eu bod unwaith yn gryf, ac yn ſelys, ond iddynt o honynt eu hunain newid eu blâs. A nigonolrwydd ac awydd yr enaid ſy'n dangos fod iddo gynt etiſeddieth fawr, ai ſod yn mwynhâu peth mwy na'r byd, *ſef y Duw anfeidrol*; am hynny y mae'n ymgyrhaeddyd at ychwaneg fyth, heb ymfodloni a'r derfyn yn y byd. Dyſeiſiau, yſtrywiau, a dichellion y meddwl, ſydd argoel ſod ynddo wybodaeth fawr, pan ydoedd bûr ar ddelw *Duw*. Dengis wyneb y byd hefyd, nad yw ef er y dilyw ddim hynach nag y mynega'r ſcrythyrau. Ei gyſarwyddyd diweddar i drin y creaduriaid y

hyſpyſ

hyſpyſa nad oes mor llawer er pan ddaeth yw oed ai ſynwyr. Nid oes mor llawer iawn er pan arferwyd Philoſophyddieth, a dyſceidieth, a phreintio, a chyfraith, a phyſygwrieth, ac hwſmonaeth; ni welſeu neb er ioed heb wrthiau *droi 'r cerrig yn fara* wrth galchu 'r tir. A chôf gan rai byw yn awr, nad oedd y fath amlder ac ſydd o bobl ar y ddaiar; y mae'r amryw jeithoedd ymyſc dynion etto, yn gwirio'r hiſtori ynghylch *gwaſcarfa a chymyſciad Babel*. Math. 4 Gen. 11. 9.

10. Daioni budd-fawr y Grefydd Griſtnogol a gyhoedda ei bod o'r nèf; y mae'n eglur fod *Duw* yn ewyllyſio yn dda i ddyn, am iddo ddarparu yn haelionus tuag atto ef; megis awyr i roddi iddo anadl, haul, a lleuad, a Sèr, i oleuo ac i gynheſu ei drigle ef; y dwfr, a'r ddaiar, a chwbl ac ſydd ynddynt yw fwydo, yw ddiodi, ai ddilladu, ai lonni ef. A chan ir creawdwr cariadus ddiwallu y rhan waelaf o ddyn, ſef ei gorph, ai fywyd naturiol, nid yw debygol yr eſceulyſei ef y rhan oreu, ſef ei enaid a'i fywyd tragwyddol. yn enwedig gan fod yr enaid mewn cyflwr graſol ar lûn *Duw*; *canys anwylaſ gan rieni y plant y ſyddo debyccaf iddynt yn eu gwêdd ai moddion.* Ac *nid oes nag enw, na llyfr arall dan y nef drwy ba un y dichon dyn fod yn gadwedig onid Criſt*, ai ſcrythyrau: yr hyn ſydd amlwg, wrth yſtyried godidowgrwydd y wir, a ffolineb pob gau grefydd.

Anrhaethol y w'r lleſhâd corphorol ac yſprydol a gynnig Criſt, ac y fwynhaei'r byd pe dilynei gyfarwyddyd yr ſcrythyrau. Pe byddeu pobl

1Tim:6.8. bobl *fodlon ir hyn sydd ganddynt, yn maddeu yw gil-*
Col. 3. *ydd, yn cyd-ddwyn au gilydd, yn gymwynascar, yn*
12,13. *gariadus, yn gwneuthur ag eraill fal yr ewyllysient*
i eraill wneuthur a nhwythau, ac yn cadw go-
Math.7. rchmynion eraill Crist, ni byddeu cymaint yn
12. tuchan dan orthrymder, a châs, ac anghyd-
fod, eithr *eisteddent yn danghnefeddus, ac yn*
ddigonol yn y cyscod dan eu ffigysbrenni; ped fa-
eu 'r iâch yn ddiwyd i weithio, a'r Cysoethog
yn rhwydd i gyfranu i gyfreidiau'r gwan; ac yn
2Thes.3. ymwrthod a balchder, glothineb, meddwdod, asra-
10. dlondeb, ac yn byw yn dduwiol. *gan obeithio yn*
Psal.37.3. *yr Arglwydd, a gwneuthur da; Caent drigo yn y*
tîr, a phorthid hwynt yn ddiau: ac ni byddeu noe-
thni, na newyn, na'r trallodau eraill sy'n dyfod ar
ol pechod yn poenydio dynion. ie byddeu'r mod-
dion y ragddywedpwyd yn dwyn iechyd Corpho-
rol, gan fod seguryd, ac anghymedroldeb yn ach-
os o ddoluriau, a chodymau, a briwiau, a phlâau
oddiwrth ddicter *Duw*. Dedwydd hefyd fyddeu
eneidiau dynion yn y byd yma wrth ddilyn
gair *Duw*, canys Cyssur mawr yn eu Cydwy-
bodau y gaiff y diwyd, a'r trugarog; *a thrwy la-*
wenydd y tynnent ddwfr o ffynhonnau iechydwrieth,
sef ordinhâdau *Duw*.

Esmwythach ir meddwl yw amynedd na diclo-
nedd, bodlonrwydd na chybudd-dod, diweirdeb
na thrachwant: eithr anifeilaidd a chwilyddus,
a blin yw mwyniant pechod, a gedi golyn
gwenwynllyd gosidus oi ôl yn yr enaid; ynteu
Psal.34.8. *profwch, a gwelwch mor dda yw'r Arglwydd, a'i*
ffydd, *gwyn ei fyd y gwr a ymddiriedo ynddo*.

Tystiolaethodd

Tystiolaethodd *Solomon*, ac eraill y brofasant bob peth, eulynaddolieth, glothineb, disyrrwch Cnawdol, llawnder bydol, mae goreu yw grâs *Duw* ai ffyrdd. *a bod ffrwyth Crist yn felys yw geneu.* Yn y byd y ddaw Caiff y grasol ddedwddwch yspryddol, a Chorphorol, a hynny yn dragywydd. Ped faeu am bob awr o ufudd-dod ond awr o hyfrydwch, byddei yr gwobr yn rhesumol; eithr Ceir llawer milwaith mwy na'r Can Cymmaint. Can.Sal. 2,3.

Brwnt a Niweidiol yw pob gau gresydd. yr oeddid yn lladd ac yn llosci dynion yn aberth ir eulynod gynt, ac yn taflu Plant ir tân yn addoliad Molech. Gwneid llawer o aflendid yn noethlymyn, ac yn feddw, mewn rhith addoliad i *Bacchus*, *Venus*, *Flora*, *Jupiter*, *Hercules*. Nid yw cresydd *Mahomet* fal un Crist yn gorchymyn addfwynder, ond afrywiogrwydd, y ddinistriodd deyrnasoedd, a thresydd au trigolion o fesur y miliwn. Nag yn gwahardd *chwenych eiddo Cymydog*, ond yn caniadu treisio oddiarno yr hyn y feddo. Bucheddol a diniwed ydoedd dyscyblion Crist, ond lladron, a llofruddion amlwg ydoedd *Mahomet* a'i ddilynwyr. Arfer Crist a'i Apostolion oedd bywhâu 'r meirwon, ag iachâu 'r clwyfus; ond arfer addolwyr *Mahomet* yw lladd y rhai byw, a chlwyfo 'r iachus. Nid gwneuthur llês drwy wrthiau, onid niwed drwy arfau. *Scythia* eger fyddei eu rhan, Pe rhoddent yn ôl fel *Zacheus*, yr hyn a yspeiliasant drwy orthrymder gwaeth, na'r eiddo Nimrod. Yr un fath foddion fydd i ddychmygion y *Pâb* hefyd. a rhag cael allan ddrygioni y cresyddau hyn gomeddir ir bobl eu chwilio, y rhai Jer 32.35. Luc. 19.

ni

ni chânt dan boen marwolaeth ymddadleu yn eu cylch; eithr gwthir hwynt ar y byd fal cathod mewn cydau. Pwy nid amheuei'r ſarchnad yn ſeius y gymhellid arno ef, heb gael cennad unwaith yw phrofi, na'i hedrych, yw Phwyſo, nag yw meſſur? arwydd eu bod yn ddiflas, pan fynnant eu llyngcu heb eu harchwaethu; ac yn dwyllodrus, pryd na fynnant eu dwyn ir goleu. anwybodaeth yw eu mammaeth, canys *Petteu'r byd ddewin ni fwyttaei* furgyn: Ond *y dall y lwngc lawer gwybedyn.*

Yn y gwrthwyneb, *nid yw gwirioned yn Ceiſio'r cornel.* gwahadd yr ſcrythyrau bawb yw chwilio. a chanmolant bawb y wnêl hynny. galwant y *Beræaid yn foneddigeiddiach nâr Theſſaloniciaid, am iddynt chwilio beunydd yr Scrythyrau* i geiſio gwybod y gwir. ac oni baeu eu bod yn gywyr ac yn dda, ni byddent mor chwanog i gymeryd eu holi; ie fal y Cynnyddo cydnabyddieth dyn a hwynt, goreu ſydd ei dyb am danynt. Am hynny gan fod *Duw* yn dda ynddo ei hun, ac wrth ddyn, a bod y greſyd ſcrythyrol yn oreu i ddynol ryw, nid all na byddo o *Ddaw.*

Joan, 5. 59

Act. 17. 11.

11 Nid yw'r eſengyl ddychymyg twyllodrus dynion, nac angylion; ni edi oſn *Duw* i ddynion, ac angylion da geiſio ſiomi neb. ac ni oddef atcaſrwydd yr angylion drwg iddynt amlygu Cymaint oi dichellion, ai proſedigaethau, ai caſineb yn erbyn meibion dynion, ac y mae'r ſcrythyrau yn ei ſynegu. Nid yw debygol y rhybuddiei'r Cythrael bobl rhag dyfod atto ef ir tân tragwyddol; ac y gorchmynei iddynt gaſhâu

Celwydd,

Celwydd, a malais, yr hyn y mae ef yn eu cliwenych; a charu *Duw*, a Sancteiddrwydd, yr hyn ſydd gas ganddo ef: hynod yw ei lafur ef yn ceiſio rhwyſtro pob dyn i ddilyn athrawieth dduwiol. Gwelir dynion drwg hefyd yn gwrthwynebu gorchmynion, ac yn diſlaſu addewidion yr ſcrythyrau; Ceiſiaſant ymhob oes eu dileu allan o'r byd, a llâdd Pawb ai dilynent. Am hynny nid oes neb yw gydnabod yn Dâd ir gwirionedd Sanctaidd, onid *Duw* yn unic.

12. Amlder y tyſtion o amryw wledydd, ac yn elynol yw gilydd, y gydnabyddant yr Scrythyrau addichon gynorthwyo ein Siccrwydd o honynt. Heb Sôn am eglwyſydd y *Proteſtaniaid*, y mae *Talmud yr Iuddewon*, ac offeren y *Papiſtiaid*, ac *Alcoran y Twrciaid*, fal cluſtogau tailiwriaid, wedi cu cluttio a darnau o honynt: yr hyn ſydd eglurdeb hyſpys ſod yr Scrythyrau yn y byd oi blaen hwynt, ac yn gyfoethog. ac mewn cymeriad, pan fenthyccieu pawb oddiwrthynt, er mewn lliwio eu opiniwnau. Ni cherddaſeu arian drwg yr euruchod hynny; oni bae eu tebygolieth i'r arian brenhinol cyfreithlon, ydoedd mewn bri oi blaen hwynt. y peth y byddo pawb yn ei gyfaddef yn ddi nâg, a ellir ei goelio yn ddiddadl; er na buoſt erioed yn *Llundain*, etto ni wedi ſod y fath ddinas enwog, o herwydd i gymaint o'th gydnabyddieth ei gweled. Yr un *Duw*, ac ſydd yn gwahardd dywedyd celwydd, Sy'n gomedd iti anghoelio'r gwir: ac onid ê, ni cheid ddim llês oddiwrth phyſygwrieth, a llawer o gelfyddydau eraill, ſef oni choeiir, oni ddilynir y rheolau ſydd yn y llyfrau

Perthynol iddynt. Periff anghredinieth anrheſumol i ddyn gadw ei ddolur corphorol, a gwrthod moddion arferol o iachâd; ie rhynnu o anwyd, a marw o newyn, rhag ir ty Syrthio yn ei ben ef, ac i ſwyd ei wenwyno ef. Ni roddi 'r parch dyledus i'th dad a'th fam, oni choeli ddim o'r y ſu cyn côf iti, ſef iddynt hwy dy genhedlu, a'th fagu.

13. Tyſtiolaethodd *Duw* ei ſod ef yn perchenogi yr Scrythyrau drwy y gwrthiau y nerthodd ef y prophwydi, Criſt, a'i ddyſcyblion yw gwneuthur. Eſtynodd *Moſes* ei wialen a gwnaeth ffordd ſych ir bobl i ſyned drwy ganol y môr. Safodd yr haul wrth archiad *Joſhua*; aneirif ydoedd rhyſeddodau *Criſt*, a'i *Apoſtolion*, fal y darllenir yn y Teſtament newydd. Ac ni chwbl beidiodd pethau rhyſeddol a dilyn y pregethwyr duwiol, y ſafaſant gyda gwirionedd yr eſengyl yn erbyn llygredigaethau cyffredin yn yr oes ddiweddaf hon, mal y gweli yn hiſtori y merthyron. Yn amſer y *Frenhines Marie* ofneu *Brenhines Babaidd Scotland weddiau Cnocs raſol*, (yr hwn oedd yn adferu purdeb eſangylaidd a'i holl egni) *yn ſwy nag ugain mîl o wyr:* a chyſaddefid *na ſyrthiei yr un oi fwgythion ef ir llawr*. yn amſer *Luther* pan ediſârodd ar gonſurwr iddo wneuthur cyſammod a'r cythrael drwy ſcriſen o'i waed er cael ei gymorrh i wneuthur caſtiau; a phan ddaeth yr amſer i ſynu i'r cythrael gael ei enaid ef a'i gorph yn ol y Cyttundeb y ſuaſeu rhyngthynt; ymgaſclodd pregethwyr a phobl dduwiol ynghyd i ymprydio ac i weddio, a'r pechadur

adur dychrynedig yn eu canol hwyt ac yn niwedd y diwrnod trawodd rhuthrwynt yſtormus wrth ffeneſtr y ſan lle'r oeddent ynghyd, y ſwriodd yr Scrifen waedlyd i mewn attynt. y pryd y nâdodd diaſol yn arw, orſod iddo roddi yr ſond i fynu, heb allu cymeryd y dyledwr.

Adwaenwn un y goſododd rhyw yſpryd arno mewn modd teimladwy; ac wrth alw yn ei ddychryn ar *Ddnw* yn *Ghriſt*, y gafodd lonydd yn ebrwydd. Rhag-fynegodd *Mr Focs* yn *Germania* wrth bregethu, y dychwelid rhydid ir eſengyl yn *Lloegr*, ac yn ebrwydd bu farw'r *Frenhines Marie*, a chyflawnwyd ei air ef, yngolwg y rhai a dramgwyddaſent wrth ei glywed ef. yn amſer y *frenhines Elizabeth*, Cyrchwyd y pregethwr duwiol hwnw ar un *Mrs Honiwood*, ydoedd glâf o driſtwch yſpryd, a chlefyd wâſt; a phan ddaeth yw yſtafell hi, caſodd ei theulu hi yn eiſtedd ar lawr yn ſynn wedi blino yu wylo, ac yn diſgwyl yr awr iddi hi: ac wedi iddo ef daer-weddio gyda hwynt, mynegodd ir clâf, *yr adferen Duw ei hiechyd iddi eilwaith. ac y cafei hi hîr oedran yn y byd hwn i ogoneddu ei enw ef*, ar hynny yn ô ddiolch hi ai attebodd ef, *y gallei ef ddywedyd yn gyſtal na thorreu'r phiol wydr ydoedd yn ei llaw hi er ei thaflu ynghyd a'r pôſt, yr hon y fwriodd hi oddiwrthi gyd a'r gair, ac y gyſodwyd i fynu oddiar lawr yn gyfan; a bu fyw'r wraig wedi hynny, oni welodd hi drychant oi phlant, a'i hwyrion, a'i goreſcenydd.* Amſer arall pan ydoedd yr efangylwr hwn yn Cymeryd ei genad ag *Iarll Arundel* wrth lan y dwfr, dymunodd yr *iarll* arno, nad elei

ir cafan, o herwydd bod yr hin yn dymheſtlog, a'r dwfr yn arw beryglus; attebodd yntef, *gwneled y dwfr hwn a mi, fel y tyſtiolaetthais i chwi'r gwirionedd* (ſef purdeb Creſydd) *mewn ſimlrwydd calon*: felly aeth ir cafan, ac yn y fan goſtegodd y gwynt, a gwaſtattâodd y dwrf. Ie odid oes na gwlâd, heb ryw beth rhyfeddol yn digwydd ynddynt er ſiccrhâu gair *Duw*, ai râs, er nad yw pawb yn Craffu arnynt o ran eu eſceulyſdra; Y rhai *ni welant uchelder yr Arglwydd na'i law*. Ond nid rhaid ir unrhyw wrthiau fod mor weledig, ac mor aml, ac oeddent yn amſer yr *Apoſtolion*: am fod y ffydd a'i ſcrifenâdau yn awr mewn hir oeſtadol feddiant ymyſc y Cenhedloedd, a hynny yn y gwledydd mwyaf enwog, a llythrenog drwy'r holl fyd. Y mae treſtadol gyfiawn feddiannau yn gwneuthur titl yn ddidda dl, ac yn afreidiol gyfodi'r meirw yw brofi. Pan oedd Criſt yn gorphorol wedi newydd eſcyn iw orſedd-fainc, gweddus ydoedd iddo ef gyfrannu doniau a breiniau tra-rhagorol yw ddeiliaid: ac wedi hynny llywodraethu wrth y rheol gyffredin y gyhoeddaſei ef i bawb. Pan goroner brenin daiarol, ar y cyntaf egir y Carchârau, ac aml fydd rhoddion, y beidiant gwedi; a chaiff Cwrs Cynefin Cyfraith lè, a hynny er llès ir wladwrieth heſyd. Nid Cymwys ir mawrhydi neſol dorri treſn arferol ei greadigaeth, ai raglunieth heb raid, wrth ddymuniad pob un moethus, anufydd, *yr hwn oni wrendi ar ſcrifennadau yr prophwydi, ni chredeu chwaith pe cyſodeu un oddiwrth y meirw i fynegi ewyllis Duw*; Canys ceiſiodd

Iſai 26. 10, 11.

yr

yr *Iuddewon* gwrthnyssig *ladd Lazarus*, yn lle ufuddhau iw dystiolaeth ef am *Grist*, *ar ôl ei gyfodi ef o'r bedd*. Y fynni di i *Grist* fyned it boen i ddioddef yn fynych, ac i adgyfodi ymhob oes, ac ymhob gwlad, a gadel i bob llaw ymhyrddu yw friwiau ef? *Bendigedig yw y rhai ni welsant, ac y gredasant*. Heb law hyn, nid yw pobl yn cymeryd attynt ond ychydig ofn *Duw*, er maint y welant oi ryfeddol allu ef. Joan. 12, 9, 10. Joan. 20, 23.

Beunydd y mae'r ddaiar drom fel pêl fawr yn sefyll ynghanol yr awyr, ac *ynghrôg ar ddiddim*. Nid oes ond yr awyr yn ei hamgylchu o bob tu, heb ddim gweledig yw hattegu, y mae olwynion mawry nefoedd yn troi oddiamgylch mewn pedair awr ar ugain, heb un dyn yn rhoddi llaw arnynt; y mae'r cant Cympasog yn troi, ar fôth, fel y ddaiar, heb syflyd. Gwnaiff *Duw* i'th gulla wrth dy borthi di, droi bara a diod yn gnawd, ac yn waed, fal y troes *Crist y dwfr yn win*. Ynghenedliad creaduriaid byw, aiff defnyn gwlyb yn gnawd, yn escryrn, ac yn groen: etto pwy fydd yn rhyfeddu, ae yn rhoddi'r gogoniant i *Dduw*, am ei weithredoedd rhyfeddol hyn? *Grwgnachodd Israel tra yr oeddent yn cael manna o'r nêf; ni pheidient ac erlid Elias*, ac ni choelient ei air ef, er i *dân o'r nefoedd yssu ei wrthwynebwyr ef o fesur y dêg a deugain*. Hefyd pe rhoddei *Duw* yr un gwrthiau ac y wnaeth *Crist* a'i *Apostolion* i amlhau ymbob oes, ac ymhob man, ni byddent ryfeddodau, na chynorthwyau i'n ffyd ni; eithr eu cynefindra y fagei esceulysdra ynom ni. Ni chynhyrfa llysiau physygwriaethol mo'r Corph, os arferir Joan. 2. 2 Brenh. 1, 9, 10.

hwynt ſal Llunieth beunyddiol. Rhyſeddach yw i'r haul dywynu nâ thywyllu, canys naturiol yw diddymiad, a gallu anfeidrol *Duw* ſydd yn peri bod o ddim. Rhyſeddach i'r ddaiar ſefyll yng-hanol yr awyr, na ſiglo; etto dychrynwn ſwy pan ſo Clip ar yr haul, a chrynfa ar y ddaiar, o herwydd eu anamlder. Am hynny gwell ar ein llês, a bûdd ein heneidiau, ſod rhyſeddodau apoſtolaidd yn rhyſeddodau byth, nag yn bethau Cyffredin. Ond rhag tybied ſod y ffydd yn ddidyſt, gwnaeth *Duw* yn yr oeſoedd diweddaf rai pethau, nid ydynt gwbl anghyffelyb i wrthiau y prif eglwys. Canys megis ac yr oedd yr eſengyl gynt yn goſtegu lleiſiau, ac yn rhwyſtro gweithrediâdau Cyhoeddus y Cythreuliaid; felly er pan adgweirwyd y ffydd yn ddiweddar, nid yw'r tylwyth têg (ſef y Cythreuliaid Cymdeithgar) cyn hyſed ac oeddent yn amſer Pabyddieth: pryd yr ymddangôſent yn finteiodd gweledig i lithio pobl drwy yſpleddach a hwynt. Arwydd ei myned hi yn ddydd eſangylaidd, pan ymguddiodd pryſed y tywyllwch.

14. Pe iawn arferem ni yr hyn y ddirnad ein deall ni, ac y wèl ein llygaid ni, argyhoeddeu hynny ni o wirîonedd y pynciau mwyaf pwyſfawr yn yr ſcrythyrau; megis, *ſod Duw bywiol*, gwneuthuriad dyn y ddengis hyn. Nid y byd y wnaeth ddyn, am nad all peth diſywyd wneuthur peth byw. Nid oes reſwm â deall yn y ddaiar, ſel y mae yn nyn: ac nid all dim gyſranu i un arall, onid y peth ſydd ynddo ei hun. Ni phochei'r tân mor dwſr, oni bae ſod poeth-

Hebr. 11. 6.

der

der ynddo. Nid dyn chwaith ai gwnaeth ei hun, canys nid all y bychan o gorpholaeth *eſtyn cuſudd at ei faintioli*; nid all y clâf ei wneuthur eu hun yn iâch, na'r garw ei wneuthur ei hun yn brydferth, na'r gwan ei ddeall, ei wneurhur ei hun yn gall. Nid rhieni ſy'n ffurfio eu plant, canys ni wyddant pa un ai mâb ai merch ſydd ffrwyth y bru, nes ei eni; yn fynych cânt ferch pan ddymunent fab: er nad adwaenant hwy mo oſodiad y galon, a'r yſcyfent, y giau, ar gwythi, er na feddyliant am danynt, etto cynyddant yn y grôth. Cynhêſodd y myfyrdod hwn galon *Dafydd* i hoffi *Duw*, pan ddywedodd ef wrth yr Arglwydd, *Toaiſt fi yngbroth fy mam. clodforaf dydi, canys ofnadwy a rhyfedd i'm gwnaed.* Gwneuthriad y byd hefyd y ddylei dy gymell di i gydnabod *Duw*. Nid dyn y wnaeth y byd, rhaid ydoedd creu'r byd oi flaen ef, er rhoddi cynhalieth iddo ef; nis gallaſei fyw heb luniaeth ac anadl yr yſpaid y buaſeu yn gorphen gorchwyl llai: dychweliad y Corph ir ddaiar ſydd arwydd fod y ddaiar oi flaen ef, ai wneuthur ef o honi. canys dychwel pob peth ir man allan o ba un y daeth, fal y mae'r tarth gwlyb yn cyſodi o'r ddaiar ir Cymlau, ac yn dyfod i lawr eilwaith yn law. Pe galleu dyn wneuthur byd, gwnaeu fwy nag un o ran ei awydd, ai gybudd-dod. hefyd ceidw'r byd ei dreſn oſodedig gan *Duw*, er gwaetha dyn. Cyſyd yr haul yn ei bryd yn gynt nag y mynnei'r diog, machluda yn gynt nag y mynnei 'r trafferthus. Ceidw'r môr ei lê ai lanw, heb ruſo dim er un *Pharaoh na'i gerbydau hirn*, Pſal. 139. 13, 14.

amſer

amser a llanw nid eris am un dyn, am hynny y mae iddynt feistr arall y sydd uwchlaw pawb. Ac nid yw anhygoel i *Dduw* greu'r byd o ddim; y mae Cymaint rhagor rhwng *byw a difyw*, ac sydd rhwng *defnydd a-dim*. Di weli *Dduw* beunydd yn anfon ir byd greaduriaid byw oddiwrth hâd difyw, ac yn rhoddi golwg i ddefnydd dall. Y mae'r pethau mwyaf yn dyfod oddiwrth bethau bychain, nesaf i ddim; mae'r dderwen fawr yn tyfy oddiwrth fesen fechan, nid ydoedd y fesen onid cron, a meddal, y mae'r dderwen yn ganghenog, acyn galed: dyna beth sydd, oddiwrth beth nid oedd. Hyspyssa'r Creadigaeth
Daut. 6.4. ini hefyd fel *Moses*, Mae *un Duw sydd*. Canys cydweithia'r creaduriaid oll er eu bod yn llawer, ac o amrw ddull, nefol a daiarol, at yr uu diben. Y mae'r haul yn cynhesu, a'r Cymylau yn dyfrbâu'r ddaiar i beri iddi dyfu. y mae hitheu a'r môr yn mâgu bwystfilod, a'r Cwbl ꝑ gynal dyn. Llawer o weision yn gwneuthur amryw swyddau, ac yn y diwedd yn tueddu at yr un peth, sydd arwydd mae un meistr sydd iddynt; wrth adeilâdu, pan fyddo'r naill yn llâdd llîf, a'r llall yn nâddu, arall yn tyllu morteisiau, ac erbyn y dèl y darnau ynghyd, os byddant gymwys iw gilydd, ac yn gwneuthur adail dêg, cydnabyddwn i un pen-saer Cyfarwydd fwrw a marcio'r gwaith. Undeb yw'r peth godiddoccaf mewn teulu, a theyrnas, anhwylus yw mwy nag un meistr mewn teulu, neu fwy nag un brenin mewn teyrnas, o herwydd rhwystrent eu gilydd drwy groes-amcanion. Pa unaf, byfrydaf a chryfaf.

Nid

Nid yw'r *Drindod ſendigedig* hefyd heb ei hargraph ar ddyn, gan fod ei enaid ef yn deall, ac yn ewyllyſio; y mae'r *Tâd nefol* yn deall ei berffeithrwydd, ei yſtyrieth ef ai ddoethineb ef yw ei *Fâb*; y mae dyn yn gwneuthur peth yn ol ei ddeall ai fwriad oi ſewn, *a thrwy'r mâb y gwnaeth Duw bob peth.* Joan. 1, 1. Wrth ddeall ei berffeithrwydd y mae hyfrydwch i *Ddaw*, ſef yr *Yſpryd glan*, yn ymfodloni ynddo ei hun, a chyflawniad ei ewyllis; y mae ewyllis yn nyn hefyd yn cyd-ganlyn ei ddeall ef, ac yn Cynhyrfu ei allu ef, ſal y dywedwn, *yr ewyllis y wna'r gorchwyl.* Am hynny nid all un dyn yſtyriol na chydſynio ag ymadrodd yr *Apoſtol* am *Ddaw*, *O honaw ef, a thrwyddo ef, ac iddo ef y mae pob peth*, ſef o'r hanfod, y *Tâd nefol*, a thrwy ei ddoethineb ef, *ſef ei Fâb*; ac yw ewyllys hyfryd ef, *ſef ei Yſpryd ef*, y mae pob peth. Dywed *Paul* fod *Duw yn ddoeth*, a phawb ô'r a yſtyriant ei weithredoedd ei y ddywedant yr un peth. Rhuf. 11, 36. 1 Tim. 1, 17.

Rhyfeddol mor gywraint yw gwneuthuriad dyn ac anifail, a maint o bibellau, a gwythi, a chymâlau ſydd ynddynt, heb un diſwydd nag afreidiol, ond pob un yn cynorthwyo'r naill y llall. y mae 'r haul yn cadw ei dymhôrau yn y modd buddiolaf ir byd; pettau 'r lamp netol hwn yn ſefyll ynghanol y ffurfafen, neu yn froi yn oeſtadol uwchben, ac a'r draws Canol y ddaiar yn lîn y Cyhydnos, byddei 'r naill ran o'r ddaiar yn anffrwythlon gan boethder, ar llall yn anghyfaneddol gan dywyllwch ac oerder, am fod Crwmach y ddaiar yn bwrw *Cyſcod*, ſal na thywyno'r haul arni ei gyd ar un waith.

am

am hynny ymfumud yr haul i amgylchynu'r gogledd, nes addfèdu ffrwythau'r tir y tu yma ir byd, ac yna gan adel i ni ddigônedd o lunieth nes y delo eilwaith, cilia oddiwrthym ni ai gwnaeiff yr un Cymwynas o amgylch y deheu.

Yn y Cyfamfer nid yw'r gaiaf anfuddiol ini, gan oeri heintiau, a goftêgu pryfed, a gwybed, y amlhaent yn blâ ir byd, pe parhaeu gwrès yn oeftadol; a chaledu dyn ac anifail, ai gwneuthur yn iach, ac yn gryfach. Gwelir y glaw a'r eira gaiafol yn gwrteithio'r ddaiar i fwrw ei chnwd yr hâf. A bydd y llenad yn nefafattom ni, pa bellaf y bo'r haul oddiwrthym ni, fal na byddom heb oleuni pan fo'r nôs hwyaf. A chan fod Cyfnewidiadau Cyflym yn beryglus i ddyn ac anifail, nid yw trumder gaiaf yn neidio ar ben poethder hâf, eithr o fefur ychydig y Cymer y naill lè'r llall. Beth fydd niweidiach i'th iechyd di nag oeri yn ddifymwth ar ol chwyfu? am hynny o fefur mynudyn neu ddau beunydd y byrhaiff ac yr ymeftyn y dydd, y chwanega oerni neu wrès. Ni lamma'r haul o'r naill gylch ir llall mewn un dydd, eithr o fefur ychydig y llithra ef, fal y gallo'r naill ran o'r byd ei dderbyn ef, a'r llall ei hepcor ef yn oreu.

Eglur yw nad oes ddeall yn y goleuâdau hyn yw Cyfarwyddo eu hunain, Canys lle mae deall y mae bywyd hefyd, y gynhelir drwy ymborth mewn Creaduriad gweledig, ac er diwedd y dderfydd drwy farwolaeth, y peth ni ddigwydd ir rhain. Ni welwn chwaith un creâdur byw, nad yw'n gwibio i mewn ac allan, weithiau yn fymud,

ud, weithiau yn sefyll, ond Ceidw y rhain yr un mesurau yn oestadol, gan gerdded yn ddibaid. Petteu ganddynt ddeall, bydden ganddynt ewyllis hefyd, ai tueddei nhwy i orphwystra a rhydid, yn hytrach na llafur di-dorr, er gwasanaethu Creaduriaid llai na nhwy eu hunain.

Diameu ynteu mae *Duw* sydd yn pennodi, ac yn rheoli eu rhodau, ac onidê ni cherddent mwy nag olwynion Clocc, neu selin, heb ryw un Celfyddgar yw ffurfio, ac yw trin i hynny. Nid digon ir ddaiar gynhesrwydd heb wlybanieth. Pe gollyngasen *Duw* y môr am ben y tîr nis gallasen neb syw; am hynny ordeiniodd bibellau i ddwyn dwfr o'r môr i ddiddanu'r tir: yr hwn wrth bistyllu drwy'r ddaiar, megis drwy hîdl, y edi ei hellltni yn ôl, fal y bo Croiwach, a chymwysach i ddiodi creaduriaid byw. selly y deilliaw asonydd o galon y ddaiar, sal gwythi o'r afu, y gerddant drwy gorph pob gwlâd.

Ac am nad yw lesol ir asonydd chwaith sod cyn lletted a'r ddaiar, gorchymyn *Duw* i darth escyn ir Cymylau, lle y tywycha gan oerni, ac y troiff yn ddwffr i ddiodi'r ddaiar a chasodydd hysryd, pan syddo mwyaf ei syched hi, a llettaf ei sasn hi. *Mor luoso g yw dy weithredoedd di o Arglwydd, gwnaethost hwynt oll mewn doethineb!* Pſ 104. 24. Dywed *Pedr sod yr Arglwydd yn gwybod pob peth,* Joan. 21. 17. a phwy ni chydsynia a'i ymadrodd ef, ar a ystyria amled yw'r Creaduriaid y mae'r Creawdwr yn eu tresnu, a'u rheoli? Nid allai Cymaint o bethau disywyd, disynwyr, gydweithio mor gysson ac mor union i leshâd dyn, oni bae sod Cysarwyddwr

wyddwr doeth iddynt, mwy nag y trawei ſaeth ddall y nôd, oni bæu i un a llygaid yn ei ben ei gollwn atto ef; yr hwn y tedrodd oſod pob peth mor gelfyddgar oth ſewn di, dy menydd i ddeall ac i gofio, y galon yn ffynon bywyd, yr iau ar yſcyſent yw ſwyddau, nid all na wypo hefyd parai ſwriadau ſydd yn dy galon di, pa ddichellion ſydd yn dy ben di. *Oni chlyw yr hwn a*
Pſ. 94. 9. *blannodd y gluſt? oni wèl yr hwn a luniodd y llygad?*
10. *oni wyr yr hwn ſydd yn dyſcu gwybodaeth i ddyn?*
Canlyn hefyd fod gallu *Duw* gyda ei wybodaeth
Act. 17. 27 ef ymhob man, *ac nad yw efe neppel oddiwrth bob un o honom, gan ei fod ef yn rhoddi bod a bywyd i bôb péth.* Ni throei'r felin petteu'r dwrf oddiwrthi, nag olwynion natur oni bau fod eu Cynhyrfwr hwynt yn brefenol; er nad yw dy lygaid yn gweled ei ſylwedd ef, mwy na'r gwynt, neu'th enaid dy hûn, etto gweli ei weithrediâdau ef, a nhwythau. Rhodia ditheu yn ofalus ger bron dy *Dduw*, a galw arno, am ei fod ef yn agos ith gynorthwyo.

Amlwg hefyd yw rhaglunieth a goſal *Duw* yn y dreſn oſodedig. Adfeilieu adeilad y byd, oni bae yw gwneuthurwr edrych atti; a boddei'r môr y tîr, er dim gweledig ſydd yw gadw i mewn yn llawer man. trigeu llydnod newydd ſwrw eiſteu medru ſugno, oni bae ei fod ef yn eu dyſcu: gwelir hwynt yn ceiſio purſau eu mammau, cyn iddynt er ioed weled y fath beth, nag i ddyn roddi llaw arnynt yw byffordi. y mae llyſiau yn hâdu ychydig cyn eu diflanu, a dyfod amſer oerni, megis pettent yn rhagweled eu marwolaeth, ac yn darparu i gynal eu rhyw. Ac am y ddyled y ofynnir gan

ddyn

ddyn, *ſef ofni Duw, a chadw ei orchmynion ef*. Nid yw rheſwm yn gweled yn anghymwys ir tâd a ymgleddo blant, gael ufudd-dod oddiwrthynt. nid yw nèb yn gwneuthur offeryn onid yw bwrpas, a ſynni di i *Ddaw* dy wneuthur a'th ymgleddu yn haelionus, yn unig ſal y gallych waſnaethu'r pechod, a'r Cythrael, a gwrthryſela yn ei erbyn ef? y ſynni di iddo ef dy ddal di yn ei freichiau i ſcriffinio ei wyneb ef, ac ath draed i guro ei ymyſcaroedd tyner ef? A rhag i deimlad o ddicter *Duw* wneuthur dyn pechadurus yn ddibris, ac yn anhydyn i ddychwelyd i deulu ei Arglwydd, mynega y mawrhydi nefol, iddo gael iawn gan *Griſt* yw heddychu a phob un a ddychwelo, ac anrheſumol yw'r anghrediniaeth ni chydnabyddo y gollwn echwynwr trugarog ddyledwr tlawd yn rhydd, wedi i ſachniad galluog dalu droſto ef. Os amheui'r adgyfodiad, edrych ar yr hadyd ſy'n torri ar eu traws, ac megis yn braenu yn y prîdd, etto o'r gronynnau noethion priddlyd hynny, y Cyfyd tywyſennau tal, ac ynddynt ddêg ar ugain. Er ir phanhigion ar llyſſiau golli eu tegwch y gaiaf, a myned tel cyrph meirwon, etto blodeuant eilwaith. troiff *Duw gyſcod angeu* (ſef y nôs) *yn foreuddydd*. Nid anhaws iddo ef y ffurfiodd iti gorph o ddefnyn ynghróth dy fam, wneuthur ſelly o dduſtyn ynghrôth y ddaiar. Pan luniodd ef *Adda* o'r pridd, bu fyw *naw cant a dêg ar hugain o flynyddoedd*. er iddo wanychu llawer ar ei gorph drwy bechu. ynteu nid anhebygol y peri'r Cyrph gogoneddus byth, am y byddant yn ddibechod: boiw fydd eu *gwiſc briodas* yn dragywydd, pryd na bydd

preg. 12, 13.

Heb. 7. 22.

Gen. 5. 5.

bydd dim brynti yw brychu, nag un gwyfyn anwiredd yw hyſſu. y mae ynoti arwyddion o anfarwolder yr enaid tra bo 'r Corph yn farw. canys mewn Cwſc (yr hwn yw llûn marwolaeth) pan fo'r Corph heb ſymud, y mae'r enaid yn ymgynhyrfu, yn ymreſummu, yn deall pethau, ac yn derbyn rhybuddion, a chynghorion.

Nid yw nerth yr enaid yn pallu gyda'r Corph; pan gollo dyn aelod drwy friw, nid llai deall, a ſerch, a dymuniad, a chydwybod yr enaid. yn amſer henaint pan ſo nerth y Corph leiaf, y mae callineb, a ſobrwydd, a rhinweddau'r enaid gryfaf; Canlyn ynteu y bydd gwobr parhaus ir dâ ar drwg, am eu bod yn anfarwol. Nid yw'r *Duw*, y gwelir cymaint oi ddaioni ai wybodaeth, debyg i adel yr ufudd graſol yn guſtuddiedig byth. nid adwaenom un tâd naturiol, na wnaiff fwy er ei blant ufudd, nac er y rhai gwrthryfelgar afradlon. Gweliff dynion yn gymwys goſpi llofruddion ac yſpeilwyr, ac oni wnaiff rheolwr y byd gyfiawnder ar ddrwg-weithredwyr? er bod y philoſophyddion gynt heb fawr gyfarwyddyd o'r Scrythyrau, etto wrth ddarllen Llyfr y creadigaeth canfuaſant lawer o'r pethau hyn; oud yn ö-dywyll gan wendid eu llygaid, *fal y dall cyn ei gwbl iachâu, y welodd ddynion fal*
Marc. 8. 24 *prenniau.* Am hynny dywedent *fod y gwirionedd megis wedi ſuddo mewn llyn*, a'i bod yn gweled peth oi lewyrch ef. ond cyniſer ac a irant eu llygaid ag *eli Criſt* y welant ddigon o reſwm wrth
Datc. 3, 18 yſtyried pethau o'u hamgylch, yw ſiccrhâu o wirionedd yr ſcrythyrau, ynghylch y pethau y fu, y

ſydd,

sydd, ac y sydd.

15 Moddion scrisenwyr a dilynwyr gair *Duw* ymhob oes, y ddengis eu bod o *Ddaw*; canys ni thwyllid hwynt yw ddigio ef, na thrwy dèg na thrwy hagar. ni ddenai melyswedd golud, na gogoniant y byd monynt i ddorri gorchmynion *Duw*. er i Satan addo yn dèg, y *rhoddai* ei sawredd i'r Saul a *Syrthient i lawr yw addoli ef*, etto Casodd ei ymlid *ymmaith* gan *Grist*, a'i ddilynwyr. Methodd gan *Simon o Samaria*, er cytarwydded *Swynwr* oedd ef, hudo yr Apostolion drwy srîb: *eithr Petr a ddywedodd wrtho, bydded dy arian gyd â thi i ddestryw*. Ni thycciau bwgwth. on y byd i beri iddynt betruso yn dilyn eu iachawdwr. Nid yw rai gau dystion, onid am wobr bydol, yr oedd y ffyddloniaid yn colli y seddent am eu tystiolaeth; anhawdd çael gan ddrwg weithredwyr gyfaddef y gwir arnynt eu hunain, ond pan holid y Cristnogion am eu ffydd, cyffessent oi gwirfodd: ie Cospid hwynt eisieu tewi. a than eu custudd byddent lawen a hyfryd. ofn a thrist. wch sydd yn anferthu, a chywilydd sydd yn digaloni rhai drygiog dan eu penyd, oddieithr ymbell un tyddo *a chydwybod wedi serrio*. Bendithieu'r merthyron enw eu *Harglwydd, am eu cyfrif yn deilwng i ddioddef er ei fwyn ef*, gan farnu erlidigaeth yn oruchafieth. a hynny, nid o ran synigrwydd meddwl; canys yr oeddynt o gydwybodau tyner, *ac wylent yn chwerw-dost* am y pechodau dirgelaf. nag o ran cesnogrwydd naturiol, canys yr oeddynt lawer o gyrph gweniaid, a thyner, hen ac afiâchus. Yr oedd gwraig ddu-

Math. 4. 9. 10. Act. 8. 9. 18, 19, 20.

Act. 5. 42. Luc. 22. 92.

wiol

wiol y waeddei yn dosturus yn ei gwewyr es cor, ond pan loscwyd hi am ei ffydd ni chwynodd ronyn, *gan atteb yw Chyfneseifiaid* (oedd yn gosyn ei rheswm hi am hynny) *fod ei gwewyr escor hi yn ffrwyth pechod, ac o herwydd hynny yn drwm iddi hi, ond dioddef er Crist ydoedd ffrwyth oi ras ef, ac o'r achos bwnnw yn yscafn iddi hi.* Gan orfod ir proffesswyr duwiol ddioddef Cymaint o gustudd a phoen er mwyn eu credinieth; diamau iddynt chwilio'r peth hyd y gwaelod, cyn yr ymroddent i golli y feddent oi herwydd, am nad yw hylithr gan bobl gymeryd eu twyllo am eu hawddfyd amserol. *Pair Duw yw'r brofedigaeth danllyd*, i ddangos rhagor rhwng Sothach a mwyn da wrth *adeiladu ar sylfaen iechydwriaeth, y dydd a ddengis waith pob dyn*, pa un *ai meini gwerthsawr*, o athrawiaethau, a grasau parhaus, ai ynteu *coed* pwdr a *sost* crin o gau athrawiaeth a rhysyg fyddo eu defnydd. *oblegyd trwy dan y datcuddir ef.* Diodefaint y sainct ydoedd *gadarnhâd yr efengyl* dan erlidwyr Cynar a diweddar.

1 Cor. 3. 12, 13.

Philip. 1. 7. 14.

16. Os amheuei etto dywedaf wrthit, fel *Phillip* wrth *Nathaniel*, *tyred a gwêl.* fal yr argyhoedda 'r creadigaeth a rhaglunieth dy reswm di, gwaith yr ailanedigaeth a lwyr argyhoedda dy galon, ac *a scrifena'r gysraith ynddi*, oni's gwrthodi hi: oni choeli fod athrawieth y ffydd yn win melys ac iachus, wrth weled eraill yn ei ddymuno, ac yn siriol ar ei ol ef, prawf ef dy hun, a dywedei'r un peth. Golch lygaid gweniaid dy feddwl a dagrau edifeiriol, a gloiwach fyddant, a chanfyddi ewyllis *Duw* yn grassach;

Joan. 1. 45

a gweli'r haul *Cysiawnder* wrth ei oleuni ei hun: oddiwrth darth Cnawdolieth y cysyd niwl yn y meddwl. *bydd pob dyn a deall wedi ei dywyllu, trasyddo wedi ymddieithro oddiwrth ſuchedd Duw.* Ond *y meddwl newydd y gaiff brosi perffaith ewyllys Duw. a'r hwn ſydd yn credu ym mâb Duw, ſydd ganndo y dyſtiolaeth yndo ei hun.* Derbyn y ſpryd Duw i Sancteiddio dy enaid, ac yna tyſtiolaethiff iti mae'r ſcrythyrau yw ei Scrifen ef. yna y gelli ddiwedyd wrth yr eglwys ſal y *Samariaid wrth y wraig, nid ydwyf weithiau yn credu oblegyd dy ymadrodd di, canys mi ai clywais ef fy hun, a gwn yn ddiau. Yr hwn a ewyllyſio wneuthur ewyllis Duw, y gaiff wybod am y ddyſceidiaeth ai o Dduw y mae hi. Deſaid wſudd Criſt a adnabyddant ei lais ef, rhagor llais dieithraid.* Oni bydd dyn yn yr un elfen a'r peth yr edrycho ef arno, ni's gwêl ef yn iawn; pan edrycho un oddiar y lan ar bren yn y dwfr, efe ai gwêl yn gam er ei ſod yn union. felly ni ddichon yr hwn ſydd mewn cyflwr Cnawdol iawn ddirnad y gwirioniedd graſol, *oblegyd yn yſpryd y bernir ef.* Meibion Duw y ſydd gynefin ai breſenoldeb ef, ac arferol o drin ei negeſau ef, y adwaenant ſcriſen-law eu tâd. Cais *hurddeb calon, a chei weled Duw, ai ewyllys hefyd.* Gobeithio ſod yr hyn y ddywedpwyd yn ddigonol gyda gweithrediad *yſpryd Duw*, er gwreiddio'r darllennydd yſtyriol *mewn ſiccrwydd deall i gydnabyddieth dirgelwch Duw, a'r Tad, a Chriſt:* am hynny dibennaf y perwyl yma, ond crybwyll am rai pethau ſydd ddilynawl iddo.

Ephes. 4. 17, 18.

Rhuf. 12. 2

1 Joan. 5. 10.

Joan. 4. 42

Joan. 7. 17.

Joan. 10. 7

1 Cor. 2. 14.

Math. 5. 8.

Col. 2. 2.

1. *Molianwn Dduw* am fod yſpryſrwydd o'r ffydd ai ſcrifenâdau yn ein iaith ni ein hunain; hynny ydoedd oruchafieth *Iſrael*, pryd nad oedd cyn amlucced, a chyn helaethed ac yw yn awr: Deut. 4. 6. 8. Canmoleu 'r *bobloedd oll ddoethineb eu deddfau hynt.* Bu llyfr *Duw* wedi ei giasbyſſu cyn gaethed yn yr *iaith Ladin* yn amſer ein henafiaid diweddaf, na ſedrai, ac na leſaſai ond rhai edrych arno. Yr ydoedd ir bobl gyffredin ſel bwyd dan glo, a llys-ſam yn Cadw'r agoriad. y pryd yr adnewyddwyd arfer eglwyſwyr llygredig Iſrael, y Luc. 11. 52. rhai *y ddygent ymaith agoriad y gwybodaeth, nid aent i mewn eu hunain, a'r rhai oedd yn myned, a waharddent.* ond er pan gyfieuthwyd y bibl yn *Gymbraec*, gelli gymeryd y ſeigiau melyſaf ith law, a bwytta a'th ddiwalla, a bendithio dy *Dduw*: yr hwn o'i drugaredd y roddes gyfarwyddyd i rai duwiol dyſcedig yn yr oes ddiweddaf, i gyfieithu athrawieth y ffydd o'r *Groeg* a'r *Hebraaec*, i jeithoedd Cyffredin teyrnaſoedd y Gorllewin. Ac ni raid ini ofni iddynt gam-gyfieithu oi gwirfodd, canys dioddefaſant (gan mwyaf) ferthyrdod; ac oni ddywedent gelwydd er arbed eu bywyd eu hunain, ni wnaent hynny er damnio ein heneidiau ni. Rhuf. 10. 6. *Y mae gair y ffydd yn agos attom ni, nid rhaid ini ſwrw am nôl Criſt i lawr o'r nef yn ſynegi.* Luc. 11. 31. Petteu raid dylem fyned cyn belled i wybod doethineb *Duw*, ac yr aeth *Brenhines Sheba; yr hon a ddaeth o eithafoedd y ddaiar i wrando doethineb Solomon.* Gen. 29. 10. Y mae *ffynon iechydwrieth* yn agos, ac yn agored, wedi i *Dduw anſon rhai fel Jacob i dreiglo ymmaeth y garreg fawr oedd ar ei geneu.*

Gelli

Gelli lenwi dy goſtrel o wybodaeth iachus, oddeithr i galedwch dy galon ei thoppio ſal na ddelo i mewn. *Dangoſodd yr Arglwydd it ddyn beth ſydd dda, a pha beth y gais gennit: Yr hyn ſydd abl ith wneuthur yn ddoeth i iechydwrieth.* A pham y digiei'r Pape am hyn? Canys anſonwyd y gair yn *Hebræ-aec* ir *Hebraaid*, ac yn *Roeg* ir *Groegiaid*, ſal y galleu'r bobl gyffredin ei ddarllen ai ddeall. Ac nid yw anghymwyſach i'r Cymru ei gael ef yn Gymraec, ac i'r Saeſon yn Saeſona-ec, *ſel y lleſarer ym hob iaith fawrion weithredoedd Duw.*

Mic. 6. 8. 2 Tim. 3. 15. Act. 2. 11.

2. *Chwiliwch yr ſcrythyrau* yn ol gorchymyn Criſt, *at y gyſraith ar dyſſiolaeth, ceiſiwch allan o lyſyr yr Arglwydd, a darllenwch, ie glynwch wrth ddarllein*. ac ich annog i hynny yſtyriwn mae *trwy wybodaeth y gwirioned yr ewyllyſia Duw i ddynion ſod yn gadwedig*. y mae chwilio aſtud ar lyfrau Cyfraith ddynol, a phyſygwrieth, er mwyn elw amſerol; ond ceir yma ſudd tragwyddol, a diſyrrwch preſenol hefyd. *deddfau'r Arglwydd ſydd yn llawenhâu y galon, ac yn felyſach na'r mêl. Hyſrydach ydoedd gan Alphonſus brenin Arragon ei ſtudi, na'i deyrngader*. Ac ſal na phetruſo neb o ran ei wendid, gwybydd eu bod *yn olau ir gwirion, i wragedd, a phlant. Timotheus cedd yn gwybod yr ſcrythur lân yn ſuchgen*, a dyſcaſeu hwynt gan ei *Nain Lois, ai fam Eunice.* ymborth yr enaid ydynt. *n'i porthant a gwybodaeth, ac a deall. Plant Duw y elwenychant laeth y gair, ſal y cynyddont trwyddo ef*, a phawb ai diſlaſo a newynant, ac y grabiant eu heneidiau yn dragywydd. A chyſarwyddo dynion y maent i ryngu bodd *Duw, gan fod yn llnfern*

Joan. 5. 39. Iſai. 8. 2. ac pen. 34. 16. 1 Tim. 4. 13. 1 Tim. 2. 4. Pſal. 19. 8. ac 119. 103. Pſal. 19. 7. 2 Tim. 3. 15. 2 Tim. 1. 5. Jer. 3. 15. 1 Per. 2. 2.

a llewyrth yw traed ai llwybrau. Yr hyn y gerddech
Psal.119. di yngwysc dy ben hebddynt hwy, fydd cyfeili-
105. orni yn anialwch pechod, ath ddwg ir sybwll pe-
ryglus. Ac fel y tyccio darlleniad iti gweddia
Psal. 119. fel *Dafydd* ar y *Dduw ddatcuddio dy lygaid i*
18. *weled pethau rhyfedd allan oi gyfraith ef*; tra yr
oedd *Saul* yn gweddio yr ansonodd *Duw* un yw
Act. 9.11, gyfarwyddo ef, *gan ddywedyd wrth Ananias, cyfod*
27,18. *chais un a'i enw Saul o Tharsus, canys wele y mae ef*
yn gweddio. Achwedi i Ananias draethu ei gennad-
wrr yn enw'r Jesu, casodd y llestr etholedig oleuad
a chryshâd Eisieu grâs a goleuad oddiwrth *yspryd*
Duw, ni chynhyrfa pobl er darllen yr scrythy-
rau; *ni adnabu preswylwyr Jerusalem au tywyso-*
Act.13. 27 *gion leferydd y prophwydi y ddarllenid bôb sabbath*
ac yn amser *Jeremi y rhai y drinent y gyfraith*
Jer.2.8; *nid adwaenent Dduw.* Darllen yn ddiwyd, *os gwa-*
eddi ar ôl gwybodaeth, os chwili am dani fel am drys-
sorau cuddiedig, yna y cei ddeall ofn yr Arglwydd.
Dihar.2.3, *Cymer* amser i gydswrw 'r scrythyrau, y mae y
4,5. naill fan o honynt yn egluro'r llall, fal y mae llaw-
er o ganwyllau yn rhoddi mwy goleuni nag un;
i hynny mae iti beth cyfarwyddyd ynghwrr y
dalennau yn y bibl, lle mae'r serennôdau. *A my-*
Psal.1. 2. *fyria arnynt ddydd a nôs.* Ac ymofyn ag eraill
ynghylch y pethau nis gelli eu dirnad, fal y
gwnaeth yr *Eunuch* yr hwn *a ddymunodd* a'r
Dihar.13. gydymmaith *eistedd gyd ag ef* i esponi'r scry-
4. thur iddo ef. *Enaid y diwyd y wneir yn frâs*; oh
Act.8. 28, gochel fod yn esceulus, na ddisgwil yd, heb lafur;
31, 34, 35 tra yr oedd yr *Eunuch* yn darllen y *Prophwyd*
Isaias, ni adawodd *Duw* ef yn ddi gymorth; gan
anson

anſon *Philip* yw gyfarwyddo ef. *yr hwn a ddechreuodd ar yr ſcrythur honno, ac a bregethodd iddo yr Jeſu*, mewn modd ffynnadwy.

Dôd heibio rag-farn, dôs at yr ſcrythyrau i geiſio gwybod ewyllys *Duw*, nid i godarnhâu dy ewyllys dy hun. Bydd oſtyngedig; *y pethau a guddwyd rhag y beilchion, y ddatcuddir i rai bychain:* ir pant y rhed dwfr y bywyd. drwy rigólau'r galon ddrylliedig, y daw goleuni nefol i mewn. Bydd barodol i ufuddhâu ir hyn y ganſyddech o ewyllis dy feiſtr. Pan oedd *Saul* wedi ei orchfygu gan fraw, ac ymddangoſiad *Criſt*, a chwedi ymroi, dywedodd, *Arglwydd beth a fynni di i mi ei wneuthur?* ac ni bu hir oni chafodd wybod ewyllis Criſt. Ni *chelei Duw* moi ſeddwl rhag *Abraham, canys efe ai hadwaenei ef y gorchmynei ef yw blant, ac yw dylwyth gadw ffordd yr Arglwydd*; oni chaiſſ gwirionedd *Duw* reoli ynoti fel brenin, ni thrig ef ynoti yw gaethiwo fel carcharwr; o herwydd ir Cenhedloedd *atteal y gwirionedd mewn anghyfiawnder, ac nas gogoneddaſant Dduw* yn ôl eu gwyboddaeth, *ac na buont ddiolchgar iddo, rhoddes Duw hwynt i fynu yw trachwantau, a'u gwyniau gwarthus, a'u calon anneallus hwy a dywyllwyd. onid aethont yn ofer yn eu rheſym mau*

Mat. 11. 25.

Act. 9. 6.

Gen. 18. 17.

Ruf. 1. 18, 21, 26.

3. Cy wilyddiwn ac edifarhâwn am yr eſceulyſtra ſwrth ſydd yn ein plith ni ynghylch y peth hwn, gall *Duw* gwyno ar y Cymbro fel ar *Ephraim, mi a ſcrifenais iddo bethau mawrion fy nghyfraith, ac fel dieithr beth y Cyfrifwyd*. Yſtyria er bod yn ſychan geniti am bethau'r ſcrythur, ſod

Hoſ. 8. 12.

Luc. 16, 1. 27. y Duw mawr yn eu cyfrif yn fawrion, rhoddes rinwedd, ac awdurdod fawr ynddynt, a chymer ofal mawr am danynt; *haws i nêf a daiar fyned heibio nag i un tippyn o honynt ballu. a chwennych yr angylion fod yn hyddyfc* ar yr hyn y gynhwyfir ynddynt. 1 Pet. 1. 12 *Y mae gwobr mawr am eu Cadw*, a gwae Pf. 19. 11. ofnadwy am eu torri. Cymer digofaint *Duw* invêtori o'r hyn y feddech yw fellithio iti, *oni wrandewi ar lais yr Arglwydd, gan gadw ei orchmynion* Deut 28, 15, 16, 18, 19. *ef. melldigedic fyddi di yn y ddinas, ac yn y maes. melldigedic fydd ffrwyth dy frû, a ffrwyth dy dîr, dy ddyfodiad i mewn, a'th fynediad allan. am hynny* Deut 32. 47. *nid gair ofer yw o herwydd dy enioes di yw efe.* Gwnaeth gwyr mawr gynt gyfrif o'r fcrythyrau darllennent, ofnent hwynt, ac ufuddhaent iddynt, fel y gwelir yn y brenhinoedd enwog hynny, *Dafydd, Solomon, Jehofophat, Hezeciah, Jofiah, Conftantinus*, a'r *Eunuch gallwog* oedd ar holl dryffor Act. 8. 27. *Ethiopia.* Hoffeu 'r Sainct hwynt *yn fwy na'r mêl,* Pf. 19. 10, *nag aur fyddei coeth, allawer*, ie yn fwy na'i bywyd naturiol. Ac onid allwn ni y *Cymbru* hepcor dim arian yw prynu hwy, na dim amfer yw manwl chwilio hwy? medd *Solomon, pannaf peth yw doethineb, a'th holl gyfoeth cais ddeall, pryn y gwir ac add,* &c. Dihar. 4. 7. ac 23, 23. Nid yw gorchwylion hwfmon na chreffcwr mor bwysfawr ac achofion tywyfog, etto mynne *Duw* i'r brenin gymeryd hamdden *i fcrifennu Coppi o'r* Deut, 17. 18. *gyfraith mewn llyfr, a darllen arno bunydd, fel y dyfcei ofni yr Arglwydd.* Y mae'r *Saefon* ac eraill fy'n proffeffu'r grefydd Griftnogol mewn dim purdeb, yn odieth o'r cynefin a'r bibl, ac yn nwylâw eu plant y mae llyfrau cyn amled a brechtânau: etto Cyfrifir ef yn *beth dieithr* yn

ein mysc ni, heb ei adnabod, heb ymddiried iddo, na'i goelio, na'i berchi, na'i dderbyn, nag ufuddhâu iddo, na deall rheswm am dano. Nid yw ein cenedl ni wrth natur ddim hurtiach, na mwy anhyddysc na phobl eraill, canys parodol ydym a'r chwedlau digrif, a rhimynnau anllad, a châstiau cyfraith; yn unic arser, ac anwyllis sydd yn ein cadw yn anwybodus o'r da. oh nad ystyriem yr hyn y ddywed doethineb, mae *ffyliaid yw y rhai a ddiystyrant addysc. a bod anwybodaeth yn gwneuthur pobl nid yn unic yn ffyliaid*, ond yn waeth nag anifeiliaid. *Yr ych a edwyn ei feddiannudd, ar assyn breseb ei berchennog, ond Israel anufudd ni chydnebydd yr hwn sydd yn ei borthi.* ie yn garcharion i gythreuliaid *ynghadwynau tywyllwch, Canys collir pobl eisian gwybodaeth.* Ac medd yr Apostol, *i'r rhai colledig y mae 'r efengyl yn guddiedig, y rhai y dallodd Duw y byd hwn eu meddyliau.* Dallwyd ac yna difethwyd y Sodomiaid. Ac fel y mae anwybodaeth yn arwydd, felly hefyd yn achos o golledigaeth, gan beri i bobl wrthod Duw, a dewis y byd a'r pechod o'i flaen ef, eisieu dirnad ei odidowgrwydd ef: *Pes adwaenent ni choes hoelient Arglwydd y gogoniant, ac ni ddewisent un Barabbas o'i flaen ef.* Ac ni thebygent i'r Indiaid Barbariaidd, yn Cymeryd peth mor fregus a gwydr, am yr hyn sydd werthfawroccach nag aur.

Dih. 1. 7.

Isai 1. 3.

Hosh. 4. 6.

2 Cor. 4. 3, 4.

1 Cor. 2. 8.

Nid llai perigl y rhysygus na'r anwybodus. Pa sawl miliwn sydd yn byw mewn gwrthwyneb i orchmynion, ac yn ddiofn er clywed bwgythion y gair? diwed yr scrythyrau, *na ddichon dyn weled teyrnas Ddum oddieythr ei eni ef drachefn, ac na chaiff*

Joan. 3. 3.

anwiri-

awyriaid ffreiddio eiſeddu teyrnas nêſ. Ond gallant
Ruſ.10.16 gwyno ſel hyn, *pwy a greddodd in ymadrodd ni?*
neu ſel yn y ddammeg, *Canaſom libell i chwi,*
Math.11. *ac ni ddawnſiaſoch: canaſom alarnâd i chwi,*
17. *ac ni chwynſanaſoch*; Sef ni threſnaſoch eich
cerddediad, a'ch ymarweddiad ar ôl ein gor-
chwylion hyſcyd, ac ni chymeraſoch drafferth
ddimeinol am bechod, er ein bygythion gofidus
ddim yn awr chwi ddioſaiwyr, ir rhai y mae ma-
ethgen dynion ſel rhuad llew, a ſenn yr ſcryth-
rau ſel breſtiad nen cyffrowch, canys y gair ſydd
ich erbyn, o *Ddaw* y mae. ond os addawch i
Jer.44.28. chwi eich bunain heddwch, er bod *Criſt* yn he-
faru toſter, dywed wrthych ſel yn *Jer. Gewch wy-*
bod gair pwy y ſaif, ai'r eiddo fi, ai yr eiddo chwi.
Nid yw'r ſcrythur ſonn heb dyſtion wrthi, oni
chymerwch ofal i gyflawni y rhwymedigaeth y
eſydd hi arnoch, dioddefwch garchar, trag wyddol
am y fforffed.

4. Chwi oll Sydd yn uſuddhau in ſcryth-
rau ac yn hyderu ar eu haddewidion bydd-
wch ddiwyd ynghylch y pwnc yma, ſel yn
1Pet.3.15 galloch *reddi rheſwm am y gobaith ſyddynoch.* Nid
oes neb na chaiff ei holi gan amheuon yn ei fyw-
yd, a chan *Ddaw* pan fyddo marw. Ar hwn fydd
Grifiion o ran erfer ywriſd yn unig heb wybod
y chwaneg, *ni all ſefyll mewn profiad, na bod yn gy-*
Joan.6.69 *meradwy yn y farn.* Ceiſiwch ddyfnder dyſcyd mewn
gwirionedd ſel y dyſcyblion, *Yr ydym yn credu ac*
2Pet.3.12 *yn gwybod.* A chyda Petr dyſtiolaethu, *mae gwir*
râs Duw yw'r hwn yr ydych yn ſefyll ynddo, ſef mae
gwir athrawieth grâs ach dyſca chwi, a gwir
waith grâs a duedda eich calonnau chwi i hyderu

ar y *Duw byw*, ac i ddisgwil am ei ogoniant ef, a bod yn gyfranogion o honaw. Ac yna mawr fydd eich cyssur, fod Cymaint o dystion cywyr i brofi eich scrisenâdau am etiseddieth deg.

RHINWEDD Y GREFYDD Gristnogol yn gorchsygu llygredigaeth, ac yn Sancteiddio ei gwir dderbynwyr.

CYsiawn, Pur, a Sanctaidd ydyw 'r Goruchaf Dduw, a'r *drwg ni thrig gyda g ef.* Psal. 5, 4. Ac ni *saif* neb *yn ei le Sanctaidd ef, ond* Psal. 24. 3, 4. *y glân ei ddwylo a'r Pur ei galon.* Am hynny y mae 'r Arglwydd yn Sancteiddio ei bobl, yw *gwneuthur yn gymwys i fod yn gyfranogion o etifeddiaeth y Sainct yn y goleuni.* Ac er mynegi nerth ei ras ef yn gweithredu hynny drwy 'r efengyl, rheidiol i ni ystyried ystad halogedig Pawb wrth natur, ac yna yr modd y mae 'r Arglwydd yn galw ei etholedigion allan o honi'w walnoethu ef mewn glendidid butheddol. Col. 1, 12.

Pen. 1. yngbylch Gystwr Pechadurio dynol ryw.

Pan

Pan gafodd ein rhieni Cyntaf (oeddent iachus Unwaith) yr haint bechadurus wrth sefyll yn
Gen. 3. anadl y Sarph Uffernol, Canlynodd y ffiaidd-glwyf anwireddus eu hâd hwy byth. Ar nôs lygredig o fôn y pren, (Sef Adda) a chwerwodd y cangbennau oll, (Sef ei heppil ef) i ddwyn ffrwyth tra deincodus, hynny yw buchedd-dau gwrthwynebus i ewyllis Duw. Ac aeth
Gen. 6, 5, 6. *drygioni dyn yn aml ar y ddaiar, a holl fwriad meddylfryd ei galon yn unig yn ddrygionus bob amser. oni edifarhâodd ar yr Arglwydd wneuthur o honaw ef ddyn ar y ddaiar, ac efe ymofidiodd yn ei galon.* yn aur mae'r llygredigaeth yn hollawl, gan fod pob mâth ar ddynion, a phob rhan o bob dyn,
Rhuf. 3, 9. 10, 11, 12. wrth natur ynddo. *Nid oes neb Cyfiawn, nac oes vn. nid oes neb yn deall, nid oes neb yn ceisio Duw. Gwyraſant oll, aethant i gyd yn anſuddiol; nid oes vn yn gwneuthur daioni, nac oes vn.* y mae pob cenedl dan bechod, Juddewon a Groegwŷr, Barbariaid a Scythiaid. yr oedd *Paul yr Hebræwr o'r Hebreaid, ac enwaededig yr wythfed dydd*, a'r eu-
Phi. 3. 5. lunaddolwyr dienwaededic ymyſc yr epheſiaid yn yr vnrhyw gyflwr Cyn eu troi drwy râs-
Epheſ. 2, 3 medd ef; *bu ein ymarweddiad ni oll gynt yn ehwantau ein cnawd, gan wneuthur ewyllyſiau y cnawd, a'r meddyliau.* mae gwledydd Crêd ac anghrêd, y bedyddiedig a'r diledydd yn yr vn gamweddus anian. yr oedd *Simon y Swynwr* wedi ei fedyddio,
Act. 8, 13. 23. *mewn buſtl chwerwder, ac mewn rhwymedigaeth anwiredd.* Mae y rhai *fy ganddynt rith dwiolbeb ac yn gwadu ei grym hi, yn gyndrwg eu moddion a'r Paganiaid anwybodus*, Sef *yn ariangar, yn feilchi-*

on a

en, yn gablwyr, yn anufuddion i rieni, yn annu- 2 Tim. 3. 2.
wiol, yn angharedic, yn torri cyfammod, yn enlli- 3, 4, 5.
baidd, yn fradwyr, yn waedwyllt, yn faſweddus.
Cyfyd chwyn yn y llafurdir ar ardd, gyſtal ac
yn y tir anial. Cwynodd Duw fyned *ſy Iſrael yn* Ezec. 22,
amhuredd oll. Je gan mwyaf gwaeth yw llygre- 18, 19.
digaethau yr bobloedd fy'n proffeſſu 'r gwir Dd-
uw na rhai 'r enlunaddolwyr. Magodd *Ieruſalem*
ffieiddiach Pechaduriaid *na Sodome neu Samaria,*
ac ymlygrodd yn fwy na hwynt, ac aeth *yn gyſſur*
iddynt. Mae anwiriaid Sion yn Cael mwy o toddi- Pen 16. 2.
on gwybodaeth na chenhedloed eraill, ac wrth 46. 47.
gamarferu eu Cyfarwyddyd, yn myned yn fwy
hylaw ar y drwg, ac yn nês at natur Satan: yr
hwn nid eithai yn ddiatol mor gyfrwys, oni bae
ei fod ef unwaith ynghwmpeini yr angylion gwy-
bodus. Ac yn yr yſtyr hwn gwir yw 'r hên ddi- *Corruptio*
hareb, — *Pa nefaf ar yn eglwys, pellaf oddiwrth* *optimi eſt*
Baradwys. gwaeth yw Phariſeaid na phublicanod. *peſſima.*
A pha genedl bynnag or, anghredaddwy a amly-
gwyd ir oes hon tua chodiad haul neu ei fachlud,
enlyn-addoliaeth, anwybodaeth, ac anwiredd a
gafwyd ynddi. Pob oedran fydd bechadurus, ie- Gen. 8. 21.
vangc a hên. *mae bryd calon dyn yn ddrwg ei ieven-* Eſai, 48, 8.
ctid, a gelwir ef o'r groth yn droſeddwr. y mae bai-
ch o *Ffolineb yn rhwym ynghalon au plant*; yr hwn Dih. 22,
wedi ymddattod a yſtraffa 'r fiordd a gerddont 15.
a direidi ac oferedd; yngymyſc anwiredd gyd a
eu defnydd yn y bru, *ac anewn pechod y beichiogai* Phal. 51. 5.
eu mammau arnynt. A chynyddant ynddo gyda eu
mâintioli: nid anhawdd craffu ar eu cenhedlaeth au
celwydd, au chwannogrwydd i bob atcafrwydd,

Medrai

2 Bren. 2. 2.23. medrai *plant Bethel* watwar prophwyd Duw. a phan dyſont i bybyrwch, rhuthrant ir pechod, yn awyddus *fel y march ir frwydr*; dan ſwrw ewin a-
Jer. 8. 6. fiendid, a chnoi 'r ffrwyn a'i attalio, a myned ar draws y Sawl au ceryddo. Eu hâſ yw amſer eu ieuenctid, bydd blodau ar y drain, a rhoſynnau hyfryd ar y mieri melltigedig, y pryd hyn mae'r an-
Gen. 3. 6. wiriaid yn cael hyfrydwch yn eu drygioni, *a thêg yn eu golwg yw ffrwythau'r pren gwaharddedig*. Lla-
Preg. 11. 9 wenychant yn eu hoiwder, *a rhodiant yn ffyrdd eu calonau, ac yngolwg eu llygaid*, heb yſtyried *y geilw Duw hwynt ir farn am hyn oll*. Ac erbyn yr heneiddiont bydd eu pechodau yn llawer amlach na'i
Jer 4. 22. dyddiau, *a nhwythau yn ddoeth i wneuthur drwg*: ac yn ſeiſtriaid hylaw medrus ar bob crefft ddrygio-
Job. 20. 11 nus *au heſcyrn yn llawnion o bechodau en ievenctid, a orweddant gyda hwynt yn ypridd*. Pob grâdd ar ddynion ſydd anwireddus, mawr a bychan y cyfoe-
Pſ. 10. 4. 5 thog *gan uchder ei ffroen ni chais Dduw, ei ffyrdd ſydd ſtin bob amſer*. gan orthrummu y duwiol yn nyddiau Jago, *au tynnu ger bron brawdleoedd, a*
Jag. 2. 6. 7. *chablu'r enw rhagorol a elwid arnynt*. Y tlawd nid edwyn Dduw a lledrattaiff oddiar ddyn. gwnaiff y gwan yr un drwg yn y dirgel, ac y wnaiff y cryf yn yr amlwg, fel y mae'r ffwlbard yn ei allu mor rheibus ar blaidd. Herwydd hynny dymunodd Agur na chai ef *na thlodi na chyfoeth*; am ſod y llawn yn dueddol *i wadu Duw, ac i*
Dihar. 30. 8, 9. *ddywedyd pwy yw'r Arglwydd?* a'r tlawd i *ledratta, ac i gymeryd enw Duw yn ofer*. Medd y prophwyd
Jer. 5. 3, 4, 5. am ei bobl, *yn ſiccr tlodion ydyw y rhai hyn, ynfydion ydynt*: *Canys nid adwaenant ffordd yr*

Argl-

Arglwydd na barn eu Duw. Mi a aſ rhagof ac y gwyr mawr, ac ymddiddanaſ a hwynt: Canys hwy a wybuant ffordd yr Arglwydd a barn eu Duw. Eithr y rhai hyn a gyd-dorreſant yr iau, ac a daryllieſant y rhwymau. Mae'r pechaduriaeth hefyd gwedi gorchfygu pob rhan o bob dyn, holl gyneddfau'r enaid, ac aelodau'r corph: *Halogrwydd cnawd ac yſpryd yw.* Yn yr enaid y deall yw tywyſog y cyneddfau, fel y mae'r haul yn y ſiurlaſen yn benaeth y goleuadau, etto y mae ef dan eclips du: Mae'r holl genhedloedd *wedi tywyllu eu deall, wedi ymddieithro oddiwrth ſuchedd Duw dmy'r anwybodaeth ſydd ynddynt.* Gwan yw'r deall mewn perhau budol, wrth ſel y bu eyn cwymp Adda. Gorſur ir Arglwydd Dduw wneuthur i ddynion pechaduruſ y diſlad cyntaf, a dyſcu iddynt wiſco am danynt: Abu'r byd uncant ar bumtheg o flynyddoedd heb ſedru gwneuthur llong ar ddwfr, nes i Dduw yn yſpyſol ddyſcu hynny i Noah. Y mae llawer o berhau yn aſleſol i ddynion eiſiau medru oddywrthynt; ni wyr moi hachos, ac nid edwyn moi natur: ſetbriſi lawer llyſieuyn dan ei draed a ſyddai iachus yw gorph eſ pes gwyddai Pa ſodd yw drwſio. Meidr y creaduriaid direſwm o honynt eu hunain lawer o gampau, na ſeidr dyn oddiwrthynt nes ei ddyſcu gan arall: megis y pryf copyn wau, a'r aniſeiliaid nofio i achub en bywyd. Yn ſicr y mae rhai, nid y rhan fwyaf o'r byd, wrth ſtudio llyſiau, a dyſeiſiau'r cenhedlaethau acchant heibio, gyda gymaſer, a phroſiad, wedi myned yn

gyſarwydd

Gen. 3. 21.

Gen. 6. 14.

2 Cor. 7. 1

Epheſ. 4. 18.

2 Bren. 2. 2.23. medrai *plant Bethel* watwar prophwyd Duw. a phan dyfont i bybyrwch, rhuthrant ir pechod, yn awyddus *fel y march ir frwydr*; dan fwrw ewin a-
Jer. 8. 6. flendid, a chnoi 'r ffrwyn a'i attalio, a myned ar draws y Sawl au ceryddo. Eu hâf yw amser eu ieuenctid, bydd blodau ar y drain, a rhosynnau hyfryd ar y mieri melltigedig. y pryd hyn mae'r an-
Gen. 3. 6. wiriaid yn cael hyfrydwch yn eu drygioni, *a thèg yn eu golwg yw ffrwythau'r pren gwaharddedig*. Lla-
Preg. 11. 9 wenychant yn eu hoiwder, *a rhodiant yn ffyrdd eu calonau, ac yngolwg eu llygaid*, heb ystyried *y geilw Duw hwynt ir farn am hyn oll*. Ac erbyn yr heneiddiont bydd eu pechodau yn llawer amlach na'i
Jer 4. 22. dyddiau, *a nhwythau yn ddoeth i wneuthur drwg*: ac yn feistriaid hylaw medrus ar bob crefft ddrygio-
Job. 20. 11 nus. *au hescyrn yn llawnion o bechodau en ievenctid, a orweddant gyda hwynt yn ypridd*. Pob grâdd ar ddynion sydd anwireddus, mawr a bychan. y cyfoe-
Ps. 10. 4. 5 thog *gan uchder ei ffroen ni chais Dduw, ei ffyrdd sydd flin bob amser*. gan orthrummu y duwiol yn nyddiau Jago, *au tynnu ger bron brawdleoedd, a*
Jag. 2. 6. 7. *chablu'r enw rhagorol a elwid arnynt*. Y tlawd nid edwyn Dduw a lledrattaiff oddiar ddyn. gwnaiff y gwan yr un drwg yn y dirgel, ac y wnaiff y cryf yn yr amlwg, fel y mae'r ffwlbard yn ei allu mor rheibus ar blaidd. Herwydd hynny dymunodd Agur na chai ef *na thlodi na chyfoeth*; am fod y llawn yn dueddol *i wadu Duw, ac i*
Dihar. 30. 8, 9. *ddywedyd pwy yw'r Arglwydd*? a'r tlawd i *ledratta, ac i gymeryd enw Duw yn ofer*. Medd y prophwyd
Jer. 5. 3, 4, 5. am ei bobl, *yn sicer tlodion ydyw y rhai hyn, ynfydion ydynt*: *Canys nid adwaenant ffordd yr*

Argl-

Arglwydd na barn eu Duw. Mi a af rhagof at y gwyr mawr, ac ymddiddanaf a hwynt: Canys hwy a wybuant ffordd yr Arglwydd a barn eu Duw. Eithr y rhai hyn a gyd-dorrasant yr iau, ac a ddrylliasant y rhwyman. Mae 'r pechaduriaeth hefyd gwedi gorchfygu pob rhan o bob dyn, holl gyneddfau 'r enaid, ac aelodau 'r corph: *Halogrwydd enawd ac yspryd yw.* Yn yr enaid y deall yw tywyfog y cyneddfau, fel y mae 'r haul yn y ffurfafen yn benaeth y goleuadau, etto y mae ef dan ecclip du. Mae 'r holl genhedloedd *wedi tywyllu eu deall, wedi ymddieithro oddiwrth fuchedd Dduw dmy 'r anwybodaeth fydd ynddynt:* Gwan yw 'r deall mewn pethau budol, wrth fel y bu cyn cwymp Adda. Gorfu ir Arglwydd Dduw wneuthur i ddynion pechadurus y dillad cyntaf, a dyfcu iddynt wifco am danynt. Abu 'r byd uncant ar bumtheg o flynyddoedd heb fedru gwneuthur llong ar ddwfr, nes i Dduw yn yfpyfol ddyfcu hynny i Noah. Y mae llawer o bethau yn affefol i ddyn eifiau medru oddywrthynt, ni wyr moi hachos, ac nid edwyn moi natur: fethriff lawer llyfieuyn dan ei draed a fyddai iachus yw gorph ef, pes gwyddai Pa fodd yw drwfio. Meidr y creaduriaid direfwm o honynt eu hunain lawer o gampau, na feidr dyn oddiwrthynt nes ei ddyfcu gan arall: megis y pryf copyn wau, a'r anifeiliaid nofio i achub en bywyd. Yn ficer y mae rhai, nid y rhan fwyaf o'r byd, wrth ftudio llyfrau, a dyfeifiau 'r cenhedlaethau aethant heibio, gyda'g ymarfer, a phrofiad, wedi myned yn

2 Cor. 7. 1

Ephef. 4. 18.

Gen. 3. 21.

Gen. 6. 14.

gyfarwydd

gyfarwydd ar fatterion daiarol, perthynol ir Coph, megis celfyddydau, hwfmonaeth, llongwriaeth, phyfygwriaeth: ond ni enir y cyfarwyddyd hwn gyda phawb, canys *genir dyn fel ebol Affyn wyllt*, yr hwn yw'r hurtaf o'r milod, eithr cyfrenir ef ir cyfrywac y rhoddo Duw yr athrylith neilltuol iddynt, ac a arferant ddiwydrwydd a phwyll. Ond er cyfarwydded fyddo dynion naturiol mewn achofion budol, maent yn anwybodus mewn pethau nefol. er bod Nicodemus yn ddyfcawdwr, etto Pabanaidd oedd ei ddeall ef am y grâs fy'n Cymhwyfo rhai i deirnas nef. Mae'r anianol fydd cyn graffed eu golugon a'r eryrod mewn pethau amferol, cyn ddalled a'r turchod daiar mewn pethau tragwyddol. Mae *dynion yn llygredig eu meddwl heb y gwirionedd ganddynt. halogedig yw'r diffydd hyd yn oed eu meddwl, au cydwybod*; yr hon ni wnaiff mo'i fwydd, eithr cyfcu yn lle ceryddu'r pechadur rhyfygus. Dyna'r cyneddfau godidoccaf yn yr enaid, ac oedd a mwyaf o ddelw Duw arnynt; gan fod eu Swyddau i ddirnad ac i farnu, ac i reoli pob peth. Mae llygaid ein corph ni o ddefnydd godidoccach na'r aelodau eraill, mor loiw a meini gwerthfawr neu Sêr y ffurfafen. Beth ynteu ydoedd rhagoriaeth golugon yr enaid? etto yn aur mae'r fagddu wedi dyfod trofftynt, a nhwythau wedi tywyllu yn drift: er eu bod yn bwrw peth llewyrch wrth eu cynhyrfu; fel y difcleiria darn o arian ond ei rwbio, er darfod i ddelw'r brenin wifco ymaith oddiarno. Cyndrwg yw'r Coffadwriaeth ar gydwybod. *Anghofia dyn yr Arglwydd ei wneuthurwr. Nid yw Duw*

Job. 11. 12

Joan. 3.

1 Tim. 6. 5
Tit. 1. 15.

Efai. 51. 13.

Duw yn ei holl feddyliau ef. A gwrandawr anghofus Pſal. 10. 4.
yw ynghyfraith y Goruchaf. A'r ewyllis yn waeth Jag. 1. 24.
na'r deall *gan gaſau yda, a hoffi y drwg.* Coſleidia 25.
'r ſerch drachwantus y drygau hynny y bo'r me- Mic. 3. 2.
ddwl a'r gydwybod yn ei warafun i ddynion. Mae
rhai *yn gwybod Cyfiawnder Duw, (fod y rhai ſy yn* Rhuf. 1.
gwneuthur y cyfryw bethau yn haeddu marwolaeth) 32.
ac ydynt nid yn unig yn gwneuthur y pethau hynny,
eithr hefyd yn cydymfodloni a'r rhai ſy yn eu gwneu-
thur hwynt. Dylai'r deall reoli 'r ewyllis; ond yn
awr collodd ei awdurdod, a gwnaiff y deiſyfia-
dau llygredig a fynnont er gwaetha iddo ef. Yn
yr anhreſn hwn mae'r gweiſion gwrthryfelgar
hyn ar ſeirch, a'r tywyſog ar draed, ie ar lawr.
wrth ei gwymp aeth dyn ai ben tano, ai ſol yn
uchaf, (ys drwg yr yſtum) trêch yw ei chwant
nai reſwm. A thra fo'r ſenn yn tynnu'r wêdd
dros dorlennydd, tyrr y ddau eu gyddfau.

Mae pechod yn teyrnaſu yn y corph marwol,
ac yn mynnu uſudd-dod iw gyſraith oddiwrth yr
holl aelodau. y rhai y mae'r pechadur *yn en rheddi* Rhuf. 6.
i fod yn arfau angyfiawnder, ac yn weiſion aflendid, 12. 19.
ac anwiredd. Cyniwer drygioni i mewn ac allan
drwy 'r llygaid. *Plant y felldith ſydd ai llygaid yn* 2 Pet. 2.
llawn godineb, yn llythio'r anwadal. Derchafodd 14.
yr Aiphties ddigwilidd *ei golwg ar Joſeph*, a dy- Gen. 39. 7.
wedodd, *gorwedd gyda mi. nid oes ofn Duw oſtaen* Rhuf. 3.
y llygaid. Drwy 'r cluſtiau daw i mewn *ym ddi-* 18.
ddanion drwg a lygrant foeſau da. Wrth edrych ar 1 Cor. 15.
y ſirwyth gwaharddedig, a gwrando ar hudo- 33.
liaeth y ſarph, daeth anwiredd gyntaf i galon Gen. 3. 4.
dyn: ac ni pheidiodd mwy a thramwyo drwy 'r 6.

Synhwyrau

Jag.3.5.6. Rhuf.3.15 Synhwyrau hynny. y tafod ſydd aelod bychan, ac yn gwneuthur drwg mawr, *tân ydyw, byd o anghyfiawnder. Bêdd agored ydyw'r gêg*, ac arogl erchyll gyda'r lleſerydd yn dyfod oddiwrth gorph marwolaeth, Sef y burgyn yn y galon: megis goganair, a chelwydd oddiwrth falais a chenfigen, Serthedd oddiwrth anlladrwydd, melldith a chabledd oddiwrth wyn. y bolyw tryſſordy anwiredd, a phob cell o honaw yn llawn Camwedd. yn ei ſtaiclloedd vchaf, ſef y galon a'r cylla y preſwylia'r chwantau byſaf, ac yn yr

Jer.17.9. 2 Brenh.2, 19.21. math.15, 19.20. iſaf ſef y grôth y rhai aniſeilaidd gwaelaf. *y galon ſy ddrwg diobaith, a mwy ei thwyll na dim*; ac ſel ffynhonnell Jericho yn bwrw allan ddyfroedd drwg. o'r hon *y mae lladdiâdau, a chablau yn dyfod allan, a'r pethau ſy'n halogi dyn* A'r cylla ſel ogof Cacus, ſy a llawer o yſpail ynddo. Llynclyn yw, lle boddiff llawer o greaduriaid Duw. ynddo y mae *merched y gele* (ſef glochineb a-

Dihar. 30.15. meddwdod) *yn llefain moes, moes.* y grôth yw ſuglen vffern, lle'r aiff pob anifail anllad yn ei vnllam, lle y glyn, ac y trig yn eſmwyth, *nes deſcyn i ſhaſelloedd angau.* mae y rhannau dirgel yn

Dihar.7.8 Epheſ.5. 12. Rhuf.3. 15. Eſai.3.16. cenhedlu llawer mwy o bechodau, nac o bechaduriaid. er llnoſocced ydyw'r byd, ai brunti yn gwyllidd ei ſynegi. Rhedir ir drwg yn nerth y traed, *yrhai ſy ſuan i dywallt gwaed*, ac i walnaethu balchder. Pan *falchiodd merched Sion rhodiaſant a gwddf eſtynnedic ac a llygaid gwammal, gan rodio a rhygingu wrth gerdded, a thryſtio ai traed.* Gweiſion diwyd, a milwyr dewr i lygredigaeth ydyw'r dwylo. y rhai a *ddychymygant*

anwiredd

unwiredd ar eu gwelâw, pan oleuoy boreu gwnant ef, am ei fod ar eu dwylo. pob nn ſydd yn hela ei frawd a rhwyd; gofynnant am wibr i wneuthur drygioni a'r ddwy ddwylo yn egniol. Mic. 2. 1, ac pen. 7. 2, 3.

Am hynny y gweddiodd Dafydd *na ddeued troed balchder im herbyn, na ſyfled llaw'r annuwiol fi.* Pſal. 36. 11,

Mae gweithrediad y llygredigaeth hwn yn erbyn pawb, ſef Duw, a dynion, a dyn ei hun. Ymadawiad oddiwrth y Duw bendigedig, a throſeddiad oi ewyllis ſanctaidd ef ydyw natur felldigedig pechod. *Syniad y cnawd ſydd elyniaeth yn erbyn Duw, nid yw ddaroſtyngedic yn ddeddf ef, er i Ddaw wneuthur o nn gwaed bob cenedl o ddynion, i breſwylio ar holl wyneb y ddaiar ſel y ceiſient yr Arglwydd, os gallent ymbalfalu am dano ef, a'i gael, er nad yw ef yn ddian nppell oddiwrth bob un o honom, oblegyd ynddo ef yr ydym ni yn byw yn ſymmud, ac yn bod.* Rhuf. 8. 7, Act. 17. 26, 27. 28. Etto eſeulyſa dynion eu gwneuthurwr. 'ac yn lle *ymbalfalu am dano ef*, a cheiſio dyfod o hyd iddo ef wrth deimlo ei ddaioni ef yn y creaduriaid ſy dan eu dwylo, (megis dilyn ffrwd oni ddelet ar y ffynnon) *dywedant wrth Ddaw cilia oddiwrthim ni, canys nid ydym yn chwennych gwybod dy ffyrdd:* ie *Câs ganddynt ef.* Ac anniolchgar, a thaenog ydyw eu moddion tuag atto ef. Ganys er cael o honynt ei haelioni ef yw cynnal, ai porthi beunydd, a bod yn naturiol dalu diolch am roddion, a'r naill gymwynas am y llall; etto *ni ddywedant yn eu calon, ofnwn weithian yr Arglwydd ein Duw, yr hwn ſydd yn rhoi y*

Job. 21. 14. Rhuf. 1. 30. Jer. 5. 24.

glaw Cynnar, ar diweddar yn ei amſer: efe a geidw i ni ddefodol wythnoſau cynhaiaf. Pan welo'r Arglwydd *ei elyn yn newynu mae'n borthi ef,* Cynifer gwaith ac y *ſychedo rhoddiff iddo ddiod.* Ond nid yw'r *marwor tanllyd a bentyrrir* felly *am bennau* dynion, yn toddi moi calonnau i garu eu hymgeleddwr, ond annuwiol ſyddant. Ac maent nid yn unic heb arſer eu rheſwm yw troi eu bunain at Dduw, eithr heſyd ai rheſymmau yn ymladd yn ei erbyn ef: gan ddangos achoſion da (yn eu tyb eu hunain) i'w cadarnhau yn eu gwrthryfel; ac yw barnu eu hunain yn eſcuſodol, er na wnelont y petb a geiſio ef, ac yn ddiogel eu helynt er ei fwgythion ef: *dywedant pale y mae addewid ei ddyfodiad ef? Canys er pan hunodd y tadau y mae pob peth yn parhâu fel yr oeddynt o ddechreuad y creaduriaeth. Nid edwyn y byd trwy ei ddoethineb mo* Dduw. Ond berniff ei waſanaeth ef yn rhodres. *Pa beth ydyw'r Hollalluog fel y gwaſnaethem ef? a pha ſudd fydd i ni os gweddiwn arno?* fel hyn y mae pechaduriaid yn anghydſynio a'r hyn a amlyger iddynt o ewyllis Duw, ac *yn elynion iddo mewn meddwl,* gyda'g mewn chwant. Hyd y maent *yn adnabod Duw nis gogoneddant ef megis Duw, ac ni byddant ddiolchgar iddo, eithr ofer yn eu rheſymau, ac nid yw gymeradwy ganddynt gadw Duw yn eu gwybodaeth.* Dyma'r achos o'r camgymeriad ſydd mewn pobl ynghylch pethau Duw, gan dybied y pechod ffieiddiaf yn rhinwedd o'r buraf. tybiodd yr Juddewon gwrthnyſſig eu bod yn gneuthur gwaſanaeth cymeradwy ir Arglwydd wrth wrthod

Rhuf. 12. 20.

Luc. 14. 18, 19, 20.

2 Pet. 3. 4.

1 Cor. 1. 21.

Job. 21. 15.

Col. 1. 21.

Rhuf 1. 21. 28.

Chriſt

Christ, a lladd ei weision ef. Camsyniant seddwl Duw yn ei farnedigaethau. pan gospwyd Juda am eulunaddoli, ac arogldarthu i frenhines y nefoedd, dywedasant hwy ir aflwydd ddigwydd iddynt am adel eu heulunod heibio. a'r un fath gam-ystyriaeth a roddir ar scrythyrau, a thrugareddau Duw, a hynny a faga rysyg pechadurus, ac heresiau peryglus. *yn lladd, yn godinebu, a thyngu, deuant ger ei fron ef, a dywedant, rhyddhawyd ni i wneuthur y ffieidd-dra hyn oll.* gan *wyrdroi 'r scrythyrau iw dinistr eu hunain.* Mae 'r ewyllis mor elyniaethol i Dduw, ac yw'r meddwl. gan garu 'r *creadur yn fwy na'r creawdwr yr hwn sy fendigedig yn dragywyddol.* Nid digon gan y gaion buttreinaidd adel a gwrthod ei Harglwydd, ei phriod cyntaf, ai gwneuthurwr, eithr hefyd wedi troi ei chefn atto ef, cymer y gweision yn ei lê ef yw monwes oflaen ei lygaid ef. Gadewiff i'w Harglwydd *sefyll* y tu allan *wrth y drws, a churo, oni lenwer ei ben a gwlith, a'i wallt a defnynnau'r nôs.* er maint o ddagrau a wylodd ef, ac o ddefnynnau gwaed a gollodd ef, yw hynnill hi atto ei hun, etto hi ddywed yn ystyfnig *Cerais ddieithraid, ac ar eu hòl hwynt yr af.* Ni chaiff Duw mo fyfyrdodau 'r deall, na deisyfiadau 'r serch, ond y byd a'r cnawd ai caiff hwynt yn rhwydd. gwnaiff y meddwl *ragddarbod dros y cnawd er mwn cyflawni ei chwantau ef,* ac *aiff y galon ar ol cybydd-dod.* Ar gwasanaeth sy ddyledus ir gwir Dduw yn unic, a dynnir oddiwrtho ef yw roddi i ryw eulun teimladwy. Gwnaiff yr awyddus ddelw oi dryssor, ai olud. yr

Joan. 16, 2.

Jer. 44. 18, 21.

Jer. 7. 9. 10 2 Pet. 3. 16.

Rhuf. 1. 25

Datc. 3. 20 Can. Sol. 5. 2.

Luc. 19. 40

Jer. 2. 25.

Rhuf. 13. 14.

Ezec. 33. 31.

hwn a addoliff, ac a berchiff ef, gan offrummu iddo ei ofal, ai ddiwydrwydd, ai ddymuniad, a cheriff ef megis y daioni pennaf, yn yr un modd ac y mannai'r Duw Goruchaf i bobl ei garu, sef *a'r holl enaid, ac a'r holl feddwl*. Gwasnaethiff ef yn hollawl, fel nad allo ryngu bôdd yw Greawdwr, gan na ddichon neb *wasnaethu Duw a Mammon*. hyderiff arno yn lle Duw; gan *osod ei obaith mewn aur, a dywedyd wrth aur coeth fy 'mddiried wyt. llawenychiff am fod ei olud yn fawr, ac oblegyd iw law gael llawer.* Am hyn dywed yr apostol, fod *cybydd-dod yn eilunaddoliaeth*. Eraill *en Duw yw eu bol*, ir hwn yr aberthant lawer o fwyd, ac y tywalltant lawer o ddiod offrwm, ir hwn y canant sawl yw en heglwysydd sef y tafarndai. y rhai *fy gyfryw ni wasnaethant yr Arglwydd Jesu Grist, eithr eu bol eu hunain*. Ac ymben isaf cafell Baccus Duw'r meddwdod a'r trythyllwch, y mae allor Fenus eulun yr anllad. atto y cyrchiff y cyfryw ac fy'n *caru mefyscwant yn fwy nac yn caru Duw*. Aberthir iddo nid yr eiddil ar nychlyd, ond yr iachaf, a'r cryfaf a'r glanaf. a chaiff gymmaint o felysgerdd yn ei addoliad, ar ddelw euraidd yn amser Nebuchodonosor, neu ac oedd yn y deml yn amser Dafydd, y masweddwyr a *ddarcanant gydâ llais y nabl, dychmygant iddynt eu hunain offer cerdd, megis Dafydd*. ie llawer medrusach ydynt ar byngcio dyriau anllad yn y twmpathau chwareu, nac ar ganu psalmau a llais peraidd, ac a chalon bur i'r Arglwydd. fel hyn y gedi dynion

Math. 6. 24

Job. 31. 24, 25.

Col. 3. 5.

Phil. 3. 19.

Rhuf. 16. 18.

2 Tim. 3. 4

Dan. 3. 5.

Amos 6. 5.

y

y bywiol Dduw, ac y *gwnant ffiaidd bethau sy gàs ganddo*: ac y gwasnaethant dduwiau gwael; nis gall mo'i hachub yn eu cysyngder. *Ni thyccia golud yn nydd digofaint, a chyfoeth a cheda ymmaith. y bwyd ir bol, ar bol ir bwydydd. Ond difethir hwn a hwythau. aiff dull y byd a'r cnawd heibio, ai chwant hefyd.* Aiff y rhwd a'r pryfed beunydd yn feistraid ar y duwiau hyn; etto nid arser dyn mo'i reswm i gydnabod nad y rhain a haeddau ei usudddod es; mwy nar eulunaddolwyr yn amser Esai, y rhai a *addolent y naill ran o'r pren*, y lloscasid y darn arall o hono. *ni feddyliai neb yn ei galon i ddywedyd, lloscais ran o hono yn tàn, ac a wnaf y rhan arall yn ffieiddbeth, a ym grymaf i foncyff o bren?* Tra niweidiol i ddynion ydyw gweithrediad y llygredigaeth hwn. gan eu gwneuthur fel bleiddiaid wrth eu gilidd, ie yn waeth nag eirth, y rhai ni rwygant eu rhyw eu hun, er iddynt ysclyfaethu creaduriaid eraill. ond llâdd y naill ddyn y llall. *llawn yw tywyll leoedd y ddaiar o drigfannau trawster. a thosturi y drygionus sy greulon.* Tommennydd o gelaneddau, a charneddau dinasoedd dinistriol, ac anghyfannedddra teyrnasoedd ydyw 'r cwysiadau sy'n dangos ôl gwaith y natur felltigedic ymbob oes, a gwlâd. *o bale y maerhyfeloedd ac ymladdau onid oddiwrth chwantau?* Nid amheuthun clywed y byd yn ochain fel Merch Sion, *gwae si oblegyd deffygiodd sy enaid gan leiddiaid*, ie difetha

Jer. 44. 4.
Dih. 11. 4. ac 23. 5.
1 Cor. 6. 13.
1 Joan. 2. 17.
Esai. 44. 19.
Psal. 74. 20
Dih. 12. 10.
Jag. 4. 4.
Jer. 4. 31.

pobl eu gilidd yn fradychus fel y gwnaeth Joab
2 Sam. 20. 9, 10. ag Amasa. eb ef, *a wyti yn llawen fy mrawd?* a rhoddes y naill law am ei wdd ef i ymgaredigo ag ef, mal na ddaliai ar y cleddyf ydoedd yn y llall i ollwn ei berfedd ef. gan ddallu ei lygaid ef a chuffan, tra fu yn ei drywanu ef dan y bumed ais. A llawn yw'r ddaiar o odinebwyr a halogant gyrph ac eneidiau eu gilidd, ac a wnant nadroedd yn wiberod. Pan
Job. 31. 9, 12. *dwyller y galon gan wraig i gynllwyn wrth ddrws cymydog*, prifia yn *dân a yfla oni artheithio*; *ac a ddadwreiddia'r holl ffrwyth.* Ac yn fynech bydd y ddau anwiredd echryfion hyn fel mwrdwr a godineb, wedi eu cwplyfu ynghyd fel dwy afr uffernol. os merch ievanc fydd y buttain lleddir y plentyn. os priodol
2 Sam. 11. lleddir y gwr; ac os Bathfheba a ymdroiff mewn aflendid, rhaid i Urias ymdreiglo yn ei waed. Nid diogel yftâd neb gan *ladron yn torri drwodd ac yn lledratta*: Aml yw yfpeilwyr a thwyllwyr mewn amryw ddull: y cyfrwys boneddigaidd a
Eſai. 10. 2. orthtumant yn dangneddefus; *gan ymchwelyd y tlodion oddiwrth farn, fel y byddo gweddwon yn yſpail iddynt, ac yr arhreithiont yr ymddifaid.* Marchnattawyr a gyrhaeddant eu gilidd yn dwyllodrus, gan abwydo eu bachau a geiriau têg ac allwon. Dûa enlibwyr (y rhai ni buont teirw
Pſal. 52. 1. gyda Doeg yr Edomiad) enwau eu gilidd a buftl cenfigen, ac anair. *hoffant eiriau deſtryw*, ac au tafodau twyllodrus torrant efcyrn eu cymydogion. nid heb achos y cwynodd y prophwyd gan ddywedyd; *Trwy dyngu, a dywedyd celwydd, a lâdd celain, a lledratta, a thorri priodas,*
Hoſh. 4. 2.

y maent yn torri allan, a gwaed, a gyffwrdd a gwaed. Ac medd yr apl fod y cenhedloedd wedi *eu llenwi a phob angh, fiawnder, godineb, anwiredd, yn llawn cenfigen, llofruddiaeth, cynnen, twyll. yn hustyngwyr, yn athrodwyr, yn drahaus, yn dorrwyr ammod. Yn angharedig, yn anhyngarogion.* ie nid allai pobl mor byw wrth ystlys eu gilidd, oni bae fod rhagluniaeth Duw yn attal llawer ar weithrediad pechaduriaeth y rhai nid yw yn eu Sanctaeiddio. Mae ef yn dofi'r llewod, heb eu troi yn ddefaid. nid yw ef yn newid eu naturiaeth hwy, ond ei gwarhâu yn unic. *Yr hwn a ofododd y tywod yn derfyn ir môr rhuadwy, a wharddiff gynddaredd dyn.* Felly pan erlidiodd Laban ddiclon ar ol Jacob daith saith niwrnod; ai oddiweddyd ef ai dylwyth, dywedodd wrthynt; *Mae ar fy llaw i wneuthur i chwi ddrwg. Ond Duw aith â'ch a lefarodd wrthif neithwyr, gan ddywedyd, cadw arnat rhag yngen wrth Jacob na da na drwg.* A chwedi pan ddaeth Esau a phedwar Cant o wyr i ddial colled ei anedigaeth-fraint ar ei frawd Jacob, ydoedd yn eu hofni yn ddirfawr, yn llawn walit gwaed diferodd ddagrau; gan gofleidio a chuffanu ei frawd. Attelir godineb hefyd. Pan ydoedd Abimelech brenin Gerar ar gymeryd Sarah iddo ei hun, rhy buddiodd Duw ef mewn breuddwyd rhag hynny, gan ddywedyd wrthoi ef, *mi ath attelais rhag pechu i'm herbyn: am hynny ni adewais iti gyffwrdd a hi.* Y mae Duw yn arferol o anfon rhwyftrau oddiallan, neu argyhoeddiadau oddifewn, i luddias i bobl gyflawni cwbl oi drwg amcanion, mae'n ffrwyno eu ewyllis, neu yn nac-

Rhuf. 1. 29, 30, 31.

Jer. 5. 22. Pfal. 76. 10.

Gen. 31. 23, 29.

Gen. 33. 3. 4.

Pen. 20. 2, 6.

1 Sam. 23. 26, 27, 28. câu achlysur iddynt. Megis pan ddarsu i *Saul a i wyr amgylchynu Dafydd ai wyr yw dala hwynt; daeth cennad* atto ef gan *ddywedyd, bryssia a thyred, canys y Philistiaid a ymdanasant ar hyd y wlâd. Am hynny dychwelodd Saul o erlid ar ôl Dafydd, ac efe aeth yn erbyn y Philistiaid*. Amser arall daeth yspryd prophwydoliaeth arno, ac yn lle

1 Sam. 19. 22, 24. pen. 24. 16, 27. dal Dafydd, *Syrthiodd i lawr a flaen Samuel*, a chwedi wylodd wrth Ddafydd, a dywedodd, *cyfiawnach wyti nâ mysi*. Swyddogaeth, a rheolaeth ymmhlith dynion ydyw'r Argae gyffredin sy'n cadw i mewn anoddyn pechadurieth rhag boddi a llwyr ddifetha'r byd. Ordeiniodd Duw awdurdod

Rhuf. 13. 3, 4. i fod *yn ofn i weithredoedd drwg, ac yn ddialudd llid ir Sawl* ai gwnelont. Ond pan dorro'r argae hon, megis y digwydd weithiau mewn rhyfeloedd, ni dichon dim sefyll o flaen ffrwd anwiredd. Wrth gymeryd tresydd ni bydd arswyd ar y gorchfugwyr ymlenwi a llofruddiaeth, go-

Barn. 17. 6 ac pen. 19. 1, 25. dineb, ac yspail. a phryd *nad oedd brenin yn Israel*, digwllidd oedd yr eulunaddoliaeth a'r aflendid a amlhâodd yn eu mysc. A pha amser bynnag y digio Duw, achospi'r drwg drwy adel i bobl wneu-

Rhuf. 1. 26, 27. thur gwaeth, *ai rhoddi i fynu i wyniau gwarthus*, pechant yn annaturiol, ac yn dra pheryglus i ddynol ryw. Anasus yw 'r llygredigaeth hwn

Dihar. 8. 36. hefyd i ddyn ei hun. gan ei fod wrth bechu *yn gwneuthur Cam ai enaid ei hun*. ac yn dwyn tân

1 Cor. 7, 9 1 Pet. 2. 11. yn ei fonwes ai llysc mewn môdd anoddefus yma. y mae *chwantau cnawdol yn rhyfela yn erbyn yr enaid*, ac yn rhoddi iddo lawer o friwiau gofidus, ac wrth eu cyflawni yn ei ddifetha ef, er gwerth-

fawrocced

fawrocced yw. Ar godinebwr *Sy'n pechu yn erbyn ei gorph ei hun.* a thrwy aflendid yn ei ddifwyno ai wanhychu ef. er diwedd gwnaiff y pechod iddo *ochain wedi iw gnawd ai gorph gurio.* Brycha ei henw ef hefyd: *archoll a gwarth a gaiff ef, ai gywilidd ni ddeleir. enw pob drygionus a bydra.* ystym wradwyddus y mae 'r pechod yn ei wneuthur ar ddynion, Ac megis a diodydd y ddewines Circe, y mae'n troi 'r naill yn fochyn drwy feddwdod, ar llall yn arth drwy wyn ddiclon, ar trydydd yn afr drwy anlladrwydd, a'r pedwerydd yn dwrch daiar drwy gybydd-dod i ymdroi yn y pridd, ac nid anaml iddo beri i ddyn ei lâdd ei hun i ddibenu ei ofid amserol, ac i bryssuro 'r penyd tragwyddol, fel y gwnaeth i Saul a Judas.

Dihar. 6. 32. 1 Cor. 6. 18. Dihar. 5, 11. ac pen. 6, 33. pen. 10, 7.

Pen. 2.

Truenus yw Cyflwr dynion o herwydd eu pechadurieth, gan eu bod yn gaeth weision i Satan, a phechod. *Y spryd diafol sydd yn gweithio* (nid yn segura) *ym mhlant yr anufudd-dod.* ni chant lonydd ganddo heb eu gyrru o'r drwg bigilidd. y rhai *anwir sydd fel y mòr yn dygyfor, pan na allo fod yn llonydd, yr hwn y mae ei ddyfroedd yn bwrw allan dom a llaid.* Gwynt profedigaeth, ai gynhyrfiad naturiol ni edi i fôr llygredigaeth gael gorphwystra, Onid bwrw allan ryw aflendid beunydd. gwael yw'r gwasanaeth pryd nad iw'r pen meistr ei hun ond carcharor *mewn Cadwynau tywyllwch. Aphwy bynnag sydd yn gwneuthur pechod y mae ef yn wâs i bechod, ac yn wasnaethwr llygredigaeth.*

Epes. 2, 2. Esai. 57, 20. 2 Pet. 2, 4. Joan. 8, 34

Canys

Canys gan bwy bynnag y gorchfygwyd n eb i hwnw hefyd yr aeth ef yn gaeth. Yma y gwelwn y meidr
2 Pet.2.19 pechod lywodraethu a llaw gref megis cwncwerwr pedfae raid. Ond mae dynion yn eu rhoddi eu
Rhuf.6.16 hunain yn weision iddo oi gwirfodd, er nad yw
2 Pet.2.22 ond budredd cyn frunted a *chwdfa ci*. A dyn, yr hwn a wnaethpwyd yn benaeth ar y creaduriaid gweledig oll, fydd yn cymeryd ei feistroli gan yr anifeiliaid oi fewn, sefei drachwantau. a
Luc.15.2. chwedi gadel ty ei dâd nefol, gorfydd iddo *borthi môch* bruntion, a dwyn diffyg pob peth da. Ac mae'r gwasanaeth hwn mor galed (yn enwedig tua'r diwedd) ac yw wael. gan ei fod yn ddi-
2 Pet.2.14 hamdden, *Plant y felldith ni fedrant beidio a phe-*
2 Tim.3,6 *chod* eithr cant eu *llwytho* ag ef, *ai harwain gan amryw chwantau*. tynn cybydd-dod hwynt y naill ffordd, a balchder ffordd arall. Aml yw'r gofidiau, anhunedd a'r doluriau a ddigwydd od-
Dihar. 23. diwrth ymarferion drygionus. *i bwy y mae gwae?*
29,30. *i bwy y mae gwelîau? i bwy y mae ochain? ond ir*
1 Tim.6. *neb sydd yn aros wrth y gwin.* y rhai sydd *chwannog*
10. *i ariaugarwch, a'u gwanant eu hunain a llawer o*
Dihar.6. *ofidiau.* A rhaid i gefn, ac weithiau i escyrn yr
26. afradlon ddioddef dros ei fol; ac ir aflan *oblegyd y fenyw buteinig* ddwyn eisiau *bara*. Y mae brunti pechadurus yn llawn o nadroedd, *a'u colynnau yn eu cynffonnau.* Yn niwedd direidi pechod y mae mileindra, a chwerwedd bustlaidd yn gymysc a gwaddod ei win, a hynny a brofiff cydwybod pob enaid. tra enbydus hefyd yw cyflwr pechadurus. Wedi ei bwrw iw cholli yn llys y Barnwr Cyfiawn Hollalluog. *digofaint Duw a ddatcu-*

ddwyd

ddwydd o'r nêſ yn erbyn pob annwioldeb, ac anghy- Rhuf.1,18
fiawnder dynion, ac maent oll wrth naturiaeth yn
blant digofaint. ie *melldigedig yw pob un nid yw yn* Ephes.2,3.
aros yn yr holl bethau a ſcrifennir yn llyfr y ddeddf
i'w gwneuthur hwynt. Y felldith a adroddodd
Duw yn erbyn Adda ſydd etifeddiaeth i'w holl
heppil ef, a barhânt yn yr unrhyw anaſudd-dod.
ai llîdiawgrwyd ſydd yn torri allan arnynt yn y
byd yma drwy flinderau a phoenau corphorol:
helbulon a *gofidiau amlhânt i rhai a fryſſiant ar ôl* Pſal.16.4.
Duw dieithr. yn chwys eu hwynebau y bwyttânt
fara. Ac os rhyw Sodomiaid a ſwyttânt fara Se- Gen.3,19.
guryd, (fel y caiff lladron a llofruddion wedi eu
bwrw ddigon o ſwyd a diod tra fônt) etto ni
ddiangant rhag dolur, er iddynt ochelyd llatur.
yr Arglwydd ſy'n taro pobl anaſudd â *chlefydau,*
â *darfodigaeth, ac* â *chryd poeth,* â *diflanniad, ac* Deur.28,
â *mallder,* à *chornwyd, ac* à *chrâch* o'r *rhai ni* 22,27.
ellir moi iachâu, eithr dilynant hwynt nes eu difetha.
A bydd dolur mor ſanwl i benydio pob rhan o'r
corph, ac yw pechod yw llygru. Swyddog digo-
faint yw ai gleddyf noeth yn trywanu pob aelod
lle mae anwiredd yn rheoli. Curiff y pen dichell-
gar a gwaiw, a chnoiff y bol nwyſus a gwewyr;
a berwa'r galon ddrygionus a phoethder, ac yſſi-
ga'r lwynau anllad a chrynſa: a chanlyniff ar ei
elyn nes ei guro ir bêdd, a gwneuthur ei deg-
wch mor ffiaidd *a'i dom,* a'i hoiwder yn ſwyd i Job.20,7.
bryfed. y rhai ſyddant cyn hyfed a bwytta ei wy-
neb ef wrth ei ddanedd; er uched oedd ei drem,
a mileinied ei guwch yn ei ſywyd. er eu gwaeled
ânt yn drêch nag ef ynghweryl au creawdr. a

thaerach

2Sam. 20. thaerach fyddant na *Joab* wrth *erlid ar ol Seba mab Bichri i ddinas Abel*, canys nid ymadawant ai gelyn nes *torri ei ben* a bwytta ei galon hefyd, *am iddo ddercha fu ei law yn erbyn y brenin nêfol.* ond nid yw clefydau na phryfed cyn dofted wrth y Corph ymma, ac yw'r cythreuliaid wrth yr enaid anrafol yn y byd arall: gan ei fod yn fyw fyth, ac yn deimladwy oi friwiau. pwy ond ai profodd, all ddeall ei fraw wrth gymeryd ei godwm ir gagendor du? a'r gofid a ddigwydd iddo yno oddiwrth lofciad y tân aniffoddadwy, a brathiad y pryfed anfarwol yn y gydwybod: ni fedrai'r apoftol Sanctaidd adrodd ychydig eiriau ynghylch diwedd y rhai Sy'n rhodio yn elynol i Grift, ond *dan wylo*, herwydd tofted eu deitfyw. ynteu ynfyd yw'r pechadur ymlowio mewn gwaith brwnt i ynill *tryfor o ddigafrint*, a *marwolaeth yn gyflog* yn niwedd ei ddydd. ni wyr dilynwyr anwiredd pa ddydd, pa awr, y Cymer angau afel arnynt yw dihenyddio, ac yw rhoddi i boenau didrancedic. Nid yw'r Swyddog diarbed hwn arfer o atos ond ychydig am y rhan fwyaf o honynt, ond eu Cippio ymmaith cyn *barnerw eu dyddiau*. a hynny pan fo amheuaf ganddynt, fef oddiwrth eu gweleddoedd danteithiol, ir ffwrn danllyd dragwyddol. lle ni chânt ddetnyn o ddwfr yw hoeri, gan dreifnu iddynt gyfnewid chwith. *felly y dam dydd yr Arglwydd arnynt fel lleidr yn y nôs* (yn ddiarwybod, ddirybudd.) Canys *pan ddywedant tangnedd yff a diogelwch, yna y mae diniftr difymmwth yn dyfod ar eu gwartha megis gwewyr eforr ar vn a fa*

Phi. 3. 18. 19. Rhuf. 2. pen. 6. pfal. 55. 23. Luc. 16. 1 Thef. 5. 2. 3.

beichiog:

beichiog: ac ni ddiangant hwy ddim. Cymmerant dy-
mpan a thelyn, a threuliant eu dyddiau mewn dai- Job. 21,
oni, ac mewn moment y descynnant ir bèdd. teflir y 12, 13.
naill ir geuffos ddiwaelod oddiar ben ei orsedd,
a'i rwysc, fel lleidr oddiar yr yscol; ar llall oi nyth
clyd. *Fel petris yn eistedd ac heb ddeor, yw yr hwn* Jer. 17, 11
a helio gyfoeth yn anheilwng: yn hanner ei ddyddiau
y gedy hwynt, ac yn ei ddiwedd ynfyd fydd. Ar
gôsp a oeder oddiwrth ymbell un, a fydd tostach
pan ddêl. a braich digofaint adynner yn ôl, ac a
attalier ennyd, a dery yn drymmach gwedi, *a'r* Esai. 65,
pechadur yn fàb canmlwydd a felldithir. 20.

Pen. 3.

Glyn pechaduriaid yn dynn yn y Cyflwr anwi-
reddus hwn er ei fod mor druenus, ac anhawdd ar-
uthr yw tynnu neb allan o hono. *Delir yr annuwi-* Dihar. 5,
ol a rhaffau eu pechodau. glynant mewn twyll; gwrth- 22.
odant ddychwelyd. Cadarn yw *maglau Satan, a* Jer. 8, 5.
rhwymedigaeth anwiredd. ni all neb eu torri ond
yr Hollalluog Dduw yn unic. medd Crist *ni dd-*
ichon neb ddyfod attafi, oddiethr ir Tâd ei dynnu
ef. y mae pob dyn yn gorwedd mor ddiymmod Joan 6,
yn ei ddrygioni, ac yw'r marw yn ei fèdd, neu 'r 44.
glwth yn ei wely esmwyth, gan ei fuo ei hun â Eph. 2, 1,
gweniaeth ei galon i gyscu'n ddiosal fel Jonas
er bod dialedd yn effro uwch ei ben ef. ac fel
gwyr Lais yn trigo mewn diogelwch, er bod dinistr Baru. 18,
yn agos atto. A megis Balaam ni wel môr cled- 27.
dyf daufiniog noeth, sefdicter y Goruchaf, y
Sydd yn erbyn ei wyneb ef yn ei ffordd ddrwg. Num. 22.
eithr aiff ymlaen yn hyf, ac a lowia

bob

bob petrusder, fel y gwnaeth y Consuriwr hwnnw i'w allyn ofnus: gan *ymnerthu yn ei ddrygioni* yn galonnog: *heb edifarhâu i roi gogoniant i Ddaw*; na cheisio newid ei gyflwr anianol am un grasol, am fod ei bechod yn yscafn ganddo. ie mor hyfryd ganddo ymdroi yn ei frunti mewn llwyddiant, ag yw gan y *mochyn ymdreiglo yn y dom* ar dês. A rhediff dan neidio ar hyd *y ffordd lydan* (tra caffo hi yn dêg, ac yn ddihelbul) er ei bod *yn arwain i ddestryw* ymhen y daith. Cymer ei bleser ai rwysc gyda ei gymdeithion yn yscafnder ei galon; a chweri suglen donnen uwchben y pull diwaelod, er na bo ond llinin brau o fywyd bregus yn ei ddal es. dawnsia yng-hadwynau 'r cythrael, a chyflawna'r ddihareb, *mae chwerthin a wna ynfyd yn boddi. Ymddigrifa'r anwir yn eu twyll eu hunain.* Ar bobl lygredig fel Israel bechadurus gynt, *a eisteddant i fwytta ac i yfed, ac a gyfodant i fynu i chwarae.* Neu fel Belsazzar ai gydwleddwyr a'r ordderchadon *yfant win, a moliannant y duwiau o aur, ac o arian, o haiarn, o goed, ac o faen* (fel eu golud, a'i tai ai tiroedd) er bod Duw *wedi rhifo* eu hawddfyd hwy, ac yn barod yw gorphen, a chwedi *eu pwyso hwynt yn y cloriannau, ai cael hwynt yn brin.* Neu megis y bu yn nyddiau Noah a Lot, ac y bydd yn nyfodiad Crist; y maent *yn bwytta, ac yn yfed, yn gwreica, ac yn gwra, yn prynu, ac yn gwerthu, yn plannu, ac yn adeiladu*, er bod diluw o ddigofaint yn barod yw boddi hwynt, a thân anniffoddadwy yn ei waelod yw berwi hwynt oll dros byth. fel Nero maent yn canu er bod

Pfal. 52.7. Datcudd. 16.9.

2 Per. 2.22

2 Pet. 2.13

Exod. 32.6

Dan. 5.1, 3, 4, 26, 27.

Luc. 17.26, 27, 28, 29.

eu

eu dinas yn lloſci. Ac nid oes hyſrydwch yn y byd well ganddynt, na'r hwn ſo mwyaſ pechadurus. cyſododd Judas oddiar ei ſwpper, er bod yno ymborth gyſſurus, i gwplau'r brâd a roddaſai Satan yn ei fwriad ef. Hoffach ydoedd gan y dynion cyntaf y ffrwyth gwaharddedig, na'r holl aeron eraill a dyfai ym Mharadwys, er daed, ac amled oeddent. A'r un naturiaeth ſydd yn eu heppil hwy' byth: y rhai a dybiant *ddyfroedd lledrad yn felus, a bara cudd yn beraidd.* mae'r godinebwr yn ymddigrifo mwy yn y wraig ddieithr, nag yn yr eiddo ei hun. *a'i gweſuſau ſy gyſtal ganddo a'r dil mèl, er bod ei diwedd yn chwerw fel y wermod, ac yn llym fel cleddyf daufiniog*, i ofidio ei galon ef ryw ddydd. A chan ſod y fath gariad rhwng y cnawd a melyſdra pechod, anhawdd fyth eu gwahanu yn y byd yma. Cryfaf cwlwm yw un y ſerch bleferus. *Pan dynner un, ac y llithier ef gan ei chwant ei hun, yna chwant wedi ymddwyn a eſcor ar bechod, a phechod pan orphenner a eſcor ar farwolaeth.* yma y gwelwn na ollwn chwant moi afel hyd farw. Am hynny ni yſcarwyd rhwng y gwr goludog ai faſwedd beunyddiol nes ei fyned i boenau Uffern. Y rhai ſy'n *cyfrif moethau beunydd yn hyfrydwch, ni fedrant beidio a phechod, ac a ddiſethir yn eu llygredigaeth.* Y rhai a ymddigrifant mewn anwiredd, *ac ânt i mewn at y fenyw eſtronaidd wenheithus, ni ddychwelant, ac ni ymaflant yn llwybrau y bywyd.* Ac os cychwyn rhyw un cnawdol ymadel â chwrſe drwg, mwyniant pechod ai tynn ef yn ôl. Canys chwantau'r cnawd

Joan. 13. 30.

Dih. 9. 17

pen. 5. 3, 4, 20.

Jag. 1. 14, 15.

Luc. 16. 19, 23.

2 Pet. 2. 12, 13, 14.

Dih. 2. 14, 16, 19.

a thrythyllwch a ddena *y rhai a ddiangasei unwa-*
2Pet. 2.18 *ith oddiwrth y rhai sy'n bym ar gyfeiliorn.* Ac ni
ddwg llawer o wrandawyr *ffrwyth*
ἡ ἡδονὴ δέλεαρ *i berffeithrwydd*, am fod *melyswedd*
Luc. 8, 14 κακῶν. *buchedd* yn eu gorchfygu, ac wrth
eu cofleidio yn eu tagu hwy. llith
pechod yw difyrrwch, Tros amser *llawenycha'r*
Jer. 11, 15 anwir *pan wnelant ddrwg*, ac ymglywant yn esm-
wyth mewn buchedd annuwiol: *ac yn ddiogel*
Job. 12, 6. er eu bod *yn cyffroi Duw.* a chwedi
* ἀπηλγη- myned yn * *ddiofid ymrôant i wneu-*
Ephes. 4, 19. κότες. *thur pob aflendid yn unchwant.* A pha
yscafnaf, peryclaf yw cyflwr pecha-
duriaid, ac auhawsaf ei dwyn at iechydwriaeth.
Pan fo un yn glâf o gryd poeth, ac yn ymlefe-
rydd, yn ymrwyfo, yn codi ac yn canu heb
deimlo ei ddolur, dir yw fod ei fywyd ar antur
mawr. yr achosion o ddiofalwch pobl yn eu he-
lynt anianol anwireddus sydd amryw. yn gyntaf
eu hanwybodaeth ai diosala. ni wyddant mor bûr
yw natur Duw, ac *môr gàs gan ei enaid ef* anwi-
redd, ac mor flin ganddo ei oddef; eithr o her-
Esai 1, 14. wydd eu bod hwy yn cael oed, ac ymwarcd gan-
ddo ei (y ganhiedir iddynt er mwyn eu denu hwy
at râs, a chael o honynt annogaeth ac amser i
edisarhâu) tybiant ei fod ef yn fodlon iddynt.
am ei fod ef yn ddieddefgar wrthynt. Medd
Duw wrth yr annuwiol *pan welaist leidr cyttunaist*
Psal. 50, 18, 19, 21. *ag ef, a'th gyfran oedd gyda'r godinebwyr gollyngaist*
dy safn i ddrygioni; hyn a wnaethost a mi a dewais.
tybiaist dithen fy mod i yn gwbl fel ti dy hun. Ac o
herwydd na wneir barn yn erbyn gweithred ddrwg yn
fuan

fuan, am hynny calon plant dynion sydd yn llawn Preg.8.11.
ynddynt i wneutbur drwg. a diystyrant oluddaioni
Duw, a'i ddioddefgarwch, a'i ymaros, heb wy- Rhuf.2.4
bod fod ei ddaioni es yn eu tywys i edifeirwch. Ynfy-
dion ydynt heb ganfod y gofid hîr a ddwg y pe-
chod ar ol hyfrydwch byrr.sel dynion oi cof er-
gydiant oi hamgylch bentwynion tanllyd o be-
chodau trachwantus mewn direidi. heb ragwe-
led y perigl a ganlyn. *dall ydynt heb weled ym-*
hell, nag yn gallu *edrych hyd ddiwedd yr hyn a*
ddeleir. Yn ail, anghrediniaeth a wna'r anra-
sol yn rhysygus. Ni choeliant mor gwaethaf
am danynt eu hunain, nag am neb a garant.
Tybiodd rhai o wyr Sodome mae *cellwair* yr Gen. 19.
oedd Lot, pan adroddodd iddynt mor becha- 14.
durus, ac mor beryglus oedd cyflwr eu di-
nas; ac y cynghorodd hwynt i fyned allan o
honi. Am hynny ni syflasant oddiyno nes
eu defetha â thân. Nid yw cynghorion; na
rhybuddion yn cynhyrfu meddyliau pobl, tra
fônt heb eu *cyd-tymheru a ffydd yn y rhai ai* Heb.4,2.
clywant. er i Dduw anfon prohwydi i argy-
hoeddi yr Juddewon gwrthnyssig oi drygioni,
ac o'r destryw i ddyfod onid edifarhâent; et-
to ni ddywygiai 'r anwireddus moi ffyrdd,
am na *choelient y deuei 'r gelyn i mewn i byrth* Galar.
Jerusalem. Ac er nad oes ganddynt wir Jer.4.12.
ffydd i fwgythion gair Duw, mae ganddynt goel
grêf i addewidion eu calonnau twyllodrus eu Deut.29.
hunain; gan *ymfendithio a dywedyd, heddwch* 19.
fydd ini, er i ni rodio ynghyndyn rwydd ein
calonnau, i chwanegu meddwdod

dod at ſyched, a chwedi bwyttá cegid pechod, tybiant y gallant ddringo ir nêf. Addawodd y *gelndog* iddo ei bun *eſmythara* ar ei yſcafnau llawnion *dros lawer oſtyny ddoedd, ar y noſon y ducpwyd ei enaid oddiarno*. Yn drydyd, ddiyſtyriaeth ai diofala hwy. Ni chymerant hamdden i edrych oi mewn, nag i bwyſo eu cyſtyrau wrth glorian y cyſſegr, nac yw meſur eu hunain wrth yr yſgwir union, ſef ewyllys ddatcuddiedig Duw yn yr ſcrythyrau. *Nid edifarhant am eu hanwireddau* eiſiau eu holi eu hunain, *gan ddywedyd, beth a wnaethom ni?* ac os *edrychant eu wynebpryd naturiol yn nrych* y gair, ânt ymmaith ar eu hynt, ac yn y man *anghofiant pa fath oeddent, gan gymeryd yn ddiyſtyr* yr hyn a ddywedo gweiſion y brenin nefol wrthynt; *a myned ymmaith un yw faes, ac arall iw faſnach*. a gadel i ofalon y byd wthio ymmaith ſeddyliau'r yſpryd: fel y gyrr y naill hoel y llall allan. Ac felly mae agos bob bancrwt y ſydd ar ſyned i'r carchar du tragwyddol, yn ddiofn, eiſiau iddo gymeryd amſer i fwrw ei gyfrif. Yn enwedig ni feddyliant beth ſydd diwedd eu bucheddau. *Aſſendid Jeruſalem ydoedd yn ei godreu*, am nad oedd hi *yn meddwl am ei diwedd*. mae'r godinebwr yn canlyn y buttain *fel yr yeh yn mynet ir lladdfa*. (Yr hwn ni feddwl am ei berigl) *ac fel yr aderyn yn pryſſuro ir fagl heb wybod ei bod ynerbyn ei einioes ef*. ie ni oſodant at eu calonnau mo'r barnedigaethau diniſtriol a dywallto Duw ar eraill o flaen eu llygaid hwy. *Yn eu gwleddoedd y bydd y delyn, a'r bibell, a'r gwin: ond am waith yr Arglwydd nid edrychant, a gweithred*

Luc. 12, 18 20.

Jer. 8, 6.

Jag. 1, 23, 24.

Math. 22, 4, 5.

Galar. 1, 9

Dihar. 7, 22, 23.

Eſai. 5, 12.

ei

ei ddwylaw ef nid yſtyriant. Balch, moethus, a dioſalydoedd Babilon, er iddi weled cuſtudd Sion. Medd Duw wrthi, *halogais, a rhoddais fy ettifeddiaeth yn dy law di. A dywedaiſt byth y byddaf Arglwyddes Felly nid yſtyriaiſt, ac ni chofiaiſt ei diwedd hi.* er i Dduw ddwyn ei gôſ oddiar Nebuchodonoſor, drahaus, ai ddoſcyn o orſeddfa ei frenhiniaeth, ai yrru i drigo ymmyſc Aſſynnod gwyllion i ymborthi ar welit y ddaiar; etto Belſazzar ei fâb ef *ni ddaroſtyngodd ei galon er gwybod o hono ef hynny oll*: ac ni anrhydeddodd Dduw. Cela'r gydwybod ei fai oddiwrth y pechadur heſyd, a hynny ai diogela ef. er i Dduw ordeinio yr-gallu hwn yn yr enaid i wneuthur ſwydd cyfiadur, ſef i roi pob peth a wnelo dyn i lawr yn erlyſir, ac i fod ſel gwiliedydd yw rybuddio o bob perigl; etto *cuſc* hwn *ar ben yr hwylbren*: a gad ir llong ddryllio, ac iw llwyth golli. Ac os digwydd iddo chwrnu peth drwy ei hûn, ac aneſmwytho'r enaid a cherydd, troir ef ar y tu arall, at ryw londer a eſmwythâo ar ei guſtudd ef, ac a rhyw ſelyſtra irir ei bibellau ef, ſel na chwtho cyn arwed. Pan ddywedodd Cain *fod ei anwiredd ef yn fwy nat y gellid ei faddeu*, aeth i wreica, ac i adeiladu dinas, ac ni dderllenir am ddim ychwaneg oi gwyn ef. A phan ſlinwyd Saul gan yſpryd drwg dyhuddodd cerddoriaeth ef dros amſer ac os llwyddiant amſerol diguſtudd (yr hyn yw cynhyſcaeth y baſtardiaid) a wnaiſſ y gwely yn glyd, dywed y bydol *wrth ei enaid, cymer dy eſmwythâra.* A phan oreurer ei hyffetheiriau, ymſalchia ynddynt, ac ni chlyw ddim caethiwed oddiwrthynt: aphan *frâsbâo'r*

Eſai. 47, 6, 7.

Dan. 5. 18, 21, 22, 23.

Dih. 23, 34.

Gen. 4, 13, 17.

1 Sam. 16, 23.

Heb. 12, 8.

Luc. 12. 19.

galon

Act.28 27 *galon mewn llawnder ni chlywant au clustiau, ac ni welant au llygaid ddim* ai dychwelo at Dduw,
Jer.2,31. eithr dywedant wrtho ef, *Arglwyddi ydym, ni ddeuwn ni mwy attati*. Gyda hyn y mae dynion yn ddiflin yngwaith camwedd oblegyd eu bod yn arferol ag ef. Milo wrth arfer dw. yn llô ar ei gefn bob dydd oddiamgylch ma, es yn Rhufain, ai dug ei yr un mödd pan aeth yn ych. wrth ymhyfrydu mewn pechodau llai, a bachgenaidd, daw pobl er diwedd i glywed yn efmwyth bechodau mwy a diafolaidd. Nid ambara mör anwiredd arnynt, am eu bod yn gynefin o ymrwyfo ynddo. Ac o herwydd eu bod hwy yn eu helynt drofeddus er pan aned hwy, nid yw hynny chwithach ganddynt, na chan yr Affriciaid eu duedd naturiol; na chanddynt ronyn fwy matter oi newid am wynder. Medd y prophwyd, *a newidia'r Ethiopiad ei groen? neu'r llewpard ei frychni?* *felly chwithau a allwch wneuthur da, y rhai a gynefinwyd a gwneuthur drwg*. Mae Satan hefyd yr hwn fydd yn cadw *meddiant* ymhob enaid diadgenedledig, yn twyllo pechaduriaid, fel y gwnaeth a'r rhai cyntaf, i beri iddynt, dybied na chânt *farw eithr bod megis duwiau*, er iddynt dorri gorchmynion Duw. Ac megis y gwnaeth i Ananias, *mae ef yn llenwi eu calonau i ddywedyd celwydd yn erbyn yr yspryd glân*. Ac i addaw'r nèf iddynt eu hunain, er bod Duw yn bwgwth eu bwrw i Uffern. Meidr ef Siomi, a *llygadtynu* ei ddeiliaid i goelio 'r peth ni bo, ac i *anufuddhau ir gwirionedd*. Gan

e consuetis non fit passio.

Jer.13,23.

Act.26.18

Gen.3,4, 5.

Act.5, 3.

Gal. 3,1.

fwrw,

fwrw hûd dros eu llygaid i weled pechod yn brydferth, a gras yn afreidiol. Ac wrth edrych drwy ei Spectôl au ef, cânt weled y cam wedd du yn ddiyrrwch gwyn, a gwyrdd. *Dengys iddynt ogoniant y byd*, a mwynuant pechod, a dywed wrthynt *hyn oll a roddaf i chwi amfy addoli i*: a chaiff ganddynt ei goelio ef yn eu calonnau, (megis y cafodd gan Efa) i *ofod en gobaith ar gelwydd.* Tros amfer, ni buwrach cra fonf byw, caiff yr *anwiredd ynfyd amynol dyn* (*y rhai a wnaed yn dal ac yn difetha*) borthiant wrth eu bodd ym mhreſeb y cigidd uffernol hwn. ie cofa a gogleſia bwynt drwy byfrydwch pechadurus, nes dyfod amſer ei fanau iddo i ſratiu ei gyllell yn eu gyddfau, ac a gaiff anbraethadwy i drywanu eu calonnau, a hwyrwedi eu rhwymo cyn dynned nas gallont ddiange oi grafangau ef. yna *difethir hwſpeiyd nis he gwaredydd.* Mae'r hen larph yn gyfrwys, ac yn cafu ei malais, nes cael amſer cymwys yw gyflawni. fel Jael gwnaiſſ ymgeledd ir hwn y bwriado ef i ſtadd a'r gâch grafangog hon a chwen a'i yſtlyſaeth cyn ei lyngcu. os penydiai Satan gydwybodau pobl anwireddus yn amſer eu bieuyd ai bywyd, ni hwyrach fyddau iddynt geiſio newid ei meiſtr a throl at Dduw. Am hynny ni ddywed ef un gair bagar wrthynt, ac ni ſoddiſ un meddwl arwyn oi mewn hwynt, hyd awr angeu agos, pryd y cyfyd ef, ſod drws trugaredd wedi ei gau: ac yno wedi iw wahoddedigion ef yſed y gwin, rhydd iddynt y gwenwyn oedd ynghadw ganddo yn gwaelod ei gwppan. Ond yn y cyſamſer wedi ir pyſcod

Math. 4, 8, 9.

Eſai. 28, 15.

2 Pet. 2, 12.

Barn. 4, 18.

yhſyd ſyngcu ei abwyd ef, maent ynglyn, ac yn chwareu wrth ei anwair ef, *Βασιλικὸν ἰχθύδιον*, mal nas cant ymadel. ac mae'r *αὐτὸς ἐν* 1) *ni* adar a ddenwyd a pheiſwyn *in* 2 Tim 2. 26. *ſidbλ-ν ὑφ' ἑαυτοῦ ζωγρεῖσθαι εἰς τὸ ἐκείνου θέλημα*, *ſagdau ef, ſlle delir hwynt ganddo wrth ei ewyllus ef*,) yn cael eu hattal gan eu rwydau ef, nas gallant ymgodi rua'r net. Eithr canant yn ſiriol yn ei gewyll ef wrth ei fodd yn eu coleddu gyſtal yma, ac yn cuddio oddiwrthynt y peth iyddi ddyfod ar ol hyn. Rhydd *wenwyn ar lefrith* iw genau hwn, fal nad allont ennyd archwaethu chwerwder y naill, gan felyſdra'r llall i hyfrydiff eu geneuau, cyn cnoi eu calonnau. *dulla eſſeddyliau'r* 1 Cor. 4. 4. *dyn ſâl*. Rhydd lwgwd ar lygaid ei feirch porthianus rhag iddynt dderchrynu wrth weled y pethau y ſydd o ddaulu'r ffordd bechadurus, ai daflu eſi lawr cyn dyfod i ben y daith. Tafarnwr twyllodrus yw diafol, a rydd *y gwîn goreu'n gyntaf*, a chwedi meddwi o'r cwmpeini mal nas gallont na John. 2. 10. chodi na cherdded oddiwrtho ef, yna *rhydd idd, nt yr hyn a ſyddo gwaeth*. Dengis y neidr hon ei thorri ſraith i yntydion, a chuddia ei cholyn oddiwrthynt, nes dyfod yn agos at wrèa y ffwrn fawr, ac yno ybraith a chrwy'r cyſtrywiau ſoddion y Datc. 12. 9. mae hi *yn twyllo'r holl fyd*. Yn enwedig pan ddigio Duw wrth bechaduriaid yn angerddol, eiſiau iddynt ufudhâu iw gynghorion, a'r alwad ef, a dywedyd, *nid ymryſona fy yſpryd* i a'r dynion Gen. 6. 3. hyn *yn dragywydd*. (ſel y rhydd meiſtr y ſwydd i fynu o gynghori gweiſion pengaled na thyccio dywedyd wrthynt) a rhoddi o honaw ef genad

ir

in yſpryd eu lwyddog yw twyllo, ac yw gorchfygu hwy
ànt i fynu meuno rhyfyg ac ddrwg y neſ, ſel Ahab
i Ramoth Gilead, ac oddiyno fyrthiant i Uffern. *Ac am na dderbyniaſant gariad y gwiriondd ſel y*
byddent gadwedig, enſyn Duw iddynt (drwy law
angel du) *anrhyſuſſedd cadarn ſel y credont gel-*
wydd, ſel y buaſent yr holl rai nid oeddynt yn credu
ingwiriondd, onddyn ymfudlonii meuno anghyfiawnder. Felbyn y gwelwn mor gryfion yw agwiriaidyn eu llygredigaethau, gan *mantheision ein ca-*
lonau ſel yr Adamant, a'u hwynebau yn galetach
na chraig, a *gwrthod dychwelyd*. y mae Satan
a'r cnawd wedi ade iadu ynddynt *geſtyll* cryſi-
on, a dalfau uchel *o reſymiadau* a gwyniau *yn ym-*
godi yn erbyn gwybodaeth Duw. Ond yw yn
hardu annill un enaid ac ddoethant *na dinas gadarn*.
A gwelh cwnc wervr yw'r *bara neolo ei yſpryd*
eihun, a'rhun a temtilo ddinas. Yn mhob oes cy-
llodd y milwyr dewraf y ſeddai Duw ar y ddaear
eu bywyd, wrth geiſio curo i lawr y dalfau hyn
trwy arfau yſprydol, ſef cynghorion, a bwgyrho-
on. Ac ychydig a ddaroſtyngwyd i ufuddodi
Criſt mewn i cyffelybiaethoit rhai a ddiabalant
allan yn eu gwrthryfel, a chaledwch calon. Y
rhai ſel y *Lefiathan a dorrent gledyf yn lwyr ai ta-*
rawai, ac a gyfrifent haiarn fel gwellt, a pherei
felpren pridd. Nin pharn Sacchau'r apoſtolion
a'r prophwydi iddynt offer, *pi cellau a gyfrifent fel*
Seſtydd, a chwarddent wrth yſgwyd gwaiwffyn. A
chan fod yn *marigaiad yn wyſtad gwrthwynebu*
yn yſpryd Glân, ac fel Herodias torrent y pen ai
ceryddai oi hanwiredd. bradychent, a diſethent

1 Bren. 22. 20.

2 Theſſ. 2. 10, 11, 12.

Zech. 7, 12. Jer. 5, 3.

2 Cor. 10. 4, 5.

Dih. 18, 19.

pen. 16, 32.

Job. 41, 27, 28, 29.

Act. 7. 51.

Marc. 6.

Luc.21,16. blant, a brodyr, a chyfeillion os ceisient sefyll
ar eu ffotdd hwy yw rhwystro i fyned ymlaen
Jer.6,10. mewn Cwrse drygionus. Am hynny y cwynodd Je-
remi, *wrth hwy y dywedaf fi, a phwy a rybuddiaf,*
fel y clywant? wele dirmygus ganddynt air yr Ar-
Esai.5,14. *glwydd, nid oes ganddynt cwyllis iddo. Ac o her-*
wydd hynny yr ymhengodd Vffern, ac yr agorodd ei
Joan,5.40 *Safn yn anferth, ac yno y descyn y lliaws* anwired-
dus *ni fynnent ddyfod* at Crist *fel y caffent fywyd.*
eithr pan gaffent gyngor i geisio rhyddhad od-
diwrth wasanaeth pechod drwy râs Crist, dywe-
dai pob un agos fel y *gwâs pryn a briodasid yn*
nhy ei feistr, hoff genisi fy meistr, nid afi allan yn
rhydd. gellir dywedyd am bob pechadur diedi-
Exod.21,5 feiriol trachwantus, ymborth ar *lydw y mae, calon*
Esai,44, *siommedig ai gwyrdrôdd ef, fel na waredo ei enaid.* ac
20, ni thyccia mâth yn y byd ar foddion i droi pobl
yn gyffredin, sef y colledig at Dduw, ni chynhyr-
fant at ddaioni er clywed yr scrythyrau. pan
ddarllenwyd prophwydoliaeth Jeremi ofiaen Je-
hojacim a'i dywysogion, ac iddynt glywed tair
Jer.36,6, dalen neu bedair o honaw, *torrodd y brenin y lly-*
23,24. *fr, ac a'i taflodd ir tân. etto nid ofnasant, ac ni*
rwygasant eu dillad, na'r brenin, nac yr vn oi wei-
sion, y rhai a glywsant yr holl eiriau hynny. Mae
haelioni Duw yn lle ei hennill hwy atto ef, yn
ei gwneuthur hwy yn llawer gwaeth yn ei er-
byn ef: pa iachaf, a Chryfaf, a chysoethoccaf a
fyddont hwy, mwyaf a fydd eu godineb, a'i
trais, a'i annuwioldeb. *ni wrandawant* y peth a
ddywedo

ddywedo Duw wrthynt *tra fo'n esmwyth arnynt.* Jer. 22, 21
Mae eu Calonnau daiarol hwynt yn caledu pa
deccas y bo'r haul nefol yn tywynnu. Ni men-
diant er Custudd chwaith. medd y prophwyd
am ei genedl. *O Arglwydd ti ai tarewaist hwynt, ac*
nid ymofidiasant: difeaist hwynt, eithr gwrthodas- pen 5, 3.
ant dderbyn ceryad. fel pyllau drewllyd maent
yn sawrio mwy ac yn llwydo yn waeth wrth eu
cythryblu. aeth calon Pharaoh yn galed fel yr
enion dan forthwylion Duw. Nid all arfau Swy-
ddogion ond yscythru rhai o ganghennau llygre-
digaeth eu deiliaid, ac nid ei dynnu o'r gwraidd.
periff eospedigaeth Cyfraeth i bobl attal peth ar
eu drygioni rhag torri allan yn gyboeddus, ond
yn y Cysamser mae yn llynio oddifewn, ac yn
rhedeg yn y dirgel, ac yn rhy fynech yn yr am-
lwg besyd, er bod Dasydd yn frenin da, me-
thodd ganddo wneuthur ei ddeiliaid felly. me-
gis y gwelwyd yngwrthryfel Absalon. am
hynny cwyniff wrth yr Arglwydd gan ddywe-
dyd. *afonydd o ddyfroedd a redant o'm llyga-* Psal. 119.
id, am na chadwasant dy gyfraith di. Ni ddi- 136.
chon rhieni wrth fagu a dyscu eu plant, ddy-
wygio 'r natur lygredig a gyfranasant iddynt
wrth eu cenhedlu. *Ni wrandawodd Hophni a*
Phineet annuwiol ar lais Eli am y mynnei 'y Argl-
wydd eu lladd hwynt. yr ydoedd eu tad yn wr 1 Sam. 2,
da, parchedig, oedranus, ac yn offeiriad Duw, 25.
etto gwrthodasant ei gyngor ef iw destryw. Me-
thodd gan y propwyd Samuel

Samuel (ydoedd ei hun yn rasol oi ieuenctid) gael gan ei feibion ofni Duw, wedi iddynt fyned yn wyr, ac iddo eu gosod yn farnwyr ar Israel.
1 Sam. 8, 1,3. *Ni rodiasant yn ei ffyrdd ef, eithr troesant ar ol cybydd-dra, a chymerasant obrwy, a gwyrasant farn.* Digia 'r naill frawd wrth y llall, oni chydtynnant
Gen. 4. 4. 8. at anwiredd er i Abel addoli Duw yn gymeradwy nis gallodd ddwyn ei frawd Cain i wneuthur felly. Nid yw meistraid duwiol yn cael moi cyngor yn drêch nai gweision anrasol. er bod Gehezi
2 Bren. 5. 2.20. yn wâs i Eliseus gwr Duw dros gryn amser, a gweled o honaw y rhyseddodan a waethai 'r prophwyd Sanctiaid hwnw, a chlywed cymaint oi gynghorion ef, etto ni adawodd moi gybydddod ai gelwydd. Gorfydd ir naill gymydog wylo am gamwedd y llall, heb allu ei droi ef at ddaioni, eiriolodd Lot yn daer ar ei gyd-ddinas-
Gen. 19. 7. wyr na wnaent ddrwg, ond ni wrandawsant arno nes eu disetha 'â chân. Achan na fynn pechaduriaid mo 'i puro, nid heb achos y cwynodd y prophwyd gan ddywedyd, *cyndyn o'r fath gyndynnaf ydynt oll, llosodd y fegin, yn oser y toddodd*
Jer. 6. 28, 29, 30. *y toddudd, canys ni thynnwyd y rhai drygionus ymmaith, yn arian gwrthododic y galwant hwynt, am wrthod o'r Arglwydd hwynt.* Ac nid rhysedd clywed pregethwr cydwybodus yn gryddsan eisiau gweled ffrwyth ei lasur ymysc ei wrandawyr, ac yn cydnabod, *fod Adda hên yn rhy gryf i efangylwr ievangc.*

Pen. 4.

Pen. 4.

Llwyr y dylai un ofidio wrth ystyried anaflu pawb i lanhâu natur ddynol sydd wedi ei diswyno, fel yr wylodd Joan o achos *na chaed neb yn deilwng i agoryd y llyfr* ydoedd wedi ei *selio*. Ac nid rhyfedd fod cyn anhawsed gan y prophwydi duwiol gynt fyned ar wasanaeth cyn berycled, ac yw ceisio gorescyn llygredigaeth dynion drwy air Duw. Medd Moses *ni chredant i mi, ac ni wrandawant ar fy llais. o Arglwydd ni bum wr ymadroddus, danfon attolwg gyda'r hwn a ddanfonych.* nid ai Janas dros drigo i bregethu yn Niniveh. ac medd Jeremi, *ni fedraf ymadrodd, Canys bachgen ydwyfi.* Ac nes i Dduw roddi calonnid ryfeddol ynddynt, Arswydent ofod ar lygredigaeth y byd, fel yr ofneu'r Israeliaid y Cawr o Gath, ac y ffôent rhagddo ef. ond beth yw'r pechod? *A phwy yw'r Philistiad dieuwaededig hwn, pan wradwyddsi efe fyddinoedd y Duw byw?* Wele dywed Duw wrth yr enaid Custuddiol dan bechod fel yr henuriad wrth Joan, *nac wylât yllew o lwyth Juda, gwreiddyn Dafydd a orchfygodd.* Crist Jesu mab Duw, a gymerth ei fywyd yn ei law, ac a Safodd yn ymaes i dorri pen Goliath, i lâdd pechod, i fwrw allan yr yspryd aflan, ac i waredu'r gwir Israeliaid, yw gwneuthur o gaethweision llygredigaeth yn blant i Dduw, ac yn frenhinoedd i reoli ar eu holl drachwantau. Ac er bod cestyll pechaduriaeth yn dra Chrysion ym mhawb, ac yn anorescynol yn yr eneidiau gwrthodedig, etto ordeinwyd arfau ysprydol *nerthol trwy Dduw yw bwrw ir llawr* yn y rhai etholedig. er

Datc. 5. 4. 5.

Exod. 4. 1. 10. 13.

Jer. 1. 6.

1 Sam. 17. 24 26.

2 Cor. 10. 4

caletted

Jer.23,29 Caletted calonnau pechaduriaid gwnaiff Duw ei
air iddynt *megis tân, ac fel gordd yn dryllio'r gra-*
ig. Ac enynniff y fâth odyn wreffog yn eu
Cydwybodau, ac y beriff ir *galon garreg* ymo-
llwng mor feddal, ac mor wyn a'r Calch,
i'r *geuyn haiarn yn y warr* ystwytho, ac ir
Esai.48,4. *prês yn y talcen* doddi. A phrifia'r *efengyl yn*
Rhuf.1.16 *allu Duw er jechyd wriaeth i bob vn ar fydd yn*
Credu, ir Juddew ar Groegwr hefyd. A r ym-
Jacor.1,18. *adrodd am y groes ir rhai colledig ynfydrwydd yw;*
eithr ir rhai Cadwedig nerth Duw ydyw: a wn-
Rhuf.5.20 aiff nad *arglwyddiaetho pechod arnynt, ac na*
Gen 6,14. *bont dan felldith y ddeddf eithr dan râs. a lle'r*
amlhâodd pechod, rhagor amlheiff grâs. A
Gen.8.1,2. *deddf yspryd y bywyd yn Ghrist Jesu sydd yn rhyd-*
dhâu'r gwir Gristnogion oddiwrth ddeddf pechod
a marwolaeth, i beri iddynt rodio nid yn ôl y Cnawd,
eithr yn ôl yr yspryd. gan eu hachub drwy olchiad
yr adenedigaeth, a'u troi o dywyllwch i oleuni,
Tit.3,5. *ac o feddiant Satan at Ddnw. fel y derbyniont fa-*
Act.26.18 *ddeuant pechodau, a chyfran ym mysc y rhai a*
Sanctelddwyd. Ac er mwyn hyn mawr jawn yw
'r pethau a wnaeth yr Arglwydd Jesu dros ei
etholedigion, ac y wnaiff ef ynddynt. Diodde-
fodd drostynt a hwy yn elynion iddo. iw prynu
oddiwrth gaethiwed diafol, a phechod, a'r dia-
ledd dyledus iw hanufudd-dod hwynt. Llwyr *bry-*
Gal,3,13. *nodd hwynt oddiwrth felldith y ddeddf, gan ei wne-*
uthur yn felldith drostynt. a chymeryd y gôsp
arno ei hun; sef tlodi yn ei fywyd, *heb lê i rod-*
di ei ben, gwradwydd yn ei henw, *cyfrifwyd ef*
gyda'r anwir; gofid yn ei enaid, ydoedd
yn

yn anfon allan ocheneidiau trymion o waelod ei galon, ac *yn drist hyd angeu*: blinder a gwewyr yn ei gorph, yn bendifaddeu tra yr oedd wedi ei drywanu a'i hoelio ar y groes, lle y dioddefodd hoen marwolaeth erchyll. Ar Cwbl er talu jawn i gyfiawnder ei Dâd am y camm a wnaethau, neu a wnelau pechaduriaid iw fawrhydi ef, ac yw gymodi ef a'r edifeiriol credadwy; Sef i droi digofaint Duw oddiwrthynt hwy, a thynny yr gelynieth a fae yn ei erbyn yntef, allan oi calonnau nhwythau. a gwneuthur y Duw nefol, a dynion vfudd ffyddlon yn heddychol, ac yn anwyl iw gilidd. a thynny oddiwrth ei bobl, nid yn vnic euogrwydd pechod a ffinai eu Cydwybodau, ond ei ffieidd-dra hefyd a halogai eu Calonnau, a'u bucheddau *Rhoddes ein Jachawdwr Jesu Grist ei hun trosom, in prynu ni oddiwrth bob anwiredd, ac i'n puro ni iddo ei hun, yn bobl briodol, awyddus i weithredoedd da.* Medd yr apostol Pedr, *Crist ei hun addüg ein pechodau ni yn ei gorph ar y pren, fel gwedi ein marw i bechodau y byddem byw a gyfiawnder.* A'i werthfawr waed prynodd yw blant Sancteiddiad gystal a chyfiawnhâd a gogoniant. Ac heb law'r pethau, a ddioddefodd ef dros ei etholedig, gorfyddai iddo ddioddef llawer o gam oddiar eu dwylo yn ychwaneg pes gallent ei gyrhaeddid ef. canys tra y mae ef yn aros am danynt i edifarhân, gwnânt lawer yn ei erbyn ef. gan rwygo ei enw ef, a thorri ei orchmynion ef, a phigo *ei lygaid* ef, a briwo *ei aelodau ef*,

Tit. 2, 14.

1 Pet. 2, 24.

wrth erlid ei bobl ef. Yr ydoedd Saul y lleſtr etholedig ai holl egni yn ceiſio rhwyſtro'r efengyl, wedi iddo ymuno ar rhai a laddaſent Stephan. a buaſai hawdd i Grist ei daro ef yn farw, y pryd y tarawodd ef yn ddall. a gadel iddo (fel y Saul arall yn ei ofn gynt) *Syrthio ar ei gleddyf, am iddo wingo yn erbyn y ſwmbylau.* a rhoddi iddo achos i ddywedyd wrtho ef fel Ahab wrth Elias, *a gefaiſti fi ô fy ngelyn?* Ond wele'r Arglwydd yn dirion wrth ei elyn dychrynnedig, gan ei ddiddanu ef yn ei fraw. a dangos trugaredd iddo ef, yn y fan lle'r oedd ef ar ſedr gwneuthur creulondeb. ai ennill ef wrth ei arbed. Yma y dylem ryfeddu cariad Duw, ac anfolchgarwch dynion. Pan orchfygodd Dafydd y Philiſtiad oſnadwy, cafodd ei groeſhawu adref yn orfoleddus ac yn llawen gan bawb. er na ddarbyniaſai ef un briw yn y derfyſc, a bod annogaeth naturiol iddo ef i roddi ei fywyd ar antur dros ei wlad, ai genedl. Ond cafodd Crist ei friwo, ai lâdd wrth waredu ei elynion o ddwylaw eu gorthrymwyr tôst, ac mae 'n fodlon drwy ei *gleiſian ei, hun yw iachâu nhw*, a chyd-ddwg a hwynt tra ſont yn faethu atto ef, gan ddiſgwyl eu hamſer hwy i ddyfod yw côf, etto bychan ydyw ei ddiolch ef gan y rhan fwyaf o'r byd. Hefyd Pan daler Fridwerth am y carcharorion lydd mewn caethiwed dan y Twrc, ceir hwynt adref drwy deg. Ond gorfydd i Grist oreſcin Pechaduriaid drwy nerth, wedi iddo en prynu er gwerth. Ni chaiff ef y meddiant oi bwrcas, nes ei ennill a chleddyf dauſiniog. er bod iddo hawl gyfiawn

1 Bren. 21. 20.

iddynt

iddynt, etto ni edi diasol a phechod iddo ef gael preswylfa mewn un enaid, nes en gorchfygu hwynt, au tasiu allan. Os mynn gael ei etholedigion rhaid iddo weithio yn rymus ynddynt, heb law i pethau a ddioddefodd ef yn ofidus drostynt, au gwneuthur hwy yn *ewyllysgar yn nydd ei nerth*, Psal. 110. os mynn *weled o lafur ei enaid*, yr hyny mae ef Esai. 53. yn ei weithredu yn effeithiawl drwy ei yspryd yn y rhai galwedig, wrth ddechreu a chynyddu santeiddiad ynddynt yma, a'i gwbl berffeithio yn ol hyn. Dechreuiff ef ddoethineb yn yr enaid, wrth daro ofn yr Arglwydd ynddo, yr hyn a wnaiff iddo ymadel a'r drwg. A phan elo ef ynghylch gwneuthur dyn yn deml i Dduw, a llangeilau gyrriff allan fasnachwyr satan, ai gwnaethai yn ogof lladron, o'r cyfryw cyntaf un a darewir yw pechadur, ac a ddengis iddo enbydrwydd ei gyflwr, yr oedd Satan a'i galon dwyllodrus yn ei guddio oddiwrtho ef. A digwydd ir diadgenedledig diofal, megis y bu ir Syriaid malaifus a darawsid a dallineb wrth geisio dal elisëus: y rhai oeddent yn tybied en bod lle caent yspail, ond 2 Bren. 6. pan agorodd yr Arglwydd eu llygaid hwynt, hwy 18, 19, 20, a welsant, ac wele ynghanol Samaria yr oeddent, 21, 22. a brenin Israel yn barod iw taro. Adir yw y dysethasid hwy yno, oni bae ir prophwyd yr oeddent hwy yn ceisio ei ddrygu, eiriol drostynt, an hachub hwy. Gwaith cyntaf yspryd y gras, y diddanydd iachusol, yw *argyhoeddi'r byd o bechod*, am nad ydynt yn credu yn Ghrist, eithr yn Joan. 16. 7. rhyfygu, a deffroiff hwynt i weled fel y maent dan

dan eu perigl yn Sodome, er iddynt freuddwydio eu bod yn ddiogel yn Sion. wedi i Satan ag addewidion gau dwyllo Efa, ai gwr drwyddi hi, y peth cyntaf a wnaeth Duw tuag attynt oedd peri iddynt weled eu noethni, au ceryddu am eu hanufudd-dod, a dangos chwerwed oedd ffrwyth eu camwedd. Ar unrhyw beth a weithiodd, ac a weithia ef, yn y rhai ediſeiriol gwedi. gan oleuo eu deall, ac *iro eu llygaid* hwynt i weled fel y *maent yn druenus, ac yn reſynol, ac yn dlawd*, er na wyddent hynny o'r blaen. Pan ddel pelydr yr haul ir ty, canfyddir y brychau ni welid yn y tywyll. Dengis yr Arglwydd ei bechodau i bob dyn ryw amſer, naill ai er ei droedigaeth, neu ei golledigaeth. *Wrth yr annuwiol y dywedodd Duw, beth ſydd iti a gymmerech a'r ſy ng hyfammod yn dy enau? gan dy fod yn caſſau addyſc, ac yn taflu fy ngeiriau i'th ôl.* a chwedi cyfrif ei anwireddau ef, medd yr Arglwydd *hyn a wnaethoſt, ond mi a'th argyoeddaf, ac ai treſnaf o flaen dy lygaid.* Aiff y rhyfygus *yn fud*, ac yn ddieſcus pan holo'r brenin neſol hwynt, au *taflu ir tywyllwch eithaf.* Bydd i bob pechadur ei gydnabod ei hun yn euog, *fel y cauer pob genau, ac y byddo'r holl fyd tan farn Duw.* A phwy bynnag a ewyllyſio ef eu harbed, *efe a ddengis iddynt hwy eu gwaith, a'i hanwireddau, amlhâu o honynt: ac a egir eu cluſtiau hwy i dderbyn cerydd; ac a ddywed am droi o honynt oddiwrth anwiredd.*

Gen. 3.

Date, 3, 17, 18:

Pſal. 50. 16, 17, 21.

Math. 22. 12, 13.

Rhuſ. 3, 19.

Job. 36, 9, 10.

Terfyn,

DAD SEINI-AD MEIBION Y DARAN.

Sef ail-printiad o lyfr Escob JUEL
A Elwir

DEFFYNIAD FFYDD EGLWYS LOEGR

Ac o Epistol yr Escob DAFIES
at y Cembru.

BODLEIAN LIBRARY

AN ECCHO OF THE SONS OF THUNDER

Being a second impression of Bishop JUEL'S Apologie, and of Bishop DAVIES his Epistle, in the British tongue.

Nescio quâ Natale Solum dulcedine cunctos
Ducit, & immemores non sinit esse sui.

Printiedig yn Rhydychen gan W. H. ac a werthir gan lyfrwyr Gwrecsam, a Llanfyllin, a merchandwyr Pen y bont ar ogwr. 1671

AT Y DARLLEYDD.

TRa yr oeddwn yn chwilio i geisio gwybod helynt y grefydd Gristnogol ym-mysc ein gwladwyr ni gynt, cefais olwg ar y ddau draethawd hyn, y fuont gynorthwyol i ddechreu adferiad y ffydd ym-mhlith ein henafiaid ni yn yr oes ddiweddaf aeth heibio. Deffyniad y ffydd a gyfieithwyd, ac a gyhoeddwyd yn Gymraeg er's pumtbeng mlynedd a thriugain. * a'r Epistol a brintwyd gyd a'r Testament Newydd er's tair blynedd a chant. * Mi welwn y-ddau wedi heneiddio, ac yn ddi-ymgeledd yn y wlad, yn llechu mewn ymbell gornel, mewn dillad sitrachoc, llychlyd, ac yn ô-debyg i'r ddau dystion, wedi eu gwisco a Sachliain, a llydw hefyd, er iddynt haeddu croesaw gwell: Am hynny cipiais hwynt oddiar y gwysyn, a'r rhwd ydoedd burod yw difetha hwynt, a rhoddais wisc newydd am yr hen gyrph, a theilwng iddynt y Cymwynas. Ni feiddiais i wneuthur dim cyfnewidiad ynddynt. er bod y dysclau wedi eu hail-bwrw, etto yr vn fâth yw'r seigiau ac oeddent, heb gymysc dim a hwynt. Rhaid i ti gyd-ddwyn ag ymbell lythyren allan o'i lle, gan fod y printwyr eisieu deall yr iaith megis yn gweithio dan eu dwylo, ac yn Cam-osod llawer peth. Ceisiais eu printio yn gywiraf ag ellais wrth gopiau siccr.

* Sef yn y flwy. 1595.
* yn y flw. 1567.
Datc. 11. 3.

yr

yr Epiſtol wrth lyfr y Dr Dafid Powel, a'r llall wrth yr eiddo Watkin Kyffin, o'r Glâſcoed Eſq; yr hwn o ran caredigrwydd a'r cyfie thydd, a'i vniondeb ymhob achoſion, ydoedd ir llyfr yn geidwad o ffyddlondeb ddiammau: ac yn ewyllyſcar i hyfforddi 'r ail-printiad, pe cawſei enioes. O na bae i' w etifeddion ef, a phendefigion eraill gymeryd attynt y cyfryw fwriad i amlhâu Cynorthwyau adeiladaeth yſpryd-ol i eneidiau 'r gwerin, gyſtal ag ymborth i gyrph y tlawd! gan fod mor Eluſen lonni 'r tlodion yn yr yſpryd, ac yw diwallu y rheidus yn y cnawd. fal wrth wneuthur pob im o'r ddau, dwy râs, yr ymgyfoethogont mewn gweithredoedd da, ac yr amlhâo ffrwyth erbyn eu cyfrif hwynt. Greſyn ydyw, a gofidus o'i yſtyried, fod cymaint o'r ychydig lyfrau da ys ydd yn Gymraeg ar ddarfod am danynt, eiſieu adnewyddu eu hargraphiad: a bod ein cenedl ni yn gwneuthur a hwynt megis Aiphtiaid a phlant Iſrael gynt, ſef eu boddi hwynt yn nyfroedd diſtaw Lethe, a' eu claddu yn-nhir anghof, a gadel i bryfed lwyr ddinyſtrio 'r pethau a wnaent lês i lawer o eneidiau. Er anwyl Gymro, yn yſtyfr hwn y gelli weled rhai o'r rheſymmau pwyſfawr a annogaſant y tô diweddaf i ymgais a gair Duw, er mwyn trefnu eu ffyrdd wrtho. Digwydded wrth y gorchwyl hwn i wiail y ddau

1 Tim. 6. 18. Phil. 4. 17.

Aaron hyn ail-flodeuo, a dwyn ffrwyth iachus yn ein gwlâd; yr hyn yw dymuniad Calon dyewyllysgar wasnaethwr.

CHARLES EDWARDES.

Rhydychen Mis Rhagfyr 31. 167c.

DEFFYNIAD FFYDD EGLWYS LOEGR:

LLE Y CEIR GWELED,

A gwybod, dosparth gwir Grefydd Crist, ag anghywirdeb Crefydd Eglwys Rufain:

Angenrheidiol i bawb ei ddealld, a madws i ddynion ei ddysgu, o ran arwain eu buchedd yn y byd, fal y caffont fywyd tragwyddol yn y byd a ddaw.

Wedi ei gyfieuthu o Ladin, yn Gymraeg, drwy waith M. KYFFIN.

Dealld ag arwyddocaad y geiriau angenrheidiol, a dwyſwyd i'r Gymraec, yn hyn o lyfr.

SECTA, *Sect*; ſef, ymbleidiad neu ymwahanus gyttundeb mewn ſyth opinionau.

HAERESIS, *Hæreſi*; ſef, Cyndyn barhaad mewn gau-grediniaeth am ryw bwnc o ffydd.

HAERETICUS, *Hæretic*; ſef, y neb a bathâo mor gyndyn yn y fath gau-gredinaeth.

SCHISMA, *Sciſm*, ſef, ym-wahanus ymrwygiad oddi wrth vndod a chyttundeb yr Eglwys, drwy ymrafaelieth opinionau.

SCHISMATICUS, *Sciſmatic*; ſef, y neb â ſo euog o'r fâth beth.

CAEREMONIA, *Cæremoni*; ſef, Arfer neu ddefod Eglwyſig.

DIOECESIS, *Diæces*; ſef, Rhôl, neu le i ddwyn rhwyſc, neu lywodraeth: a'r pryd hyn, rydis yn cymryd *Diæçoſis* i arwyddôcau 'n vnig llywodraeth Eſcob.

APOSTATA; ſef, Gwadwr, ag ymwrthodwr a'r ffydd.

MATHEMATICVS. a.um. *Mathematicaidd*; ſef, Perthynaſſol i'r celſyddydeu a elwir *Mathematicæ*.

PALLIA, *Pallau*; ſef, Mantellau, tebig i'r fâth y mae marchogion y Gardes arfer o 'u gwiſco. Gwiſc lâes arferedig gynt ymhlith Philoſophyddion: côp, neu fâth ar ſimmwr.

BVLLAE, *Bullae*; ſef, Llythyreu caniattaad, llythyreu gwaharddiad, llythyreu gorchmynniad, a llythyreu eſcymmundod, oddi wrth *Pâb Rhufain*.

IVBILEA, *Iubileau*; ſef, (ymhlith yr *Hebraaid*,) Rhydid, Gorphwys, a Gollyngdod, bob deng-Mlynedd a deugain. Dynwared yr hyn beth y mae *Pâhau Rhufain*, gan gymryd arnynt ſelly roddi cyffredinawl ſaddeuant a Gollyngdod pechodau.

DIADEMA, *Diadem*; ſef, Torch o liain, neu ſidan gwyn, y bydde Frenhinoedd gynt arfer o 'i gwiſco a 'r eu penneu. Rydis yn cymryd *Diadem* (lawer gwaith) i arwyddocéau coron Brenhin.

BARBARVS, a. um. *Barbaraidd*, ſef, garw, di wybod, hyll, anfoéſus, afrywiog, creulon.

OBLEGid bod achos i ſôn yn fynych ô ſewn hyn o draethiad, am yr *Eglwys*, rhaid yw deallid fod y gair ymma, *Eglwys*, yn cynnwys yr holl rai etholedig gan Dduw, ſef, yr holl Grediniaid ſy 'n barod yn y Nef, a hefyd y rhai byw ar y ddaear hon; o bôb gwlâd a chenedlaeth trwy 'r holl fyd. Y gynnulleidfa yr hon ſy 'n y Nef, a elwir *Eccleſia triumphans*, ſef, yr Eglwys driumphant, neu orfoleddus; oblegid darfod iddi yn barod gael gorfodaeth ar ei holl elynnion. a 'r hon ſy ar y ddaear, a elwir *Eccleſia militans*, ſef yr Eglwys filitant, neu filwriaethus; er mwyn ei bod hi etto yn aros yn y cnawd, a bod yn rhaid iddi ymladd (fal milwr) yn-erbyn y byd, y cnawd, a 'r cythrel.

ECCLESIA PRIMITIVA; ſef, y Brif-Eglwys, neu 'r gynfam Eglwys, neu 'r Eglwys gyntaf.

YLlythyren ymma, Ç, wedi rhoi cynffon wrthi, a ddleid ei llafaru fegis, s.

I'R

I'R GWIR VRDDASSOL A 'M CAR ANWYL, Wiliam Meredydd.

MI a welaf may peth arferedig yw yr hen oesoedd gynt ymhlith y Groegwyr a'r Ladinwyr penna 'i dysc a 'u cymeriad, ydoedd gwneuthyr anrhegion o'u gorchwilion dyscedig i'r sawl oedd nessaf iddynt, a hoffaf genthynt: sal y gallent, drwy'r cyfryw fodd, adel hyspysrwydd i'r oesoedd a ddele ar eu hol nhwy, am rinwedd a rhyglyddiadd y gwyr hynny rhagor eraill. Nid anghymmwys i minne ddilyn yr un llwybr wrth offod allan cyfieithiad hyn o addysc, yr hwn yr wyf yn ei orchymyn i'ch nodded. Oblegid, fegis nad oes neb byw fwy ei serch a'i ewyllys ar wneuthyr mowr-les i'ch gwlad na chwi 'n unig, felly nid oes neb dayarol a haedde gael hyn gennyf, o'ch plaen chwi 'ch hunan. Ag er mwyn nad amheuthyn gennych ddim a aller ei fyfyrio a'i anrhe-

gu

gu i chwi yn Saesonaeg, neu'n Lladin; (yn yr hyn ieithoedd y buoch er ioed gyneſin a phob rhyw ddyſc ag athrawiaeth) heſyd, gan i ni'n dau ddwyn eyn byd allan o Gymry, a bod mor anghyneſin i mi ſcrifenny, ag yw i chwithe ddarllen dim yn yr iaith Gymraeg; hynny a wnaeth i mi, ydwyf wir gymro, a gwir gâr o'r eyddoch, ddewis eych annerch a'ch anrhegu yn Gymraeg, chwaethach nog mewn vn iaith arall. Pa gymro bynnag a gaffo wellaad dyſc, neu gynyddiad gwybodaeth, oddi vvrth y llyfr hwn, diolched i Dduw yn gyntaf, ag i chwithe yn ail. Ef a ddengys hwn y llwybr i'r anghyfarwydd. A chyda hyn, pettid yn pregethu Efengyl Criſt yng Hymry, fal y gwelſoch chwi a minne mewn gwledydd eraill, diau nad oes Genedlaeth yng-Hred a alle ragori ar y Cymry mewn Creſydd a Duwioldeb; gan eu bod nhwy o athrylith a naturiaeth yn chwãnog i ddyſcu pob Rhinwedd a Dayoni, ond cael ei dangos a'i ddeongl iddynt.

Ag

Ag yna, ni bydde gymaint câs, cenfigen, brâd, a bwriad drwg, yn eu mysc nhwy; lle nid oes yr owr 'on, soweth, ddim cyffredinach (medd pawb) nog ymdrechu, ymgyfreithio, ag ymgrafangu, drwy gam, trowsedd, a dygassedd, i ddwyn o ddiar bawb ei eiddo. Etto o 'r diwedd, pe cae gwir Grefydd a gwasanæth Dduw ddechre 'i goledd a 'i ossod allan yn hylwybr; a gweled vnwaith o 'r cyffredin-bobl fod wynebeu a llownfryd pendefigion Cymry yffordd honno, e fyddai bob Cymro barod i studio ag i wrando gair Duw yn ddysal: a gobeithio, cyn nemmawr o ennyd, y ceid gweled ym-mysc gwyr eyn gwlad di lawer pwnc o ddysc, a dawn, a diwdrwydd, ar ni welwyd hyd yn hyn. Yr hwn beth caniattaed, y Goruchaf Dduw iddynt, ag i chwithe lwyddiant a llawenydd wrth fodd

eych Câr ffyddlonaf

M. Kyffin.

Annerch at yr howddgar

ddarlleydd Criſtnogawl.

DYMMA iti ar les d' enaid, yn hyn o lyfr, ſylwedd a chryno-deb y *Ffydd vir Gatholic*; ith hyfforddi a 'th berffeithio yn llwybr gwaſanaeth Duw, ag iechydwriaeth dyn. Wrth ddarllen hwn y cei di wybod hanes, a dealld gwirionedd y Grefydd Griſtnogawl, a chyda hynny ddanghoſſiad a dat-guddiad amhuredd credinıaeth *Pâb Rhufain*. Rhoed y Goruchaf Dduw iti ochel y drwg, a chalyn y da.

* *Nid arfer neb dyſcedic o adgyfodi'r cyfryw eiriau methedig mewn iaith yn y byd.*

Mi a dybiais yn oref adel heibio 'r hen eiriau cymreig yr rhai ydynt wedi * tyfu allan o gydnabod a chyd-arfer y cyffredin, ag a ddewiſais y geiriau howſſaf, rhwyddaf, a ſathredicca 'g allwn, i wneuthyr ffordd yn ymadrodd yn rhydd ag yn ddirwyſtrus i'r ſawl ni wyddant ond y gymraeg arferedig. Eithr am ryw air angenheidiol, yr hwn ni ellid dangos mo ſylwedd ei rym, na ſynnwyr ei arwyddoccâd yn gymraeg, e ddarfu i mi yn-ôl arfer yr iaith *Saeſonaeg*, *Ffrangaeg*, iaith *Itali*, iaith *Spaen*, a bagad o ieithoedd eraill, gymryd y cyfryw air o 'r *Groeg*, neu o 'r *Ladin*, yn

Omnium rerum, viciſſitudo.

yn y modd y mae 'n gynefin gan-mwyaf ymhôb gwlad yng-Hred er yſ-talm o amſer. Nid oes nêmawr o 'r fath eiriau; ag o 'r rhai rheitiaf di a gei hysbyſrwydd a deonglad ar eu penneu eu hun, ar ôl diwedd hyn o Rag-ddoediad. Er maint ſu fyngofal am myfyrdod yn hyn o beth, etto, mi a wna gyfri gael fy-marnu a beio arnaf gan ryw fath a 'r goeg ddynion, y rhai a graffant ar ymbell air ymma ag accw, ag a ddoedant yn y fan, wele, geiriau ſeiſnigaidd a geiriau lladingaidd yw rhain, yn dwyno 'r gymraec: f' atteb i 'r rheini, ydyw 'r ddihareb, *Ni Wyr, ni Wellodd, ni Ddyſc.* Druain gwerin, ychydig a wyddant, llai a welſant, ag nid gwiw ſôn am ddyſcu iddynt. My fi a faddeua i 'r rhai hyn eu hanwybodeth a 'u ffolineb, ag adawaf i rai eraill chwerthin am eu penneu. Hawdd yw gwybod am ryw eiriau ſeiſnig, nad oes, ag na bu er ioed eiriau cymreig iw cael; a hefyd may geiriau yn dytod o 'r *Ffrangaec* yw 'r rhan fwyaf o 'r rhai y mae 'n hwy yn tybied eu bod yn ſeiſnigaidd. Ag am y geiriau lladingaidd, pwy nis gwyr nad yw 'r iaith Gymraec yn ei herwydd, ddim amgen, onid hanner lladin drwyddi. Mi' allwn pe bae gennyf hamdden wneuthyr llyfr digon ei faint o 'r geirieu

geiriau cymreic arferedig, a fenthycciwyd nid yn vnig o'r *Lladin* a'r *Ffrangec*, eithr o *iaith Itali*, ag *iaith Spaen* hefyd: heb law'r *dafod Roeg*, ag *Ebryw*, a'r cyfryw. Rhyw rai di-ddyſc di-ſynwyr, a ddoedant ddarfod i'r Ieithoedd hynny fenthyccio gan y Gymraeg, ag nid yr iaith Gymraeg genthyn-nhwy. Nid gwiw mor ymryſymmu a'r fath ynfydion cynhwynol, namyn eu gadel mewn anwiredd ag oferedd. Yn wir chwith iawn yw dal ſylw ar lawer o wyr Eglwyſig cymreig yn byw ar bris eneidieu dynion, a bagad eraill o Gymry yn cymeryd arnynt eulun dyſc a goruchafiæth, heb genthynt fri 'n y byd a'r iaith eu gwlad, eithr rhuſſo 'i doedyd, a chwyſyddio 'i chlywed, rhag ofn iſſ-hau ar eu gradd a'u cymeriad; heb na medry darllen, na cheiſio myfyrio dim a fae a ffrwyth yntho 'n gymraeg, fegis mynny onynt i bobl dybied fod cymmaint eu rhagor-fraint nhwy, na wedde iddynt (ſ' eneidieu gwnnion) oſ twng cyn iſſed ag ymyrryd ar ddim addyſc cymreig. Telid Duw iddynt ddaed eu cyneddfeu. Amdanaf fy hun, mi allaf ddoedyd er dwyn onof y rhan fwyaf o 'm byd hyd yn hyn o 'm hoes ym-mhell oddi wrth wlad Gymry, etto wrth fod ymmyſc Ieithoedd dieithr, a darfod i mi dreu-

lio

lio ſ'amſer a'm haſtudrwydd mewn petheu eraill, ni bu fwy fyngofal ar fyfyrio, a dal i 'm cof vn iaith, no 'r Gymraec; gan ddamuno allu o honof wneuthyr rhyw lês i 'r iaith a 'r wlad lle ym ganwyd, yn-ôl athrawiæth *Plato* 'r Athrho mawr a phenadur llawer o philoſophyddion dyſn-ddyſc; yr hwn a ddoedodd, *Ortus noſtri partem Patria, partem Parentes vendicant, partem Amici*; ſef yw hynny, y mae rhan o 'n genedigaeth ni yn ddyledus i 'n Gwlad, a rhan yn ddyledus i 'n Tadeu a 'n Mammeu, a rhan arall yn ddyledus i 'n hoff-ddynnion. *Plato. Epiſtol. 9. ad Archytam Tarentinum.*

Duw a wyr e fuaſſe howſach i mi o lawer, a hynodach i 'm henw, ſcrifenny 'r cyfryw beth mewn iaith arall chwaethach nog yn Gymraec; Ond mi a welaf bob peth (onid cantun) ymhôb iaith yng Hred, mor bybyr, ag mor berffaith, drwy ddyſc a diwdrwydd gwyr da, nad rhaid iddynt (yn ei herwydd) wrth ddim ychwaneg. O 'r tu arall, prin y gwela 'i ddim (onid llyfr Gair Duw 'n vnig) yn y Gymraec, a dim ffrwyth rhinwedd ynddo, i ddyſcy ag i hyfforddi yr rhai annyſcedig. Doctor *Wiliam Morgan* a gyſneythodd y Beibl drwyddi yn hwyr o amſer; gwaith angenrheidiol, gorcheſtol, duwiol, dyſcedig; am yr hwn ni ddichyn Cymry fyth dalu a diolch iddo gymaint

gymaint ag a haeddodd ef. Cyn hynny nawdd yw gwybod may digon lleso oedd gyflwr yr iaith gymraeg, pryd na cheid clywed fynychaf, ond y naill ai cerdd faswedd, ai ynte rhyw fath arall ar wawd ofer heb na dyfc, na dawn, na deunydd ynddi. O damweinie i ryw brydydd, ryw amfer, geisio braf-naddu ychydig dduwioldeb ar gerdd, efa balle mewn llawer pwne eifieu dyfc, a gwybodæth; gan hynodi i'r bobl ryw hen chwedl, neu goel gwrach an gwir y baith; a hynny wedi ei dynny allan (y rhan fwyaf) o lyfr y Mynaich celwyddog gynt, yr hwn a elwid *Legenda aurea*, ag a ellir ei alw *Traethawd y Celwyddeu*. Y mae'n fy meddiant i beth o'r fath gerdd gymraec iw dangos, ag y mae 'n doftur iawn gan fynghalon i feddwl ddarfod twyllo ag anrheithio llawer enaid dyn drwy'r fath erchyll ynfydrwydd. E ddarfuefiid cyfieuthu'r Teftament newydd ynghylch yr wythfed neu'r nowfed flwyddyn o Deyrnas eyn harglwyddes frenhines *Elizabeth*, ond yr oedd cyfled y llediaith a chymaint anghyfiaith yn yr ymadrodd brintiedig, na alle cluft gwir Gymro ddioddef clywed mo'naw 'n iawn. Yn-nhal y *Teftament* hwnnw y gwelais i lythyr duwiol dyfcedig at y Cymry, o waith y

gwir

gwir barchedig Dâd *Richard* Eſcob *Menw* iw twyſo nhwy i adnewyddiad yr hên ffydd gatholic a goleuni Eſengyl Criſt: yr hwn lythyr a ſcrifennodd y doededig Eſcob mewn Cymraec groyw, hyfedr, ymadroddus, a di-ammeu wneuthyr onaw lês mawr i bob Cymro a'i darllênnodd. Heblaw hynny mi a welais ddoſparth byr ar yrhan gyntaf i Ramadeg cymraec a brintieſid er ys-talm, yr hwn ſydd ddarn o waith dyſcedig ynghelfyddyd gramadec, mor buraidd, mor lathraidd, ag mor odidawg ei ymadroddiad, na ellir damuno dim perffeithiach yn hynny o beth. Ni wn i weled etto, na chlywed ſôn am ddim amgenach yn Gymraeg a nêmawr o addyſc yntho. *Gramadec Doct. Gr. Robert.*

Iulius Ceſar yr Ymerodr cyntaf, er ys mwy no mil a chwechant mlynedd aeth heibio, a fynegodd, yn ei yſtori ladin a elwir *Cômentatii*, y ddyſc ar Philoſophyddiæth oedd gan y *Drudion* ym-mhlith y *Brytanniaid* yn ei amſer ef; ond ni choelia i ddigwydd dim fylwedd o'r athrylith a'r athrawiæth honno i brydyddion Cymry er ys llawer oes. *Iul. Ceſar. Com. lib. 6.*

Tu-ag-at am newid trefn, a newyddu llwybr y ſcrifennyddiæth gymreig, drwy ddychymmig o wyr ryw faeth ddieithr ar

llythrenneu

lythrenneu ag yſcrifen bawb ar ei amcan ei hun, a hynny ſynychaf heb na rhôl, na rheſſwm; anghymeſſur iawn yw 'r helynt honno. Os newid llythyrenneu ſydd raid, cymmwyſſa llythyrenneu i 'r Gymraeg yw 'r elfenneu Groeg; hefyd, a'r rheini, medd yn Ymerodr *Iulius Cæſar*, yr oedd yr hên *Frutanniaid* arfer o ſcrifenny yn ei amſer ef gynt. Ond gan fod y llythyrennau fydd, yn arferedig ag yn ſathredig ymhlith y Cymry er ys cyhyd o amſer, gwell yw cadw rheini rhag llaw, na throi 'r bobl i ddyſcu gwyddor drachgefn. Os anweddus yw gorfod dyblu, d, l, f, ynechreu geiriau, eiſteddfod o wyr dyſcedig a ddichyn drwy awdurdod cyffredin ddi-wygu hynny o fai. Eithr yn y cyf-amſer, gormod hyfder mewn vn gwr pwy bynnag fo, yw rhoi allan math newydd ar lytherēneu a ſcrifennyddiæth, a thybied may cymwys i bawb ei galyn ef. Hyn a wnaeth i mi ochel newid dim yn y llythyrenneu, er bod gynnyf amryw ddull ar elfenneu gymaint a chan eraill. Eiſieu dyſc a duwioldeb, ag nid eiſieu llythyrēneu, i adrodd dyſc, ſydd ar yr iaith gymraeg. Nid gwaeth gan y newynog ſwyd mewn deſcul bren, nog mewn deſcyl arian. Mi a ſum ddiēſcæluſa 'g ellais yn ôl trefn ieithoedd dyſcedig, ag yn enwedig

wedig iaith *Ffrainc* ag *Itali*, ar oſſod ymadrodd hyn o lyfr yn llyfn ag yn llwybraidd, gan ochel dryg-ſain a llediaith (gymaint dim byth ag allwn) yn ſcrifennyddiaeth a llaferydd y geirieu ; ag fal y galle Cymro ei ddarllen ef yn rhwydd, ag yn rhygyl. O digwydd i ti ar y cais cyntaf gyfarfod a pheth anghynefinder ag anhowſder, mewn yſtryw a dealld rhyw ddoediad neu ſentens weithie; yna, darllen di 'r mann hwnnw drachgefn, a pha fynychaf y darllenner ef, howſach howſach fydd ei ddirnad. Hefyd, rhaid i ti wybod na ellir cyfieuthu dim o iaith arall yn gymraeg, cyn rhwydded, a chyn rhydded, ag y dichyn vn ſcrifenny 'r peth a ddychmygo ag a fynno, fo' i hun. Yn y naill, rhaid yw dilyn doediad, a chalyn cerddediad gwr arall: yn y llall, mae i ddyn gymryd y llwybr a welo fo yn dda, a gwneuthyr ei daith ai waith, yr hwn a fynno, ai hir, ai byrr, ai crych, ai llyfn; yr hyn beth a wyr pawb dyſcedig. Yn y chwaneg, gwybydd ddarfod imi (yn bennaf dim) beri printio hyn o draethiad yn y llytherēneu arferedic-caf a chydnabyddusſaf i'r rhai ānyſcedig (o ddeithr rhywfath ar eirieu, a doediadeu arbennig, yn rhyw fanneu o 'r llyfr) a rhaid yw cyd-ddwyn ag ymbell fai a ddiangodd dan ddwylaw 'r Printiwr, herwydd nid

peth cynefin yw printio cymraeg. A chymmeſur yw adrodd i ti yn hyn o fan pa ddialedd a llwyr-gam a wnaeth gwr eglwyſig o Gymry mewn Eiſteddfod; pan grybwyllwyd am roi cennad i vn celfydd i brintio Cymraeg, yntef a ddoedodd nad cymmwys oedd adel printio math yn y byd ar lyfreu Cymreig, eithr ef a fynne i 'r bobl ddyſcu Saeſonaeg, a cholli eu Cymraeg, gan ddoedyd ym-mellach na wnaer Beibl gymraeg ddim da, namyn, llawer o ddrwg. Wele, ond rhinweddol a naturiol oedd fod yn Eglwyſwr fal hyn? A alle Ddiawl ei hun ddoedyd yn amgenach? Nid digon oedd gantho eſpeilio 'r Cyffredin am eu da dayarol, ond ef a fynne gwbl anreithio eu heneidieu nhwy hefyd. Herwydd pwy ni wyr mor amhoſſibl fydde dwyn yr holl bobl i ddyſcu Saeſonaeg ag i golli eu Cymraeg; ag mor reſynol yn y cyfamſer fydde colli peth anneirif o eneidieu dynion eiſieu dyſc a dawn iw hyfforddi? Ond tebig oedd hwn i 'r ci yn gorwedd yn y preſeb, ni wnae na bwyta gwair ei hũ, na gadel i 'r Ych bori chwaith? Na bo gwell helynt ei enaid ef nag oedd ei yſtyriaeth fo am eneidiau eraill. Doetted pawb *Amen*, ag na chlywer byth mwy ſõn amdano. Ond gan fod llyfr gair Duw wedi ei gymreigu a 'i brintio, nid gwiw i neb o

blant

blant diawl bellach geiſio tywyllu goleuni Cymry, gwnelont eu gwaethaf. Gwaith rheidiol iawn fydde troi 'r P*ſalmeu* i ganghanedd gymraeg, nid i gãghanedd Englyn, nag Owdl, na Chowydd, nag i fath yn y byd ar gerdd blethedig; herwydd felly ni ellir byth troi na 'r P*ſalmeu*, na dim arall yn gywir. Eithr i 'r fath feſſur a thôn canghanedd ag ſydd gymeradwy ymhôb gwlad, a ddiwygwyd drwy dderbynniad diſcleirdeb yr Efengel: ag fal y gwelir yn y *Saeſonaeg*, *Scot-iaith*, *Frangaeg*, *iaith Germania*, *iaith Itali*, a 'r cyfryw; fal y gallo 'r bobl ganu y gyd ar vnwaith yn yr Eglwys; yr hyn beth fydde ddifyrrwch a diddanwch nefawl iddynt yn y llãn, a chartref. Am Englyn, neu Owdl, neu Gowydd, ewyr pawb nad cynefin ond i vn dyn ar vnwaith ganu 'r vn o 'r rheini. Heblaw hynny, ni waſnaetha tôn yr vn o honynt i gerdd yſprydol vchelfraint; a phe gwaſnaethe, etto, cabledd mawr yw cymmyſc cerdd yr Yſpryd glan yn yr vn don ganiad a cherdd faſwedd ofer. Rhaid i 'r neb a gychwnno hyn o orchwyl cyſſegr, ddealld amryw ieithoedd dyſcedic, fegis na roddo ef vn gair yn y Ganghanedd ond a fo cwbl cyd-ſynniol a meddwl yr Yſpryd glan. Pette gennyf y ſeibiant a 'r hamdden ſydd gan lawer, cyntaf peth, a chwan-

nocca poen a gymerwn i arnaf, fydde, tueddu ar hyn o wairh, ar ôl cyd-ſiarad a dyſcedigion Cymry, ynghylch pa ddull a math ar ganghanedd, a dybyid oref a chymeſſuraf i hyn o Dduwioldeb. Yn y cyſ-amſer (ddarlleydd Criſtnogawl) dyro groeſo i 'r Ilyfr duwiol ymma, adroes i o Ladin er mwyn y rhai annyſcedig, yn yr hon iaith y ſcrifennodd Eſcob *Iuel* ef, vn o 'r gwyr goref ei ddyſc, a duwiolaf ei fuchedd, ar a fagwyd er ioed dan Gred a bedydd. Duw a roddo i ti hyfryd gynnydd a chymmorth ymhôb dayoni yſprydol. Ag yn-ôl archiad *Criſt* eyn prynwr, *Yn gyntaf cais Deyrnas Dduw a'i gyfiownder*, a thi a gei bôb peth yn ychwaneg. Bydd wych. O dref *Lunden* ym-Mis *Hydref*.

Math. 6.33.

1594.

M. K.